# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 13/05/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol
1. Questions to the Minister for Natural Resources

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
2. Questions to the for Communities and Tackling Poverty

Cwestiwn Brys: Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol yng Ngogledd Cymru
Urgent Question: GP Out-of-hours Service in North Wales

Cwestiwn Brys: Twf Swyddi Cymru
Urgent Question: Jobs Growth Wales

3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ymchwiliad i Sylweddau Seicoweithredol Newydd
3. Debate on the Health and Social Care Committee's Report on its Inquiry into New Psychoactive Substances

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Digwyddiadau Chwaraeon Mawr
4. Welsh Conservatives Debate: Major Sporting Events

5. Dadl Plaid Cymru: Fformiwla Barnett
5. Plaid Cymru Debate: the Barnett Formula

6. Cyfnod Pleidleisio
6. Voting Time

7. Dadl Fer: Addysg Heblaw yn yr Ysgol
7. Short Debate: Education Other than at School


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:31

# 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

# 1. Questions to the Minister for Natural Resources

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the Minister for Natural Resources, and question 1 is Andrew R.T. Davies.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a daw cwestiwn 1 gan Andrew R.T. Davies.

### Cyfarfodydd gyda'r Undebau Ffermio

### Meetings with the Farming Unions

13:31

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr eitemau a drafodwyd yn ei gyfarfod diwethaf gyda'r undebau ffermio? OAQ(4)0304(NR)*

*1. Will the Minister make a statement on the items discussed at his last meeting with the farming unions? OAQ(4)0304(NR)*

13:31 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The items discussed at my last quarterly meetings with the farming unions were the common agricultural policy, the rural development plan, the dairy review, Glastir, the agriculture strategy, 'Working Smarter', bovine TB, the veterinary delivery partnership project, transmissible spongiform encephalopathy rules for sheep, the six-day standstill, public procurement of milk and milk produce, farm incomes and the review of nitrate vulnerable zones and the Planning (Wales) Bill.

Gwnaf. Yn fy nghyfarfodydd chwarterol diweddaraf gydag undebau'r ffermwyr, trafodwyd y polisi amaethyddol cyffredin, y cynllun datblygu gwledig, yr adolygiad llaeth, Glastir, y strategaeth amaethyddol, Hwyluso'r Drefn, TB buchol, prosiect partneriaeth cyflawni milfeddygol, rheolau enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy ar gyfer defaid, y gwaharddiad symud 6 niwrnod, caffael cyhoeddus ar gyfer llaeth a chynnyrch llaeth, incwm ffermydd a'r adolygiad o barthau perygl nitradau a Bil Cynllunio (Cymru).

13:31 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

It's good to see that the farming unions are keeping the Minister busy and I hope she's providing very positive answers to the questions that they are putting. If I could ask you, though, about the dairy review, and the current pressures that First Milk supply in particular has faced here in Wales, with the recent announcement of the additional cut to the milk price. I'd be grateful if the Minister could update us on the progress she has made in coming to any conclusions as to the help the Welsh Government might be able to offer, in conjunction with the unions, dairy farmers in particular who supply First Milk, given the very precarious position that they find themselves in at the moment, on contract negotiations and prices from the marketplace.

Mae'n dda gweld bod yr undebau ffermio yn cadw'r Gweinidog yn brysur ac rwy'n gobeithio ei bod yn rhoi atebion cadarnhaol iawn i'r cwestiynau y maent yn eu gofyn. A gaf fi eich holi, fodd bynnag, ynglŷn â'r adolygiad llaeth, a'r pwysau cyfredol y mae cyflenwad First Milk, yn arbennig, wedi'i wynebu yma yng Nghymru, gyda'r cyhoeddiad diweddar am y toriad ychwanegol i bris llaeth? Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn â'r cymorth y gallai Llywodraeth Cymru ei gynnig, ar y cyd â'r undebau, i ffermwyr llaeth sy'n cyflenwi i First Milk yn arbennig, o ystyried y sefyllfa ansicr iawn y maent ynddi ar hyn o bryd, ar drafodaethau contract a phrisiau o'r farchnad.

13:32 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to you for bringing up this issue. The dairy review, as you know, identified that future milk processing capacity in south-west Wales particularly is likely to become an issue, if it isn't already. So, my officials are already developing the specification of a feasibility study to evaluate the potential for developing a market-driven processing facility within that area to expand our processing capacity in that part of the Welsh milk field. I've been kept very up to date on the situation at First Milk. You'll know that I've visited them twice. It is a modern processing plant and I think it's a quality processing plant, and I'm confident that it has a secure future. There are changes coming in June as to the way that farmer members are paid in First Milk, and farmers across the co-op will be paid now according the commercial return for their milk achieved from First Milk processing and manufacturing. That's partly, I suppose, an aspect of regional pricing, which is what the members in Haverfordwest have actually been calling for. So, it's likely that farmers in Pembrokeshire are likely to benefit from this particular change because their milk is processed in a particularly efficient plant.

Rwy'n ddiolchgar i chi am godi'r mater hwn. Nododd yr adolygiad llaeth, fel y gwyddoch, fod capasiti prosesu llaeth, yn ne-orllewin Cymru yn enwedig, yn debygol o ddod yn broblem yn y dyfodol, os nad yw'n broblem yn barod. Felly, mae fy swyddogion eisoes yn datblygu manyleb ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb i werthuso'r potensial ar gyfer datblygu cyfleuster prosesu wedi'i ysgogi gan y farchnad yn yr ardal i ehangu ein capasiti prosesu yn y rhan honno o faes llaeth Cymru. Rwy'n cael y newyddion diweddaraf am y sefyllfa yn First Milk. Fe fyddwch yn gwybod fy mod wedi ymweld â hwy ddwywaith. Mae'n safle prosesu modern ac rwy'n meddwl ei fod yn safle prosesu o ansawdd, ac rwy'n hyderus bod iddo ddyfodol diogel. Mae newidiadau i ddod ym mis Mehefin ynglŷn â'r ffordd y mae ffermwyr sy'n aelodau yn cael eu talu gan First Milk, a bydd ffermwyr ar draws y cwmni cydweithredol yn cael eu talu yn awr yn ôl yr elw masnachol am eu llaeth a sicrhawyd o waith prosesu a gweithgynhyrchu First Milk. Mae hynny'n rhannol, am wn i, yn agwedd ar brisio rhanbarthol, sef yr hyn y mae'r aelodau yn Hwlffordd wedi bod yn galw amdano mewn gwirionedd. Felly, mae'n debygol y bydd ffermwyr yn Sir Benfro yn elwa o'r newid penodol hwn am fod eu llaeth yn cael ei brosesu ar safle arbennig o effeithlon.

I do understand that there may be job losses coming at First Milk, but I don't expect them to be in the processing part, so I think that members working in the Haverfordwest plant are safe from that.

Rwy'n deall efallai y bydd swyddi'n cael eu colli yn First Milk, ond nid wyf yn disgwyl iddynt fod ar yr ochr brosesu, felly rwy'n meddwl bod yr aelodau sy'n gweithio yn safle Hwlffordd yn ddiogel rhag hynny.

13:33 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr wedi croesawu'r llythyr y gwnaethoch chi ei gyhoeddi ddoe ynglŷn â'r rhaglen wledig. Rwy'n gwybod bod rhai wythnosau cyn i ni gael cadarnhad ffurfiol, ond mae'r undeb hefyd wedi codi pryderon ynghylch rhai o'r gofynion ychwanegol sydd wedi cael eu rhoi gan Lywodraeth Cymru, sydd yn mynd y tu hwnt i ofynion y Comisiwn Ewropeaidd. Maen nhw'n pryderu am gost a lefel biwrocratiaeth rhai o'r gofynion yna. Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi i'r undebau i wneud yn sicr nad ydym yn rhoi rhyw fyrdwn biwrocrataidd pellach arnyn nhw ar hyn o bryd?

Minister, the National Farmers Union has welcomed the letter that you published yesterday on the rural development programme. I know that it will be some weeks before we have formal confirmation. But, the union has raised some concerns about some of the additional requirements that have been placed by the Welsh Government that go over and above the requirements of the European Commission. They are concerned about the cost and level of bureaucracy involved with some of those requirements. So, what assurances can you give the unions to ensure that we don't place too excessive a bureaucratic burden on them at this time?

13:34 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm aware of the press release to which you refer. I have to say that I'm not clear from that press release which specific concerns they have regarding the costs or the administration of the RDP. It's obviously our intention to keep the costs and administration as low as we possibly can in order to get as much of the funding of what is nearly a £1 billion-programme back out into rural Wales and back out into farming businesses.

Rwy'n ymwybodol o'r datganiad i'r wasg y cyfeiriwch ato. Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn sicr, o'r datganiad hwnnw i'r wasg, pa bryderon penodol sydd ganddynt ynglŷn â chostau neu weinyddiaeth y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'n amlwg mai ein bwriad yw cadw'r gwaith gweinyddol a'r costau mor isel ag y gallwn er mwyn cael cymaint â phosibl o'r cyllid o raglen sy'n werth bron i £1 biliwn yn ôl allan i gefn gwlad Cymru ac yn ôl allan i fusnesau ffermio.

13:35 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ddirprwy Weinidog, fe fyddwch chi'n gwybod mai cwta 48 awr sydd yna nawr tan y 'deadline' ar gyfer cyflwyno ceisiadau y system daliadau sylfaenol. Rydw i wedi codi gyda chi yn flaenorol yr angen i estyn y 'deadline' yna o fis. Rydych chi wedi, wrth gwrs, gwrthod yr adeg hynny. A gaf fi wneud apêl arnoch chi, ar yr unfed awr ar ddeg, i ailystyried, oherwydd fe fyddai goblygiadau methu â chael y ffurflenni cywir i mewn ar amser yn rhai sylweddol iawn yn ariannol i ffermwyr, ac yn economaidd yn ehangach i gymunedau gwledig ac, wrth gwrs, i chi fel Llywodraeth, sydd yn gorfod pigo'r darnau lan ar y diwedd?

Deputy Minister, you will be aware that there are now just 48 hours before the application deadline for the basic payments. I have in the past raised with you the need to extend that deadline by a month. You refused to do that at that time, so may I make an appeal at the eleventh hour for you to reconsider that decision, because the implications of not getting the correct forms in on time would be very significant financially for farmers and there would be an economic impact more widely for rural communities and for you as a Government, as you would have to pick up the pieces at the end?

13:35 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I can tell you that, as of today, we have 15,202 applications received so far, and that's 86.3 per cent of the total number that we received last year. It's more than 15 per cent up on where we were on this day last year as well, when we had 13,200 applications in. So, even with a complex first year of a new system, we're outperforming where we were last year. I've already outlined to Members the serious implications that there would be had we decided to extend the deadline by a month. I'm sure we'll probably rehearse those further as we get down the order of the questions this afternoon as well. But, I'm sure that time will tell that we've definitely made the right decision in this case.

Diolch yn fawr. Gallaf ddweud wrthych, fel y mae heddiw, fod 15,202 o geisiadau wedi dod i law hyd yn hyn, sef 86.3 y cant o'r cyfanswm a gawsom y llynedd. Mae hynny dros 15 y cant yn uwch nag ar y diwrnod hwn y llynedd, pan oedd 13,200 o geisiadau wedi dod i law. Felly, hyd yn oed ym mlwyddyn gyntaf gymhleth y system newydd, rydym yn perfformio'n well nag ar yr adeg hon y llynedd. Rwyf eisoes wedi disgrifio i'r Aelodau y goblygiadau difrifol a fyddai wedi bod pe baem wedi penderfynu ymestyn y terfyn amser o fis. Rwy'n siŵr y byddwn yn ailadrodd y rheini wrth i ni fynd drwy'r cwestiynau y prynhawn yma hefyd. Ond rwy'n siŵr y bydd amser yn dangos ein bod yn bendant wedi gwneud y penderfyniad cywir yn yr achos hwn.

## Pysgota Môr Hamdden gyda Rhwydi

## Recreational Sea Fishing with Nets

13:36 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bysgota môr hamdden gyda rhwydi? OAQ(4)0296(NR)*

*2. Will the Minister make a statement on recreational sea fishing with nets? OAQ(4)0296(NR)*

13:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. Recreational sea fishing with nets, from the shore, is a legitimate method of sea fishing, which targets mainly bass and flatfish. There are a range of bye-laws that regulate these fisheries, and beaches around the Welsh coast are regularly checked by the marine enforcement officers for compliance.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae pysgota môr hamdden gyda rhwydi, o'r lan, yn ddull cyfreithlon o bysgota môr, sy'n targedu draenogod y môr a lledod yn bennaf. Mae yna amrywiaeth o is-ddeddfau sy'n rheoleiddio'r pysgodfeydd hyn, ac mae swyddogion gorfodi morol yn archwilio'r traethau ar hyd arfordir Cymru yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth.

13:36 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Mae pysgotwyr sy'n pysgota môr efo gwialen wedi cysylltu efo fi, yn bryderus am effaith 'net-io' ar fywyd gwyllt, yn ogystal ag ar stoc pysgod. Mae 'netwyr' hamdden hefyd wedi cysylltu efo fi, yn gwadu bod yn gyfrifol am ladd bywyd gwyllt, ond yn cyfaddef efallai fod yna le i, a bod yna ddadl dros, gynyddu maint y tyllau mewn rhwydi. Rŵan, o gofio bod yna bysgotwyr rhwydi cyfrifol iawn hefyd, pa ystyriaeth y gall y Gweinidog ei rhoi i gymryd camau i sicrhau nad ydy pysgotwyr rhwyd yn niweidiol i hobi'r cannoedd o'r rheiny sy'n pysgota efo gwialen, nac yn niweidiol i'r amgylchedd chwaith?

Thank you. Sea anglers have contacted me to talk about their concern about the impact of fishing with nets on wildlife. Net fishermen deny that they are responsible for any damage or for the killing of wildlife, but they acknowledge that there might be an argument for increasing the net mesh size. Bearing in mind that there are some very responsible recreational net fishermen, what consideration can the Minister give to taking steps in order to ensure that net fishermen don't have a detrimental effect on the hobby of hundreds of anglers and to ensure that they don't cause any damage to the environment either?

13:37 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's a fair question the Member raises. It's a balance between commercial fishermen and recreational fishing—there is an issue here where we must make sure that we get the balance right. But, the marine enforcement officers work very hard to ensure that the compliance of the nets, both offshore and onshore, is in order. I will ask them to update me if there are any specific issues for the particular area that the Member represents.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn gofyn cwestiwn teg. Mae'n fater o gydbwysedd rhwng pysgotwyr masnachol a physgota hamdden—mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn sicrhau'r cydbwysedd iawn. Ond mae'r swyddogion gorfodi morol yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod y rhwydi, ar y môr ac ar y tir, yn cydymffurfio â'r rheolau. Byddaf yn gofyn iddynt roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi os oes unrhyw broblemau penodol yn yr ardal benodol y mae'r Aelod yn ei chynrychioli.

13:38 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, evidence received by the Environment and Sustainability Committee from both fishing and environmental organisations has shown that the type of small-scale drift-net fishing in Wales has negligible environmental impacts. Given that the prohibition of this type of fishing could actually encourage vessels to use equipment that environmentally may create more damage to marine wildlife, what assessment has the Welsh Government made of a proposed ban on drift nets on marine wildlife in Wales?

Weinidog, mae tystiolaeth y mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi'i chael gan sefydliadau pysgota a'r amgylchedd wedi dangos mai prin iawn yw'r effeithiau amgylcheddol a geir o'r math o bysgota rhwydi drifft ar raddfa fach a geir yng Nghymru. O ystyried y gallai gwahardd y math hwn o bysgota annog cychod i ddefnyddio offer a allai greu mwy o niwed amgylcheddol i fywyd gwyllt morol, pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith gwaharddiad arfaethedig ar rwydi drifft ar fywyd gwyllt morol yng Nghymru?

13:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We work very closely with Natural Resources Wales, with my fisheries department, as I said to Rhun ap Iorwerth before, about managing the sea fisheries very closely. I think we have to ensure that the issuing of licences across all variety of fishing methods doesn't have a detrimental impact on the environment or species in the way that that activity takes place. I'd be very interested if the Member, again, has any specific instances from the area that he represents and, if he'd like to write to me with detail, I'd be more than happy to respond.

Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda fy adran bysgodfeydd, fel y dywedais wrth Rhun ap Iorwerth ynghynt, ar reoli'r pysgodfeydd môr yn ofalus iawn. Credaf fod yn rhaid i ni sicrhau nad yw rhoi trwyddedau ar draws yr holl ddulliau pysgota yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu rywogaethau o ran y modd y mae'r gweithgarwch hwnnw yn cael ei gyflawni. Byddai diddordeb gennyf wybod os oes gan yr Aelod, unwaith eto, unrhyw achosion penodol o'r ardal y mae'n ei chynrychioli, ac os hoffai ysgrifennu ataf gyda'r manylion, rwy'n fwy na pharod i ymateb.

13:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Aled Roberts.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

13:39

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Weinidog, roedd nifer ohonom ni'n pryderu ynglŷn â'r dystiolaeth a gafwyd o flaen y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 6 Mai, ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwyf am ofyn i chi am eich sylwadau ynglŷn â'r arolwg staff, sy'n dweud bod 42 y cant o'r rheini yn dweud nad oes ganddyn nhw gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Hoffwn hefyd ofyn i chi a oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch colli sgiliau yn y sefydliad, wrth ystyried bod cost y cynllun ymddeol wedi cynyddu rhywfaint sy'n golygu un ai bod staff o swyddi uwch yn gadael y sefydliad neu fod y rhai hynny sydd â llawer iawn o brofiad yn y sefydliad yn ei adael. A gaf fi ofyn i chi felly, pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael efo Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn rhoi rhyw fath o sicrwydd i ni nad ydym mi mewn sefyllfa o argyfwng ynglŷn â'r sefydliad yna?

Minister, a number of us were concerned about the evidence given to the Environment and Sustainability Committee on 6 May regarding Natural Resources Wales. I would like to ask you about your comments on the staff survey, which said that 42 per cent of staff said that they had no opportunities for professional development. Also, I'd like to ask you whether you have any concerns about the loss of skills within the organisation, bearing in mind that the cost of the retirement scheme has increased somewhat, which suggests either that staff in senior positions are leaving the organisation or that those with a great deal of experience are leaving the organisation. So, what discussions have you had with NRW in order to give us some assurance that we're not in a position of crisis as regards that organisation?

13:40

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I absolutely don't agree with the suggestion that NRW are, or are ready to be in crisis. They are an outstanding organisation that have moved some way from bringing three organisations into one, and have done that very well under the stewardship of the chair and the chief executive. However, I do recognise that the staff survey is an interesting read, but it is an operational matter for the chief executive. I've asked my team to enquire with the chief executive exactly how they seek to manage the survey and how they can give confidence to staff. I think I mentioned yesterday that change for any organisation is challenging, and the three organisations were very different. Bringing a collective narrative to what NRW are now and moving that forward is going to be an interesting journey, but I have every confidence in NRW and the way that they are performing.

Nid wyf yn cytuno o gwbl â'r awgrym bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu argyfwng, na'u bod ar fin wynebu argyfwng. Maent yn sefydliad rhagorol sydd wedi symud ymlaen gryn dipyn ers dod â thri sefydliad yn un, ac maent wedi gwneud hynny'n dda iawn dan stiwardiaeth y cadeirydd a'r prif weithredwr. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod yr arolwg staff yn ddiddorol iawn i'w ddarllen, ond mater gweithredol ar gyfer y prif weithredwr yw hwn. Rwyf wedi gofyn i fy nhîm holi'r prif weithredwr sut yn union y gallant geisio rheoli'r arolwg a sut y gallant roi hyder i'w staff. Credaf fy mod wedi sôn ddoe fod newid yn her i unrhyw sefydliad, ac roedd y tri sefydliad yn wahanol iawn. Bydd dod â naratif cyfunol i'r hyn yw Cyfoeth Naturiol Cymru bellach a symud hynny yn ei flaen, yn daith ddiddorol, ond mae gennyf bob hyder yn Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ffordd y maent yn perfformio.

13:41

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n derbyn y gosodiad bod unrhyw newid o fewn sefydliad yn creu ansicrwydd a bod lefelau ansicrwydd o achos hynny hwyrach yn cael eu hadlewyrchu mewn arolygon staff. Ond, mae yna rai ffigurau sydd yn eithaf brawychus, a dweud y gwir, wrth gymharu'r sefydliad yna efo sefydliadau tebyg neu hyd yn oed y gwasanaeth sifil yn ei gyfanrwydd. A gaf fi roi un i chi, am eich bod wedi cyfeirio at y cadeirydd a'r prif weithredwr? Dim ond 26 y cant o'r staff yn y sefydliad sy'n dweud bod yr uwch-reolwyr yn ddigon gweledol. Felly, pa gamau fyddwch chi'n gofyn i'r cadeirydd a'r prif weithredwr eu cymryd er mwyn mynd i'r afael efo rhai o'r pryderon yma?

I accept the statement that any change within an organisation creates uncertainty and that levels of uncertainty, because of that, may be reflected in staff surveys. However, there are some figures that are quite startling, when you compare the organisation with a similar organisation or the civil service in its entirety. To give you one figure, as you've referred to the chair and chief executive, only 26 per cent of the staff in the organisation state that the senior managers are visible enough. Therefore, what steps will you be asking the chief executive and chair to take in order to address some of these concerns?

13:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The staff survey is the staff survey. I can't change the detail of the way in which the people have responded within that organisation. What I have said is that this is an operational matter where I expect the chief executive to look at the detail of that and then work on the business plan in terms of how he will improve that relationship. As I said, I think the performance of the organisation is good, but it is a matter for him how he deals with the staff in his organisation.

Yr arolwg staff yw'r arolwg staff. Ni allaf newid manylion y ffordd y mae pobl wedi ymateb yn y sefydliad. Yr hyn rwyf wedi'i ddweud yw bod hwn yn fater gweithredol ac rwy'n disgwyl i'r prif weithredwr edrych ar y manylion a gweithio ar y cynllun busnes o ran sut y mae am wella'r berthynas honno. Fel y dywedais, credaf fod perfformiad y sefydliad yn dda, ond mater iddo ef yw sut y mae'n delio â'r staff yn ei sefydliad.

13:42 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gawn ni symud, felly, at berfformiad, gan gydnabod bod yna newidiadau o fewn y sefydliad? Rydw i eisiau i chi ystyried hefyd perfformiad y sefydliadau blaenorol, achos dim ond 26 y cant o'r ardaloedd arbennig—y SACs neu'r 'special areas of conservation'—sydd yn cael eu cydnabod fel eu bod mewn cyfnod boddhaol. Mae hynny i'w gymharu â tharged o 95 y cant a osodwyd gan y Llywodraeth ar gyfer 2010. Felly, pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i'r afael efo'r methiant o ran perfformiad yn y maes arbennig yna?

May we move, therefore, on to performance, while acknowledging that there have been changes within the organisation? I would like you to consider the performance of the legacy organisations, because only 26 per cent of the special areas of conservation are identified as being in a satisfactory state, as compared with a target of 95 per cent set by the Government for 2010. So, what steps are you, as a Government, taking to ensure that Natural Resources Wales are addressing that failure from the point of view of that target?

13:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I meet with NRW on a regular basis. That will certainly be one of the issues that I will raise with them specifically. I will write to you accordingly on the actions that they seek to take.

Rwy'n cyfarfod â Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheolaidd. Bydd hynny'n sicr yn un o'r materion y byddaf yn eu dwyn i'w sylw yn benodol. Byddaf yn ysgrifennu atoch yn unol â hynny ynghylch y camau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Russell George.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Russell George.

13:43 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Deputy Minister, can I ask what progress has been made against the Welsh Government's commitment to increase sales in the Welsh food and drinks industry by 30 per cent to £7 billion by 2020?

Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, a gaf fi ofyn pa gynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau cynnydd o 30 y cant i £7 biliwn yng ngwerthiant diwydiant bwyd a diod Cymru erbyn 2020?

13:44 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for the opportunity to set out some of the progress that we're making with our food and drink action plan. As you say, we aim to increase that sector by 30 per cent by 2020 to £7 billion. We're doing so by doing it jointly, in partnership with the industry. So, as you know, we have our shadow industry board set up. That will become a full industry food and drink board for Wales in the coming months. We've got interviews going on at the moment to increase the breadth and the expertise on that board as well, so that it is a board that genuinely drives the industry forward from the front, if you like. I'm very grateful to Robin Jones of the Village Bakery for the work he's doing on that.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i amlinellu peth o'r cynnydd rydym yn ei wneud ar ein cynllun gweithredu ar gyfer bwyd a diod. Fel y dywedwch, rydym yn anelu at sicrhau cynnydd o 30 y cant yn y sector hwn erbyn 2020, i £7 biliwn. Rydym yn gwneud hynny drwy weithio ar y cyd, mewn partneriaeth â'r diwydiant. Felly, fel y gwyddoch, rydym wedi sefydlu ein bwrdd diwydiant cysgodol. Bydd yn dod yn fwrdd diwydiant bwyd a diod llawn i Gymru yn ystod y misoedd nesaf. Mae cyfweliadau'n cael eu cynnal gennym ar hyn o bryd hefyd i gynyddu ehangder ac arbenigedd y bwrdd, er mwyn iddo fod yn fwrdd sydd o ddifrif yn gyrru'r diwydiant yn ei flaen o'r tu blaen, os mynnwch. Rwy'n ddiolchgar iawn i Robin Jones o'r Village Bakery am y gwaith y mae'n ei wneud ar hynny.

I've just launched the food and drink website, which is really a showcase for what we have to offer to the world. But it's also an opportunity for our food and drink businesses to access some of the expertise that's available right across Wales, for example, through our innovation centres and so on.

Rwyf newydd lansio'r wefan bwyd a diod, sy'n llwyfan ar gyfer yr hyn sydd gennym i'w gynnig i'r byd. Ond mae hefyd yn gyfle i'n busnesau bwyd a diod ddod i gysylltiad â pheth o'r arbenigedd sydd ar gael ledled Cymru, er enghraifft, drwy ein canolfannau arloesi ac yn y blaen.

13:45 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, Deputy Minister, and you did particularly talk about the food and drink industry board, which is an important part of the action plan, but I do notice that, when the action plan was set out last year, there was a milestone date that says the board is to be fully established in 2014, and yet the board hasn't been established. So, I am concerned that after 12 months—one year into a seven-year plan—that board still isn't established, especially given the fact in your recent letter to Assembly Members, you have said that the plan,

Diolch am eich ateb, Ddirprwy Weinidog, ac fe siaradoch yn benodol am fwrdd y diwydiant bwyd a diod, sy'n rhan bwysig o'r cynllun gweithredu, ond pan luniwyd y cynllun gweithredu y llynedd, sylwais fod ynddo ddyddiad carreg filltir a nodai fod y bwrdd i gael ei sefydlu'n llawn yn 2014, ac eto nid yw'r bwrdd wedi ei sefydlu. Felly, rwy'n bryderus, ar ôl 12 mis—un flwyddyn i mewn i gynllun saith mlynedd —nad yw'r bwrdd hwnnw wedi'i sefydlu, yn enwedig o ystyried y ffaith eich bod wedi dweud yn eich llythyr diweddar at Aelodau'r Cynulliad fod y cynllun,

'continues to be about actions, targets and timescales.'

'yn parhau i ymwneud â chamau gweithredu, targedau ac amserlenni.'

Is it not of concern to you that this board wasn't established in 2014 as originally set out?

Onid yw'n peri pryder i chi na sefydlwyd y bwrdd hwn yn 2014 fel y nodwyd yn wreiddiol?

13:45 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The board has been established and the board has been up and running and working. I have attended meetings. As I say, it's chaired by Robin Jones, and he's our interim chair, but we are looking to further expand the breadth and the depth of that board. I think that that shouldn't be something to be frowned upon; we should be applauding the fact that we are out there, seeking to get the brightest and the best on that board to increase what we're already doing.

Mae'r bwrdd wedi ei sefydlu ac mae'r bwrdd wedi bod ar waith ac yn gweithio. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd. Fel y dywedais, mae'n cael ei gadeirio gan Robin Jones, ac ef yw ein cadeirydd dros dro, ond rydym yn bwriadu ymestyn ehangder a dyfnder y bwrdd ymhellach. Rwy'n credu na ddylai hynny fod yn rhywbeth i wgu yn ei gylch; dylem fod yn cymeradwyo'r ffaith ein bod allan yno, yn ceisio cael y bobl orau a mwyaf disglair ar y bwrdd i wella'r hyn rydym eisoes yn ei wneud.

13:46 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I would agree with that, Deputy Minister, it's just that that should have been done by the end of 2014 as you had set out. It does say that the board will be fully established, and we've still got a shadow board. Now, finally, both the UK Government and the Scottish Government have put a great emphasis on enabling the industry to produce more home-grown produce. Certainly, when you go to Scotland, for example, the Scottish Government is putting great emphasis on their food and drink strategy and, very much, if you go into a restaurant in Scotland, so I understand, you'll be very clear that the food has come from Scotland. But if you go into a restaurant in Wales, that's not clear. So, what is the Welsh Government doing to market Welsh produce better and encourage clearer country-of-origin labelling?

Wel, rwy'n cytuno â hynny, Ddirprwy Weinidog, ond dylai hynny fod wedi ei wneud erbyn diwedd 2014 fel y nodwyd gennych. Mae'n dweud y bydd y bwrdd wedi cael ei sefydlu'n llawn, a bwrdd cysgodol sydd gennym o hyd. Nawr, yn olaf, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban wedi rhoi pwyslais mawr ar alluogi'r diwydiant i gynhyrchu mwy o gynnyrch cartref. Yn sicr, pan ewch i'r Alban, er enghraifft, mae Llywodraeth yr Alban yn rhoi pwyslais mawr ar eu strategaeth bwyd a diod, ac yn bendant iawn, os ewch i fwyty yn yr Alban, yn ôl yr hyn a ddeallaf, fe fyddwch yn gwybod bod y bwyd wedi dod o'r Alban. Ond os ewch i fwyty yng Nghymru, nid yw hynny'n glir. Felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i farchnata cynnyrch o Gymru yn well ac i annog defnydd cliriach o labeli gwlad tarddiad?

13:46 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm glad you've raised these two issues. I think one relates to, I suppose, food tourism, both for visitors to Wales and for people within Wales who, you know, are foodies and want to find out what the exciting things are on their doorstep. I am pleased to let you know that, just a couple of weeks ago, I, alongside my colleague Ken Skates, launched a food tourism action plan. That was on 30 April, and that's a partnership between my food division and Visit Wales. That action plan focuses on collaboration and co-operation across sectors to engage the public sector and the voluntary sector within the industry. It sets out a challenge, really, for Government, for tourism and for the food industry to make more of what we have in Wales, so that when people go into our restaurants and things, they know that they're eating Welsh food. We often hold meet the buyer events. I held one in the Millennium Stadium just a couple of weeks ago, and that was tremendously successful in terms of bringing our major hoteliers, major retailers and so on together with Welsh food and drink producers. Those are the kinds of events that we're hosting right the year round, and they do tend to bring in millions of pounds of business for our Welsh food and drink producers, but also increase the prestige when we're having food and drink from Wales at some of our most prestigious and important venues.

Rwy'n falch eich bod wedi crybwyll y ddau fater hwn. Rwy'n credu bod un yn ymwneud â thwristiaeth bwyd, am wn i, o ran ymwelwyr â Chymru a phobl yng Nghymru sy'n ymddiddori mewn bwyd ac yn awyddus, wyddoch chi, i gael gwybod pa bethau cyffrous sydd ar garreg eu drws. Mae'n bleser gennyf eich hysbysu fy mod wedi lansio cynllun gweithredu twristiaeth bwyd wythnos neu ddwy yn ôl yn unig gyda fy nghydweithiwr Ken Skates. Roedd hynny ar 30 Ebrill, ac mae'n bartneriaeth rhwng fy isadran fwyd a Croeso Cymru. Mae'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar gydweithio a chydweithredu ar draws y sectorau i ymgysylltu â'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol o fewn y diwydiant. Mae'n nodi her, mewn gwirionedd, ar gyfer y Llywodraeth, ar gyfer twristiaeth ac ar gyfer y diwydiant bwyd i wneud mwy o'r hyn sydd gennym yng Nghymru, er mwyn i bobl wybod eu bod yn bwyta bwyd o Gymru pan fyddant yn mynd i dai bwyta ac ati. Rydym yn aml yn cynnal digwyddiadau cwrdd â'r prynwr. Cynhaliais un yn Stadiwm y Mileniwm wythnos neu ddwy yn ôl, ac roedd yn hynod o lwyddiannus o ran dod â'n perchnogion gwestai mawr, ein prif fanwerthwyr ac ati, a chynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru at ei gilydd. Dyna'r math o ddigwyddiadau rydym yn eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, ac maent yn tueddu i ddod â miliynau o bunnoedd o fusnes i'n cynhyrchwyr bwyd a diod, a hefyd yn cynyddu'r bri pan fyddwn yn cael bwyd a diod o Gymru yn rhai o'n digwyddiadau mwyaf mawreddog a phwysig.

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

13:48 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Llywydd. Minister, we've already heard about some of the shocking statistics in the recent staff survey from Natural Resources Wales. One of the reasons for the low morale, of course, is that they have an increasingly reducing headcount, whilst, at the same time, seeing an increasing workload. We've seen the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 creating new expectations of the organisation and, just this week, with the publication of the Environment (Wales) Bill, we're seeing additional requirements on them there as well. You said yesterday, when I asked you, that there wouldn't be any additional resources to meet any additional duties, yet the chief executive of Natural Resources Wales told the environment committee just last week that he would always expect additional resources to deliver additional work. So, who's right, and if there isn't to be any additional resource, then what elements of their current work do you expect them not to deliver?

Diolch, Lywydd. Weinidog, rydym eisoes wedi clywed am rai o'r ystadegau brawychus yn yr arolwg staff diweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Un o'r rhesymau dros y morâl isel, wrth gwrs, yw bod nifer y gweithwyr yn mynd yn llai ac yn llai, wrth i'r llwyth gwaith gynyddu ar yr un pryd. Rydym wedi gweld Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn creu disgwyliadau newydd ar gyfer y sefydliad, a'r wythnos hon, gyda chyhoeddi Bil yr Amgylchedd (Cymru), rydym yn gweld gofynion ychwanegol ar eu cyfer yno hefyd. Ddoe, pan ofynnais i chi, fe ddywedoch na fyddai unrhyw adnoddau ychwanegol ar gael ar gyfer dyletswyddau ychwanegol, ac eto dywedodd prif weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wrth bwyllgor yr amgylchedd yr wythnos ddiwethaf y byddai bob amser yn disgwyl adnoddau ychwanegol i gyflawni gwaith ychwanegol. Felly, pwy sy'n iawn, ac os nad oes unrhyw adnoddau ychwanegol ar y ffordd, pa elfennau o'u gwaith presennol rydych yn disgwyl iddynt beidio â'u cyflawni?

13:49

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, there are two things there. First of all, you suggest that there's an increasing workload, and it's an interesting interpretation. The future generations Act is a principle of a different type of operation, not additionality. This is about the core way they do their business, including Welsh Government and other public bodies. It is building sustainable development, not as additionality, but as the work that should be done within their workload. So, I don't see this as additional; it's a different way of doing work. On the issue of finance, I did tell you yesterday there will be a transitional period where there will be funding made available, but I can be very clear about this, again: on the duties around NRW, the tools in the environment Bill are giving them the opportunity to them better, more efficiently. So, I don't accept the issue that it's going to result in increased funding in the longer term. The business plan is very clear; the structures are very clear; and it's a discussion that I have on a regular basis with the chair of NRW.

Wel, rydych yn sôn am ddau beth. Yn gyntaf oll, rydych yn awgrymu bod y llwyth gwaith yn cynyddu, ac mae'n ddehongliad diddorol. Mae deddf cenedlaethau'r dyfodol yn egwyddor sy'n ymwneud â math gwahanol o weithredu, nid egwyddor sy'n ymwneud ag ychwaneged. Mae'n ymwneud â'r ffordd greiddiol y maent yn cyflawni eu gwaith, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n ymwneud ag adeiladu datblygu cynaliadwy, nid fel ychwanegiad, ond fel y gwaith y dylid ei wneud o fewn eu llwyth gwaith. Felly, nid wyf yn ystyried hyn fel rhywbeth ychwanegol; mae'n ffordd wahanol o wneud gwaith. Ynglŷn â mater cyllid, fe ddywedais wrthych ddoe y bydd cyfnod pontio pan fydd cyllid ar gael, ond gallaf fod yn eglur iawn am hyn, unwaith eto: ynglŷn â dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r offerynnau ym Mil yr amgylchedd yn rhoi'r cyfle iddynt eu cyflawni'n well, yn fwy effeithlon. Felly, nid wyf yn derbyn y pwynt fod hyn yn mynd i arwain at fwy o gyllid yn y tymor hwy. Mae'r cynllun busnes yn glir iawn; mae'r strwythurau yn glir iawn; ac mae'n drafodaeth rwy'n ei chael yn rheolaidd gyda chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

13:50

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, attending 22 public service boards sounds like a bit more work to me; and, of course, preparing and publishing state of natural resources reports in the environment Bill, and also preparing and publishing area statements, biodiversity lists et cetera. There we are; it sounds like more work to me and to many people out there. Now, I would argue that another reason for low morale within NRW, of course, is a lack of clarity about their statutory purpose. This was actually recognised by NRW itself in a recent board paper that said that there was:

'No shared understanding of what NRW is trying to achieve in its involvement in planning and development cases',

and that,

'staff are unclear whether they should be interpreting NRW purpose in their advice'.

And, if so, how? We then learned that NRW had to take independent legal advice from a QC on this point. Now, with such confusion around its statutory purpose do you not agree that it's incumbent on you to offer that clarity? And will you, by the way, in fact, urge NRW to publish that legal advice so that we can all enjoy the clarity that it offers?

Wel, mae mynychu 22 o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn swnio i mi fel ychydig bach yn fwy o waith; ac wrth gwrs, paratoi a chyhoeddi adroddiadau ar gyflwr adnoddau naturiol ym Mil yr amgylchedd, a pharatoi a chyhoeddi datganiadau ardal, rhestrau bioamrywiaeth ac yn y blaen. Dyna ni; mae'n swnio fel mwy o waith i mi ac i lawer o bobl eraill. Nawr, byddwn yn dadlau mai rheswm arall dros y morâl isel yn Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth gwrs, yw'r diffyg eglurder ynghylch eu diben statudol. Cydnabyddir hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun, mewn gwirionedd, mewn papur bwrdd yn ddiweddar a ddywedai nad oedd:

'Unrhyw ddealltwriaeth gyffredinol o'r hyn y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio ei gyflawni drwy ei ymwneud ag achosion cynllunio a datblygu',

a bod

'staff yn ansicr a ddylent fod yn dehongli diben Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cyngor'.

Ac os felly, sut? Yna, dysgasom fod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd cyngor cyfreithiol annibynnol gan Gwnsler y Frenhines ar y pwynt hwn. Nawr, gyda dryswch o'r fath ynghylch ei ddiben statudol, onid ydych yn cytuno ei bod yn ddyletswydd arnoch i gynnig yr eglurder hwnnw? A gyda llaw, a wnewch chi annog Cyfoeth Naturiol Cymru i gyhoeddi'r cyngor cyfreithiol er mwyn i bawb ohonom elwa ar yr eglurder y mae'n ei gynnig?

13:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, again, I think there's a lack of understanding by the Member about the opportunities that NRW have to develop a better place for Wales. It's a real shame that all he wants to do is talk Wales down, as opposed to actually work with me to make a better Wales. It's a very interesting point. Public service boards are a new entity in themselves as a public service board, but local service boards have been around for many, many years. It's a shame that the Member hasn't quite caught up on that process. The fact of the matter is that the statutory purpose is very clear to NRW. They have never raised that with me yet, and I look forward to the next meeting with them when they perhaps may do.

Wel, unwaith eto, credaf fod dealltwriaeth yr Aelod yn ddiffygiol ynglŷn â'r cyfleoedd sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu lle gwell i Gymru. Mae'n drueni mawr mai'r cyfan y mae am ei wneud yw bychanu Cymru, yn hytrach na gweithio gyda mi i greu Cymru well. Mae'n bwynt diddorol iawn. Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn endid newydd ynddynt eu hunain fel bwrdd gwasanaeth cyhoeddus, ond mae byrddau gwasanaethau lleol wedi bodoli ers blynyddoedd lawer. Mae'n drueni nad yw'r Aelod yn gwbl gyfarwydd â'r broses honno. Y gwir amdani yw bod diben statudol clir iawn gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid ydynt erioed wedi crybwyll hynny wrthyf hyd yn hyn, ac edrychaf ymlaen at y cyfarfod nesaf â hwy pan fyddant yn gwneud hynny efallai.

13:51 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it says a lot that they haven't raised it with you when they've actually sought legal advice for clarity. Maybe that says something about the relationship between the Government and NRW.

Wel, mae'n dweud llawer nad ydynt wedi crybwyll y mater wrthych er eu bod wedi gofyn am gyngor cyfreithiol i gael eglurder. Efallai fod hynny'n dweud rhywbeth ynglŷn â'r berthynas rhwng y Llywodraeth a Cyfoeth Naturiol Cymru.

The Welsh Government, of course, has urged NRW—shall we put it that way—to take a more permissive approach to development. Of course, that has left many asking what their role really is. The question that I'm being asked regularly—and I'm sure it's been raised with you, Minister—is who is there that's left to champion the environment. So, will you, in your environment Bill, ensure that there's a clear and unambiguous nature conservation remit within NRW's statutory purpose?

Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, wedi annog Cyfoeth Naturiol Cymru—beth am i ni ei roi felly—i fabwysiadu agwedd fwy goddefol at ddatblygiad. Wrth gwrs, mae hynny wedi golygu bod llawer yn gofyn beth yw eu rôl mewn gwirionedd. Y cwestiwn sy'n cael ei ofyn i mi'n rheolaidd—ac rwy'n siŵr ei fod wedi ei ofyn i chi, Weinidog—yw pwy sydd ar ôl i hyrwyddo'r amgylchedd. Felly, a wnewch chi, yn eich Bil amgylchedd, sicrhau bod cylch gwaith cadwraeth natur clir a diamwys yn rhan o ddiben statudol Cyfoeth Naturiol Cymru?

13:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, again, I think the Member has failed on his questioning there to me. First of all, he's claiming that NRW are far too close to the Government, and then he is saying to me, 'Why don't you know that the legal advice is being sought by an arm's-length body in the first place?' You can't have it both ways. They operate in their own jurisdiction. The chief executive and the chair of that organisation operate with the legal advice given to them, and they will challenge Ministers on those very points if they need to do so. They are independent of Government. On the issue around NRW and moving forward on governance and the Bill, maybe the Member might want to have a look at some of the third sector organisations and how positive they are about the environment Bill, and maybe he wants to get into the space where he supports those external organisations that clearly know an awful lot about the environment.

Wel, unwaith eto, credaf fod yr Aelod wedi methu yn ei gwestiynau i mi. Yn gyntaf oll, mae'n honni bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn llawer rhy agos at y Llywodraeth, yna mae'n gofyn, 'Pam nad ydych yn gwybod bod corff hyd braich yn gofyn am gyngor cyfreithiol yn y lle cyntaf?' Ni allwch ei chael hi bob ffordd. Maent yn gweithredu o fewn eu hawdurdodaeth eu hunain. Mae prif weithredwr a chadeirydd y corff yn gweithredu yn ôl y cyngor cyfreithiol a roddir iddynt, a byddant yn herio Gweinidogion ar yr union bwyntiau hynny os oes angen iddynt wneud hynny. Maent yn annibynnol ar y Llywodraeth. Ar y mater ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru a symud ymlaen ar lywodraethu a'r Bil, efallai y bydd yr Aelod yn awyddus i gael golwg ar rai o'r sefydliadau trydydd sector a pha mor gadarnhaol y maent ynglŷn â Bil yr amgylchedd, ac efallai ei fod am fynd i'r fan lle y mae'n cefnogi'r sefydliadau allanol sy'n amlwg yn gwybod llawer iawn am yr amgylchedd.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper and it's question 3 from Christine Chapman.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3 gan Christine Chapman.

## Gwarchod Bywyd Gwyllt yng Nghymru

## The Protection of Wildlife in Wales

13:53 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i adnewyddu'r gyfraith sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt yng Nghymru? OAQ(4)0302(NR)*

*3. Will the Minister make a statement on Welsh Government plans to refresh the law relating to the protection of wildlife in Wales? OAQ(4)0302(NR)*

13:53 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Law Commission has undertaken a comprehensive review of wildlife law in Wales and England and intends to publish its final report and draft Bill next month. Once published, I will consider its recommendations.

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o gyfraith bywyd gwyllt yng Nghymru a Lloegr ac yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad terfynol a Bil drafft y mis nesaf. Ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, byddaf yn ystyried ei argymhellion.

13:53 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I obviously look forward to the results of the review. Could you tell me: is this about consolidating and simplifying existing laws, or would there also be a mechanism for the creation of additional laws to protect wildlife? I am thinking in particular here of the cross-party consensus around banning snares, expressed the last time we discussed the issue. In addition, if the UK Government does move to repeal the important protection of wildlife provided by the hunting ban, how will the Welsh Government make sure that the options of the majority of Welsh people who want the ban to remain are heard?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n amlwg yn edrych ymlaen at ganlyniadau'r adolygiad. A allech ddweud wrthyf: a yw hyn yn ymwneud â chydgrynhoi a symleiddio cyfreithiau sy'n bodoli eisoes, neu a fyddai mecanwaith ar gael hefyd ar gyfer creu cyfreithiau ychwanegol i ddiogelu bywyd gwyllt? Rwy'n meddwl yn benodol yma am y consenswS trawsbleidiol ynghylch gwahardd maglau, a fynegwyd y tro diwethaf y buom yn trafod y mater. Hefyd, os yw Llywodraeth y DU yn penderfynu diddymu'r amddiffyniad pwysig y mae'r gwaharddiad ar hela'n ei roi i fywyd gwyllt, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod barn y mwyafrif o bobl yng Nghymru sydd am i'r gwaharddiad aros yn cael ei chlywed?

13:54 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Law Commission will make recommendations on the simplification, modernisation and consolidation of law. So, potentially, modernisation might give us opportunities to look at what new laws might be created. I look forward to their report, particularly relating to snares, as you suggest. I'll be able to say more once we've had a chance to look at that report.

Bydd Comisiwn y Gyfraith yn gwneud argymhellion ar symleiddio, moderneiddio a chydgrynhoi'r gyfraith. Felly, o bosibl, efallai y gall moderneiddio'r roi cyfle i ni edrych ar ba ddeddfau newydd a allai gael eu creu. Rwy'n edrych ymlaen at eu hadroddiad, yn enwedig mewn perthynas â maglau, fel yr awgrymwch. Byddaf yn gallu dweud mwy ar ôl i ni gael cyfle i edrych ar yr adroddiad hwnnw.

On fox hunting, the Welsh Government is clear that it is cruel and the majority of people in Wales and Britain find it abhorrent. I would really hope that the Prime Minister would have other priorities for his legislative programme than bringing back an archaic and cruel pastime.

Ar hela llwynogod, mae Llywodraeth Cymru yn glir ei fod yn greulon ac mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru a Phrydain o'r farn ei fod yn ffiaidd. Byddwn yn gobeithio'n fawr iawn fod gan y Prif Weinidog flaenoriaethau eraill ar gyfer ei raglen ddeddfwriaethol na dod ag arfer hynafol a chreulon yn ôl.

13:55 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, of course it's essential that wildlife is protected and that when the new landfill tax comes into being, the landfill communities fund is protected so that the fund can continue to support community and environmental projects in the vicinity of landfill sites. Deputy Minister, given that the landfill communities fund is one of the very few funding streams that supports wildlife projects, will you, as Deputy Minister, commit this afternoon to ensuring its sustainability for the future?

Ddirprwy Weinidog, mae'n hanfodol wrth gwrs fod bywyd gwyllt yn cael ei ddiogelu a bod y gronfa cymunedau tirlenwi yn cael ei diogelu pan ddaw'r dreth dirlenwi newydd i fodolaeth, er mwyn i'r gronfa allu parhau i gefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol yng nghyffiniau safleoedd tirlenwi. Ddirprwy Weinidog, o ystyried bod y gronfa cymunedau tirlenwi yn un o'r ychydig iawn o ffrydiau ariannu sy'n cefnogi prosiectau bywyd gwyllt, a wnewch chi, fel Dirprwy Weinidog, ymrwymo y prynhawn yma i sicrhau ei chynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol?

13:55 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the landfill communities fund is the responsibility of the Minister for Natural Resources.

Wel, cyfrifoldeb y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yw'r gronfa cymunedau tirlenwi.

13:55 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Weinidog. A gaf i dynnu sylw'r Gweinidog a'r Llywodraeth at y ddogfen ragorol yma ar safleoedd arbennig ac ecosystemau gwydn, a gyhoeddwyd yn y Cynulliad hwn ychydig oriau yn ôl, gyda llun rhagorol o'r Afon Conwy, wrth gwrs, ar y dudalen flaen? Prif gasgliad y ddogfen yma yw ei bod hi'n bwysig i fonitro cyflwr safleoedd arbennig yn rheolaidd, ac onid ydy hi'n resyn bod y wybodaeth orau sydd gyda ni ar gyflwr ein hecosystemau a'n hardaloedd dynodedig yn mynd yn ôl wyth mlynedd?

Thank you, Minister. May I draw the Minister and the Government's attention to this wonderful document on special sites and resilient ecosystems, which was published in this National Assembly just a few hours ago, with an excellent picture of the River Conwy, of course, on the front page? The main conclusion of this document is that it's important to monitor the state of special sites regularly, and isn't it regrettable that the best information we have on the state of our ecosystems and our designated areas goes back eight years?

13:56 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll certainly take the opportunity again to discuss this with the Minister. Our respective roles are slightly difference in terms of wildlife. The conservation aspects tend to relate to the Minister for Natural Resources, whereas my responsibilities tend to lie more in pest control and cruelty and animal welfare, and so on.

Byddaf yn sicr yn manteisio ar y cyfle eto i drafod hyn gyda'r Gweinidog. Mae ein rolau ychydig yn wahanol o ran bywyd gwyllt. Mae'r agweddau cadwraeth yn tueddu i ymwneud â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ac mae fy nghyfrifoldebau i'n tueddu i ymwneud mwy â rheoli plâu a chreulondeb a lles anifeiliaid, ac yn y blaen.

## Ceisiadau ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol

## Basic Payment Scheme Applications

13:56 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o wneud ceisiadau ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol eleni? OAQ(4)0294(NR)*

*4. Will the Minister provide an update on the basic payment scheme application process this year? OAQ(4)0294(NR)*

13:57 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our systems are working very well. The latest figures show that 15,202 single application forms have been received so far this year and, of these, 12,048 have been submitted online or in draft online.

Mae ein systemau'n gweithio'n dda iawn. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 15,202 o ffurflenni'r cais sengl wedi dod i law hyd yma eleni, ac o'r rhain, cafodd 12,048 eu cyflwyno ar-lein neu ar ffurf drafft ar-lein.

13:57 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae nifer o ffermwyr wedi dweud wrthyf i eu bod nhw'n hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth maen nhw'n ei chael oddi wrth swyddogion lleol yn yr undebau amaethyddol, a hefyd swyddogion Llywodraeth Cymru, i fod o gymorth iddyn nhw wrth baratoi eu ffurflenni newydd ar gyfer y 'deadline' yr wythnos yma. Gan eich bod chi nawr yn hyderus bod y 'deadline' yma yn mynd i weld nifer o'r ffurflenni yn cael eu cyflwyno mewn amser, a ydych chi'n dal yn hyderus y byddwch chi mewn sefyllfa i randalu mwy na 80 y cant o ffermwyr erbyn 1 Rhagfyr?

Minister, a number of farmers have told me that they're exceptionally grateful for the support that they receive from local officials in the farming unions, and the officials of Welsh Government, in assisting them in preparing their new forms for the deadline this week. As you now are confident that this deadline will see a number of the forms submitted in a timely fashion, are you still confident that you will be in a position to part-pay more than 80 per cent of farmers by 1 December?

13:58 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's always been our intention to offer part payments at the start of December. That remains our ambition. This is one of the reasons why we haven't extended the deadline as well, because it was clear to us that if we did extend the deadline for a month, then there would certainly be quite severe knock-on impacts in terms of our ability to pay farmers in a timely fashion. We took this decision also because our systems are working well, whereas across the border in England they've had some quite serious problems and have had to abandon their online systems and so on. So, I haven't been convinced that the benefits of allowing extra time would be outweighed by the negatives, and there are so many in terms of the knock-on effect, not only on our ability to pay farmers, but also on our ability to complete our rural development plan payments in time, which could have a knock-on effect on us and mean that we'd have to return moneys to the European Commission, which is certainly something that we don't want to do.

Ein bwriad bob amser oedd cynnig rhandaliadau ar ddechrau mis Rhagfyr. Dyna yw ein huchelgais o hyd. Dyma un o'r rhesymau pam nad ydym wedi ymestyn y dyddiad cau hefyd, gan ei bod yn amlwg i ni, pe baem yn ymestyn y dyddiad cau am fis, byddai sgil-effeithiau eithaf difrifol o ran ein gallu i dalu ffermwyr mewn modd amserol. Gwnaethom y penderfyniad hwn hefyd oherwydd bod ein systemau'n gweithio'n dda. Dros y ffin yn Lloegr, er hynny, maent wedi cael problemau eithaf difrifol ac wedi gorfod rhoi'r gorau i'w systemau ar-lein ac yn y blaen. Felly, nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai manteision caniatáu amser ychwanegol yn llai na'r effeithiau negatif, ac mae cymaint o'r rheini o ran y sgil-effaith, nid yn unig ar ein gallu i dalu ffermwyr, ond hefyd ar ein gallu i gwblhau ein taliadau cynllun datblygu gwledig mewn pryd, a allai gael sgil-effaith arnom ni a golygu y byddai'n rhaid i ni ddychwelyd arian i'r Comisiwn Ewropeaidd, sy'n bendant yn rhywbeth nad ydym am ei wneud.

13:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I asked you a few weeks ago about what measures you are taking to allow an appeals process that was robust enough, given that there is a new system now that people are having to fill in, and, obviously, the old deadline has been stuck to by the Government. There will be legitimate inconsistencies and inaccuracies maybe filled in on some of these forms. How is the Government putting—? What appeals mechanism is the Government putting in place to allow for genuine mistakes to be reflected and penalties to be considered in the cold light of day, given this new system?

Weinidog, gofynnais i chi rai wythnosau'n ôl pa fesurau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod gennym broses apelio sy'n ddigon cadarn, o ystyried bod yna system newydd erbyn hyn sy'n rhaid i bobl ei llenwi, ac yn amlwg, mae'r Llywodraeth wedi glynu at yr hen ddyddiad cau. Bydd anghysonderau a chamgymeriadau anfwriadol wedi digwydd efallai wrth lenwi rhai o'r ffurflenni hyn. Sut y mae'r Llywodraeth yn rhoi—? Pa system apelio y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi ar waith i sicrhau bod camgymeriadau anfwriadol yn cael eu nodi a chosbau'n cael eu hystyried yn bwyllog, o ystyried y system newydd hon?

13:59 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, I would like to take a common-sense approach to it, but, as I've explained to you previously, we are limited in terms of the flexibility that we have, because of the European Commission rules, which do, for example, apply a 1 per cent a day reduction to payments for every day that an application is submitted late, for example. So, you know, I would like to be as reasonable as I possibly can, within the rules that I'm expected to operate in.

Yn amlwg, hoffwn fabwysiadu ymagwedd o synnwyr cyffredin tuag at hyn, ond fel rwyf wedi egluro o'r blaen, rydym yn gyfyngedig o ran yr hyblygrwydd sydd gennym, oherwydd rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd, sy'n gosod gostyngiad o 1 y cant y dydd ar daliadau am bob diwrnod y cyflwynir cais yn hwyr, er enghraifft. Felly, hoffwn fod mor rhesymol ag y gallaf o fewn y rheolau y mae disgwyl i mi weithredu oddi tanynt.

14:00 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Deputy Minister, the forms have proved challenging for many. I'm certainly aware of constituents who've had a lifetime of filling out these forms that, this year, have failed to do so without professional help, and, of course, for many of my constituents, it's the first year that they will have to fill in these forms without the presence of the Brecon field office, following the decision by the previous Minister to close the field office in Brecon, necessitating people to travel to other places to gain help. Once this process has been completed, will you review the effectiveness of that change—of the closure of the Brecon field office—and how that has impacted upon the ability of your officials to provide help to people in the south of Brecon and Radnorshire, in filling out these forms, please?

Ddirprwy Weinidog, mae'r ffurflenni wedi bod yn her i lawer. Rwy'n sicr yn gwybod am etholwyr sydd wedi bod yn llenwi'r ffurflenni hyn ar hyd eu hoes ac wedi methu â gwneud hynny eleni heb gymorth proffesiynol, ac wrth gwrs, i lawer o fy etholwyr, dyma'r flwyddyn gyntaf y bydd yn rhaid iddynt lenwi'r ffurflenni hyn heb swyddfa maes yn Aberhonddu, yn dilyn penderfyniad gan y Gweinidog blaenorol i gau'r swyddfa maes yn Aberhonddu, gan olygu bod yn rhaid i bobl deithio i fannau eraill i gael help. Wedi i'r broses hon gael ei chwblhau, a fyddwch yn adolygu effeithiolrwydd y newid hwnnw—cau swyddfa maes Aberhonddu—a sut y mae hynny wedi effeithio ar allu eich swyddogion i ddarparu cymorth i bobl yn ne Brycheiniog a Sir Faesyfed gyda llenwi'r ffurflenni hyn, os gwelwch yn dda?

14:00 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Once this process has been completed, there will obviously be a review generally as to how well our systems have worked as compared to other parts of the European Commission, what kinds of problems farmers had, and what farmers found good, as well, about the system that we can look to build on in future years. So I'd hope to do, you know, quite a robust piece of work, which will look at all aspects of the application form.

Ar ôl cwblhau'r broses hon, yn amlwg, cynhelir adolygiad cyffredinol i weld pa mor dda y mae ein systemau wedi gweithio o gymharu â rhannau eraill o'r Comisiwn Ewropeaidd, pa fath o broblemau oedd gan ffermwyr, a beth oedd ffermwyr yn ei ystyried yn dda am y system hefyd er mwyn i ni allu adeiladu arno yn y dyfodol. Felly gobeithiaf wneud gwaith cadarn ar hynny, i edrych ar bob agwedd ar y ffurflen gais.

Senedd.tv Fideo Video

### Llusernau Awyr

### Sky Lanterns

14:01 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i wahardd llusernau awyr rhag cael eu defnyddio yng Nghymru? OAQ(4)0293(NR)*

*5. Will the Minister provide an update on plans to ban the use of sky lanterns in Wales, please? OAQ(4)0293(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. I recognise the merits of restricting the release of sky lanterns, but, at this time, I'm not presented with the evidence that justifies an outright ban in legislation at this time.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rwy'n cydnabod rhinweddau cyfyngu ar ryddhau llusernau awyr, ond ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno i mi sy'n cyfiawnhau gwaharddiad llwyr yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. The Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals Cymru has called for outright ban on the use of sky lanterns as they present a significant danger to animals. The Welsh Government has urged local authorities to ban their use on council-owned land, but I understand that only eight out of 22 local authorities have so far taken this action. What steps does the Minister intend to take to encourage all local authorities to ban the use of sky lanterns, and is an outright ban in the future a possibility in Wales?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid yng Nghymru wedi galw am waharddiad llwyr ar ddefnyddio llusernau awyr gan eu bod yn creu perygl sylweddol i anifeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau lleol i'w gwahardd ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, ond rwy'n deall mai wyth yn unig allan o 22 awdurdod lleol sydd wedi rhoi'r camau hyn ar waith hyd yma. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i annog pob awdurdod lleol i wahardd llusernau awyr rhag cael eu defnyddio, ac a yw gwaharddiad llwyr yn y dyfodol yn bosibilrwydd yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think that the last point that the Member raised about an outright ban should be considered in the longer term, provided that the evidence is there, but the retailers are very clever across the UK, and making sure that the public understand what the risks are of using sky lanterns. I saw, recently, one celebrating with stamps on side for the Queen's great-granddaughter, the birth of the daughter. An odd way to celebrate, with a sky lantern, I'd have thought, but this is actually happening. But I can update the Member that there are nine local authorities that have put the ban in place now, and evidence suggests that there are some voluntary bans in place and they've served to raise public awareness about the risks associated with them. What we've got to do as Welsh Government is to push that agenda very clearly to say about the risks to animal welfare. But, subject to more evidence being provided, then I would give that further consideration that the Member has requested for an outright ban in Wales.

Credaf y dylai'r pwynt olaf a grybwyllodd yr Aelod ynghylch gwaharddiad llwyr gael ei ystyried yn y tymor hwy, cyhyd â bod y dystiolaeth yno, ond mae'r manwerthwyr yn glyfar iawn ledled y DU, ac yn sicrhau bod y cyhoedd yn deall beth yw risgiau defnyddio llusernau awyr. Yn ddiweddar, gwelais un gyda stampiau ar ei hochr, yn dathlu geni gor-wyres y Frenhines. Ffordd od o ddathlu, gyda llusern awyr, fe fuaswn yn meddwl, ond mae hyn yn digwydd. Ond gallaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod fod naw awdurdod lleol wedi gweithredu'r gwaharddiad yn awr, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai gwaharddiadau gwirfoddol ar waith a'u bod wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â'r peryglon sy'n gysylltiedig â hwy. Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud fel Llywodraeth Cymru yw gwthio'r agenda hon yn glir iawn i sôn am y risgiau i les anifeiliaid. Ond yn amodol ar ddarparu rhagor o dystiolaeth, byddwn yn rhoi sylw pellach i waharddiad llwyr yng Nghymru fel y gofynnodd yr Aelod amdano.

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 6, OAQ(4)0300(NR), is withdrawn. Question 7, Simon Thomas.

Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(4)0300(NR), yn ôl. Cwestiwn 7, Simon Thomas.

Senedd.tv Fideo Video

## Coetiroedd Cymru

## Welsh Woodlands

14:03 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella coetiroedd Cymru? OAQ(4)0307(NR)*

*7. What plans does the Minister have to improve Welsh woodlands? OAQ(4)0307(NR)*

14:03 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. The Welsh Government's long-term vision for the management and improvement of woodlands is set out in our strategy, 'Woodlands for Wales'.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Nodir gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli a gwella coetiroedd yn ein strategaeth, 'Coetiroedd i Gymru'.

14:03 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that reply. He will know that there's a lot of concern in Wales at the decision not to allow the single farm payment for small—I think it's under 100 trees—coverage, where grazing was taking place. I've had a lot of correspondence on this and they haven't been happy with the Government, it's fair to say, and are using unparliamentary language about the Government's proposals, but there must be an opportunity here, surely, to expand woodlands under Glastir, under the separate part of the payments. This is an opportunity to take some marginal land and make better woodland out of it. Is that what the Government intends to achieve?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Bydd yn gwybod bod llawer o bryder yng Nghymru ynglŷn â'r penderfyniad i beidio â chaniatáu'r taliad sengl ar gyfer gorchudd bach—o dan 100 o goed, rwy'n credu—lle roedd pori'n digwydd. Rwyf wedi cael llawer o ohebiaeth ynglŷn â hyn. Nid ydynt wedi bod yn hapus gyda'r Llywodraeth, mae'n deg dweud, ac maent yn defnyddio iaith anseneddol ynglŷn ag argymhellion y Llywodraeth, ond mae'n rhaid bod cyfle yma i ehangu coetiroedd o dan Glastir, o dan y rhan ar wahân o'r taliadau. Mae hwn yn gyfle i wneud coetir gwell o dir ymylol. Ai dyna beth y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gyflawni?

14:04 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, some of this, again, is cross-portfolio with the Deputy Minister and myself, but we have had conversations about enhancing woodland operation across Wales. Glastir is one option, and the rural development plan is another process that we are looking to, to enhance opportunities—the something-for-something agenda—where we can see investment in our woodlands, but there is a fundamental question about where we should invest in woodlands, now, I think. We have to have an open, honest conversation about what sort of trees are planted where, rather than just chasing targets in regard to a broad number of—an increasing number of trees. Which are the right methods, places and tree functions to be used?

Wrth gwrs, mae ychydig o hyn, eto, yn perthyn i fy mhortffolio i a'r Dirprwy Weinidog, ond rydym wedi cael trafodaethau ynglŷn â gwella gweithredu ar goetiroedd ledled Cymru. Mae Glastir yn un opsiwn, ac mae'r cynllun datblygu gwledig yn broses arall rydym yn edrych arni er mwyn wella cyfleoedd—yr agenda rhywbeth am rywbeth—lle y gallwn weld buddsoddiad yn ein coetiroedd, ond mae cwestiwn sylfaenol yn codi ynglŷn â lle y dylem fuddsoddi mewn coetiroedd yn awr, rwy'n credu. Mae'n rhaid i ni gael trafodaeth agored a gonest ynghylch pa fath o goed sy'n cael eu plannu ac yn lle, yn hytrach na mynd ar drywydd targedau mewn perthynas â nifer cyffredinol yn unig—nifer cynyddol o goed. Pa rai yw'r dulliau, y lleoedd a'r swyddogaethau cywir i'w defnyddio mewn perthynas â choed?

14:04 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister will be well aware of the devastating impact of very many tree diseases, which have really caused tremendous damage in our forests in Wales. Many of us have been asking questions on this since February 2011, in my case, particularly on Cwmcarn scenic drive. We know there isn't presently an effective cure for any of these diseases. Would the Minister provide an update on reforestation?

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o effaith ddinistriol llawer iawn o glefydau coed, sydd wedi achosi niwed aruthrol yn ein coedwigoedd yng Nghymru. Mae llawer ohonom wedi bod yn gofyn cwestiynau ynglŷn â hyn ers mis Chwefror 2011, yn fy achos i, yn enwedig ar y daith hardd drwy ardal Cwm-carn. Gwyddom nad oes triniaeth effeithiol ar gyfer unrhyw un o'r clefydau hyn ar hyn o bryd. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag ailgoedwigo?

14:05 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I will provide a written statement to the Chamber on that issue. The Member is right that P. ramorum in larch has had a significant effect on the forestry. I will provide Members with an update shortly.

Byddaf yn darparu datganiad ysgrifenedig i'r Siambr ar y mater hwn. Mae'r Aelod yn iawn fod P. ramorum mewn coed llarwydd wedi cael effaith sylweddol ar goedwigaeth. Byddaf yn darparu'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau cyn bo hir.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 8, OAQ(4)0299(NR), is withdrawn. So, question 9, Jenny Rathbone.

Tynnwyd cwestiwn 8, OAQ(4)0299(NR), yn ôl. Felly, cwestiwn 9, Jenny Rathbone.

Senedd.tv Fideo Video

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

14:05 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

*9. Pa effaith y bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei chael ar ddefnyddio tir ar gyfer tyfu bwyd? OAQ(4)0291(NR)*

*9. What impact will the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 have on the use of land for growing food? OAQ(4)0291(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for her question. The Act requires public bodies to consider how decisions they take will impact on four aspects of sustainable development, for example, through ensuring that land is used to improve the quality of life of people and their communities.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried sut y mae'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud yn effeithio ar bedair agwedd ar ddatblygu cynaliadwy, er enghraifft, drwy sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio i wella ansawdd bywyd pobl a'u cymunedau.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Minister, you'll be aware that 'The Wales We Want' put a lot of emphasis on supporting sustainable local economies, and a lot of people have found there are considerable barriers to new entrants to growing food, particularly horticulture, which is, in a way, the easiest way to start—not least because the pillar 1 common agricultural policy payments are not available to anybody farming less than 5 ha. Additionally, the inflated price of land is a huge barrier to anybody who is aspiring to buy land. What policy changes are envisaged to change that so that more people can be developing horticulture as a business?

Weinidog, fe wyddoch fod 'Y Gymru a Garem' yn rhoi llawer o bwyslais ar gefnogi economïau lleol cynaliadwy, ac mae llawer o bobl wedi darganfod bod rhwystrau sylweddol i newydd-ddyfodiaid o ran tyfu bwyd, a garddwriaeth yn arbennig, sef y ffordd hawsaf o ddechrau mewn ffordd—nid yn lleiaf am nad yw taliadau colofn 1 y polisi amaethyddol cyffredin ar gael i bobl sy'n ffermio llai na 5 hectar. Yn ogystal, mae pris uchel tir yn rhwystr mawr i unrhyw un sy'n dymuno prynu tir. Pa newidiadau polisi a ragwelir i newid hynny er mwyn i fwy o bobl allu datblygu garddwriaeth fel busnes?

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Well, my Deputy Minister is dealing with the issues around CAP and rural development plan payments, and the scheme around them; we have regular conversations. But I think what the future generations Bill gives us is a structured framework for local authorities and public sector to consider what land should be used for. I think there are some clever opportunities there, about certainly the resilience of local communities and how they can empower that. So, issues around procurement and local procurement, and therefore giving market advantage to local developers, are something that we explore further. I will ask Rebecca Evans to give you a further update on the specifics around CAP and RDP, but it's something that the Member is right to raise, and we'll give that some further consideration.

Wel, mae fy Nirprwy Weinidog yn ymdrin â materion yn ymwneud â thaliadau'r PAC a'r cynllun datblygu gwledig, a'r cynllun sy'n gysylltiedig â hwy; rydym yn trafod yn rheolaidd. Ond credaf mai'r hyn y mae Bil cenedlaethau'r dyfodol yn ei roi i ni yw fframwaith strwythuredig i awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ystyried ar gyfer beth y dylid defnyddio tir. Rwy'n meddwl bod rhai cyfleoedd clyfar yno, yn sicr o ran cydnerthedd cymunedau lleol a sut y gallant rymuso hynny. Felly, mae materion sy'n ymwneud â chaffael a chaffael lleol, gan roi mantais yn y farchnad i ddatblygwyr lleol, yn bethau rydym yn eu harchwilio ymhellach. Byddaf yn gofyn i Rebecca Evans roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â'r manylion sy'n ymwneud â'r PAC a'r Cynllun Datblygu Gwledig, ond mae'n rhywbeth y mae'r Aelod yn iawn i'w grybwyll, a byddwn yn ystyried hynny ymhellach.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, there is evidence to suggest that community involvement in growing food is linked to improved mental health and wellbeing in a number of different ways. Can I ask how the Welsh Government is addressing barriers that currently exist for farmers to provide land for allotments to increase the land available for community food sites?

Weinidog, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod ymwneud y gymuned â thyfu bwyd yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl a lles mewn nifer o wahanol ffyrdd. A gaf fi ofyn sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n bodoli i ffermwyr ar hyn o bryd rhag darparu tir ar gyfer rhandiroedd er mwyn cynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer safleoedd bwyd cymunedol?

14:07 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We welcome all action taken by many communities, involving farmers or indeed urban areas such as city councils wishing to share their land and use it for promoting growing, for food production. There are some great community projects out and around Wales. Indeed, 58 businesses in Cardiff alone were supported by Cardiff council's health improvement team to achieve the healthy options award—again, healthy food grown locally into our communities does make a significant change, both in the health of the individual physically, but also mentally, as the Member raises.

Rydym yn croesawu pob cam a gymerir gan lawer o gymunedau, sy'n cynnwys ffermwyr neu ardaloedd trefol, yn wir, megis cynghorau dinas, sydd am rannu eu tir a'i ddefnyddio ar gyfer hyrwyddo tyfu, ar gyfer cynhyrchu bwyd. Mae rhai prosiectau cymunedol gwych o gwmpas Cymru. Yn wir, cafodd 58 o fusnesau yng Nghaerdydd yn unig gymorth gan dîm gwella iechyd cyngor Caerdydd i ennill y wobr dewisiadau iach—unwaith eto, mae bwyd iach a dyfir yn lleol yn ein cymunedau yn creu newid sylweddol, o ran iechyd corfforol yr unigolyn, ond hefyd yn feddyliol, fel y mae'r Aelod yn ei nodi.

14:08 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could the Minister outline what efforts he's making to encourage local authorities to set aside more land for allotments, and not houses? Most authorities have waiting lists for allotments, which seems to be far at odds with the Government policy on this matter, and the wait for allotments now has been an issue for many years.

A all y Gweinidog amlinellu pa ymdrechion y mae'n eu gwneud i annog awdurdodau lleol i neilltuo mwy o dir ar gyfer rhandiroedd, yn hytrach na thai? Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau restrau aros ar gyfer rhandiroedd, sydd i'w weld yn groes i bolisi'r Llywodraeth ar y mater, ac mae'r amser aros am randiroedd wedi bod yn broblem ers blynyddoedd lawer bellach.

14:08 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We had a debate on allotments not so long back, actually, and I know that many Members in this Senedd enjoy the use of an allotment. But this ultimately is a matter for the local authority and the local town and community councils about how they develop their local community land use—local development plans, predominantly—in ensuring there is a balance between allotments and housing. You can't have an allotment, and you also need housing. I think there's a balance about what the measure is for for both. But it's something that we are keen to promote. We think there is some added value in encouraging local authorities, and we will be issuing a toolkit for local authorities to help and develop further land bases.

Cawsom ddadl ynglŷn â rhandiroedd heb fod mor bell â hynny'n ôl, mewn gwirionedd, a gwn fod llawer o'r Aelodau yn y Senedd hon yn defnyddio rhandiroedd. Ond yn y pen draw, mater i'r awdurdodau lleol, y cynghorau cymuned a'r cynghorau tref lleol yw hwn o ran sut y maent yn datblygu eu defnydd lleol o dir cymunedol—cynlluniau datblygu lleol, yn bennaf—i sicrhau bod cydbwysedd rhwng rhandiroedd a thai. Ni allwch gael rhandir, ac rydych hefyd angen tai. Credaf fod cydbwysedd ynglŷn â beth yw'r mesur ar gyfer y ddau. Ond mae'n rhywbeth rydym yn awyddus i'w hyrwyddo. Rydym yn credu bod rhywfaint o werth ychwanegol mewn annog awdurdodau lleol, a byddwn yn cyhoeddi pecyn cymorth i awdurdodau lleol er mwyn helpu i ddatblygu rhagor o safleoedd.

14:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black.

Peter Black.

14:09 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry, not on this question.

Mae'n ddrwg gennyf, nid ar y cwestiwn hwn.

14:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. We now move to question 10, Julie Morgan.

Iawn. Symudwn at gwestiwn 10, Julie Morgan.

### Gwella Rheolaeth a Lles Cŵn

### Improving the Control and Welfare of Dogs

14:09 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella rheolaeth a lles cŵn? OAQ(4)0297(NR)*

*10. What plans does the Minister have to improve the control and welfare of dogs? OAQ(4)0297(NR)*

14:09 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

For many years we've been working progressively to raise standards of animal health and welfare for all animals kept in Wales. With specific regard to dogs, we have implemented the Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations last month, and continue to develop the microchipping regulations. In addition, the review work being undertaken by the RSPCA Cymru on responsible dog ownership will report in the autumn.

Ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi bod yn gweithio'n flaengar ar godi safonau iechyd a lles anifeiliaid yr holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru. O ran cŵn yn benodol, rhoesom y Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) mewn grym fis diwethaf, ac rydym yn parhau i ddatblygu'r rheoliadau microsglodynnu. Yn ogystal, bydd y gwaith adolygu sy'n cael ei wneud gan RSPCA Cymru ar berchnogaeth cŵn cyfrifol yn adrodd yn yr hydref.

14:09 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that response. I'm interested in how far the independent review of responsible dog ownership has progressed. Would the Minister be able to provide information about whether the Communication Workers Union, which represents postwomen and postmen, has been involved in this review process, given the rising number of dog attacks Post Office staff are subject to during their rounds? Currently, in Cardiff, dog bites are responsible for 50 per cent of all recorded accidents to postwomen and postmen.

Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb. Mae gennyf ddiddordeb mewn gweld i ba raddau y mae'r adolygiad annibynnol o berchnogaeth cŵn cyfrifol wedi symud ymlaen. A fyddai'r Gweinidog yn gallu rhoi gwybod a yw Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu, sy'n cynrychioli postmyn, wedi bod yn rhan o'r broses adolygu hon, o ystyried y nifer cynyddol o gŵn sy'n ymosod ar staff Swyddfa'r Post yn ystod eu rowndiau? Ar hyn o bryd, yng Nghaerdydd, brathiadau gan gŵn yw 50 y cant o'r holl ddamweiniau a gofnodwyd i bostmyn.

14:10 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that question. I'm pleased to say that the review is progressing well. I know that the RSPCA have sought written evidence from key stakeholders, which they hope to receive by the end of June. One of those key stakeholders is the Communication Workers Union. The RSPCA are also holding meetings with stakeholders throughout July and August, and I can confirm that the Communication Workers Union have also been invited to attend those.

Diolch i chi am eich cwestiwn. Rwy'n falch o ddweud bod yr adolygiad yn mynd rhagddo'n dda. Gwn fod yr RSPCA wedi gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid allweddol, ac maent yn gobeithio'i chael erbyn diwedd mis Mehefin. Un o'r rhanddeiliaid allweddol hynny yw Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu. Bydd yr RSPCA hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid drwy gydol mis Gorffennaf a mis Awst, a gallaf gadarnhau bod Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu hefyd wedi cael eu gwahodd i fynychu'r rheini.

14:11 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, there's a huge increase in the theft of dogs. For many pet owners, their dog is, quite simply, irreplaceable, yet only 3 per cent of dog thefts in Wales have resulted in someone being charged. Recently, I heard of a spaniel bitch and seven puppies being stolen, and we're even hearing now of properties being marked, with people going back at a later date to steal these dogs. These dogs are, obviously, very much part of the family, and it's very distressing. I understand that, I think, about 500 dogs have been stolen in Wales. What are you doing, in terms of working with the RSPCA, local authorities and the police, to ensure that there is some enforcement in this regard, because it is becoming a very, very serious problem?

Weinidog, mae cynnydd enfawr o ran y nifer o gŵn sy'n cael eu dwyn. I lawer o berchnogion anifeiliaid anwes, nid oes dim a all gymryd lle eu ci, ac eto 3 y cant yn unig o achosion o ddwyn cŵn yng Nghymru sydd wedi arwain at rywun yn cael ei gyhuddo. Yn ddiweddar, clywais am ast sbaniel a saith ci bach yn cael eu dwyn, a chlywn yn awr am eiddo'n cael eu marcio, gyda phobl yn mynd yn ôl wedyn i ddwyn y cŵn. Mae'r cŵn hyn, yn amlwg, yn rhan fawr iawn o'r teulu, ac mae'n peri gofid mawr. Deallaf fod tua 500 o gŵn, rwy'n meddwl, wedi cael eu dwyn yng Nghymru. Beth rydych yn ei wneud, o ran gweithio gyda'r RSPCA, yr awdurdodau lleol a'r heddlu, er mwyn sicrhau bod rhywfaint o orfodaeth yn y cyswllt hwn, gan ei bod yn datblygu'n broblem ddifrifol tu hwnt?

14:11 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that question. Clearly, it would be extremely distressing for people if they had any of their pets stolen—not least a dog, as a dog lover myself. I will discuss this in my meeting with the police lead on animal welfare in due course; I'm intending to meet with him shortly. Also, our work that we're doing on introducing compulsory microchipping will, I hope, help us in future, in terms of reuniting owners with dogs but also providing evidence when dogs have been stolen.

Diolch i chi am eich cwestiwn. Yn amlwg, byddai'n peri gofid eithriadol i bobl pe bai unrhyw un o'u hanifeiliaid anwes yn cael eu dwyn—heb sôn am gi, fel un sy'n hoff o gŵn fy hun. Byddaf yn trafod hyn yn fy nghyfarfod gydag arweinydd yr heddlu ar les anifeiliaid maes o law; rwy'n bwriadu cael cyfarfod ag ef yn fuan. Hefyd, bydd y gwaith rydym yn ei wneud ar gyflwyno microsglodynnu gorfodol, gobeithio, yn ein helpu yn y dyfodol, o ran dod â pherchnogion â'u cŵn yn ôl at ei gilydd, ond hefyd o ran darparu tystiolaeth pan fydd cŵn yn cael eu dwyn.

14:12 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a gaf i ategu'r hyn yr oedd Julie Morgan yn ei ddweud ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod undeb y gweithwyr post yn rhan annatod o'ch adolygiad—nid yn unig eu bod nhw'n cael y cyfle i roi tystiolaeth ond eu bod yn teimlo perchnogaeth dros unrhyw argymhellion a fydd yn cael eu cyflwyno? Oherwydd, os nad ydy hynny yn digwydd, wrth gwrs, mae yna wrthdaro yn mynd i godi os nad ydynt yn teimlo bod eu pryderon nhw wedi cael gwrandawiad teg ac wedi cael y cyfle i fwydo i mewn i unrhyw benderfyniadau yr ydych yn eu gwneud?

Minister, may I endorse the words of Julie Morgan about the importance of ensuring that the post office workers' union is an integral part of your review—not only that they are given the opportunity to give evidence, but that they feel ownership over any recommendations made? Because, if that doesn't happen, of course, conflict will arise if they don't feel that their concerns have been given a fair hearing and they've had an opportunity to feed into any decisions you take?

14:12 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I take that fully on board, and, obviously, welcome any input from the CWU, or any other organisation that has an interest in animal welfare and the welfare of people who are working and living around animals as well.

Diolch yn fawr. Rwy'n derbyn hynny'n llwyr, ac yn amlwg, yn croesawu unrhyw gyfraniad gan Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu, neu unrhyw sefydliad arall sydd â diddordeb mewn lles anifeiliaid a lles y bobl sy'n gweithio ac yn byw o gwmpas anifeiliaid hefyd.

14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we move to the next question, I'm sure that Members will join me in welcoming a delegation of parliamentarians from the Parliament of Jordan, who have just joined us in the public gallery today—welcome.

Cyn i ni symud at y cwestiwn nesaf, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau yn ategu fy nghroeso i ddirprwyaeth o seneddwyr o Senedd Gwlad yr Iorddonen sydd newydd ymuno â ni yn yr oriel gyhoeddus heddiw—croeso.

We now move to question 11, Paul Davies.

Symudwn at gwestiwn 11, Paul Davies.

### Ffermwyr yn Sir Benfro

### Pembrokeshire Farmers

14:13 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ffermwyr yn Sir Benfro? OAQ(4)0290(NR)*

*11. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support farmers in Pembrokeshire? OAQ(4)0290(NR)*

14:13 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government is working to support the farming industry in Pembrokeshire, and in all parts of Wales, to become more profitable, sustainable, resilient and professionally managed.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gynorthwyo'r diwydiant ffermio yn Sir Benfro, ac ym mhob rhan o Gymru, i ddod yn fwy proffidiol, cynaliadwy a chydnerth, ac wedi'i reoli'n broffesiynol.

14:13 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Deputy Minister for that answer. There are still concerns in relation to the slow progress to achieve genuine simplification for livestock identification and movement controls, and you'll be aware that the National Farmers' Union argue that this simplification can only be achieved by the full implementation of the full package of measures in the 'Working Smarter' report. Can you tell us what progress has been made in this area, and can you confirm whether quarantine units, which were a key recommendation, will be introduced before the end of this Assembly term?

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei hymateb. Mae pryderon yn parhau ynghylch y cynnydd araf o ran sicrhau bod mesurau rheoli ar gyfer adnabod a symud da byw yn cael eu symleiddio mewn gwirionedd, a byddwch yn ymwybodol bod Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn dadlau mai'r unig ffordd o gyflawni'r broses symleiddio yw drwy weithredu'r pecyn llawn o fesurau yn adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' yn llawn. A allwch ddweud wrthym pa gynnydd a wnaed ar y mater hwn, ac a allwch gadarnhau pa un a fydd unedau cwarantîn, a oedd yn argymhelliad allweddol, yn cael eu cyflwyno cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn?

14:14 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The recommendation for quarantine units was part of Gareth Williams's 'Working Smarter' report, and you'll be aware that the Welsh Government accepted all of those recommendations in the report. The livestock identification advisory group and the standstill task and finish group have been working closely with my officials on the proposals for quarantine units. We are making some progress, and the quarantine units would, potentially, allow greater flexibility for farmers while maintaining important movement controls to prevent the spread of disease. At the moment, we're gathering information, and we've held workshops to consider the most effective ways to implement those quarantine units, how we would notify movements into them and out of them, and to monitor their use. So, obviously, this correlates quite closely to the work that we're doing on county parish holdings and EID Cymru as well. So, we'll continue to work with our stakeholders to develop these proposals, and I hope to be able to provide Members with a timescale for that before too long.

Roedd yr argymhelliad ar gyfer unedau cwarantîn yn rhan o'r adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' gan Gareth Williams a byddwch yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae'r grŵp cynghori ar adnabod da byw a'r grŵp gorchwyl a gorffen ar wahardd symud wedi bod yn gweithio'n agos gyda fy swyddogion ar y cynigion ar gyfer unedau cwarantîn. Rydym yn gwneud rhywfaint o gynnydd a byddai'r unedau cwarantîn, o bosibl, yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ffermwyr, gan gynnal mesurau rheoli symudiadau pwysig i atal y clefyd rhag lledaenu. Ar hyn o bryd, rydym yn casglu gwybodaeth ac rydym wedi cynnal gweithdai er mwyn ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o weithredu'r unedau cwarantîn, sut y byddem yn rhoi gwybod am symudiadau i mewn iddynt ac allan ohonynt, a monitro eu defnydd. Felly, yn amlwg, mae hyn yn cyfateb yn eithaf agos i'r gwaith rydym yn ei wneud ar rif daliadau ac EID Cymru hefyd. Felly, byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynigion ac rwy'n gobeithio y gallaf ddarparu amserlen ar gyfer hynny i'r Aelodau cyn bo hir.

14:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, mae ailethol Llywodraeth yn San Steffan o natur geidwadol yn golygu y bydd difa moch daear yn ôl ar yr agenda yn Lloegr. Mae'r Llywodraeth fan hyn wedi dewis trywydd gwahanol, yn benodol yn sir Benfro, ers rhai blynyddoedd bellach. Pan holais y cyn-Weinidog am hyn, nid oedd yn gallu rhoi tystiolaeth mai materion roedd y Llywodraeth wedi eu cyflwyno a oedd wedi arwain at y newid yn y lefel o'r diciâu ymysg gwartheg. A oes bellach dystiolaeth gan y Llywodraeth ynglŷn â'r cynllun yn sir Benfro a phryd bydd y Llywodraeth yn rhoi'r dystiolaeth yna drwy broses wyddonol a thechnegol i ni asesu effeithlonrwydd yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud?

Of course, the re-election of a Conservative Government in Westminster means that culling badgers will be back on the agenda in England. The Government here has chosen a different route, particularly in Pembrokeshire, over some years now. When I asked the former Minister about this issue, he couldn't provide evidence that issues introduced by Government had led to the change in the level of TB in cattle. Does the Government now have evidence about the Pembrokeshire programme, and when will the Government put that evidence through a scientific and technical process so that we can assess the efficiency of the Government's actions?

14:16 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I presume you're talking specifically about the vaccination of badgers in the intensive action area. We're just entering the fourth of five years of that badger vaccination programme. You'll be aware that, when the programme was announced, the experts behind that said that we wouldn't expect to see results from it, in terms of how that would impact on the spread of TB, until the end of the fifth year. We are providing annual reports—and I'll be publishing this year's annual report shortly—which outline the number of badgers that we've managed to vaccinate through the year, and so on, but in terms of having an impact on the disease picture in Pembrokeshire, we wouldn't expect to see that until the end of year five. What we have seen is a reduction in the number of new cases and the number of cattle slaughtered as a result of bovine TB, and that is as a result of a package of measures that we have in place, particularly the six-monthly testing in the intensive action area; I think that's probably the most effective thing. But also we're working hard to ensure that vets have extended roles with those persistent herd breakdowns, and so on. So, it's about a package of measures, rather than one specific measure, because there's no one thing that's going to solve this problem.

Rwy'n cymryd eich bod yn siarad yn benodol am frechu moch daear yn yr ardal triniaeth ddwys. Rydym ar fin dechrau'r bedwaredd flwyddyn o'r rhaglen frechu moch daear sy'n bum mlynedd i gyd. Fe fyddwch yn gwybod bod yr arbenigwyr a oedd ynghlwm wrth y rhaglen wedi dweud, pan gafodd ei chyhoeddi, na fyddem yn disgwyl gweld canlyniadau ohoni, o ran sut y byddai'n effeithio ar ledaeniad TB, tan ddiwedd y bumed flwyddyn. Rydym yn darparu adroddiadau blynyddol—a byddaf yn cyhoeddi adroddiad blynyddol eleni yn fuan—sy'n amlinellu nifer y moch daear rydym wedi llwyddo i'w brechu drwy'r flwyddyn, ac yn y blaen, ond o ran cael effaith ar y darlun o'r clefyd yn Sir Benfro, ni fyddem yn disgwyl gweld hynny tan ddiwedd y bumed flwyddyn. Yr hyn rydym wedi'i weld yw gostyngiad yn nifer yr achosion newydd a nifer y gwartheg a ledir o ganlyniad i TB mewn gwartheg, a chanlyniad i becyn o fesurau sydd gennym ar waith yw hynny, yn enwedig y profion bob chwe mis yn yr ardal triniaeth ddwys; rwy'n credu mai dyna'r peth mwyaf effeithiol yn ôl pob tebyg. Ond rydym hefyd yn gweithio'n galed i sicrhau bod gan filfeddygon rolau estynedig gyda buchesi sydd wedi'u heintio'n gyson, ac yn y blaen. Felly, mae'n ymwneud â phecyn o fesurau, yn hytrach nag un mesur penodol oherwydd nid oes un peth penodol sy'n mynd i ddatrys y broblem.

14:17

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

## 2. Questions to the for Communities and Tackling Poverty

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1 is Jenny Rathbone.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Daw cwestiwn 1 gan Jenny Rathbone.

**Trechu Tlodi**

**Tackling Poverty**

14:17 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd canlyniad etholiad cyffredinol y DU yn ei chael ar drechu tlodi? OAQ(4)0316(CTP)*

*1. What assessment has the Minister made of the impact that the outcome of the UK general election will have on tackling poverty? OAQ(4)0316(CTP)*

14:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Tackling poverty continues to be a priority for the Welsh Government. However, Conservative plans for £12 billion of unspecified benefit cuts will be damaging. Deep cuts to a wide range of public services will disproportionately affect families who cannot afford private alternatives. Generating jobs continues to be crucial; however, unchanged Conservative economic policies will make this more difficult.

Mae trechu tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd cynlluniau'r Ceidwadwyr ar gyfer £12 biliwn o doriadau amhenodol i fudd-daliadau yn niweidiol. Bydd toriadau dwfn i ystod eang o wasanaethau cyhoeddus yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd na allant fforddio dewisiadau eraill preifat. Mae creu swyddi yn parhau i fod yn hanfodol; fodd bynnag, bydd y ffaith nad yw polisïau economaidd y Ceidwadwyr wedi newid yn gwneud hyn yn anos.

14:18 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the outcomes of the general election is that 30,000 people will continue to be devastated by the impact of the bedroom tax, 20,000 of whom have a disabled member in their household. What strategy does the Government have to make suitable sized homes available for such people as a result of another five years of this incompetent, economically illiterate policy?

Un o ganlyniadau'r etholiad cyffredinol yw y bydd 30,000 o bobl yn dal i gael eu hanrheithio gan effaith y dreth ystafell wely, gydag 20,000 ohonynt â pherson anabl yn eu cartref. Pa strategaeth sydd gan y Llywodraeth i sicrhau bod cartrefi o faint addas ar gael i bobl o'r fath o ganlyniad i bum mlynedd arall o'r polisi di-glem ac economaidd anllythrennog hwn?

14:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, as a Government, we've been very proactive in helping people cope with the impacts of welfare reforms, including the bedroom tax, and we've invested £40 million in one and two-bedroomed socially rented homes; we're encouraging a much more strategic approach to the administration of discretionary housing payments by local authorities; and, most recently, we brokered a historic agreement with HM Treasury, which will result in greater investment in Wales's council housing, allowing local authorities to become self-financing.

Ie, fel Llywodraeth, rydym wedi bod yn rhagweithiol iawn yn helpu pobl i ymdopi ag effeithiau'r diwygiadau lles, gan gynnwys y dreth ystafell wely, ac rydym wedi buddsoddi £40 miliwn mewn cartrefi rhent cymdeithasol sydd ag un a dwy ystafell wely; rydym yn annog ymagwedd lawer mwy strategol at weinyddu taliadau tai yn ôl disgresiwn gan awdurdodau lleol; ac yn fwyaf diweddar, rydym wedi trefnu cytundeb hanesyddol gyda Thrysorlys EM a fydd yn arwain at fwy o fuddsoddi yn nhai cyngor Cymru, gan alluogi awdurdodau lleol i ariannu eu hunain.

14:19 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week saw the election of a strong Conservative Westminster Government committed to rewarding those who work hard with ambition, aspiration and achievement, and those who play by the rules. This Government supports those earning less than £12,500, or working for 30 hours on the minimum wage, that they should be taken out of income tax altogether. Also, they are committed to providing 30 hours of free childcare for three and four-year-olds, allowing parents back into work. Minister, do you not think it's the responsibility of you, the First Minister and this Governemnt to embrace these initiatives in order to support working households, allowing parents back into work? Do you not agree that this is one way to eradicate poverty in Wales, or do you believe that it's better to leave people floundering, dependent on the benefits system?

Weinidog, yr wythnos diwethaf gwelwyd ethol Llywodraeth Geidwadol gref yn San Steffan, yn ymroddedig i wobrwyo pobl weithgar gydag uchelgais, dyhead a chyflawniad, ac sy'n dilyn y rheolau. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r rhai sy'n ennill llai na £12,500 neu sy'n gweithio am 30 awr am yr isafswm cyflog, gan farnu na ddylent dalu unrhyw dreth incwm o gwbl. Hefyd, maent wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr o ofal plant am ddim i blant tair a phedair blwydd oed, gan ganiatáu i rieni ddychwelyd i'r gwaith. Weinidog, onid ydych yn meddwl mai eich cyfrifoldeb chi, y Prif Weinidog a'r Llywodraeth hon yw croesawu'r camau hyn er mwyn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio, gan ganiatáu i rieni ddychwelyd i'r gwaith? Onid ydych yn cytuno bod hon yn un ffordd o ddileu tlodi yng Nghymru neu a ydych yn credu ei bod yn well gadael pobl i ymbalfalu, yn ddibynnol ar y system fudd-daliadau?

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This Welsh Labour socialist Government will certainly not be embracing Tory policy. We have many policies and programmes ourselves that help parents into work. We support them with childcare. We do all we can to ensure that the housing stock that we have in Wales is fit for people to live in—so, I'm sorry, I will take no lessons from any Tory. [Interruption.]

Ni fydd Llywodraeth Lafur Cymru sosialaidd yn croesawu polisi'r Torïaid, yn sicr. Mae gennym lawer o bolisïau a rhaglenni ein hunain sy'n helpu rhieni i gael gwaith. Rydym yn eu cefnogi gyda gofal plant. Rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y stoc dai sydd gennym yng Nghymru yn addas i bobl fyw ynddynt—felly, mae'n ddrwg gen i, nid wyf am dderbyn unrhyw wersi gan unrhyw Dorïaid. [Torri ar draws.]

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thought the election was over last week, but obviously I was mistaken. Rhodri Glyn Thomas.

Roeddwn yn meddwl fod yr etholiad drosodd yr wythnos diwethaf ond mae'n amlwg fy mod wedi camgymryd. Rhodri Glyn Thomas.

14:20 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe ddywedwyd wrthym ni yn ystod yr etholiad cyffredinol i bleidleisio Llafur er mwyn cael gwared â'r dreth ystafell wely. Fe wnaeth yna ganran uchel o boblogaeth Cymru bleidleisio Llafur, ac mae'r dreth ystafell wely yn dal gyda ni—yr unig wlad ddatganoledig o fewn y Deyrnas Unedig lle mae'r dreth ystafell wely yn bodoli. Beth ydych chi fel Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud er mwyn cael gwared â'r dreth anghyfiawn yma?

We were told during the general election campaign that we should vote Labour in order to get rid of the bedroom tax. A high percentage of the population of Wales voted Labour and the bedroom tax remains with us—the only devolved nation within the United Kingdom where the bedroom tax exists. What do you as Welsh Government intend to do in order to get rid of this unjust tax?

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as a Government, we can't get rid of that very spiteful bedroom tax. What we can do is what I answered to the original question to Jenny Rathbone: we can do all we can to ensure we have one and two-bedroomed houses. Previously, I think house building has focused more on larger homes for families, but we certainly need to look at the provision of one and two-bedroomed houses.

Wel, fel Llywodraeth, ni allwn gael gwared ar y dreth ystafell wely sbeitlyd honno. Yr hyn y gallwn ei wneud yw'r hyn a roddais yn ateb i'r cwestiwn gwreiddiol gan Jenny Rathbone: gallwn wneud popeth a allwn i sicrhau bod gennym dai ag un a dwy ystafell wely. Yn flaenorol, credaf fod adeiladu tai wedi canolbwyntio mwy ar gartrefi mwy o faint ar gyfer teuluoedd ond yn sicr mae angen i ni edrych ar ddarparu tai ag un a dwy ystafell wely.

### Adfywio Canol Trefi

### Town Centre Regeneration

14:21 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio canol trefi? OAQ(4)0313(CTP)*

*2. Will the Minister make a statement on town centre regeneration? OAQ(4)0313(CTP)*

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We are regenerating our town centres through our 'Vibrant and Viable Places' programme, business improvement districts, town-centre partnerships funding, and recyclable loans. A second high street campaign planned for September will focus on raising awareness of and supporting our high streets.

Diolch yn fawr. Rydym yn adfywio canol ein trefi gyda'n rhaglen 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', ardaloedd gwella busnes, cyllid partneriaethau canol trefi a benthyciadau ailgylchadwy. Bydd ail ymgyrch stryd fawr a gynlluniwyd ar gyfer mis Medi yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r stryd fawr yn ein trefi, a'u cefnogi.

14:21 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Raising footfall through our town centres is obviously critical, and whilst planning issues don't fall within your remit, of course, housing does. Will you write to Welsh local authorities and ask them what they're doing to make sure that homes and offices are being built within town and city centres, to ensure that the footfall from those businesses and those homes goes where it ought to, rather than drives out to out-of-town developments?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol ein trefi yn amlwg yn bwysig ac er nad yw materion cynllunio wedi'u cynnwys yn eich cylch gwaith, mae tai wrth gwrs. A fyddwch yn ysgrifennu at awdurdodau lleol Cymru i ofyn iddynt beth y maent yn ei wneud i sicrhau bod cartrefi a swyddfeydd yn cael eu hadeiladu yng nghanol trefi a dinasoedd, er mwyn sicrhau bod busnes y bobl o'r busnesau a'r cartrefi hynny yn mynd i lle y dylai, yn hytrach na'u bod yn gyrru i ddatblygiadau ar gyrion y dref?

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I think the Member raises a very important point, and it's very good to see, through 'Vibrant and Viable Places' for instance, that local authorities that are receiving that funding, are looking at putting properties—particularly vacant properties above shops—back into the housing area. I'm certainly very happy to write to local authorities, but they are discussions I'm having. I met with the Welsh Local Government Association spokesperson for regeneration yesterday, for instance, and it was something we discussed. But, I do think local authorities are starting to look at what they can do to diversify our town centres, and I think housing is one area where they are making real progress.

Byddaf. Rwy'n credu bod yr Aelod yn crybwyll pwynt pwysig iawn ac mae'n dda iawn gweld, drwy 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', er enghraifft, fod awdurdodau lleol sy'n cael y cyllid hwnnw yn edrych ar ddod ag eiddo—yn enwedig eiddo gwag uwchben siopau—yn ôl i ddefnydd fel cartrefi. Rwy'n sicr yn hapus iawn i ysgrifennu at awdurdodau lleol ond maent yn drafodaethau rwyf eisoes yn eu cael. Cyfarfûm â llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar adfywio ddoe, er enghraifft, ac roedd yn rhywbeth y buom yn ei drafod. Ond credaf fod awdurdodau lleol yn dechrau edrych ar yr hyn y gallant ei wneud i amrywio canol ein trefi a chredaf fod tai yn un maes lle y maent yn gwneud cynnydd gwirioneddol.

14:22 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's a very good question from Eluned Parrott. It's now been three years—just over three years—since the Enterprise and Business Committee commissioned the report into town centre regeneration. That report found that, in some cases, not only was accommodation above shops vacant, but shop owners had actually removed staircases and access to those areas in order to maximise the amount of space on the ground floor. Can you tell us, in that instance, what the Government is doing to make sure that the accommodation above shops is being fully used in order to increase footfall through our town centres at all times of the day?

Mae'n gwestiwn da iawn gan Eluned Parrott. Mae tair blynedd wedi bod bellach—ychydig dros dair blynedd—ers i'r Pwyllgor Menter a Busnes gomisiynu'r adroddiad ar adfywio canol trefi. Canfu'r adroddiad, mewn rhai achosion, nid yn unig fod llefydd byw uwchben siopau yn wag, ond bod perchnogion siopau wedi cael gwared ar risiau a mynediad i'r mannau hynny er mwyn creu mwy o le ar y llawr gwaelod. A allwch ddweud wrthym, yn yr achos hwn, beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod defnydd llawn yn cael ei wneud o'r llefydd byw uwchben siopau er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr drwy ganol ein trefi ar bob adeg o'r dydd?

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Yes, I've recently reread that report, because I just a couple of weeks ago gave evidence myself on the report to the same committee. I reiterate what I said in my answer to Eluned Parrott. I think it is about making sure, for instance, that we continue to—. We've given funding for the development of town centre partnerships, for instance, and again, it's about supporting the diversification of our town centres by promoting alternative residential uses, which is what you're referring to, and also leisure. So, I think it is really about diversification. We are supporting local authorities in doing this with a variety of schemes.

Diolch yn fawr. Ie, ailddarllenais yr adroddiad yn ddiweddar oherwydd fy mod innau wedi rhoi tystiolaeth fy hun ar yr adroddiad i'r un pwyllgor wythnos neu ddwy yn ôl. Rwy'n ailadrodd yr hyn a ddywedais yn fy ateb i Eluned Parrott. Credaf ei fod yn ymwneud â gwneud yn siŵr, er enghraifft, ein bod yn parhau i—. Rydym wedi rhoi arian ar gyfer datblygu partneriaethau canol trefi, er enghraifft, ac unwaith eto, mae'n ymwneud â chefnogi amrywiaeth yng nghanol ein trefi drwy hyrwyddo mathau amgen o ddefnydd preswyl, sef yr hyn rydych yn cyfeirio ato, a defnydd hamdden, yn ogystal. Felly, rwy'n credu ei fod yn ymwneud â sicrhau amrywiaeth mewn gwirionedd. Rydym yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud hyn gydag amryw o gynlluniau.

14:24 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod angen mwy o flaenoriaeth i deithwyr ac ymwelwyr o bob math â chanol trefi, a bod hyn yn cysylltu, o angenrheidrwydd, gyda gwell trafnidiaeth gyhoeddus integredig a hwylustod, yn arbennig i feicwyr a cherddwyr, rhag peryglon moduron sydd yn dal i yrru'n rhy gyflym drwy ganol trefi?

Would the Minister agree that greater priority needs to be given to travellers and visitors of all kinds to town centres, and that this necessarily links with better integrated public transport, keeping pedestrians and cyclists, particularly, safe from the dangers of vehicles that still drive too quickly through our town centres?

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, clearly that is an issue for many of our town centres. Recently, over the Easter recess, I visited Fishguard, and had a look at what they were doing to regenerate the town centre there. They were trying to think of different ways to do that, to bring in visitors who will be coming in on the cruise ships, for instance, because that's something that is being done in that particular area of the world, and how they can bring people up by public transport and also protect the town centre and the pedestrianised areas.

Byddwn, mae'n amlwg fod honno'n broblem i lawer o ganol trefi. Yn ddiweddar, dros doriad y Pasg, ymwelais ag Abergwaun a chefais gip ar yr hyn y maent yn ei wneud i adfywio canol y dref yno. Roeddent yn ceisio meddwl am ffyrdd gwahanol o wneud hynny, i ddenu ymwelwyr a fydd yn cyrraedd ar longau mordeithio i'r dref, er enghraifft, gan fod hynny'n rhywbeth sy'n cael ei wneud yn y rhan benodol honno o'r byd, a sut y gallant gludo pobl drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a diogelu canol y dref a'r ardaloedd i gerddwyr yn unig hefyd.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is Welsh Conservatives' spokesperson, Mohammad Asghar.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mohammad Asghar.

14:25 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Madam Presiding Officer. Analysis by the Social Mobility and Child Poverty Commission reveals that parenting has a bigger influence on a child's life chances in the early years than education, wealth or class. What priority does the Communities First programme give to supporting parents to ensure children make the most of their education opportunities to maximise their life chances, Minister?

Diolch i chi, Madam Llywydd. Mae dadansoddiad gan y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn dangos bod rhianta'n dylanwadu mwy ar gyfleoedd bywyd plentyn yn y blynyddoedd cynnar nag addysg, cyfoeth a dosbarth cymdeithasol. Pa flaenoriaeth y mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ei roi i gynorthwyo rhieni i sicrhau bod plant yn manteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd addysg er mwyn gwneud y gorau o'u cyfleoedd mewn bywyd, Weinidog?

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, that's a very important point that you raise, and, clearly, parents are the biggest influence in a young child's life right from the beginning. All of our programmes, our tackling poverty programmes in particular, work very hard to promote positive parenting, for instance. That is within Communities First. It's been in Flying Start and in Families First, and that is work that I will continue to take forward.

Ie, rydych yn gwneud pwynt pwysig iawn ac yn amlwg, rhieni yw'r dylanwad mwyaf ar fywyd plentyn ifanc o'r dechrau un. Mae pob un o'n rhaglenni, ein rhaglenni trechu tlodi yn arbennig, yn gweithio'n galed iawn i hyrwyddo rhianta cadarnhaol, er enghraifft. Mae hynny wedi'i gynnwys yn Cymunedau yn Gyntaf. Mae wedi'i gynnwys yn Dechrau'n Deg ac yn Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae'n waith y byddaf yn parhau i fwrw ymlaen ag ef.

14:26 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. According to Leonard Cheshire Disability, 60 per cent of councils in Wales had examples of disabled people waiting more than two years for payment of their disabled facilities grants. Torfaen and Newport councils reported waits of over three years. What action will the Minister take to ensure consistency among the local authorities on the delivery of disabled facilities grants?

Diolch yn fawr, Weinidog. Yn ôl Leonard Cheshire Disability, roedd gan 60 y cant o gynghorau yng Nghymru enghreifftiau o bobl anabl yn aros mwy na dwy flynedd am daliadau eu grantiau cyfleusterau i'r anabl. Nododd cynghorau Torfaen a Chasnewydd fod pobl wedi gorfod aros am fwy na thair blynedd. Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu rhoi ar waith i sicrhau cysondeb ymhlith yr awdurdodau lleol o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl?

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Clearly, it's unacceptable to have that inconsistency and that variation right across Wales. Some local authorities have very short times for that and, as you said, some have very long times. When I was in my previous portfolio, I did a great deal of work with local authorities, explaining that it was completely inappropriate for people to have to wait that long. Its work that I'm continuing to do in my discussions with my colleague the Minister for Public Services.

Yn amlwg, mae'n annerbyniol fod anghysondeb ac amrywio ledled Cymru. Mae gan rai awdurdodau lleol amseroedd aros byr iawn ac fel y dywedoch chi, mae gan rai amseroedd aros hir iawn. Yn fy mhortffolio blaenorol, gweithiais lawer gydag awdurdodau lleol, gan egluro ei bod yn gwbl amhriodol fod pobl yn gorfod aros cyhyd. Mae'n waith rwy'n parhau i'w wneud yn fy nhrafodaethau â'm cyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.

14:27 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. The organisation, Show Racism the Red Card, works on the premise that better community relations are fostered by teaching children about equality. Schoolchildren from across Wales have been given awards by the charity in recognition of their work on anti-racism-in-sports projects. Will the Minister join me in congratulating Show Racism the Red Card on their initiative and those children whose work on this project has been recognised?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae'r sefydliad, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, yn gweithio ar y cynsail fod cysylltiadau cymunedol gwell yn cael eu meithrin drwy addysgu plant am gydraddoldeb. Mae disgyblion ysgol o bob cwr o Gymru wedi derbyn gwobrau gan yr elusen i gydnabod eu gwaith ar brosiectau gwrth-hiliaeth mewn chwaraeon. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ar eu blaengaredd a'r plant y mae eu gwaith ar y prosiect wedi'i gydnabod?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. I am very happy to share in your congratulations. I think that Show Racism the Red Card is an excellent organisation. I've had dealings with them previously as an Assembly Member, and it's really good to see the way they interact with young children. As you say, it's absolutely important that, for community cohesion, we start with children at a very young age.

Yn bendant. Rwy'n hapus iawn i ategu eich llongyfarchiadau. Credaf fod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn sefydliad ardderchog. Bûm yn ymwneud â hwy yn flaenorol fel Aelod Cynulliad ac mae'n wirioneddol dda gweld y ffordd y maent yn rhyngweithio gyda phlant ifanc. Fel y dywedwch, mae'n hollbwysig ein bod yn dechrau gyda phlant ar oedran ifanc iawn er mwyn sicrhau cydlyniant cymunedol.

14:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now we move to the Plaid Cymru spokesperson, Jocelyn Davies.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Jocelyn Davies.

14:28 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, what assessment has the Welsh Government made of the impact of today's Supreme Court judgment on Hotak v. London Borough of Southwark in relation to the interpretation and implementation of the Housing Act 1996?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith dyfarniad y Goruchaf Lys heddiw ar Hotak v. London Borough of Southwark mewn perthynas â dehongli a gweithredu Deddf Tai 1996?

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is something I've asked my officials to look at.

Mae hwn yn fater rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych arno.

14:28 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. Well, Minister, you'll know that I warned the Government during the passage of the Housing Act that the test for vulnerability, the Pereira test, being put on the face of the Bill was the wrong test. And you'll know also that Leanne Wood has raised this with you directly in this Chamber. We now know that the Supreme Court judges agree, saying that it

Iawn. Wel, Weinidog, fe fyddwch yn gwybod fy mod wedi rhybuddio'r Llywodraeth yn ystod taith y Ddeddf Tai mai'r prawf ar gyfer bod yn agored i niwed, prawf Pereira, yw'r prawf anghywir i'w roi ar wyneb y Bil. Ac fe fyddwch yn gwybod hefyd fod Leanne Wood wedi tynnu eich sylw at hyn yn uniongyrchol yn y Siambr. Rydym bellach yn gwybod bod barnwyr y Goruchaf Lys yn cytuno, gan ddweud ei fod

'would be more likely to lead to arbitrary and unpredictable outcomes'

'yn fwy tebygol o arwain at ganlyniadau mympwyol ac anrhagweladwy'

and that there's a real risk that sick and vulnerable individuals are going to be put out onto the streets. Is the Welsh Government now concerned that vulnerable people, homeless people, in Wales, will get less protection than those in England?

a bod perygl gwirioneddol fod unigolion sâl ac agored i niwed yn cael eu troi allan ar y strydoedd. A yw Llywodraeth Cymru bellach yn bryderus y bydd pobl agored i niwed, pobl ddigartref, yng Nghymru, yn cael llai o ddiogelwch na'r rhai yn Lloegr?

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, this is something I have asked, as I say, my officials to look at. I think we are doing a great deal of work to prevent homelessness. You'll be aware of what came out of the Housing (Wales) Act 2014, and certainly the regulations that have commenced just a few weeks ago in April will help prevent that. So, anything that we think could undo that good work is obviously a great concern.

Wel, mae hyn yn rhywbeth rwyf wedi'i ofyn i fy swyddogion edrych arno, fel y dywedais. Rwy'n credu ein bod yn gweithio'n galed i atal digartrefedd. Fe fyddwch yn ymwybodol o'r hyn a ddaeth o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a bydd y rheoliadau a ddechreuodd ychydig wythnosau yn ôl ym mis Ebrill yn sicr yn helpu i atal hynny. Felly, mae unrhyw beth y credwn y gallai ddadwneud y gwaith da yn amlwg yn bryder mawr.

14:29 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Thank you, Minister. Following the judgment, will you agree now to look again at the amendments that I tabled at Stage 2 and Stage 3 of the Act's passage to ensure that the vulnerability of those facing homelessness in Wales is assessed using the test that is fair and just? Will you revisit the Act and amend it accordingly, as a true socialist would do?

Ydy. Diolch yn fawr, Weinidog. Yn dilyn y dyfarniad, a wnewch chi gytuno yn awr i edrych eto ar y gwelliannau a gyflwynais yng Ngham 2 a Cham 3 o daith y Ddeddf i sicrhau bod natur agored i niwed y rhai sy'n wynebu digartrefedd yng Nghymru yn cael ei hasesu gan ddefnyddio'r prawf sy'n deg a chyfiawn? A wnewch chi edrych eto ar y Ddeddf a'i diwygio yn unol â hynny, fel y byddai gwir sosialydd yn ei wneud?

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I will certainly ask my officials to bring forward some advice for me. I'm very happy to have a discussion with the Member on how we look at this and take it forward.

Wel, byddaf yn sicr yn gofyn i fy swyddogion roi rhywfaint o gyngor i mi. Rwy'n hapus iawn i gael trafodaeth gyda'r Aelod ar y modd rydym yn edrych ar hyn ac yn ei symud yn ei flaen.

14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, what criteria does the Welsh Government use when making assessments as to which credit unions should receive financial support, if they are to merge?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, pa feini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio wrth wneud asesiadau ynglŷn â pha undebau credyd a ddylai gael cymorth ariannol, os ydynt yn mynd i uno?

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You'll be aware of my encouragement to promote credit unions. There are very few of them that do want to merge. Not all of them want funding, but we look at them on a case-by-case basis.

Byddwch yn gwybod am fy anogaeth i hyrwyddo undebau credyd. Ychydig iawn ohonynt sydd eisiau uno. Nid yw pob un ohonynt eisiau arian ond rydym yn edrych arnynt fesul achos.

14:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. You'll be aware, of course, that the Welsh Government has recently given £121,000 to facilitate the merger of the North Wales Credit Union with Hafren Credit Union, which is based in Powys. It hasn't given any money, of course, to Red Kite Credit Union or Brecon & District Credit Union, which are both based in Powys, and, in one case, actually have a strategic alliance with Hafren, with whom they jointly offer a service to housing providers in the region. Would this money not have been better spent establishing a common back-office system for Welsh credit unions to ensure that they're able to achieve substantial efficiencies and economies of scale?

Diolch i chi, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £121,000 yn ddiweddar i hwyluso'r broses o uno Undeb Credyd Gogledd Cymru gydag Undeb Credyd Hafren, sydd wedi'i leoli ym Mhowys. Nid yw wedi rhoi unrhyw arian i Undeb Credyd Barcud Coch nac Undeb Credyd Aberhonddu a'r Cylch, wrth gwrs, sydd ill dau wedi'u lleoli ym Mhowys ac mewn un achos, mae ganddynt gynghrair strategol gyda Hafren ac yn cynnig gwasanaeth ar y cyd â hwy i ddarparwyr tai yn y rhanbarth. Oni fyddai wedi bod yn well pe bai'r arian wedi'i wario ar sefydlu system cefn swyddfa gyffredin ar gyfer undebau credyd yng Nghymru i sicrhau eu bod yn gallu darparu arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac arbedion maint?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very keen for credit unions to merge where they can, but, as I said, not all of them want to and not all of them want to receive funding from us. I think the most important thing is that we do make them sustainable. You're asking me would it be a better use of money. Well, decisions have to be taken on the basis that they're taken. I'm very happy to look at what is coming out of credit unions coming forward. What I really want to see is more credit unions working with the private sector, and I'm holding a credit union conference next month, where these items will be discussed.

Rwy'n awyddus iawn i undebau credyd uno lle y gallant ond fel y dywedais, nid yw pob un ohonynt yn awyddus i wneud ac nid yw pob un ohonynt yn awyddus i gael cyllid gennym. Eu gwneud yn gynaliadwy yw'r peth pwysicaf, rwy'n credu. Rydych yn gofyn i mi a fyddai'n well defnydd o arian. Wel, rhaid gwneud penderfyniadau ar y sail y'u gwneir. Rwy'n hapus iawn i edrych ar yr hyn sy'n dod gan yr undebau credyd wrth symud ymlaen. Yr hyn rwy'n awyddus iawn i'w weld yw mwy o undebau credyd yn gweithio gyda'r sector preifat ac rwy'n cynnal cynhadledd i undebau credyd y mis nesaf lle y caiff yr eitemau hyn eu trafod.

14:31 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I think a common back-office system would certainly help towards making all the credit unions sustainable. The credit union liaison group, which draws its membership from all Welsh credit unions, whether they're in the Association of British Credit Unions Ltd, Access to Credit Unions for Everyone or have no trade body affiliation, according to my understanding, has not met in the last year. I also understand that the ministerial advisory group set up by your predecessor has never met either. In the light of this, could you tell me how you're actually liaising with the credit union movement?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n credu y byddai system cefn swyddfa gyffredin yn sicr yn helpu tuag at wneud yr holl undebau credyd yn gynaliadwy. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid yw grŵp cyswllt yr undebau credyd, sy'n denu aelodau o holl undebau credyd Cymru, pa un a ydynt yn aelodau o'r Association of British Credit Unions Ltd, Access to Credit Unions for Everyone neu heb ymlyniad at gorff masnach, wedi cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n deall hefyd nad yw grŵp cynghori'r Gweinidog a sefydlwyd gan eich rhagflaenydd erioed wedi cyfarfod chwaith. Yng ngoleuni hyn, a allech ddweud wrthyf sut rydych yn ymgysylltu â'r mudiad undebau credyd?

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I meet with the chairs on a regular basis. One of the reasons I'm holding a conference is to bring everybody together in one place. I've worked with companies such as Airbus in north-east Wales, in my colleague Carl Sargeant's constituency. They are introducing a direct-from-salary way of saving for their members; they're the first private sector company to do so. And I've held several meetings with, as I say, individual chairs over the past eight months or so. But, next month, when we do have the credit union conference, is an opportunity to bring everybody together.

Byddaf yn cyfarfod â'r cadeiryddion yn rheolaidd. Un o'r rhesymau pam rwy'n cynnal cynhadledd yw er mwyn dod â phawb at ei gilydd mewn un man. Rwyf wedi gweithio gyda chwmnïau fel Airbus yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yn etholaeth fy nghydweithiwr, Carl Sargeant. Maent yn cyflwyno ffordd o gynilo'n uniongyrchol o gyflogau i'w haelodau; dyma'r cwmni cyntaf yn y sector preifat i wneud hynny. Ac fel y dywedais, rwyf wedi cynnal sawl cyfarfod gyda chadeiryddion unigol dros yr wyth mis diwethaf. Ond bydd y gynhadledd i undebau credyd a gynhelir y mis nesaf yn gyfle i ddod â phawb at ei gilydd.

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Alun Ffred Jones.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur ac mae cwestiwn 3 gan Alun Ffred Jones.

### Mynd i'r Afael â Thlodi

### Tackling Poverty

14:32 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A oes gan y Gweinidog dargedau CAMPUS ar gyfer mynd i'r afael â thlodi? OAQ(4)0315(CTP)*

*3. Does the Minister have SMART targets for tackling poverty? OAQ(4)0315(CTP)*

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Our 'Tackling Poverty Action Plan 2012-2016' sets out measurable targets and milestones to support better outcomes for those living in poverty. These targets reflect the levers available to us around health, education and reducing worklessness, which are the areas where we have the opportunities to make a real difference.

Diolch. Mae ein 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016' yn nodi targedau a cherrig milltir mesuradwy i gefnogi gwell canlyniadau ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae'r targedau hyn yn adlewyrchu'r dulliau sydd ar gael i ni mewn perthynas ag iechyd, addysg a lleihau diweithdra, sef y meysydd lle y mae gennym gyfleoedd i wneud gwahaniaeth go iawn.

14:33 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Mae'r targedau SMART, yn ôl fel rwy'n deall, yn gorfod bod yn rhai 'specific', 'measurable', 'assignable', 'realistic' a 'time-related.' Pa darged SMART o fewn eich strategaeth gwrthdlodi sydd wedi profi'n fwyaf effeithiol?

Thank you. SMART targets, as I understand it, have to be specific, measurable, assignable, realistic and time-related. What SMART target within your anti-poverty strategy has proved to be most effective?

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's 'achievable'; I'm not quite sure if the translation was correct. And I think that is the word that our targets absolutely have to be: the 'A'—the 'achievable'—is the most important. Certainly, within the 'Tackling Poverty Action Plan 2012-2016', and the revised child poverty strategy, there are targets that are absolutely key to us achieving that. You'll be aware of the revised child poverty strategy, which we've just brought forward. That maintains the Welsh Government's ambition to eradicate child poverty by 2020, which I accept is very challenging, but I think it's absolutely right that we have that ambition. I think it's really important that the actions and the commitments that we have help us to reach those targets.

Rwy'n credu ei fod 'achievable'; nid wyf yn hollol siŵr os oedd y cyfieithiad yn gywir. Ac rwy'n credu mai dyna'r gair sy'n rhaid i'n targedau fod: yr 'A'—yr 'achievable'—yw'r pwysicaf. Yn sicr, o fewn y 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016', a'r strategaeth tlodi plant ddiwygiedig, ceir targedau sy'n gwbl allweddol i ni gyflawni hynny. Fe wyddoch am y strategaeth tlodi plant ddiwygiedig yr ydym newydd ei chyflwyno. Mae'n cynnal uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020, sy'n heriol iawn, rwy'n derbyn, ond credaf ei bod yn gwbl briodol fod gennym yr uchelgais hwnnw. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn fod y camau gweithredu a'r ymrwymiadau sydd gennym yn ein helpu i gyrraedd y targedau.

14:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydych chi'n dal i ddweud wrthym ni eich bod chi'n mynd i gael gwared ar dlodi plant erbyn 2020. Hefyd, wrth ystyried adroddiad pwyllgorau yn 2008 a 2011, a oedd yn dweud nad oedd eich targedau yn rhai y gallwn ni ddibynnu arnyn nhw er mwyn i ni graffu ar lwyddiant y Llywodraeth ai peidio, mae'r ymgynghoriad rydych chi wedi cyfeirio ato, ar y strategaeth newydd, yn dweud, ar dudalen 19:

You are still telling us that you are going to eradicate child poverty by 2020. Also, in considering the committee reports of 2008 and 2011, which stated that your targets are not one on which we can rely when it comes to scrutinising the Government's success or otherwise, the consultation that you have referred to, on the new strategy, states on page 19:

We will report on progress and key population indicators on child poverty and commit to reporting on these annually where data is available.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd a dangosyddion poblogaeth allweddol ar dlodi plant ac yn ymrwymo i adrodd ar y rhain yn flynyddol lle y mae data ar gael.

Ym mhle nad yw'r data ar gael ar hyn o bryd?

Where are the data not available currently?

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will be aware that we have recently published our revised child poverty strategy, and, during the consultation, the question about 2020 was asked. I absolutely think it's right that we've maintained that ambition; I absolutely accept it's very challenging, particularly given the thought of another five years of a Tory Government in Westminster. However, the stakeholders that I've engaged with, and the feedback that came through for the strategy, was that we should maintain that. The data are available, and I have produced a great deal of feedback, following the consultation, which is available to all Members.

Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod wedi cyhoeddi ein strategaeth tlodi plant ddiwygiedig yn ddiweddar ac yn ystod yr ymgynghoriad, gofynnwyd y cwestiwn ynglŷn â 2020. Rwyf yn meddwl o ddifrif ei bod yn briodol ein bod wedi cynnal yr uchelgais hwnnw; rwy'n derbyn yn llwyr ei fod yn heriol iawn, yn enwedig o ystyried y syniad o bum mlynedd arall o Lywodraeth Doriaidd yn San Steffan. Fodd bynnag, mae'r rhanddeiliaid rwyf wedi ymgysylltu â hwy a'r adborth a ddaeth ar y strategaeth yn dweud y dylem gadw at hynny. Mae'r data ar gael ac rwyf wedi cynhyrchu llawer o adborth yn dilyn yr ymgynghoriad, sydd ar gael i bob Aelod.

### Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol

### The National Advice Network

14:35 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol? OAQ(4)0322(CTP)*

*4. Will the Minister provide an update on the National Advice Network? OAQ(4)0322(CTP)*

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. The National Advice Network has hit the ground running. Initial priorities include a comprehensive analysis of current services, including gaps in provision and a separate needs analysis. A comprehensive work plan for the year is currently being finalised.

Diolch. Mae'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol wedi cael dechrau da. Mae'r blaenoriaethau cychwynnol yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o wasanaethau cyfredol, gan gynnwys bylchau yn y ddarpariaeth a dadansoddiad o anghenion ar wahân. Mae cynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

14:36

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. You will be aware that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 places a duty on local authorities to ensure the provision of information and advice on matters of care and support. Statistics show that, unfortunately, many of the older people or those with disabilities who will be making use of these services will also be facing financial hardship. Do you agree with me, Minister, that it would make sense to link the National Advice Network to the information services provided under the Act?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth a chyngor ar faterion gofal a chymorth. Mae ystadegau'n dangos, yn anffodus, y bydd llawer o'r bobl hŷn neu'r bobl ag anableddau a fydd yn defnyddio'r gwasanaethau hefyd yn wynebu caledi ariannol. A ydych yn cytuno â mi, Weinidog, y byddai'n gwneud synnwyr i gysylltu'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol â'r gwasanaethau gwybodaeth a ddarperir o dan y Ddeddf?

14:36

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A networked approach was absolutely a key recommendation of the advice service review, back in May 2013, and what the National Advice Network will do is develop much stronger networks, through a much more strategic approach to information and advice delivery across Wales. That will involve working with a range of stakeholders, and that will include those who've got responsibility for providing information and advice on matters of care and support, as, often, as you say, there are cases of financial hardship in those particular cases.

Roedd dull rhwydweithiol yn sicr yn un o argymhellion allweddol adolygiad y gwasanaeth cynghori ym mis Mai 2013 a'r hyn y bydd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn ei wneud yw datblygu rhwydweithiau llawer cryfach drwy ymagwedd lawer mwy strategol at gyflwyno gwybodaeth a chyngor ledled Cymru. Bydd yn golygu gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, a fydd yn cynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwybodaeth a chyngor ar faterion gofal a chymorth oherwydd, yn aml, fel y dywedwch, mae enghreifftiau o galedi ariannol ymhlith yr achosion penodol hynny.

I think what the National Advice Network will also be helpful in doing is in taking forward the work on national quality assurance options, and, when they're developing that, local authorities should ensure that they espouse broad quality principles that will support the interests and protect the wellbeing of those who are very vulnerable through financial hardship or other circumstances. I think that that must include people with protected characteristics.

Rwy'n credu y bydd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn ddefnyddiol hefyd wrth fwrw ymlaen â'r gwaith ar opsiynau sicrhau ansawdd cenedlaethol a phan fyddant yn datblygu hynny, dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn arddel egwyddorion ansawdd eang a fydd yn cefnogi buddiannau ac yn diogelu lles y rhai sy'n agored iawn i niwed drwy galedi ariannol neu amgylchiadau eraill. Credaf fod rhaid i hynny gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.

14:37

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, obviously, you've given us a taste of the work that's going on about the National Advice Network and the formation of it. But, how does the Government assess organisations that it does fund to provide advice to consumers, to individuals who come to seek the support that they need, very often in very difficult and challenging circumstances? Because, obviously, there's a variance in that advice, not just in organisations, but geographically—the strength of that advice. So, what assessment do you make of the organisations you fund, directly or indirectly, as to the quality of support and advice they're offering to clients who come for their support?

Weinidog, yn amlwg, rydych wedi rhoi blas i ni o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol a sut y mae'n cael ei ffurfio. Ond sut y mae'r Llywodraeth yn asesu sefydliadau y mae'n eu hariannu i ddarparu cyngor i ddefnyddwyr, i unigolion sy'n dod i ofyn am y cymorth sydd ei hangen arnynt, yn aml iawn mewn amgylchiadau anodd a heriol iawn? Oherwydd mae'n amlwg fod y cyngor yn amrywio, nid yn unig mewn sefydliadau, ond yn ddaearyddol—cryfder y cyngor. Felly, pa asesiad rydych yn ei wneud o'r sefydliadau a ariennir gennych, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ran ansawdd y cymorth a'r cyngor y maent yn ei gynnig i gleientiaid sy'n dod i ofyn am eu cymorth?

14:38 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We do fund a number of organisations, as you say, and we monitor them very closely. But, what I want the National Advice Network to do—they're not solely responsible for doing that; that will continue to be a separate piece of work—. What I want to know is where the gaps are in the provision: are people getting the right advice? Because that's really important; if you go to somebody for advice, you want to know that that advice is robust and the very best advice you can have. So, what the network will be doing is making sure that the services that we have—because I think that is absolutely one of our most important levers in tackling poverty and helping people—and are being provided are absolutely making a positive difference to people.

Diolch yn fawr. Rydym yn ariannu nifer o sefydliadau, fel y dywedwch, ac rydym yn eu monitro'n ofalus iawn. Ond yr hyn rwyf am i'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol ei wneud—nid ydynt yn gyfan gwbl gyfrifol am wneud hynny; bydd hynny'n parhau i fod yn waith arall ar wahân—.Yr hyn rwyf am ei wybod yw lle mae'r bylchau yn y ddarpariaeth: a yw pobl yn cael y cyngor cywir? Oherwydd mae hynny'n bwysig iawn; os byddwch yn mynd at rywun i gael cyngor, rydych eisiau gwybod bod y cyngor yn gadarn ac mai dyna'r cyngor gorau y gallwch ei gael. Felly, yr hyn fydd y rhwydwaith yn ei wneud yw sicrhau bod y gwasanaethau sydd gennym—oherwydd credaf yn bendant mai dyna un o'n dulliau pwysicaf o fynd ati i drechu tlodi a helpu pobl—ac sy'n cael eu darparu yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl.

14:38 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, access to free and prompt advice is going to become even more important in the next few years, in particular when we factor in how much extra damage the Tories'—those bastions of austerity—secret welfare cuts will have. How do you plan to work with and assist the citizens advice bureaux, and local authorities in particular, to cope with the extra demand, and are you confident that the capacity will be there, across all sectors, to deal with the extra numbers who will need help in the near future?

Weinidog, mae mynediad at gyngor prydlon rhad ac am ddim yn mynd i fod hyd yn oed yn bwysicach yn y blynyddoedd nesaf, yn enwedig pan fyddwn yn ffactoreiddio faint o ddifrod ychwanegol a wnaiff toriadau lles cyfrinachol y Torïaid—y cenhadon caledi hynny. Sut y bwriadwch gynorthwyo a gweithio gyda'r canolfannau cyngor ar bopeth, ac awdurdodau lleol yn benodol, i ymdopi â'r galw ychwanegol, ac a ydych yn hyderus y bydd y gallu yno, ar draws pob sector, i ddelio â'r niferoedd ychwanegol a fydd angen cymorth yn y dyfodol agos?

14:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely—there will be extra numbers who will require advice and, obviously, as a Welsh Government, we put significant amount of funding into organisations such as Citizens Advice, as you mentioned. We can't plug all the gaps and, obviously, there will be less money to go around. I think it's about being smarter, and one of the reasons the National Advice Network has been set up is to make sure that the services we are providing are fit for purpose and that we are giving people the very best advice that they possibly can receive. But, you raise a very important and pertinent point.

Yn bendant—bydd niferoedd ychwanegol angen cyngor ac yn amlwg, fel Llywodraeth Cymru, rydym yn rhoi swm sylweddol o arian i sefydliadau megis Cyngor ar Bopeth, fel y sonioch chi. Ni allwn lenwi'r holl fylchau ac yn amlwg, bydd llai o arian i'w rannu. Rwy'n credu ei fod yn fater o fod yn ddoethach ac un o'r rhesymau pam y sefydlwyd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yw er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn addas i'r diben a'n bod yn rhoi'r cyngor gorau posibl i bobl. Ond rydych yn crybwyll pwynt pwysig a pherthnasol iawn.

### Gwirfoddoli

### Volunteering

14:40 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o bobl ifanc i ddechrau gwirfoddoli? OAQ(4)0324(CTP)*

*5. What is the Welsh Government doing to encourage more young people to take up volunteering? OAQ(4)0324(CTP)*

14:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Volunteering is an important part of life in Wales. Over £1.4 million is allocated to encourage volunteering through the volunteering in Wales fund and our youth volunteering scheme. This is in addition to £4 million for county voluntary councils across Wales, including provision for youth volunteer advisers in local volunteer centres.

Mae gwirfoddoli yn rhan bwysig o fywyd yng Nghymru. Mae dros £1.4 miliwn yn cael ei ddyrannu i annog gwirfoddoli drwy'r Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a'n cynllun gwirfoddoli ieuenctid. Mae hyn yn ychwanegol at £4 miliwn ar gyfer cynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cynghorwyr gwirfoddoli ieuenctid mewn canolfannau gwirfoddoli lleol.

14:40 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that very full answer, and I agree with you on how important volunteering is. If the Welsh baccalaureate is as successful as we all hope it will be in helping young people form a taste for volunteering, then obviously they'll want to carry that on when they go into their working lives as well. Does the Welsh Government have any plans to allow paid volunteering leave, for example, starting perhaps with Welsh Government staff?

Diolch i chi am ateb llawn iawn ac rwy'n cytuno â chi ynglŷn â phwysigrwydd gwirfoddoli. Os bydd bagloriaeth Cymru mor llwyddiannus â'r hyn rydym i gyd yn ei obeithio yn helpu pobl ifanc i fagu blas at wirfoddoli, yna mae'n amlwg y byddant eisiau parhau â hynny pan fyddant yn dechrau eu bywydau gwaith hefyd. A oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i ganiatáu absenoldeb gwirfoddoli â thâl, er enghraifft, gan ddechrau efallai gyda staff Llywodraeth Cymru?

14:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's not something that I've considered. I think, certainly, as a Welsh Government, we do encourage our officials to volunteer. I remember being at the Government offices in Llandudno, where several officials had gone to help with first aid at, I think, sporting events—I can't remember; it was a few years ago now. Certainly, as a Government, we encourage it, but it's not something that I've considered. As I say, we know that, this year, one in three people—which I think is an amazing figure—will volunteer here in Wales, and we absolutely value the amazing contribution that they make to the economy, to the environment and, I think, the social wellbeing of Wales.

Nid yw'n rhywbeth rwyf i wedi ei ystyried. Yn sicr, credaf ein bod, fel Llywodraeth Cymru, yn annog ein swyddogion i wirfoddoli. Rwy'n cofio bod yn swyddfeydd y Llywodraeth yn Llandudno, pan aeth nifer o swyddogion i helpu gyda chymorth cyntaf mewn digwyddiadau chwaraeon, rwy'n credu—ni allaf gofio; roedd hyn ychydig flynyddoedd yn ôl. Yn sicr, fel Llywodraeth, rydym yn ei annog ond nid yw'n rhywbeth rwyf wedi ei ystyried. Fel y dywedais, fe wyddom, eleni, y bydd un o bob tri o bobl—sy'n ffigwr anhygoel, rwy'n credu—yn gwirfoddoli yma yng Nghymru ac rydym yn llwyr werthfawrogi'r cyfraniad anhygoel y maent yn ei wneud i'r economi, i'r amgylchedd ac i les cymdeithasol Cymru, rwy'n credu.

14:41 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was very impressed with the annual award ceremony for Student Volunteering Cardiff, which I attended with Jenny Rathbone. What more can be done to encourage charities like this, which enables students to volunteer regularly to help, for example, with literacy and numeracy in schools? Many of the schools in my constituency have benefited from this, including Greenhill Special School, Coed Glas Primary School and Gabalfa Primary School. What more can the Government do to help this sort of activity to continue?

Gwnaeth y seremoni wobrwyo flynyddol ar gyfer Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd, a fynychais gyda Jenny Rathbone, argraff fawr arnaf. Beth arall y gellir ei wneud i annog elusennau fel hyn, sy'n galluogi myfyrwyr i wirfoddoli yn rheolaidd a helpu, er enghraifft, gyda llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion? Mae llawer o'r ysgolion yn fy etholaeth wedi elwa o hyn, gan gynnwys Ysgol Arbennig Greenhill, Ysgol Gynradd Coed Glas ac Ysgol Gynradd Gabalfa. Beth arall y gall y Llywodraeth ei wneud i sicrhau parhad y math hwn o weithgaredd?

14:42 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is fantastic to see young people volunteering. I think that if you start at a very young age, it is something that you're likely to do through all your life.

As a Government, we will be launching a new volunteering policy in August, and that's something that I would be very happy to look at to see if we can put something within that policy to work with our schools. I'm very happy also to have a discussion with the Minister for Education and Skills.

Mae'n wych gweld pobl ifanc yn gwirfoddoli. Os ydych yn dechrau'n ifanc iawn, rwy'n credu ei fod yn rhywbeth rydych yn debygol o'i wneud drwy gydol eich oes.

Fel Llywodraeth, byddwn yn lansio polisi gwirfoddoli newydd ym mis Awst, ac mae hwnnw'n rhywbeth y byddwn yn fodlon edrych arno i weld a allwn roi rhywbeth yn y polisi hwnnw i weithio gyda'n hysgolion. Rwy'n hapus iawn hefyd i gael trafodaeth gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

14:42 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, colli cyllid o un o'r ffynonellau cyllidol y gwnaethoch chi eu henwi, o'ch adran chi, oedd un o'r rhesymau y ffeindiodd mudiad ffermwyr ifanc Cymru eu hunain mewn sefyllfa anodd yn gynt y flwyddyn yma. Mi gamodd adran y Dirprwy Weinidog dros amaeth i'r adwy bryd hynny i geisio rhyw fath o drefniant mwy cynaliadwy, gobeithio, yn yr hirdymor; dros dro, fel ag y mae hi ar hyn o bryd. A gaf i ofyn pa ran y mae eich adran chi yn bwriadu ei chwarae er mwyn sicrhau cynaliadwyedd mudiad y ffermwyr ifanc, oherwydd os oes yna enghraifft dda o annog pobl ifanc i wirfoddoli, a hynny mewn ardaloedd gwledig lle mae llawer o wasanaethau, wrth gwrs, wedi crebachu, yna dyna'r mudiad, am wn i, sy'n cyflawni'r rôl bwysig honno orau mewn ardaloedd gwledig?

Of course, the loss of funding from one of the sources that you mentioned, in your department, was one of the reasons why the young farmers movement in Wales found themselves in a difficult position earlier this year. The department of the deputy Minister for agriculture stepped into the breach at that point in order to seek some sort of more sustainable arrangement, hopefully in the long term; it is pro tem at present. Can I ask you what part your department intends to play in ensuring the sustainability of the young farmers movement, because, if there is a good example of encouraging young people to volunteer, in rural areas where many services, of course, have been cut, then the young farmers movement is the best example of fulfilling that important role in rural areas?

14:43 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you said, it was the Minister for Natural Resources who, I know, dealt with that situation. That was in his portfolio. I haven't had any specific enquiries from the association, but I think it is important that we do all we can to encourage young people to volunteer for the reasons that I've just stated. If you'd like to write to me specifically on this—. But, as I say, it was something that sat within the Minister for Natural Resources' portfolio and I assume it's still there too.

Fel y dywedoch chi, rwy'n gwybod mai'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd oedd yn delio â'r sefyllfa honno. Roedd hynny'n rhan o'i bortffolio. Nid wyf wedi cael unrhyw ymholiadau penodol gan y gymdeithas, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i annog pobl ifanc i wirfoddoli am y rhesymau rwyf newydd eu nodi. Os hoffech ysgrifennu ataf yn benodol ar y mater hwn—. Ond, fel y dywedais, roedd yn rhywbeth a oedd yn cael ei gynnwys ym mhortffolio'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ac rwy'n cymryd mai yno y mae o hyd hefyd.

### Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

### Communities First Programme

14:43 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru? OAQ(4)0317(CTP)*

*6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government strategy to develop the Communities First programme in Wales? OAQ(4)0317(CTP)*

14:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to build on the strengths of Communities First, as identified in the recent evaluation of the redesigned programme. Communities First provides a significant and unique platform to enable our programmes to reach those in need of them in the most deprived areas of Wales.

Rwyf am adeiladu ar gryfderau Cymunedau yn Gyntaf, fel y nodwyd yn y gwerthusiad diweddar o'r rhaglen ar ei newydd wedd. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn darparu llwyfan pwysig ac unigryw i alluogi ein rhaglenni i gyrraedd y rhai sydd eu hangen yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

14:44 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think, obviously, community development is crucial to equality of opportunity and outcome in Wales, and it's going to be never more important than over the five years to come. Would you agree with me, getting back to the importance of evaluation, which was mentioned earlier, that we do need the most robust system of evaluation possible so that Welsh Government can be confident that its investment and its programme is delivering the benefits expected, and, that if any changes are required, Welsh Government is aware of that? That being the case, is Welsh Government committed to moving to a system of results-based accountability for that evaluation?

Weinidog, yn amlwg, rwy'n credu bod datblygu cymunedol yn hanfodol i gael cyfle a chanlyniadau cyfartal yng Nghymru, ac ni fydd byth mor bwysig ag y bydd yn y pum mlynedd nesaf. Gan droi'n ôl at bwysigrwydd gwerthuso a grybwyllwyd yn gynharach, a fyddech yn cytuno ein bod angen y system werthuso fwyaf cadarn posibl er mwyn i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus fod ei buddsoddiad a'i rhaglen yn cyflawni'r buddiannau disgwyliedig, ac os oes angen newidiadau, fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hynny? Yn yr achos hwnnw, a yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i symud at system o atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer y gwerthusiad hwnnw?

14:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. It has to be robust; otherwise, how would it help advise us and ensure, as you say, that our programmes are doing what we want them to do?

Yn bendant. Mae'n rhaid iddo fod yn gadarn; fel arall, sut y byddai'n gallu ein cynghori a sicrhau, fel y dywedwch, fod ein rhaglenni'n gwneud yr hyn rydym eisiau iddynt ei wneud?

The Communities First outcomes framework is based on a results based accountability model, and I think it's absolutely one of the strengths of the programme. What RBA enables us to do is monitor the performance of the Communities First clusters against very defined targets. That's key to ensuring that funding drives the outcomes for those who are most in need.

Mae fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf wedi'i seilio ar fodel atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau, ac rwy'n credu'n bendant ei fod yn un o gryfderau'r rhaglen. Mae model atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau yn ein galluogi i fonitro perfformiad clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn erbyn targedau penodol iawn. Mae hynny'n allweddol i sicrhau bod cyllid yn ysgogi'r canlyniadau ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen.

14:45 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, school readiness at the age of five has a strong impact on future educational achievement and life chances. Research shows that the majority of five-year-olds eligible for free school meals are not school ready. Does the Minister agree with me that making children ready for school at the age of five must be a priority of the Communities First programme?

Weinidog, mae bod yn barod ar gyfer yr ysgol yn bump oed yn cael effaith gref ar gyflawniad addysgol a chyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Mae ymchwil yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o blant pum mlwydd oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn barod ar gyfer yr ysgol. A yw'r Gweinidog yn cytuno y dylai gwneud plant yn barod ar gyfer yr ysgol yn bump oed fod yn flaenoriaeth i raglen Cymunedau yn Gyntaf?

14:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Making sure that children are ready for school at the age of five, I think whilst, of course, the Communities First infrastructure can support that, I think Flying Start has a huge role to play there. I'm very proud to be part of the Flying Start family at the moment and, certainly, the visits I've had across Wales have shown me that it truly does give children a flying start. I was in a school in Llanelli with my colleague Keith Davies and it was fantastic to see, for instance, a group of young parents working with their children, reading—children who weren't in school at that time; they were part of the Flying Start, age three. So, I think it is absolutely important and whilst we can use the Communities First structure, and probably part of the Families First structure as well, it is the Flying Start programme that I think helps in that area.

O ran sicrhau bod plant yn barod ar gyfer yr ysgol yn bump oed, er bod strwythur Cymunedau yn Gyntaf yn gallu cefnogi hynny, wrth gwrs, rwy'n credu bod gan Dechrau'n Deg rôl enfawr i'w chwarae yno. Rwy'n falch iawn i fod yn rhan o deulu Dechrau'n Deg ar hyn o bryd ac yn sicr mae fy ymweliadau â mannau ledled Cymru wedi dangos i mi fod y rhaglen yn bendant yn rhoi dechrau teg i blant. Roeddwn mewn ysgol yn Llanelli gyda fy nghydweithiwr Keith Davies ac roedd yn wych gweld grŵp o rieni ifanc, er enghraifft, yn gweithio gyda'u plant, yn darllen—plant nad oeddent yn yr ysgol ar yr adeg honno; roeddent yn rhan o Dechrau'n Deg, yn dair blwydd oed. Felly, rwy'n credu ei fod yn wirioneddol bwysig ac er ein bod yn gallu defnyddio strwythur Cymunedau yn Gyntaf, a rhan o strwythur Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn ôl pob tebyg, rwy'n credu mai rhaglen Dechrau'n Deg sy'n helpu yn hynny o beth.

## Cau Swyddfeydd Post (Canolbarth Cymru)

## Post Office Closures (Mid Wales)

14:46 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau swyddfeydd post yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0321(CTP)*

*7. Will the Minister make a statement on post office closures in mid-Wales? OAQ(4)0321(CTP)*

14:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Post offices, of course, are not a devolved matter, however, the Welsh Government recognises their importance in our communities. That is why, through the post office diversification fund and the post office development fund, we committed £10.8 million in capital grants to over half of Wales's post offices.

Nid yw swyddfeydd post, wrth gwrs, yn fater wedi'i ddatganoli, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod eu pwysigrwydd yn ein cymunedau. Dyna pam, drwy'r gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post a chronfa datblygu swyddfeydd post, rydym wedi ymrwymo i roi £10.8 miliwn mewn grantiau cyfalaf i dros hanner swyddfeydd post Cymru.

14:47 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. A number of post offices have closed in my constituency, particularly the communities of Abermule, Trefeglwys, Forden and Leighton are without any post office service at all. Now, the post office runs a mobile service in other areas of my constituency, which is very welcome indeed, but it has not extended that to those areas I've mentioned. You've mentioned the support that the Welsh Government can provide to encourage the extension of mobile services in Montgomeryshire, which of those that you've mentioned would be most helpful, do you think, to help the service expand, as I've set out?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae nifer o swyddfeydd post wedi cau yn fy etholaeth, yn benodol nid oes gan gymunedau Aber-miwl, Trefeglwys, Ffordun a Leighton unrhyw wasanaeth swyddfa bost o gwbl. Nawr, mae'r swyddfa bost yn cynnal gwasanaeth symudol mewn ardaloedd eraill o fy etholaeth, sydd i'w groesawu'n fawr yn wir, ond nid yw wedi ei ymestyn i'r ardaloedd a grybwyllais. Rydych wedi sôn am y gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru ei darparu i annog ehangu gwasanaethau symudol yn sir Drefaldwyn, pa un o'r rhai rydych wedi eu crybwyll a fyddai'n fwyaf defnyddiol, yn eich barn chi, i helpu'r gwasanaeth i ehangu, fel y nodais?

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think what would be most helpful is if you lobbied your own Government. The two funds that I mentioned are now actually closed, but as I say, although it's not a devolved area, we, of course, recognise the importance of post offices and the very important role they play in our community and that's why we did put that funding in.

Rwy'n credu mai'r peth mwyaf defnyddiol fyddai i chi lobïo eich Llywodraeth eich hun. Mae'r ddwy gronfa y soniais amdanynt yn awr wedi cau mewn gwirionedd, ond fel y dywedaf, er nad yw'n faes wedi'i ddatganoli, rydym yn cydnabod pwysigrwydd swyddfeydd post, wrth gwrs, a'r rôl bwysig iawn y maent yn ei chwarae yn ein cymuned a dyna pam y darparwyd yr arian hwnnw gennym.

14:48 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wrth gwrs, beth rŷm ni wedi ei weld yn ardaloedd cefn gwlad oedd, yn gyntaf oll, y banciau'n mynd o'r trefi marchnad; wedyn y swyddfeydd post yn cau yn y pentrefi; a nawr mae'r rhai sydd ar ôl yn cael eu symud fwyfwy i mewn i siopau yn y bôn. Er bod hwn yn dal yn rhyw fath o wasanaeth, mae'n ddibynnol ar y siop yn parhau, a rŷm ni'n gwybod, o'r pentrefi eraill, beth sy'n digwydd i'r siopau hynny. Nawr, mae'r ffynonellau ariannol wedi dod i ben, fel rŷch chi wedi'i ddweud, ac roedd hynny, os rwy'n cofio'n iawn, o dan Lywodraeth Cymru'n Un. Beth, felly, yw'r camau a fedrwch chi eu cymryd nawr, fel Llywodraeth, i sicrhau bod y gefnogaeth ar draws y bwrdd, fel petai, i fusnesau yn y trefi bach hyn a'r pentrefi, fel bod gwasanaeth swyddfa bost yn aros, o leiaf?

Of course, what we have seen in rural areas is, first of all, the disappearance of the banks from the market towns; then the post office closures in the villages; and now the remaining post offices are being moved more and more into shops essentially. Although that provides some sort of service, it is reliant on the existence of the shop, and we know, from other villages, what happens to those shops. Now, the financial resources have come to an end, as you have said, and that was, if I remember rightly, under the one Wales Government. What are the steps that you, as a Government, can take to ensure support across the board, as it were, for businesses in these small towns and villages, so that the post office services can be maintained, at least?

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, the Member raises a very important point, because post offices did, I think, then, begin to offer a range of more financial and banking services and it's not just in rural communities; in Wrexham, my own constituency, a lot of shops have taken on the post office where we've seen post office closures around the constituencies. Again, it's really important that people see that they can diversify and the funding we're bringing forward within our regeneration programmes, perhaps, could be accessed to make sure that that provision remains there.

Ie, mae'r Aelod yn crybwyll pwynt pwysig iawn, oherwydd rwy'n credu bod swyddfeydd post wedi dechrau cynnig amrywiaeth o ragor o wasanaethau ariannol a bancio wedyn ac nid mewn cymunedau gwledig yn unig; yn Wrecsam, fy etholaeth fy hun, mae llawer o siopau wedi mabwysiadu'r swyddfa bost lle gwelsom swyddfeydd post yn cael eu cau ar draws yr etholaethau. Unwaith eto, mae'n bwysig iawn fod pobl yn gweld bod modd iddynt arallgyfeirio ac y gellid defnyddio'r cyllid rydym yn ei gyflwyno gyda'n rhaglenni adfywio efallai, er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth honno'n parhau.

14:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, as you say, what's crucial to the survival of the post offices in rural communities is a diversification and I very much welcome the decision to place post offices into village shops, because I think that safeguards the provision of both post office services and, hopefully, the ongoing provision of a shop. But what can you do to try and provide some services, either from local government or, indeed, from the Welsh Government out of post offices, which will add another reason for why people could go and access services there, especially in communities where local government, perhaps, have reduced the number of service points that they have in a community?

Weinidog, fel rydych yn ei ddweud, yr hyn sy'n hanfodol er mwyn galluogi'r swyddfeydd post i oroesi mewn cymunedau gwledig yw arallgyfeirio ac rwy'n croesawu'r penderfyniad i osod swyddfeydd post mewn siopau pentref yn fawr, oherwydd rwy'n credu bod hynny'n diogelu'r ddarpariaeth o wasanaethau'r swyddfa bost yn ogystal â chynnal darpariaeth siop, gobeithio. Ond beth allwch chi ei wneud i geisio darparu rhai gwasanaethau llywodraeth leol neu Lywodraeth Cymru, yn wir, o swyddfeydd post, a fydd yn ychwanegu rheswm arall pam y gallai pobl fynd i ddefnyddio gwasanaethau yno, yn enwedig mewn cymunedau lle y mae llywodraeth leol, efallai, wedi lleihau nifer y mannau gwasanaeth sydd ganddynt mewn cymuned?

Senedd.tv
Fideo Video

14:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, that's certainly something that I know, myself, in a previous portfolio, and the Minister for Public Services have had discussions on with local authorities—to see if you can have housing benefit, for instance, accessed through a post office—and, of course, we have seen more public services going online. Another area where I would like to see that support is, maybe, credit unions. Maybe credit unions could be run out of the same shop and post office in rural areas. I think what's really important is that we support small businesses, such as shops, to be able to, as you say, diversify for their survival. We know if we're going to make them more sustainable, they're going to have to diversify. I mentioned the regeneration programmes we have, and I'd be very happy to look if anybody comes forward with any specific proposals, to see if we can assist in any way.

Ie, gwn fod hynny'n sicr yn rhywbeth rwyf i, mewn portffolio blaenorol, a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei drafod gydag awdurdodau lleol—i weld a allwch gael mynediad at fudd-dal tai, er enghraifft, drwy swyddfa bost—ac wrth gwrs, rydym wedi gweld mwy o wasanaethau cyhoeddus yn mynd ar-lein. Mae undebau credyd yn faes arall yr hoffwn weld cymorth o'r fath yn cael ei roi. Efallai y gellid gweithredu undebau credyd o'r un siop a swyddfa bost mewn ardaloedd gwledig. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig yw ein bod yn cynorthwyo busnesau bach, fel siopau, i allu arallgyfeirio, fel y dywedwch, er mwyn iddynt oroesi. Gwyddom fod angen iddynt arallgyfeirio os ydym yn mynd i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. Soniais am y rhaglenni adfywio sydd gennym, a phe bai cynigion penodol yn dod i law byddwn yn hapus iawn i edrych arnynt i weld a allwn gynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Trydydd Sector (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

## The Third Sector (Mid and West Wales)

14:51 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith y trydydd sector yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0326(CTP)*

*8. Will the Minister make a statement on the work of the third sector in Mid and West Wales? OAQ(4)0326(CTP)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The third sector makes a vital contribution to every community across Wales, and the Welsh Government is committed to funding it. I have agreed over £1 million core funding for county voluntary councils and volunteer centres in Mid and West Wales. This is part of Welsh Government support for the third sector across all portfolios.

Mae'r trydydd sector yn gwneud cyfraniad hanfodol i bob cymuned ledled Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w ariannu. Rwyf wedi cytuno i ddarparu dros £1 miliwn o gyllid craidd ar gyfer cynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn rhan o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r trydydd sector ar draws pob portffolio.

Senedd.tv
Fideo Video

14:51 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb, Weinidog. Hoffwn i gyfeirio at un cynllun rydych chi newydd ddatgan cefnogaeth iddo o'ch cyllideb chi, sef Cylch Caron yn Nhregaron, ac, wrth wneud hynny, talu teyrnged i waith diflino Elin Jones i bwyso am y digwyddiad yna. Mae Cylch Caron, wrth gwrs, yn dod â meddygfa at ei gilydd, mae tai gyda chefnogaeth yn rhan ohono fe o'ch adran chi, ond mae hefyd wedi cael ei werthu yn lleol fel rhyw gyfle i'r trydydd sector i ddod yn rhan o'r ddarpariaeth ar ran gofal a thrwsio, er enghraifft, a gofal hefyd. Felly, beth yw'r cynlluniau sydd gennych chi nawr i wneud yn siŵr y gwireddir hynny a'i fod yn wir yn gyfle i'r mudiadau hynny fod yn rhan o Gylch Caron a chryfhau'r gymuned o gwmpas Tregaron yn yr un ffordd?

Thank you for that response, Minister. I'd like to refer to one scheme that you've just declared support for from your own budget, namely Cylch Caron in Tregaron, and, in doing so, pay tribute to the unstinting work of Elin Jones in pressing for that. Cylch Caron, of course, does bring a surgery together, supported housing is part of it and that comes under your department, but it's also been sold locally as an opportunity for the third sector to become part of the provision of care and repair, for example, and wider care too. So, what plans do you have in place to ensure that that is actually achieved and that it is a real opportunity for those organisations to become part of Cylch Caron and to strengthen the community around Tregaron in the same way?

14:52 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think Cylch Caron is absolutely a fantastic example of health and housing coming together. I started it when I was in the health portfolio, so it's very good to see it coming to fruition, and I too pay tribute to Elin Jones for all of her lobbying. I think it is important that the third sector see themselves as part of this need to collaborate. I think, sometimes, the third sector have seen themselves as a little aside and I am really pleased to see the way that they are now starting to work together. I mean, locally, I think there have been discussions with the third sector, but I'd be very happy for my officials to be made available if there's anything specific that you think could be done to encourage them to participate in this fantastic new facility.

Rwy'n credu bod Cylch Caron yn enghraifft hollol wych o iechyd a thai yn dod at ei gilydd. Dechreuais arno pan oeddwn yn y portffolio iechyd, felly mae'n dda iawn gweld ei fod yn dwyn ffrwyth, ac rwyf hefyd am dalu teyrnged i Elin Jones am ei holl lobïo. Credaf ei bod yn bwysig fod y trydydd sector yn gweld eu hunain fel rhan o'r angen hwn i gydweithio. Rwy'n credu, weithiau, fod y trydydd sector wedi gweld eu hunain ychydig ar wahân ac rwy'n falch iawn o weld y ffordd y maent bellach yn dechrau gweithio gyda'i gilydd. Hynny yw, rwy'n credu bod trafodaethau wedi bod gyda'r trydydd sector yn lleol, ond byddwn yn hapus iawn i sicrhau bod fy swyddogion ar gael os oes unrhyw beth penodol y credwch y gellid ei wneud i'w hannog i gymryd rhan yn y cyfleuster newydd gwych hwn.

14:53 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I recently visited Llain Las, an independent living scheme in Fishguard that is run by Cantref, which, amongst other things, provide support on a range of issues such as financial matters and housing to anyone who is 50-plus living in the community. The Welsh Government has made it clear in its third sector scheme documentation that it is focusing on strengthening grass-roots organisations that focus on local and small-scale delivery. So, in light of this ambition, can the Minister tell us how the Welsh Government engages with smaller third sector organisations to ensure that their views are fully taken on board when it comes to drafting Government policy?

Weinidog, ymwelais yn ddiweddar â Llain Las, cynllun byw'n annibynnol yn Abergwaun sy'n cael ei redeg gan Cantref, sydd, ymhlith pethau eraill, yn rhoi cymorth ar ystod o faterion megis materion ariannol a materion yn ymwneud â thai i unrhyw un dros 50 oed sy'n byw yn y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir yn ei dogfennau cynllunio ar gyfer y trydydd sector ei bod yn canolbwyntio ar gryfhau sefydliadau llawr gwlad sy'n canolbwyntio ar ddarparu ar raddfa fach a lleol. Felly, yng ngoleuni'r uchelgais hwn, a all y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector llai o faint i sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried yn llawn pan eir ati i ddrafftio polisi'r Llywodraeth?

14:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, we have the third sector council, and I meet regularly with them. They are the, sort of, umbrella organisation, so, for instance, the Pembrokeshire Association of Voluntary Services would feed into those discussions. I don't meet with individual voluntary organisations; it is the, sort of, umbrella organisations. But, I think it's really important for the third sector to understand the contribution that they make in delivering services, and I think that's a very important conversation that's gone on. Of course, the third sector hasn't been protected completely from cuts. We've all had to take cuts, but I think it is really important that the smaller ones make sure that their voice is heard.

Yn amlwg, mae gennym gyngor y trydydd sector, ac rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag ef. Sefydliad ymbarél o ryw fath yw'r cyngor, felly byddai Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, er enghraifft, yn bwydo i mewn i'r trafodaethau hynny. Nid wyf yn cyfarfod â sefydliadau gwirfoddol unigol, ond â'r hyn sydd, mewn ffordd, yn sefydliadau ymbarél. Ond rwy'n credu ei bod hi'n bwysig i'r trydydd sector ddeall y cyfraniad y maent yn ei wneud o ran darparu gwasanaethau, ac rwy'n credu bod y drafodaeth honno wedi bod yn bwysig iawn. Wrth gwrs, nid yw'r trydydd sector wedi'i ddiogelu'n llwyr rhag toriadau. Mae pawb ohonom wedi gorfod gwneud toriadau, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i'r rhai llai o faint sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

## Cartrefi Incwm Isel

## Low-income Households

14:54

### Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*9. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gefnogi cartrefi incwm isel sy'n ei chael hi'n anodd cwrdd â'r gost gynyddol o fyw? OAQ(4)0328(CTP)*

*9. What action has the Welsh Government taken to support low-income households struggling to meet the rising cost of living? OAQ(4)0328(CTP)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:54

### Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Compared with 2009, average real earnings are down 6 per cent. Sustainable employment is the best way for households to deal with this. Our priorities are to help people into work and to progress whilst in work. For example, the Lift programme has already provided employment and training opportunities for 1,678 people, with 287 of those supported into employment.

O'i gymharu â 2009, mae enillion real cyfartalog wedi gostwng 6 y cant. Cyflogaeth gynaliadwy yw'r ffordd orau i aelwydydd ddelio â hyn. Ein blaenoriaethau yw helpu pobl i ddod o hyd i waith ac i gamu ymlaen yn y gwaith. Er enghraifft, mae rhaglen Esgyn eisoes wedi darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i 1,678 o bobl, a chafodd 287 o'r rhain gymorth i gychwyn mewn gwaith.

Senedd.tv
Fideo Video

14:55

### Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thank you for that answer, Minister. It's a shocking injustice that low-income households pay a poverty premium. We know that's because the families purchase everyday goods and services and have limited access to financial options. They often end up paying more for basic necessities such as food, fuel, housing and credit. Save the Children have estimated that this amounts to a poverty premium of £1,639 per year. Minister, how will the Welsh Government address the poverty premium?

Wel, diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'n anghyfiawnder syfrdanol fod cartrefi incwm isel yn talu premiwm tlodi. Rydym yn gwybod fod hynny'n deillio o'r ffaith fod y teuluoedd yn talu am nwyddau a gwasanaethau bob dydd er mai cyfyngedig yw'r opsiynau ariannol sydd ar gael iddynt. Maent yn aml yn talu mwy am angenrheidiau sylfaenol megis bwyd, tanwydd, tai a chredyd. Mae Achub y Plant wedi amcangyfrif fod hyn yn gyfystyr â phremiwm tlodi o £1,639 y flwyddyn. Weinidog, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r premiwm tlodi?

Senedd.tv
Fideo Video

14:55

### Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we have recognised the existence of the poverty premium and I absolutely agree that this represents an injustice for families who are already struggling to make ends meet. When I published the revised child poverty strategy in March, that included a new strategic objective to increase household income through debt and financial advice, and action to tackle the poverty premium. I think that one of the most important things that we can do in the here and now—because a lot of our tackling poverty initiatives are long term, but we need to look at what we can do in the here and now—is try and make sure that families and households are getting as much income in as they can. So, I think that the areas where we can do this are food poverty, in-work poverty, mitigating welfare reform, childcare and housing regeneration in the here and now.

Wel, rydym wedi cydnabod bodolaeth y premiwm tlodi ac rwy'n cytuno'n llwyr ei fod yn destun anghyfiawnder i deuluoedd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Pan gyhoeddais y strategaeth tlodi plant ddiwygiedig ym mis Mawrth, roedd yn cynnwys amcan strategol newydd i gynyddu incwm aelwydydd drwy gyngor ar ddyled a materion ariannol, ynghyd â chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r premiwm tlodi. Rwy'n credu mai un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei wneud ar hyn o bryd—gan fod llawer o'n mentrau trechu tlodi yn rhai hirdymor, ond mae angen i ni edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud yma yn awr—yw ceisio gwneud yn siŵr fod teuluoedd ac aelwydydd yn cael cymaint o incwm ag y gallant. Felly, rwy'n credu mai'r meysydd lle y gallwn wneud hyn yn awr yw tlodi bwyd, tlodi mewn gwaith, lliniaru diwygiadau lles, gofal plant ac adfywio tai.

Senedd.tv
Fideo Video

14:56

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The number of households in Wales that suffer worklessness has declined by 46,000 since the last general election. How, Minister, are you going to be working to make sure that that number keeps going up, and that there are more households in Wales that ultimately have a wage at the end of the week? Surely, that dramatic decline does need close co-operation with the UK Government so that we can drive those numbers down even further.

Mae nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n dioddef am nad oes ganddynt waith wedi gostwng 46,000 ers yr etholiad cyffredinol diwethaf. Weinidog, sut rydych chi'n mynd i fod yn gweithio i wneud yn siŵr fod y nifer yn parhau i gynyddu, a bod mwy o gartrefi yng Nghymru yn y pen draw yn cael cyflog ar ddiwedd yr wythnos? Yn sicr, mae gostyngiad dramatig o'r fath yn galw am gydweithredu agos â Llywodraeth y DU er mwyn i ni allu gostwng y niferoedd hynny hyd yn oed ymhellach.

Senedd.tv
Fideo Video

14:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sustainable work and employment is absolutely the route out of poverty. I will do all that I can, working with my ministerial colleagues, to ensure that that happens. I think that one area where we need to look is helping people who are in very small businesses—self-employed people. I've had discussions within my own constituency with these people who, because of the dreadful cuts we've seen over the past five years—and clearly, we've got a lot more to come—have lost jobs particularly in the public sector workforce, for instance. So, I think it's really important that we work with businesses. I know that the Minister for Economy, Science and Transport is very keen to do so, but I am absolutely of the opinion that the route out of poverty is sustainable work. I will do all that I can to work with my colleagues to make sure that that continues.

Gwaith a chyflogaeth gynaliadwy, yn sicr, yw'r llwybr allan o dlodi. Byddaf yn gwneud popeth yn fy ngallu, gan weithio gyda fy nghyd-Weinidogion, i sicrhau bod hynny'n digwydd. Credaf fod helpu pobl mewn busnesau bach iawn —pobl hunangyflogedig—yn faes y mae angen i ni edrych arno. Rwyf wedi cael trafodaethau yn fy etholaeth fy hun gyda'r bobl hyn sydd, oherwydd y toriadau erchyll rydym wedi eu gweld yn ystod y pum mlynedd diwethaf—ac yn amlwg, mae llawer mwy i ddod—wedi colli swyddi yn enwedig yng ngweithlu'r sector cyhoeddus, er enghraifft. Felly, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda busnesau. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn awyddus iawn i wneud hynny, ond rwy'n bendant o'r farn mai'r llwybr allan o dlodi yw gwaith cynaliadwy. Byddaf yn gwneud popeth a allaf i weithio gyda fy nghydweithwyr i wneud yn siŵr fod hynny'n parhau.

### Mynd i'r Afael â Thlodi

### Tackling Poverty

14:57 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda chydweithwyr cabinet ar gyfrifoldebau traws-bortffolio i fynd i'r afael â thlodi? OAQ(4)0325(CTP)*

*10. Will the Minister outline discussions held with cabinet colleagues on cross-portfolio responsibilities to tackle poverty? OAQ(4)0325(CTP)*

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The First Minister has been very clear that tackling poverty is a priority for the entire Cabinet and all departments. Action is taken forward through my tackling poverty implementation board, which focuses on a different area of Welsh Government at each meeting—the most recent meeting focusing on the links between tackling poverty and the education portfolio.

Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir iawn fod trechu tlodi yn flaenoriaeth i'r Cabinet cyfan a'r holl adrannau. Mae camau gweithredu yn cael eu datblygu drwy fy mwrdd gweithredu trechu tlodi, sy'n canolbwyntio ar faes gwahanol o Lywodraeth Cymru ym mhob cyfarfod—gyda'r cyfarfod diweddaraf yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng trechu tlodi a'r portffolio addysg.

14:58 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your answer, but you will know now that there are 90,000 fewer adults in part-time learning than there were 10 years ago, and that the budget for part-time adult education has been slashed by 50 per cent for the current year. With such a reduction in funding for part-time adult learning, Wales will now have to brace itself for a workforce that has lower skills. The Minister will know that lower skills reap lower wages, affecting health and wellbeing—a negative aspect of the nation's economy. How are the Ministers working together to ensure that Wales is not a nation of unwell, low-waged, low-skilled residents?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, ond fe wyddoch bellach fod 90,000 yn llai o oedolion mewn addysg ran-amser na 10 mlynedd yn ôl, a bod y gyllideb ar gyfer addysg ran-amser i oedolion wedi cael ei thorri yn ei hanner ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Gyda gostyngiad o'r fath yn y cyllid i addysg ran-amser i oedolion, bydd yn rhaid i Gymru bellach baratoi ei hun ar gyfer gweithlu sydd â llai o sgiliau. Bydd y Gweinidog yn gwybod bod llai o sgiliau yn golygu cyflogau is, ac mae hynny'n effeithio ar iechyd a lles—agwedd negyddol ar economi'r wlad. Sut y mae'r Gweinidogion yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw Cymru yn genedl sy'n llawn o bobl sâl, heb lawer o sgiliau, ac ar gyflogau isel?

14:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I mentioned, the Minister for Education and Skills attended my last tackling poverty implementation board. He and his Deputy Minister have had to take some very difficult decisions in light of the £1.4 billion cut to our budget from the UK Government budget.

Fel y soniais, mynychodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fy mwrdd gweithredu trechu tlodi diwethaf. Mae ef a'i Ddirprwy Weinidog wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn yn sgil y toriad o £1.4 biliwn i'n cyllideb o gyllideb Llywodraeth y DU.

### Statws Cymunedau yn Gyntaf

### Communities First Status

14:58 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*11. Pa gefnogaeth sydd ar gael i'r ardaloedd hynny a gollodd eu statws Cymunedau yn Gyntaf ar ôl yr adolygiad diwethaf? OAQ(4)0329(CTP)*

*11. What support is available to those areas that lost their Communities First status following the last review? OAQ(4)0329(CTP)*

14:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

A sum of £650,000 was made available to 13 Communities First partnerships that left the programme in 2012. An exit strategy was developed and implemented by each one of these as far back as three years ago. The transitional funding enabled effective activity by those partnerships to continue, and gave them time to seek funding from other sources.

Cafodd swm o £650,000 ei ryddhau i 13 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a adawodd y rhaglen yn 2012. Datblygwyd strategaeth ymadael a'i rhoi ar waith gan bob un o'r rhain gyn hired â thair blynedd yn ôl. Galluogodd y cyllid trosiannol i'r partneriaethau barhau i gyflawni gweithgarwch effeithiol, a rhoddodd amser iddynt ddod o hyd i gyllid o ffynonellau eraill.

14:59 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that reply. One of those communities was the one that I live in, in Penparcau, just outside Aberystwyth. I have been struck very much by the ability of the Penparcau forum to continue their hard work and to continue to support the third sector in that community, and indeed to develop new projects and to go after those new sources of funding, which you mentioned. One of those is to develop a community centre—and I declare an interest as it is literally across the road from my house, but nevertheless—in the heart of Penparcau and to take over a community asset in terms of running the playing fields there for young people as well. They have attracted external sources of funding. I understand that the project is in front of you for consideration at the moment. I don't expect an answer today, but I urge you to look very favourably at supporting this project as it is a demonstration of how a community has come together and used Communities First funding initially, but is now building resilience in that community.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Un o'r cymunedau hynny oedd yr un rwy'n byw ynddi, ym Mhenparcau, ger Aberystwyth. Rwyf wedi fy synnu'n fawr iawn gan allu fforwm Penparcau i barhau â'u gwaith caled a pharhau i gefnogi'r trydydd sector yn y gymuned honno, yn ogystal â datblygu prosiectau newydd a dod o hyd i'r ffynonellau cyllid newydd hynny a grybwyllwyd gennych. Un o'r rhain yw datblygu canolfan gymunedol—ac rwy'n datgan diddordeb gan ei fod yn llythrennol ar draws y ffordd i fy nghartref, ond beth bynnag am hynny—yng nghanol Penparcau, a meddiannu ased cymunedol o ran cynnal y caeau chwarae yno ar gyfer pobl ifanc hefyd. Maent wedi denu ffynonellau cyllid allanol. Rwy'n deall bod y prosiect gennych i'w ystyried ar hyn o bryd. Nid wyf yn disgwyl ateb heddiw, ond rwy'n eich annog i edrych yn ffafriol iawn ar gefnogi'r prosiect hwn gan ei fod yn enghraifft o'r modd y mae cymuned wedi dod at ei gilydd ac wedi defnyddio arian Cymunedau yn Gyntaf i ddechrau, ond sydd bellach yn adeiladu cydnerthedd yn y gymuned honno.

15:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I heard the Member's comments.

Fe glywais sylwadau'r Aelod.

### Mynd i'r Afael â Thlodi

### Tackling Poverty

15:00 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*12. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0323(CTP)*

*12. What action is the Welsh Government taking to tackle poverty in the Cynon Valley? OAQ(4)0323(CTP)*

15:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. Communities First, Flying Start and Families First are working together to tackle poverty in the Cynon Valley. Funding through Schools Challenge Cymru and the pupil deprivation grant provides targeted support for learners from disadvantaged backgrounds. Supporting people into employment and training opportunities through European funding also makes an important contribution.

Diolch yn fawr. Mae Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio gyda'i gilydd i drechu tlodi yng Nghwm Cynon. Mae cyllid drwy Her Ysgolion Cymru a'r grant amddifadedd disgyblion yn darparu cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant drwy gyllid Ewropeaidd hefyd yn gyfraniad pwysig.

15:00 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Research published by the New Policy Institute in April gave the stark warning that, during the past five years of the UK Government, poverty is both rising and deepening, with the poorest tenth of the population around £14 a week worse off than they were under the previous Labour UK Government. Evidence shows a poverty alliance of stakeholders can help devise solutions to tackle poverty. How is the Welsh Government's tackling poverty external advisory group helping shape and inform policy, and has the Minister considered broadening this out to provide the support and strategic direction a poverty alliance could provide?

Diolch yn fawr, Weinidog. Roedd ymchwil a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Polisi Newydd ym mis Ebrill yn rhoi'r rhybudd llym fod tlodi, yn ystod y pum mlynedd diwethaf o Lywodraeth y DU, yn cynyddu ac yn gwaethygu, gyda'r degfed tlotaf o'r boblogaeth oddeutu £14 yr wythnos yn waeth eu byd nag yr oeddent o dan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU. Mae tystiolaeth yn dangos y gall cynghrair tlodi o randdeiliaid helpu i ddod o hyd i atebion er mwyn trechu tlodi. Sut y mae grŵp cynghori allanol Llywodraeth Cymru ar drechu tlodi yn helpu i lunio a llywio polisi, ac a yw'r Gweinidog wedi ystyried ehangu hyn i ddarparu'r gefnogaeth a'r cyfeiriad strategol y gallai cynghrair tlodi ei ddarparu?

15:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Yes, the tackling poverty external advisory group plays a vital role. They make recommendations about in which areas we should be working. So, over the past year, they've made recommendations about in-work poverty, health inequalities and the role of the economy in supporting low-income households. Those recommendations then inform our approach to tackling poverty.

Diolch yn fawr. Ydy, mae'r grŵp cynghori allanol ar drechu tlodi yn chwarae rhan hanfodol. Maent yn gwneud argymhellion ynglŷn â pha feysydd y dylem fod yn gweithio ynddynt. Felly, dros y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi gwneud argymhellion ynghylch tlodi mewn gwaith, anghydraddoldebau iechyd a rôl yr economi o ran cefnogi teuluoedd ar incwm isel. Mae'r argymhellion hyn wedyn yn llywio ein dull o drechu tlodi.

Since I came into portfolio, I've also set up a tackling poverty practitioner group, because I was very aware that there are a great number of people out there working on our front-line services. So, I've set up—alongside this group, I've also now got a practitioner group, which met for the first time a couple of weeks ago. So, people who are out there working in Communities First, working in Flying Start, and working in citizens advice bureaux, for instance, have now come together and they'll also be looking at the approach we're taking, alongside the external advisory group also.

Ers i mi ddod i'r portffolio, rwyf hefyd wedi sefydlu grŵp ymarferwyr ar drechu tlodi, oherwydd fy mod yn ymwybodol iawn o'r nifer fawr o bobl sy'n gweithio yn ein gwasanaethau rheng flaen. Felly, rwyf wedi sefydlu—. Ochr yn ochr â'r grŵp hwn, mae gennyf hefyd grŵp ymarferwyr erbyn hyn, a gafodd eu cyfarfod cyntaf ychydig o wythnosau yn ôl. Felly, mae'r bobl sy'n gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf, yn gweithio gyda Dechrau'n Deg, ac yn gweithio mewn canolfannau cyngor ar bopeth, er enghraifft, wedi dod at ei gilydd yn awr a byddant hefyd yn edrych ar ein dull o weithredu, ochr yn ochr â'r grŵp cynghori allanol.

15:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:02

## Cwestiwn Brys: Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol yng Ngogledd Cymru

## Urgent Question: GP Out-of-hours Service in North Wales

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to an urgent question. I've agreed to two urgent questions this afternoon, and I will ask Darren Millar to ask the question he submitted. Darren Millar.

Symudwn yn awr at gwestiwn brys. Rwyf wedi cytuno i ddau gwestiwn brys gael eu gofyn y prynhawn yma, a byddaf yn gofyn i Darren Millar ofyn y cwestiwn a gyflwynwyd ganddo. Darren Millar.

15:02 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau arferol yng ngogledd Cymru, yn sgil adroddiad a nododd bryderon ynghylch pa mor ddiogel ydyw? EAQ(4)0591(HSS)*

*Will the Minister make a statement on the GP out-of-hours service in north Wales, in light of a report which raised concerns about its safety? EAQ(4)0591(HSS)*

15:02 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question. The Betsi Cadwaladr University Local Health Board commissioned an independent report to help inform improvements to its out-of-hours services. The health board has developed an action plan to respond to the report's recommendations.

Diolch am y cwestiwn. Comisiynodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr adroddiad annibynnol i helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaethau y tu allan i oriau. Mae'r bwrdd iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu i ymateb i argymhellion yr adroddiad.

15:03 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I've got a copy of the report here and it makes for absolutely horrific reading. It makes it clear that the GP out-of-hours service in north Wales is unsafe, understaffed and failing on every single Welsh Government measure. And what's worse, it's also clear that the Welsh Government knew about these failures, but did absolutely nothing to address them.

Ddirprwy Weinidog, mae gen i gopi o'r adroddiad yma ac mae'n ddeunydd darllen hollol erchyll. Mae'n ei gwneud yn glir fod y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau yng ngogledd Cymru yn anniogel, yn brin o staff ac yn methu ar bob un o fesurau Llywodraeth Cymru. A'r hyn sy'n waeth yw ei bod yn amlwg fod Llywodraeth Cymru yn gwybod am y methiannau hyn, ond heb wneud dim o gwbl i fynd i'r afael â hwy.

Minister, do you agree with me that this is yet another example of the people of north Wales being let down by the Betsi Cadwaladr University Local Health Board and, indeed, being let down by you, and that they are putting patients' lives at risk? What action do you as a Welsh Government now intend to take to get to grips with the problems in the GP out-of-hours service in north Wales? And, given that you buried your head in the sand like an ostrich when these bits of information were coming back to you on a weekly basis, according to the report, about the failures, can you tell us what else you as a Government are receiving on a weekly basis in terms of problems at different health boards and what action you are taking to address them, or will you again completely ignore them, as you have done with the problems in the GP out-of-hours service in north Wales?

Weinidog, a ydych yn cytuno fod hon yn enghraifft arall o bobl y gogledd yn cael cam gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn wir, yn cael can gennych chi, a'u bod yn rhoi bywydau cleifion mewn perygl? Pa gamau rydych chi fel Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau gyda'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau yn y gogledd? Ac o ystyried eich bod yn claddu eich pen yn y tywod fel estrys pan fydd y darnau hyn o wybodaeth yn dod yn ôl atoch yn wythnosol, yn ôl yr adroddiad, ynghylch y methiannau, a allwch chi ddweud wrthym pa bethau eraill rydych chi fel Llywodraeth yn eu cael yn wythnosol o ran problemau gyda gwahanol fyrddau iechyd a pha gamau rydych yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hwy, neu a fyddwch unwaith eto yn eu hanwybyddu'n llwyr, fel y gwnaethoch â'r problemau gyda'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau yn y gogledd?

15:04 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Presiding Officer, I was hoping we'd have a rather more constructive debate—

Wel, Lywydd, roeddwn wedi gobeithio y byddem yn cael dadl ychydig yn fwy adeiladol—

15:04 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure you were, but you've done nothing.

Rwy'n siŵr eich bod chi, ond nid ydych wedi gwneud unrhyw beth.

15:04 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—about the challenges of out-of-hours services for the population of north Wales. [Interruption.]

[Yn parhau.]—am heriau'r gwasanaethau y tu allan i oriau i boblogaeth gogledd Cymru. [Torri ar draws.]

15:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar, let the Minister answer the question. Deputy Minister.

Darren Millar, gadewch i'r Gweinidog ateb y cwestiwn. Ddirprwy Weinidog.

15:04 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The health board was aware of challenges within its out-of-hours service—[Interruption.]

Roedd y bwrdd iechyd yn ymwybodol o heriau yn ei wasanaethau y tu allan i oriau—[Torri ar draws.]

15:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar.

Darren Millar.

15:04 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

It commissioned an independent report to provide an independent review on those challenges, to talk to staff to give them the confidence to respond. What's important is that the health board asked its staff and listened to its staff in terms of what they had to say. The action plan that is being developed by the health board, and will be published, will set out how it deals with longer-term issues. They are already taking immediate actions to address issues around staff numbers and issues around the managerial culture. I look forward to seeing that action plan being carried out, and it being published, so that the public can see what they have done.

Fe gomisiynodd adroddiad annibynnol i ddarparu adolygiad annibynnol ar yr heriau hynny, i siarad â staff er mwyn rhoi'r hyder iddynt ymateb. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y bwrdd iechyd wedi gofyn i'w staff ac wedi gwrando ar ei staff ynglŷn â'r hyn a oedd ganddynt i'w ddweud. Bydd y cynllun gweithredu sy'n cael ei ddatblygu gan y bwrdd iechyd, ac a fydd yn cael ei gyhoeddi, yn nodi sut y mae'n delio â materion mwy hirdymor. Maent eisoes yn rhoi camau ar waith ar unwaith i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â niferoedd staff a materion yn ymwneud â'r diwylliant rheoli. Edrychaf ymlaen at weld y cynllun gweithredu hwnnw'n cael ei gyflawni, ac yn cael ei gyhoeddi, er mwyn i'r cyhoedd weld yr hyn y maent wedi'i wneud.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

You've done nothing.

Nid ydych wedi gwneud dim.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

But I do think that there should be some confidence here about the fact that the staff are taking part in this. Their comments are informing what action the health board is taking, and this is what we ask and expect health boards to do: to listen to their staff, listen to their patients, and then take action. You can't say on the one hand that there's been a critical report, and the health board are taking action as a result of it, and then complain about that fact. Your regular concern is that this doesn't take place; no challenges around governance and action. This is a good example of a service recognising that there is a problem and doing something about it.

Ond rwy'n credu y dylid cael rhywfaint o hyder yma ynghylch y ffaith fod y staff yn cymryd rhan yn hyn. Mae eu sylwadau'n llywio'r camau y mae'r bwrdd iechyd yn eu cymryd, a dyma'r hyn y gofynnwn ac y disgwyliwn i fyrddau iechyd ei wneud: gwrando ar eu staff, gwrando ar eu cleifion, a gweithredu wedyn. Ni allwch ddweud ar y naill law fod adroddiad beirniadol wedi bod, a bod y bwrdd iechyd yn gweithredu o ganlyniad iddo, a chwyno am y ffaith honno wedyn. Eich pryder cyson yw nad yw hyn yn digwydd; nad oes heriau mewn perthynas â llywodraethu a gweithredu. Mae hon yn enghraifft dda o wasanaeth sy'n cydnabod bod yna broblem ac yn gwneud rhywbeth am y peth.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Have you read the report?

A ydych chi wedi darllen yr adroddiad?

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Ann Jones. Darren Millar, I'm sorry, will you please stop? Ann Jones.

Ann Jones. Darren Millar, mae'n ddrwg gennyf, a fyddech cystal â rhoi'r gorau iddi? Ann Jones.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Thank you, Presiding Officer. Unlike Darren Millar, I haven't seen a copy of this leaked report, and leaked reports are very often not very helpful to keep public confidence on the right side. Public confidence in north Wales, as you will know, is at an all-time low. [Interruption.]

Diolch i chi, Lywydd. Yn wahanol i Darren Millar, nid wyf wedi gweld copi o'r adroddiad hwn a gafodd ei ddatgelu'n answyddogol, ac yn aml iawn, nid yw adroddiadau wedi'u datgelu yn y fath fodd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cynnal hyder y cyhoedd. Mae hyder y cyhoedd yn y gogledd, fel y gwyddoch, ar ei lefel isaf erioed. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I'm trying to listen to what Ann Jones is saying. Will you please stop muttering? Ann Jones.

Rwy'n ceisio gwrando ar yr hyn y mae Ann Jones yn ei ddweud. A wnewch chi roi'r gorau i fwmian os gwelwch yn dda? Ann Jones.

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. As I say, public confidence is at an all-time low, as well you know, because I have articulated that and attempted to articulate that on many issues around Betsi Cadwaladr health board. But the issue is around, I think, the salaried GP, which I have spoken about, and the recruitment element of the out-of-hours GP service now. Now, I will wait to read the report. I've already spoken to the chair of the local health board, and set up an important meeting with him to discuss this report, but, in the absence of my being able to read the full report, what assurances will you give my constituents that they should still look to the out-of-hours service as their first port of call, should they require medical assistance outside of normal GP hours, and that they should not be looking to circumvent, given what they will now read from the press, and go straight to an accident and emergency department? We can't afford to see spikes in A&E attendances because public confidence in the out-of-hours service may or may not be tainted by the leaked report.

Diolch yn fawr. Fel y dywedais, mae hyder y cyhoedd ar ei lefel isaf erioed, ac rydych yn gwybod hynny'n iawn, oherwydd rwyf wedi mynegi hynny ac wedi ceisio mynegi hynny ar lawer o faterion sy'n ymwneud â bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Ond mae'r mater hwn, rwy'n credu, yn ymwneud â meddygon teulu cyflogedig, ac rwyf wedi sôn amdanynt eisoes, ac elfen recriwtio'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau. Nawr, byddaf yn aros i ddarllen yr adroddiad. Rwyf eisoes wedi siarad â chadeirydd y bwrdd iechyd lleol, ac wedi trefnu cyfarfod pwysig gydag ef i drafod yr adroddiad hwn, ond os na fyddaf yn gallu darllen yr adroddiad llawn, pa sicrwydd y gallwch ei roi i fy etholwyr y dylent barhau i ddefnyddio'u gwasanaeth y tu allan i oriau fel man galw cyntaf os ydynt am gymorth meddygol y tu allan i oriau meddygon teulu arferol, ac na ddylent geisio osgoi defnyddio'r gwasanaeth hwnnw, o ystyried yr hyn y byddant yn awr yn darllen yn y wasg, a mynd yn syth i'r adran ddamweiniau ac achosion brys? Ni allwn fforddio gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i adrannau damweiniau ac achosion brys oherwydd y posibilrwydd fod hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi ei lygru gan yr adroddiad a ddatgelwyd yn answyddogol.

15:07 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question, and, dealing with the first point that you make around the staff mix, and it's a point that you've made consistently in this Chamber, to be fair, about the need to have salaried GPs as part of the solution for general services, as well as what that means for the out-of-hours service. There is also a recognition that the future of the out-of-hours service is about a combination of medical practitioners, so we do need to see more nurse practitioners taking a place within the service.

Diolch am y cwestiwn, ac i ddelio â'r pwynt cyntaf a wnewch ynglŷn â'r cymysgedd staff, ac mae'n bwynt rydych wedi ei wneud yn gyson yn y Siambr hon, i fod yn deg, ynglŷn â'r angen i ddefnyddio meddygon teulu cyflogedig yn rhan o'r ateb i wasanaethau cyffredinol, yn ogystal â'r hyn y mae hynny'n ei olygu ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau. Mae yna gydnabyddiaeth hefyd fod dyfodol y gwasanaeth y tu allan i oriau yn ymwneud â chyfuniad o ymarferwyr meddygol, felly mae angen i ni weld mwy o le i ymarferwyr nyrsio yn y gwasanaeth.

As an example of what we're doing to help the service, we've changed the rules on the performers list to make it easier for doctors to work in Wales. We've also ensured that there's no need to go to an out-of-hours service for repeat prescriptions. That's actually taken out a significant amount of demand. We've had a clear message from people working in the service that that's taken out over 100 people in the last Easter weekend and it's—in the words of a doctor who has written to us—made it a lovely place to work, and it's meant that they're a very committed group of staff, committed to their patients, and they think that they're delivering a much more effective service as a result of those changes. So, there are changes that are already being made.

Enghraifft o'r hyn rydym yn ei wneud i helpu'r gwasanaeth yw ein bod wedi newid y rheolau ynghylch y rhestr cyflawnwyr i'w gwneud yn haws i feddygon weithio yng Nghymru. Rydym hefyd wedi sicrhau nad oes angen mynd at wasanaeth y tu allan i oriau i gael presgripsiynau amlroddadwy. Mae hynny wedi cael gwared ar lawer iawn o'r galw mewn gwirionedd. Rydym wedi cael neges glir gan bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth fod hynny wedi cael gwared ar fwy na 100 o bobl dros benwythnos y Pasg eleni ac mae hynny—yng ngeiriau meddyg a ysgrifennodd atom—wedi ei wneud yn lle hyfryd i weithio, ac wedi golygu eu bod yn grŵp o staff ymroddedig iawn, sydd wedi ymrwymo i'w cleifion, ac maent yn credu eu bod yn darparu gwasanaeth llawer mwy effeithiol o ganlyniad i'r newidiadau hynny. Felly, mae yna newidiadau sydd eisoes yn cael eu gwneud.

And I really think that the final point that you make about not going by default to A&E and avoiding out-of-hours—. There are 11,000 calls each month to out-of-hours in north Wales, with 5,800 face-to-face visits, and 1,400 home visits. This is a service that delivers a regular amount of high-quality care to people in their communities. It's important that people continue to make use of the out-of-hours service as appropriate, and that people are signposted to the right place to get the right care at the right time, and I really do hope that residents in north Wales recognise that challenges exist in the out-of-hours service, they are being confronted and taken on, as they quite rightly should be, by the health board, and it's important that that action plan is published so that people can have confidence in the steps that they are now taking to address the challenges that they have quite rightly identified.

Ac rwy'n credu'n wirioneddol fod y pwynt olaf a wnewch ynglŷn â pheidio â mynd i'r adran ddamweiniau ac achosion brys yn ddiofyn gan osgoi'r gwasanaeth y tu allan i oriau—. Ceir 11,000 o alwadau bob mis i wasanaethau y tu allan i oriau yng ngogledd Cymru, gyda 5,800 o ymweliadau wyneb yn wyneb a 1,400 o ymweliadau â'r cartref. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu gofal rheolaidd o ansawdd uchel i bobl yn eu cymunedau. Mae'n bwysig fod pobl yn parhau i wneud defnydd o'r gwasanaeth y tu allan i oriau fel y bo'n briodol, a bod pobl yn cael eu cyfeirio at y lle cywir i gael y gofal cywir ar yr amser cywir, ac rwy'n gobeithio'n wirioneddol fod trigolion gogledd Cymru yn cydnabod bod yr heriau sy'n bodoli yn y gwasanaeth y tu allan i oriau yn cael eu hwynebu a'u goresgyn, fel y dylent, gan y bwrdd iechyd, ac mae'n bwysig fod y cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi fel y gall pobl gael hyder yn y camau y maent yn eu rhoi ar waith yn awr i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd ganddynt yn gwbl briodol.

15:09

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have to say, it is really disappointing that it's taken a leaked report for us to be able to highlight and bring these concerns. These concerns are very important to the people in north Wales, and, indeed, to patients within my own constituency, but, within the report, 84 per cent of respondents said that they felt that the service was not safe, 80 per cent expressed dissatisfaction, and, in fact, almost every area of service failed to meet the 2006 Welsh Government standards, and the provision of out-of-hours services are ultimately under-staffed, with serious management issues. I was shocked to read that three nurses have been suspended on full pay for the past three years. Other major failings identified include problems with leadership, low morale, lack of effective education, and problems filling rotas. Haven't we heard all this before?

Mae'n rhaid i mi ddweud ei bod yn wirioneddol siomedig fod yr adroddiad wedi gorfod cael ei ddatgelu'n answyddogol cyn i ni allu tynnu sylw at y pryderon hyn. Mae'r pryderon yn bwysig iawn i bobl yn y gogledd, ac yn wir, i gleifion yn fy etholaeth fy hun, ond yn yr adroddiad, dywedodd 84 y cant o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd y gwasanaeth yn ddiogel, mynegodd 80 y cant eu bod yn anfodlon, ac yn wir, roedd bron bob maes gwasanaeth wedi methu â bodloni safonau 2006 Llywodraeth Cymru, ac yn y pen draw, ceir prinder o staff yn y ddarpariaeth o wasanaethau y tu allan i oriau, ynghyd â phroblemau rheoli difrifol. Cefais fy synnu pan ddarllenais fod tair nyrs wedi cael eu gwahardd ar gyflog llawn am y tair blynedd diwethaf. Mae methiannau mawr eraill a gafodd eu nodi yn cynnwys problemau gydag arweinyddiaeth, morâl isel, diffyg addysgu effeithiol, a phroblemau gyda llenwi rotas. Onid ydym wedi clywed hyn i gyd o'r blaen?

The report findings have resulted, Presiding Officer, in 41 recommendations, including the need for an urgent review of management systems.

Mae canfyddiadau'r adroddiad, Lywydd, wedi arwain at 41 o argymhellion, gan gynnwys yr angen am adolygiad brys o systemau rheoli.

15:10

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Are you coming to the question?

A ydych yn dod at y cwestiwn?

15:10

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. Minister, you've failed—Deputy Minister and Minister—you've failed to act when Betsi Cadwaladr university health board first showed signs that its maternity services were struggling with the very same issues. Why has it been a leaked report? There is a problem with leadership there. You seem to be ignoring that. Now, you have the powers and you have the authority to intervene. You have the mandatory and statutory powers to do this. How bad do things have to get within my local health board and the people of north Wales before you actually show some action, or is the leadership problem a matter for your Welsh Government?

Ydw. Weinidog, rydych chi wedi methu—Weinidog a Dirprwy Weinidog—fe fethoch â gweithredu pan welwyd yr arwyddion cyntaf fod gwasanaethau mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael trafferth gyda'r un materion yn union. Pam y datgelwyd yr adroddiad yn answyddogol? Mae problem o ran arweinyddiaeth yno. Rydych i'ch gweld yn anwybyddu hynny. Nawr, mae gennych bwerau ac mae gennych awdurdod i ymyrryd. Mae gennych bwerau gorfodol a statudol i wneud hyn. Pa mor ddrwg sy'n rhaid i bethau fynd yn fy mwrdd iechyd lleol ac i bobl gogledd Cymru cyn i chi weithredu mewn gwirionedd, neu a yw'r broblem arweinyddiaeth yn fater i Lywodraeth Cymru?

15:11 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I don't think that morale in the service is going to be helped by the way in which the—by the lip-smacking relish with which some politicians tear into the service and misquote parts of the report.

Wel, nid wyf yn credu bod morâl y gwasanaeth yn mynd i gael ei helpu gan y ffordd y mae'r—gan y pleser brwd y mae rhai gwleidyddion yn ei gael wrth ddarnio'r gwasanaeth a chamddyfynnu rhannau o'r adroddiad.

15:11 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not relishing this.

Nid wyf yn cael pleser o hyn.

15:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

15:11 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The issues around safety relate to staff numbers and leadership, and there is a real leadership challenge, but the suggestion that 84 per cent of people think the service is unsafe all the time is simply not correct. It is really unfortunate and misleading. There is a serious debate to be had about the quality of out-of-hours services, the changing nature of demand, and what we need to see happen across Wales. The manner in which this report has been addressed today in this Chamber does nothing to help that. I really do think that it's important that we get to what needs to be done, and recognise the health board itself recognised there was a problem. They commissioned a report in January, it's been provided to staff within the out-of-hours service in March, and they are coming forward with an action plan. This is not something that's taking months and months and years and years to recognise and deal with.

Mae'r materion sy'n ymwneud â diogelwch yn ymwneud â niferoedd ac arweinyddiaeth staff, ac mae yna her go iawn i arweinyddiaeth, ond yn syml iawn, nid yw'r awgrym fod 84 y cant o bobl yn credu fod y gwasanaeth yn anniogel drwy'r amser yn gywir. Mae'n wirioneddol anffodus ac yn gamarweiniol. Mae dadl ddifrifol i'w chael ynghylch ansawdd y gwasanaethau y tu allan i oriau, y newid yn natur y galw, a'r hyn sydd angen i ni ei weld yn digwydd ledled Cymru. Nid yw'r modd y mae'r adroddiad wedi cael sylw yn y Siambr hon heddiw yn gwneud dim i helpu hynny. Rwy'n credu'n wirioneddol ei bod yn bwysig i ni ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei wneud, a chydnabod bod y bwrdd iechyd ei hun wedi cydnabod fod yna broblem. Fe gomisiynwyd adroddiad ganddynt ym mis Ionawr, cafodd ei ddarparu i staff yn y gwasanaeth y tu allan i oriau ym mis Mawrth, ac maent wedi paratoi cynllun gweithredu. Nid yw hyn yn rhywbeth sydd wedi cymryd misoedd a misoedd a blynyddoedd a blynyddoedd i'w gydnabod a'i ddatrys.

15:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar, will you stop muttering?

Darren Millar, a wnewch chi roi'r gorau i fwmian?

15:12 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There's a recognition that there are immediate issues to address, which the health board are addressing in terms of recruiting staff into the service, and the mix in the service that it requires. There is a longer-term challenge about the future model for out-of-hours services, and that's not just within north Wales; there's a broader challenge. There's a challenge right across the UK. The Member may or may not be aware but, in November 2014, the UK Parliament's Public Accounts Committee published a very critical report on out-of-hours services in England, highlighting a number of similar-scale challenges. This is a challenge for us to deal with in north Wales. The health board are addressing it, I expect them to address it, and their report will be published and shared with stakeholders. Let's address the issue and deal with the quality of service that citizens in north Wales quite rightly expect, and let's leave aside some of the rather more hysterical comments about the service as it exists.

Ceir cydnabyddiaeth fod yna faterion sydd angen mynd i'r afael â hwy ar unwaith, ac mae'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â hwy o ran recriwtio staff i'r gwasanaeth, a'r gymysgedd sydd ei angen ar y gwasanaeth. Mae dyfodol y model gwasanaeth y tu allan i oriau yn her hirdymor, ac nid yn y gogledd yn unig; mae yna her ehangach. Mae yna her ar draws y DU. Mae'n bosibl nad yw'r Aelod yn ymwybodol o hyn ond ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU adroddiad beirniadol iawn ar wasanaethau y tu allan i oriau yn Lloegr, gan dynnu sylw at nifer o heriau ar raddfa debyg. Mae hon yn her i ni fynd i'r afael â hi yng ngogledd Cymru. Mae'r bwrdd iechyd yn rhoi sylw i'r mater, rwy'n disgwyl iddynt roi sylw i'r mater, a bydd eu hadroddiad yn cael ei gyhoeddi a'i rannu gyda rhanddeiliaid. Gadewch i ni fynd i'r afael â'r mater a delio ag ansawdd y gwasanaeth y mae dinasyddion gogledd Cymru yn ei ddisgwyl, a gadewch i ni gael gwared ar rai o'r sylwadau ychydig yn fwy hysterig am y gwasanaeth fel y mae.

15:12 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps, Minister, to remove some of the hysteria around discussion of this issue, you'd like to start by confirming that you can un-leak the leaked report. I think it would be useful at this stage, for us all to understand the context of what you are being scrutinised on this afternoon, if that report was made public by you—I assume you've seen it, so you are in a position to make it public.

Weinidog, er mwyn cael gwared ar ychydig o'r hysteria sydd ynghlwm wrth y drafodaeth ar y mater, efallai yr hoffech ddechrau drwy gadarnhau y gallwch ddad-ddatgelu'r adroddiad a ddatgelwyd. Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol ar y cam hwn, i ni gyd ddeall cyd-destun yr hyn rydych yn cael eich craffu yn ei gylch y prynhawn yma, os cafodd yr adroddiad ei wneud yn gyhoeddus gennych chi—rwy'n tybio eich bod wedi ei weld, felly rydych mewn sefyllfa i'w wneud yn gyhoeddus.

Oherwydd mae'r prif ganlyniadau sydd wedi cael eu hamlygu yn gwbl ddamniol. Pan fo 84 y cant o staff y gwasanaeth yn credu bod y gwasanaeth yn anniogel ar ryw bwynt yn ystod eu cynhaliaeth o'r gwasanaeth hynny, mae hynny'n gwbl ddamniol, ac mae'n gyfrifoldeb arnoch chi fel y Dirprwy Weinidog gyda'r cyfrifoldeb sicrhau bod y cynllun gweithredu y mae'r bwrdd iechyd nawr ar fin rhoi yn ei le yn gymeradwy i chi, ac yn cael ei scrwtineiddio gennym ni ar ran pobl gogledd Cymru. Mae hyder pobl gogledd Cymru wedi cael ei siglo gan y ffaith bod staff yn credu bod y gwasanaeth yma yn anniogel, ac felly byddwn i'n gofyn i chi i ymyrryd a sicrhau bod y cynllun gweithredu y bydd y bwrdd iechyd yn rhoi yn ei le yn gymeradwy i chi, a'ch bod chi, maes o law, yn rhoi datganiad ger ein bron ni yn amlygu hynny.

Because the main findings that have been outlined are damning indeed. When 84 per cent of the staff believe that the service is unsafe at some point during their provision of that service, that is a damning verdict, and it is a responsibility upon you as the Deputy Minister with responsibility to ensure that the action plan that the health board is about to put in place is acceptable in your eyes, and is scrutinised by us on behalf of the people of north Wales. The confidence of the people of north Wales has been shaken by the fact that staff believe that this service is unsafe, and therefore I would ask you to intervene and to ensure that the action plan that the health board is to put in place is approved by you, and that you, in due course, give a statement to us highlighting that.

A gaf i ofyn un cwestiwn ychwanegol i chi? Y gwasanaeth mas-o-oriau yn y gogledd rydym ni'n ei drafod fan hyn; yng nghyd-destun hynny, a chanlyniadau'r gwaith yma rydym yn eu trafod y prynhawn yma, a ydych chi ag unrhyw syniad, unrhyw dystiolaeth sy'n dod i chi neu eich swyddogion nawr, bod y math yma o bryderon yn bodoli mewn byrddau iechyd unrhyw le arall yng Nghymru?

Can I ask one further question of you? The out-of-hours service in north Wales is what we're discussing here; in that context, and the outcomes of this report that we're discussing this afternoon, do you have any idea, any evidence that's come to you or to your officials now, that these kinds of concerns exist in other health boards anywhere else in Wales?

15:14 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question. I'm not aware of the same level of challenge. A number of the reports—. A number of the issues that are raised in north Wales are about bringing three different organisations together and challenges about the consistency of leadership between the three former divisions. So, I don't think those issues exist in every other health board. There is a broader challenge, though, about having the right mix of staff to provide an out-of-hours service. We're talking about minor injuries here; we're talking about urgent care. We're not talking about issues that do need a 999 response.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Nid wyf yn ymwybodol o'r un lefel o her. Mae nifer o'r adroddiadau—. Mae nifer o'r materion a grybwyllir yng ngogledd Cymru yn ymwneud â dod â thri sefydliad gwahanol at ei gilydd a heriau ynghylch cysondeb yr arweinyddiaeth rhwng y tair adran flaenorol. Felly, nid wyf yn credu bod y materion hynny'n bodoli ym mhob bwrdd iechyd arall. Mae yna her ehangach, fodd bynnag, o ran sicrhau'r cymysgedd iawn o staff i ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau. Rydym yn sôn am fân anafiadau yma; rydym yn sôn am ofal brys. Nid ydym yn sôn am faterion sydd angen ymateb 999.

On the point about the service here, my understanding of the comments made about the safety issues is that, at times, they're concerned about safety, in particular about the time it takes to deal with calls and about the level of staffing within the service. There's no suggestion that the service being provided directly is clinically unsafe.

O ran y pwynt am y gwasanaeth yma, fy nealltwriaeth i o'r sylwadau a wnaed am y materion diogelwch yw eu bod, ar adegau, yn poeni am ddiogelwch, yn enwedig ynglŷn â'r amser y mae'n ei gymryd i ddelio â galwadau ac am lefelau staffio yn y gwasanaeth. Nid oes unrhyw awgrym fod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol yn anniogel yn glinigol.

The challenge in terms of publishing the report is that these operational matters for the health board are not ones that, I think, Ministers here should directly concern themselves with and intervene. I am the Deputy Minister for Health; I am not the chief executive of the NHS in Wales—far less anything else. I think the challenge, though, is about ensuring—there is a very clear expectation—that any action plan, as a result, is properly published so that it is available to the public, but it's something that's got to be signed off by the clinical community that deliver that report within north Wales. I am very happy to make clear the expectation that that report will be published—that's a very clear expectation that we have—so that people will be able to see it for themselves in public without it being a leaked issue that's been commented on from one side and then brought here with a particular view on what people want to happen.

Yr her o ran cyhoeddi'r adroddiad yw nad yw'r materion gweithredol hyn ar gyfer y bwrdd iechyd yn rhai y dylai'r Gweinidogion yma ymwneud yn uniongyrchol â hwy nac ymyrryd â hwy yn fy marn i. Y Dirprwy Weinidog Iechyd wyf fi, nid prif weithredwr y GIG yng Nghymru—heb sôn am ddim arall. Rwy'n credu mai'r her, fodd bynnag, yw sicrhau—mae yna ddisgwyliad clir iawn—fod unrhyw gynllun gweithredu, o ganlyniad, yn cael ei gyhoeddi'n briodol er mwyn iddo fod ar gael i'r cyhoedd, ond mae'n rhywbeth sy'n rhaid i'r gymuned glinigol sy'n cyflwyno'r adroddiad yng ngogledd Cymru ei gymeradwyo. Rwy'n hapus iawn i wneud yn glir y disgwyliad y cyhoeddir yr adroddiad—mae'n ddisgwyliad clir iawn gennym—er mwyn i'r bobl allu ei weld drostynt eu hunain yn gyhoeddus heb iddo fod yn fater a ddatgelir yn answyddogol gydag un ochr yn gwneud sylwadau yn ei gylch, cyn cael ei ddwyn yma gyda barn benodol ar yr hyn y mae pobl am ei weld yn digwydd.

I'm very interested in what happens in out-of-hours services as a part of the wider unscheduled-care system. It's a huge part of what happens in the NHS each day, with about 2,000 calls to the out-of-hours service right across Wales each and every day. So, this part of the system has to work and work effectively, with the right staff giving the right care and advice at the right time. That's sometimes about diverting people to pharmacies and going somewhere else. Sometimes, it's about seeing practitioners directly, but we have to have that debate in a rather more sane way than people have tried to today, and that's what I'd like to see happen, but it's not a report that it's in my gift to publish. It's a matter for other people to deal with reports that they're wishing to leak from Betsi Cadwaladr, the health board, but it is a matter where I expect the report to be published and the action plan to be published properly as well.

Mae gen i ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaethau y tu allan i oriau fel rhan o'r system ofal heb ei drefnu ehangach. Mae'n rhan enfawr o'r hyn sy'n digwydd yn y GIG bob dydd, gyda thua 2,000 o alwadau i'r gwasanaeth y tu allan i oriau ledled Cymru bob dydd. Felly, rhaid i'r rhan hon o'r system weithio a gweithio'n effeithiol, gyda'r staff cywir yn rhoi'r gofal a'r cyngor cywir ar yr amser cywir. Mae hynny weithiau'n ymwneud â dargyfeirio pobl i fferyllfeydd a mannau eraill. Weithiau, mae'n ymwneud â gweld ymarferwyr yn uniongyrchol, ond mae'n rhaid i ni gael y ddadl honno mewn ffordd ychydig yn gallach nag y mae pobl wedi ceisio ei wneud heddiw, a dyna yr hoffwn ei weld yn digwydd, ond nid fy lle i yw cyhoeddi'r adroddiad. Mater i bobl eraill yw delio gydag adroddiadau y maent yn dymuno eu datgelu'n answyddogol o fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, ond rwy'n disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ac yn disgwyl i'r cynllun gweithredu gael ei gyhoeddi'n briodol hefyd.

15:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I've listened to your answers this afternoon. This morning, I listened to the chief executive of north Wales community health council, and he clearly said that the Welsh Government had been made aware of the situation some considerable time ago, and were completely in the loop on all of the discussions. You decry the secret report, or the leaked report, coming forward today to highlight the problems within the out-of-hours service there. Shouldn't you have been more proactive in informing people, considering you've been in the loop? Secondly, when did you first become aware of these major problems and why haven't you acted sooner to address them, rather than having to be dragged here this afternoon to take an urgent question? [Interruption.] You have been dragged here—it's an urgent question.

Ddirprwy Weinidog, rwyf wedi gwrando ar eich atebion y prynhawn yma. Y bore yma, gwrandais ar brif weithredwr cyngor iechyd cymuned gogledd Cymru, a dywedodd yn glir fod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am y sefyllfa gryn dipyn o amser yn ôl, a'i bod wedi cael eu cynnwys yn yr holl drafodaethau. Rydych yn bychanu'r adroddiad cyfrinachol, neu'r adroddiad a ddatgelwyd yn answyddogol, ac yn mynd ati heddiw i dynnu sylw at broblemau'r gwasanaeth y tu allan i oriau yno. Oni ddylech fod wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran rhoi gwybod i bobl, o ystyried eich bod wedi cael eich cynnwys yn y trafodaethau? Yn ail, pryd y daethoch chi'n ymwybodol gyntaf o'r problemau mawr hyn a pham nad ydych wedi gweithredu'n gynt i fynd i'r afael â hwy, yn hytrach na gorfod cael eich llusgo yma y prynhawn yma i ateb cwestiwn brys? [Torri ar draws.] Rydych chi wedi cael eich llusgo yma—mae'n gwestiwn brys.

15:18

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Welsh Government officials wrote to all health boards in October last year setting out Welsh Government expectations for delivery of out-of-hours services. There is a regular focus on delivery of out-of-hours services as a part of the weekly update on unscheduled care right across Wales. This is part of standard business that we take account of, and, of course, we've had issues raised with us about out-of-hours services across the country. The issue here in north Wales is that a report's been commissioned in January and published and made available to staff in March. This isn't about trying to delay or cover up what's happening; it's not about being dragged here kicking and screaming. This is an issue for the north Wales health board to take on board to deliver a quality service to the people of north Wales. They would not be able to do that if they did not, in the first place, recognise that they had a challenge, then do something about it, which they did with an independent report, where they listened to their staff, and then take forward an action plan about how to address it. That is the right way to deal with these issues. That is what I expect; I expect them to be transparent with their population in publishing the report and the action plan, but that does mean that the clinicians who are in charge of running the service and safeguarding its quality, in addressing issues about leadership and management as well, have the opportunity to sign off that report and make sure it's a proper action plan with real legs, real purpose and substance behind it, and that is what I expect to be provided to the public.

Ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at bob bwrdd iechyd ym mis Hydref y llynedd yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu gwasanaethau y tu allan i oriau. Ceir ffocws cyson ar ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau yn rhan o'r diweddariad wythnosol ar ofal heb ei drefnu ar draws Cymru gyfan. Mae hyn yn rhan o'r busnes cyffredinol rydym yn ei ystyried, ac wrth gwrs, mae problemau gyda gwasanaethau y tu allan i oriau ledled y wlad wedi cael eu dwyn i'n sylw. Y broblem yma yng ngogledd Cymru yw bod adroddiad wedi cael ei gomisiynu ym mis Ionawr ac wedi cael ei gyhoeddi ac ar gael i staff ym mis Mawrth. Nid yw hyn yn ymwneud â cheisio oedi neu gelu'r hyn sy'n digwydd; nid yw'n ymwneud â chael fy llusgo yma dan gicio a strancio. Mae'n fater i fwrdd iechyd gogledd Cymru ei ystyried er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd i bobl gogledd Cymru. Ni fyddent yn gallu gwneud hynny heb gydnabod, yn y lle cyntaf, eu bod yn wynebu her, a gwneud rhywbeth am y peth. A dyna a wnaethant gydag adroddiad annibynnol, lle y gwrandawsant ar eu staff, cyn cyflwyno cynllun gweithredu ar sut i fynd i'r afael â'r her. Dyna'r ffordd gywir i ddelio â'r materion hyn. Dyna rwy'n ei ddisgwyl; rwy'n disgwyl iddynt fod yn dryloyw gyda'u poblogaeth drwy gyhoeddi'r adroddiad a'r cynllun gweithredu, ond mae hynny'n golygu bod y clinigwyr sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth a diogelu ei ansawdd, wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth, yn cael cyfle i gymeradwyo'r adroddiad a gwneud yn siŵr ei fod yn gynllun gweithredu priodol gyda grym go iawn, pwrpas go iawn a sylwedd yn sail iddo, a dyna rwy'n disgwyl ei weld yn cael ei ddarparu i'r cyhoedd.

15:19

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, I have to say that I don't think that you're going to rebuild confidence in Betsi Cadwaladr if, as opposition parties, some of us are reliant on commenting on leaked reports. I have to say—. Certainly, neither I—[Interruption.] I'm making the point that neither I nor members of Plaid Cymru are able to quote elements of the report to the extent that some other parties are, so, I would suggest, as I did to Betsi Cadwaladr at the time of the maternity services report, that they actually brief Assembly Members with regard to issues of concern. We've had meetings with them since March with regard to other matters, and there's been no reference to any of these issues before.

Ddirprwy Weinidog, mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn credu eich bod yn mynd i ailennyn hyder yn Betsi Cadwaladr os yw rhai ohonom, fel gwrthbleidiau, yn dibynnu ar wneud sylwadau ar adroddiadau wedi'u datgelu'n answyddogol. Mae'n rhaid i mi ddweud—. Yn sicr, nid wyf i—[Torri ar draws.] Rwy'n gwneud y pwynt nad wyf i nac aelodau o Blaid Cymru yn gallu dyfynnu elfennau o'r adroddiad i'r graddau y gall rhai o'r pleidiau eraill, felly fe fyddwn yn awgrymu, fel y gwneuthum wrth Betsi Cadwaladr adeg yr adroddiad ar y gwasanaethau mamolaeth, eu bod yn briffio Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â materion sy'n peri pryder. Rydym wedi cael cyfarfodydd â hwy ers mis Mawrth mewn perthynas â materion eraill, ac ni chyfeiriwyd at unrhyw un o'r materion hyn o'r blaen.

Now, can I ask: I accept that Ministers shouldn't actually intervene in operational matters, but I think we are entitled as opposition politicians to ask how bad it needs to get before you do intervene. I also ask you to give us some reassurance this afternoon as to how long you've given the Betsi Cadwaladr board to actually respond and publish this implementation plan, as suggested in some of the press observations? What will you do about this board if they actually don't deal with the issues that are raised in their implementation plan, because that's what we need as users of the NHS in north Wales?

Nawr, a gaf fi ofyn: rwy'n derbyn na ddylai Gweinidogion ymyrryd mewn materion gweithredol, ond rwy'n credu bod gennym hawl fel gwleidyddion y gwrthbleidiau i ofyn pa mor ddrwg sy'n rhaid i bethau fynd cyn i chi ymyrryd. Rwyf hefyd yn gofyn i chi roi rhywfaint o sicrwydd i ni y prynhawn yma ynglŷn â faint o amser a roesoch i fwrdd Betsi Cadwaladr i ymateb a chyhoeddi'r cynllun gweithredu hwn, fel yr awgrymwyd mewn ambell sylw yn y wasg? Beth fyddwch yn ei wneud ynglŷn â'r bwrdd os nad yw'n ymdrin â'r materion sy'n codi yn ei gynllun gweithredu, gan mai dyna sydd ei angen arnom fel defnyddwyr y GIG yng ngogledd Cymru?

15:21 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can't be any clearer about expecting the implementation plan to be published; I think it's important that it is, so that people can see that stakeholders have an opportunity to engage—the staff themselves, patients and, of course, elected representatives. I'd expect Betsi Cadwaladr to be talking to elected representatives around that action plan. However, I'm really not in a position to deal with the fact that this report has been leaked. I appreciate the difficulty that some Members of this Chamber have in not having seen a report that is being leaked and is the subject of the question, but that really isn't a matter for me, and that isn't a matter for the Government, either. It's a report that has been commissioned by Betsi Cadwaladr health board on a specific issue to inform the action that they are going to take, and I really don't think it's on for politicians to try to say that, somehow, this is the Welsh Government's fault that a report has been leaked and is subject to questions here. I expect the health board to deal properly with its local population, and that includes its elected representatives.

Ni allaf fod yn fwy eglur ynglŷn â disgwyl i'r cynllun gweithredu gael ei gyhoeddi; rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iddo gael ei gyhoeddi, er mwyn i bobl allu gweld bod cyfle i randdeiliaid ymgysylltu—y staff eu hunain, cleifion, a chynrychiolwyr etholedig wrth gwrs. Byddwn yn disgwyl i Betsi Cadwaladr siarad â chynrychiolwyr etholedig ynglŷn â'r cynllun gweithredu hwnnw. Fodd bynnag, nid wyf mewn sefyllfa i ddelio â'r ffaith fod yr adroddiad wedi cael ei ddatgelu'n answyddogol. Rwy'n derbyn yr anhawster y mae rhai Aelodau o'r Siambr hon yn ei gael am nad ydynt wedi gweld yr adroddiad a ddatgelwyd yn answyddogol sy'n destun i'r cwestiwn, ond nid mater i mi yw hynny mewn gwirionedd, ac nid yw'n fater i'r Llywodraeth ychwaith. Mae'n adroddiad a gomisiynwyd gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ar fater penodol i lywio'r camau y maent am eu cymryd, ac nid wyf yn credu o gwbl ei bod yn iawn i wleidyddion geisio rhoi'r bai, rywsut, ar Lywodraeth Cymru am fod yr adroddiad wedi cael ei ddatgelu'n answyddogol a'i fod yn destun cwestiynau yma. Rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd ddelio â'i boblogaeth leol yn briodol, ac mae hynny'n cynnwys ei gynrychiolwyr etholedig.

15:22

## Cwestiwn Brys: Twf Swyddi Cymru

## Urgent Question: Jobs Growth Wales

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the second urgent question. I ask Eluned Parrott to ask that question.

Symudwn yn awr at yr ail gwestiwn brys. Rwy'n gofyn i Eluned Parrott ofyn y cwestiwn hwnnw.

15:22 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adnewyddu rhaglen Twf Swydd Cymru, yn sgil y cyhoeddiad heddiw y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i'w hariannu? EAQ(4)0576(ESK)*

*Will the Minister make a statement on the renewal of the Jobs Growth Wales programme, in light of today's announcement of continued funding by the Welsh Government?*

15:22 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I'm very pleased indeed to confirm that Jobs Growth Wales has secured European funding of £25 million from the European social fund for a further three years. We are absolutely delighted that the programme will help even more employers to expand their business and will find jobs for an additional 2,900 unemployed young people this year.

Rwy'n falch iawn o gadarnhau bod Twf Swyddi Cymru wedi sicrhau cyllid Ewropeaidd o £25 miliwn o gronfa gymdeithasol Ewrop am dair blynedd arall. Rydym wrth ein boddau y bydd y rhaglen yn helpu mwy fyth o gyflogwyr i ehangu eu busnesau a dod o hyd i swyddi ar gyfer 2,900 ychwanegol o bobl ifanc ddi-waith eleni.

15:22 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Deputy Minister, I had hoped that this Government would show some signs of adaptive behaviour when it comes to Jobs Growth Wales, but, judging by the fact that you've slipped another announcement out in the press, rather than bringing it to the Chamber for proper scrutiny, as it deserves, that seems like a rather forlorn hope, doesn't it, really?

Wel, Ddirprwy Weinidog, roeddwn wedi gobeithio y byddai'r Llywodraeth hon yn dangos rhai arwyddion o'r gallu i ymaddasu mewn perthynas â Twf Swyddi Cymru, ond â barnu o'r ffaith eich bod wedi sleifio cyhoeddiad arall i'r wasg yn hytrach na dod ag ef i'r siambr i gael ei graffu'n briodol, fel y mae'n ei haeddu, mae hwnnw'n ymddangos yn obaith gwan, onid yw, mewn difrif?

Your own evaluation report identified some significant concerns with Jobs Growth Wales, particularly that it was poorly targeted, in that 75 per cent of its participants would have found work in any case, and that participants were trapped in low wages even after they had left the scheme—a point that you have never responded to. The purpose of evaluation is not to pat Ministers on the back, or even in this case to load the canon for the opposition, as it so often has; the purpose of evaluation is to improve policy delivery. That is what it is for. What changes have you made to the new Jobs Growth Wales scheme to overcome the issues that were identified in your own evaluation?

Roedd eich adroddiad gwerthuso eich hun yn nodi rhai pryderon sylweddol gyda Twf Swyddi Cymru, yn enwedig y ffaith ei fod wedi cael ei dargedu'n wael, gan y byddai 75 y cant o'i gyfranogwyr wedi dod o hyd i waith beth bynnag, a bod y cyfranogwyr wedi cael eu caethiwo mewn swyddi ar gyflogau isel, hyd yn oed ar ôl iddynt adael y cynllun—pwynt nad ydych erioed wedi ymateb iddo. Nid pwrpas gwerthuso yw rhoi clod i Weinidogion, neu yn yr achos hwn, llwytho'r canon dros yr wrthblaid, fel y mae wedi'i wneud mor aml; pwrpas gwerthuso yw gwella'r modd y caiff polisïau eu cyflawni. Dyna'i bwrpas. Pa newidiadau a wnaethoch i gynllun newydd Twf Swyddi Cymru er mwyn goresgyn y problemau a nodwyd yn eich gwerthusiad eich hun?

15:23

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you for that question; it shows a profound misunderstanding of the European process, as I said during the debate that we had on this matter last time. Jobs Growth Wales is a runaway success. Only this morning, I visited a company that had taken on a single Jobs Growth Wales applicant to complement its now workforce of four. All of its workforce, apart from the start-up person, are Jobs Growth Wales applicants. I interviewed them—and I hope the BBC will show it later—and they were universal in their praise and gratitude to the Welsh Government and to their employer for participating in the scheme. The employer confirmed once more that they could not have grown their business without the help of this scheme, and all of the young people there told me how incredibly grateful they were for the opportunity. The Liberal Democrats are renowned, I'm afraid, for not taking young people seriously, as we all know from the tuition fees scandal, and this is just another example of that.

Wel, diolch i chi am y cwestiwn; mae'n dangos camddealltwriaeth difrifol o'r broses Ewropeaidd, fel y dywedais yn ystod y ddadl a gawsom ar y mater hwn y tro diwethaf. Mae Twf Swyddi Cymru yn llwyddiant ysgubol. Bore heddiw ddiwethaf, ymwelais â chwmni a oedd wedi rhoi swydd i ymgeisydd Twf Swyddi Cymru i greu gweithlu o bedwar. Mae pob aelod o'i weithlu, ar wahân i'r person a gychwynnodd y busnes, yn ymgeiswyr Twf Swyddi Cymru. Bûm yn eu holi—ac rwy'n gobeithio y bydd y BBC yn ei ddangos yn ddiweddarach—ac roeddent yn hynod o ganmoliaethus ac yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru ac i'w cyflogwr am gymryd rhan yn y cynllun. Cadarnhaodd y cyflogwr unwaith eto na allent fod wedi ehangu eu busnes heb help y cynllun hwn, a dywedodd pob un o'r bobl ifanc wrthyf pa mor hynod o ddiolchgar oeddent am y cyfle. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn enwog, yn anffodus, am beidio â chymryd pobl ifanc o ddifrif, fel rydym i gyd yn ei wybod o'r sgandal ffioedd dysgu, ac mae hon yn enghraifft arall o hynny.

In terms of the evaluation, we've already had this debate—[Interruption.] You asked the question, this is the answer.

O ran y gwerthusiad, rydym eisoes wedi cael y ddadl hon—[Torri ar draws.] Chi a ofynnodd y cwestiwn, dyma'r ateb.

15:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

15:25

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of the interim evaluation of the programme, Eluned Parrott should learn to read the entire thing. First of all, it's an interim evaluation; we will publish the final evaluation. In the interim evaluation of the programme, the programme found that employers had expanded their workforce more rapidly than they otherwise would have done, young people had been in work longer on average when supported through Jobs Growth Wales, the programme delivered targets well ahead of schedule, more than a quarter of those finding work through Jobs Growth Wales would not have done so at all without the programme, and all of them had done so more quickly. The short-term economic benefits of the programme were as much as £24.6 million at that time.

O ran y gwerthusiad interim o'r rhaglen, dylai Eluned Parrott ddysgu darllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd. Yn gyntaf oll, gwerthusiad interim ydyw; byddwn yn cyhoeddi'r gwerthusiad terfynol. Canfu gwerthusiad interim y rhaglen fod: cyflogwyr wedi ehangu eu gweithlu'n gynt nag y byddent wedi ei wneud fel arall; roedd pobl ifanc wedi bod mewn gwaith yn hirach ar gyfartaledd o gael cymorth Twf Swyddi Cymru; cyrhaeddodd y rhaglen ei thargedau ymhell o fewn yr amserlen; ni fyddai mwy na chwarter y rhai a ddaeth o hyd i waith drwy Twf Swyddi Cymru wedi gwneud hynny o gwbl heb y rhaglen; a llwyddodd pob un ohonynt i wneud hynny'n gyflymach. Roedd manteision economaidd tymor byr y rhaglen yn werth cymaint â £24.6 miliwn ar y pryd.

There were some recommendations for improvement, and of course, that's the point of the evaluation. We build on the success of the programme and implement changes where we learn lessons. So, we streamlined the programme to maximise the potential for individuals to progress into sustained employment with employers that have identified opportunities for business growth. One of the issues that we have, and individual Members bring this to our attention all the time, is the number of employers who can't get on the programme, because actually they can't show the right sort of attitude. This is not a scheme supported by the previous coalition, for example, of putting young people into hopeless employment with no prospects. This is a scheme for jobs growth and business growth, and you really can't come to terms with that, can you?

Roedd yna rai argymhellion ar gyfer gwella, ac wrth gwrs, dyna bwynt y gwerthusiad. Rydym yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen ac yn gweithredu newidiadau lle rydym yn dysgu gwersi. Felly, rydym wedi symleiddio'r rhaglen i wneud y gorau o botensial unigolion i symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy gyda chyflogwyr sydd wedi nodi cyfleoedd ar gyfer tyfu eu busnesau. Un o'r problemau sydd gennym, ac mae Aelodau unigol yn tynnu sylw at hyn drwy'r amser, yw nifer y cyflogwyr nad ydynt yn gallu cael lle ar y rhaglen am nad ydynt yn gallu dangos y math cywir o agwedd mewn gwirionedd. Nid cynllun yw hwn a gefnogwyd gan y glymblaid flaenorol, er enghraifft, ar gyfer rhoi gwaith diobaith i bobl ifanc heb unrhyw ragolygon. Mae'n gynllun ar gyfer tyfu swyddi a thyfu busnesau, ac ni allwch ddod i delerau â hynny, allwch chi?

We've enhanced the mentoring levels available to participants where we need to do that, we've worked more closely with employers to ensure unsuccessful candidates receive appropriate feedback where necessary. Our absolute priority in these times is to stand up for the young people of Wales to create jobs and enable growth, and I make no apology for that whatsoever. I'm very proud of it.

Rydym wedi gwella'r lefelau mentora sydd ar gael i gyfranogwyr lle y mae angen i ni wneud hynny, rydym wedi gweithio'n agosach gyda chyflogwyr i sicrhau fod ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael adborth priodol lle y bo angen. Ein blaenoriaeth lwyr ar yr adeg hon yw sefyll dros bobl ifanc Cymru drwy greu swyddi a galluogi twf, ac nid wyf yn ymddiheuro am hynny o gwbl. Rwy'n falch iawn ohono.

15:26 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is yet another sorry chapter. This Deputy Minister will know that when it was originally envisaged, this programme was welcomed across the Chamber. The, we saw the interim report, which you're now dismissing, which is very, very definite. May I quote? The interim report suggest 73 per cent of young people:

Mae hon yn bennod wael arall eto. Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod fod y rhaglen hon wedi cael croeso ar draws y Siambr pan gafodd y syniad ei wyntyllu'n wreiddiol. Gwelsom yr adroddiad interim, yr adroddiad rydych yn awr yn ei ddiystyru, ac mae'n bendant iawn, iawn. A gaf fi ddyfynnu? Mae'r adroddiad interim yn awgrymu y byddai 73 y cant o bobl ifanc:

'would have found employment in the absence of the programme'.

'wedi dod o hyd i waith heb y rhaglen'.

So, Deputy Minister, why is it that this programme ran out of steam, ran out of money? You must have known there were 12 months in the year. You must have known how the European scheme works. You've offered no answers to that today, and this rather shoddy announcement this morning, on what's supposed to be, for your Government, a flagship policy—how do you answer that?

Felly, Ddirprwy Weinidog, pam y mae'r rhaglen wedi colli stêm, wedi mynd yn brin o arian? Mae'n rhaid eich bod yn gwybod fod yna 12 mis mewn blwyddyn. Mae'n rhaid eich bod yn gwybod sut y mae'r cynllun Ewropeaidd yn gweithio. Nid ydych wedi cynnig unrhyw atebion i hynny heddiw, ac mae'r cyhoeddiad tila hwn y bore yma, ar yr hyn sydd i fod, i'ch Llywodraeth, yn bolisi blaenllaw—sut rydych chi'n ateb hynny?

15:27 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think it's quite extraordinary for William Graham to accuse me of not understanding the EU funding arrangements when he quite clearly has yet to do so himself. This is very much business as usual. We applied for new funds at the end of the scheme; we now have them, I'm delighted we have them. The European funding office are delighted to be able to support this scheme into the future because, clearly, it's a very good scheme supported by absolutely everybody in Wales, apart from—it seems to me—the opposition parties in this Chamber, quite extraordinarily.

Wel, rwy'n credu ei bod yn eithaf syfrdanol fod William Graham yn fy nghyhuddo o fethu deall trefniadau ariannu'r UE pan fo'n eithaf clir nad yw'n eu deall ei hun eto. Busnes fel arfer yw hyn. Gwnaethom gais am gyllid newydd ar ddiwedd y cynllun; mae'r cyllid hwnnw gennym bellach, ac rwyf wrth fy modd ein bod wedi ei gael. Mae'r swyddfa cyllid Ewropeaidd yn falch iawn o allu cefnogi'r cynllun hwn yn y dyfodol am ei fod, yn amlwg, yn gynllun da iawn sy'n cael ei gefnogi gan bawb yng Nghymru, ar wahân i'r gwrthbleidiau yn y Siambr hon, mae'n ymddangos i mi, sy'n eithriadol iawn.

In terms of the number of people who would have got a job anyway—[Interruption.] Apart from Plaid, I take it back. Plaid Cymru have, of course, been very supportive. I beg your pardon, and that's a correction well made. However, the point about this scheme is—and I will say it one more time—it is aimed at job-ready youngsters who do not have any work experience. It is a way of getting them that work experience; it works. We have interest right across Europe in this scheme. It is a very successful scheme. I'm not surprised that 73 per cent of them would have got work anyway—I'm surprised it's not 100 per cent, actually. The point is: how long would it have taken them, and what sort of work would it have been? In the company I went to visit this morning, for example, they would certainly not have got the jobs being web designers and programmers and application makers and so on that that company was offering, because the company simply wouldn't have been able to offer those jobs. So, they may have got some kind of job, but they wouldn't have got those sorts of jobs. I simply don't know, Presiding Officer, how I could make this any plainer. It's a very well-regarded scheme; it works, it's successful, we're proud of it.

O ran nifer y bobl a fyddai wedi cael swydd beth bynnag—[Torri ar draws.] Ar wahân i Blaid Cymru, rwy'n ei gymryd yn ôl. Mae Plaid Cymru wedi bod yn gefnogol iawn wrth gwrs. Mae'n ddrwg gennyf, ac mae hwnnw'n gywiriad teg. Fodd bynnag, y pwynt am y cynllun hwn—ac rwy'n ei ddweud unwaith eto—yw ei fod wedi ei anelu at bobl ifanc sy'n barod at waith ond heb gael profiad gwaith. Mae'n ffordd o roi'r profiad gwaith hwnnw iddynt; mae'n gweithio. Mae diddordeb ar draws Ewrop yn y cynllun hwn. Mae'n gynllun llwyddiannus iawn. Nid wyf yn synnu y byddai 73 y cant ohonynt wedi cael gwaith beth bynnag—rwy'n synnu nad yw'n 100 y cant mewn gwirionedd. Y pwynt yw hyn: pa mor hir y byddai wedi cymryd iddynt ddod o hyd i waith, a pha fath o waith fyddai hwnnw? Yn y cwmni yr ymwelais ag ef y bore yma, er enghraifft, yn sicr ni fyddent wedi cael swyddi dylunwyr a rhaglenwyr y we a llunwyr cymwysiadau ac yn y blaen a gynigid gan y cwmni hwnnw, oherwydd yn syml iawn, ni fyddai'r cwmni wedi gallu cynnig y swyddi hynny. Felly, mae'n bosibl y byddent wedi cael rhyw fath o swydd, ond ni fyddent wedi cael y mathau hynny o swyddi. Nid wyf yn gwybod wir, Lywydd, sut y gallwn wneud hyn yn gliriach. Mae'n gynllun sy'n cael ei ystyried yn un da iawn; mae'n gweithio, mae'n llwyddiannus, rydym yn falch ohono.

15:28

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Fel roeddwn i newydd atgoffa'r Dirprwy Weinidog, mae Plaid Cymru wastad wedi cefnogi cynlluniau i helpu pobl ifanc mewn i gyflogaeth ac wedi cefnogi Twf Swyddi Cymru yn y gorffennol. Ond, rydym ni hefyd wedi gofyn cwestiynau ynglŷn â natur y cynllun, ac rwy'n falch bod yna gwestiwn brys wedi cael ei ganiatáu heddiw, ond rydw i yn sylwi nad oes datganiad wedi bod, naill ai pan roedd y cynllun yn dod i ben dros dro na phan mae'n ailgychwyn, sydd yn ei gwneud yn fwy anodd i ni graffu ar beth yw bwriadau'r Llywodraeth—mae'n rhaid dweud hynny. Ac felly, mae'n rhaid gofyn dau gwestiwn penodol, rwy'n meddwl, i'r Dirprwy Weinidog heddiw.

Thank you, Presiding Officer. As I have just reminded the Deputy Minister, Plaid Cymru has always supported schemes to help young people into employment and has supported Jobs Growth Wales in the past. But, we have also asked questions about the nature of the scheme, and I am pleased that an urgent question has been allowed today, but I notice that there hasn't been a statement, either when the scheme temporarily came to an end or at the point of its reinstatement, which makes it more difficult for us to scrutinise the Government's intentions—that must be said. Therefore, two specific questions must be asked of the Deputy Minister today, I believe.

Yn gyntaf oll, rydych chi wedi datgan y swm o £25 miliwn, rwy'n meddwl, dros y tair blynedd nesaf, sydd nawr wedi cael ei ryddhau o arian Ewropeaidd; rwy'n cymryd bod hynny'n cyfateb i swm yr arian y tu fewn i Lywodraeth Cymru hefyd. Ond, mae'n ymddangos i mi fod hwn yn doriad yn y gyllideb gyfan a oedd gyda chi am y tair blynedd ddiwethaf ar gyfer Twf Swyddi Cymru. Yn benodol, eleni, mae'n ymddangos i mi y byddwch chi'n mynd i lawr o £25 miliwn yn gyfanwerth ar gyfer y flwyddyn i rywbeth fel £17.5 miliwn. A allwch chi gadarnhau, os gwelwch yn dda, faint yw'r arian yma yn gyfanswm, ac ydy hwnnw'n doriad yn yr hyn sydd ar gael? Wedi dweud hynny, mae'n bosib bod angen toriad achos mae'n bosib bod llai o ddiweithdra ymysg pobl ifanc—mae'n bosib bod rheswm dros y toriad yna. Rwyf jest eisiau deall maint y gyllideb ar hyn o bryd.

First of all, you have announced the sum of £25 million, I think, over the next three years, which has now been released from European money; I take it that that corresponds to the sum available from within the Welsh Government. But it looks to me as if this is a cut in the full budget that you had for Jobs Growth Wales over the last three years. Specifically, it seems to me that, this year, you will be going down from a total of £25 million for the year to something like £17.5 million. Can you confirm, please, how much this funding is in total, and whether it's a cut in what has been available? Having said that, perhaps there needs to be a cut in funding because there may be less unemployment among young people—there may be a rationale behind that cut. I just want to understand the size of the budget as it stands at present.

Yr ail elfen rwyf jest eisiau ei chodi gyda chi: rwy'n derbyn bod y gwerthusiad yn un 'pro tem', ac yn un dros dro, ond roedd yna gwestiwn yn y gwerthusiad yn arbennig o gwmpas graddedigion, ac yn arbennig o gwmpas yr angen i gael rhai o'r bobl oedd heb sgiliau i feithrin sgiliau tu fewn i'r cynllun yma. Felly, a fedrwch chi esbonio beth fyddwch chi'n ei wneud nawr o dan y cynllun newydd i ddysgu o'r gwersi hynny, i wella'r cynllun—achos does dim un cynllun yn gallu mynd am chwe blynedd heb newid na gwella na dim? Felly, pa bethau sydd gyda chi ar y gweill nawr i wella'r cynllun fel bod modd i'r cynllun adeiladu ar lwyddiant a ddim dechrau gwywo yn y ffordd rwy'n ofni y bydd yn ei wneud heb hynny?

The second element that I want to raise with you: I accept that the evaluation is a pro tem evaluation, but there was a question in the evaluation particularly around graduates, and particularly around the need to have some of the people who didn't have skills to develop those skills within this programme. So, can you explain what you will now do under the new programme to learn lessons, to improve the programme—because no programme can remain in place for six years without making any changes or improvements? So, what do you now have in the pipeline to improve the programme so that it can build on its successes rather than start to deteriorate in the way that I fear it may do unless those lessons are learnt?

15:31 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those very sensible questions. The question about the funding is very simple: it's a programme envelope. So, we had funding in one programme envelope, that programme envelope finishes, we have funding for the next programme envelope. You have to go through a normal business process of reapplying for the funding. Sometimes we apply for the funding in almost exactly the same terms as we did before, for other schemes we change it quite radically. There are also issues around the EU funding criteria changing and making sure that you can match them. So, you know, it's a complex, but normal business process. It's not a big deal about one scheme finishing and one scheme starting again. It is the end of a programme envelope. I don't know why everybody's picked on Jobs Growth Wales; there are a number of schemes in the programme envelope that are finishing and starting up again, and so on. [Interruption.]

Diolch i chi am eich cwestiynau synhwyrol iawn. Mae'r cwestiwn ynglŷn â'r arian yn syml iawn: dyma'r trefniant rhaglen. Felly, cawsom arian mewn un trefniant rhaglen, daeth y trefniant rhaglen i ben, mae gennym arian ar gyfer y trefniant rhaglen nesaf. Mae'n rhaid i chi fynd drwy broses fusnes arferol o ailymgeisio am y cyllid. Weithiau rydym yn gwneud cais am yr arian bron yn yr un modd yn union ag y cafodd ei wneud o'r blaen, ac ar gyfer cynlluniau eraill rydym yn ei newid yn eithaf sylweddol. Mae yna faterion yn codi hefyd wrth i feini prawf cyllido yr UE newid a gorfod gwneud yn siŵr eich bod yn gallu addasu i hynny. Felly, wyddoch chi, mae'n broses fusnes gymhleth, ond arferol. Nid yw'r ffaith fod un cynllun yn gorffen a chynllun arall yn dechrau eto nac yma nac acw. Dyma ddiwedd y trefniant rhaglen. Nid wyf yn gwybod pam y mae pawb wedi pigo ar Twf Swyddi Cymru; mae yna nifer o gynlluniau yn y trefniant rhaglen sy'n gorffen ac yn dechrau eto, ac ati. [Torri ar draws.]

Well, you know, it's a flagship one so we are continuing it. I could talk to you about six or seven other schemes that the department sponsors that are changing in various ways and so on. In due course, I intend to do just that, when we've got our heads around exactly where we are. Also, bear in mind that it's not only the Welsh Government that applies for these schemes: the regional learning partnerships apply, the local authorities apply, and so on. So, when we've got a complete picture of what we're looking at in terms of the offer to Wales's young people and Wales's unemployed people, we will of course be putting that forward, and no doubt the committees will want to invite us to properly scrutinise that and that's absolutely correct and as it should be. This is just business as normal, so I'm slightly baffled about why it's become a big deal.

Wel, wyddoch chi, mae'n gynllun blaenllaw felly byddwn yn ei barhau. Gallwn siarad â chi am chwech neu saith o gynlluniau eraill y mae'r adran yn eu noddi sy'n newid mewn gwahanol ffyrdd ac yn y blaen. Maes o law, rwy'n bwriadu gwneud hynny, pan fyddwn wedi dod i delerau â lle yn union rydym ni. Hefyd, cofiwch nad Llywodraeth Cymru yn unig sy'n ymgeisio am y cynlluniau hyn: mae'r partneriaethau dysgu rhanbarthol yn ymgeisio, mae'r awdurdodau lleol yn ymgeisio, ac yn y blaen. Felly, pan fyddwn wedi cael darlun cyflawn o'r hyn rydym yn edrych arno o ran y cynnig i bobl ifanc Cymru a phobl ddi-waith Cymru, byddwn yn cyflwyno hynny wrth gwrs, ac nid oes amheuaeth y bydd y pwyllgorau eisiau ein gwahodd i graffu'n briodol ar hynny ac mae hynny'n hollol gywir ac fel y dylai fod. Busnes fel arfer yw hyn, felly rwyf wedi drysu braidd ynglŷn â pham ei fod wedi tyfu'n beth mawr.

In terms of the funding envelope, yes it is a smaller amount and it's a smaller amount deliberately, because Jobs Growth Wales was one of the measures that we put in place—and it was only one of them—right back in the depths of the recession, to boost up the numbers of people quickly into jobs and to help businesses to grow. We still need that boost, but we don't need it at such a level as we did before, although we still need it. So, obviously, we've ramped the programme down a little bit. In truth, actually, we could have ramped it up to double with the number of applicants that we've got going for it, but we are using companies such as the one that I visited this morning as exemplar companies to use other levers—soft levers—to persuade companies to take on young people even without Welsh Government support. The scheme has changed just a little. It's really technical, the change, but I'm more than happy to put a note out to Members to detail those changes.

O ran y trefniant ariannu, ydy, mae'n swm llai ac mae'n swm llai yn fwriadol, gan fod Twf Swyddi Cymru yn un o'r mesurau a roesom ar waith—ac un ohonynt yn unig ydoedd—yn ôl yng nghanol y dirwasgiad i hybu nifer y bobl a fyddai'n dod o hyd i waith yn gyflym ac i helpu busnesau i ehangu. Rydym angen yr hwb hwnnw o hyd, ond nid ydym ei angen i'r fath raddau ag o'r blaen, er ein bod ei angen o hyd. Felly, yn amlwg, rydym wedi lleihau'r rhaglen ychydig bach. Mewn gwirionedd, gallem fod wedi ehangu'r rhaglen ddwywaith drosodd o ran nifer yr ymgeiswyr sydd gennym yn ymgeisio amdani, ond rydym yn defnyddio cwmnïau megis yr un yr ymwelais ag ef y bore yma fel cwmnïau enghreifftiol i ddefnyddio dulliau eraill—dulliau meddal—o berswadio cwmnïau i gyflogi pobl ifanc heb gymorth gan Lywodraeth Cymru hyd yn oed. Mae'r cynllun wedi newid ychydig bach. A dweud y gwir, mae'n newid technegol, ond rwy'n fwy na bodlon dosbarthu nodyn i'r Aelodau gyda manylion y newidiadau hynny.

So, you know, I think it's an excellent programme. I don't know how to say that more vehemently than I already have before. Everywhere in Wales I go, no matter whose constituency, no matter whose region, I meet people falling over themselves to tell me how great it is. I don't know what other proof we need.

Felly, wyddoch chi, rwy'n credu ei bod yn rhaglen ardderchog. Nid wyf yn gwybod sut i ddweud hynny'n daerach nag a wneuthum eisoes. I ba le bynnag yr af yng Nghymru, pa etholaeth bynnag, pa ranbarth bynnag, rwy'n cwrdd â phobl sy'n baglu dros ei gilydd i ddweud wrthyf pa mor wych yw'r rhaglen. Nid wyf yn gwybod pa dystiolaeth arall sydd ei hangen arnom.

In terms of the evaluation, it was an interim evaluation and I already answered Eluned Parrott in saying what small adjustments we'd made in terms of the interim evaluation. That's the point of an evaluation: that you learn lessons from it and we have. The final evaluation is due. It's in process now and I'm hoping that it will be before the summer recess. But, I've already had conversations with officials about what happens if it comes out over recess, to make proper arrangements for Members to get copies and so on, as soon as it's available. I don't want to hold it up, so if it does come out in August we'll let that happen, but, on the other hand, I've tried very hard to get it to happen before the end of the summer term so that this Chamber can have it as soon as it's available. As soon as it's available, I'll make sure you do have it.

O ran y gwerthusiad, gwerthusiad interim ydoedd ac rwyf eisoes wedi ateb Eluned Parrott drwy ddweud pa addasiadau bach a wnaed gennym o ran y gwerthusiad interim. Dyna yw pwynt gwerthusiad: eich bod yn dysgu gwersi oddi wrtho ac rydym wedi gwneud hynny. Mae'r gwerthusiad terfynol ar ei ffordd. Mae'n cael ei brosesu ar hyn o bryd ac rwy'n gobeithio y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn toriad yr haf. Ond rwyf eisoes wedi trafod gyda swyddogion beth fydd yn digwydd os yw'n cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad, er mwyn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod yr Aelodau yn cael copïau ac yn y blaen cyn gynted ag y bydd ar gael. Nid wyf am ei ddal yn ôl, felly os yw'n cael ei gyhoeddi ym mis Awst byddwn yn gadael i hynny ddigwydd, ond ar y llaw arall, rwyf wedi ymdrechu'n galed iawn iddo ddigwydd cyn diwedd tymor yr haf er mwyn i'r Siambr ei gael cyn gynted ag y bydd ar gael. Cyn gynted ag y bydd ar gael, byddaf yn gwneud yn siŵr ei fod gennych.

15:34

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Building on the largely positive question from Simon Thomas, do you agree with me, Deputy Minister, that the evaluation report contained many caveats and also many good points of praise, all of which have been ignored by the spokespeople from the Lib Dems and the Conservatives? Jobs Growth Wales has been delivered as it was designed, for job-ready young people, not only to provide them with employment, but also to enable those companies to grow and therefore provide employment for other people. And, certainly, it stands in complete contrast to the dismal record of the UK coalition Government, in terms of the youth contract, and their other schemes for young people.

Gan ddilyn y cwestiwn cadarnhaol, ar y cyfan, gan Simon Thomas, a ydych yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, fod yr adroddiad gwerthuso'n cynnwys nifer o gafeatau yn ogystal â llawer o bwyntiau da o ganmoliaeth, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu hanwybyddu gan lefarwyr y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr? Cafodd Twf Swyddi Cymru ei gyflawni fel y cafodd ei gynllunio, ar gyfer pobl ifanc parod at waith, nid yn unig i ddarparu cyflogaeth ar eu cyfer, ond hefyd i alluogi'r cwmnïau i ehangu a darparu cyflogaeth i bobl eraill o ganlyniad i hynny. Ac yn sicr, mae'n gwrthgyferbynnu'n llwyr â hanes digalon Llywodraeth glymblaid y DU, o ran y contract ieuenctid, a'u cynlluniau eraill ar gyfer pobl ifanc.

15:35 **Julie James** Bywgraffiad Biography

I couldn't agree more, Jeff Cuthbert. Just to reiterate, well over 5,000 companies have taken on young people through Jobs Growth Wales—small and medium enterprises and microbusinesses being by far the largest beneficiaries. Most of those would not have been in a position to take on extra staff. But Jobs Growth Wales is not only an employment programme, it's a catalyst for growth. The proportion of young people who've progressed onto an apprenticeship, after completing their opportunity, is around 25 per cent. That progression shows a long-term commitment to continued employment from the employer, structured into skilled professions, with the higher skills that our economy needs. It's a brilliant programme, and I'm very proud to be here today announcing its continuation.

Rwy'n cytuno'n llwyr, Jeff Cuthbert. Os caf fi ailadrodd, mae ymhell dros 5,000 o gwmnïau wedi cyflogi pobl ifanc drwy Twf Swyddi Cymru—a mentrau bach a chanolig a microfusnesau sydd wedi elwa fwyaf o bell ffordd. Ni fyddai'r rhan fwyaf o'r rheini wedi bod mewn sefyllfa i gyflogi staff ychwanegol. Ond nid rhaglen gyflogaeth yn unig yw Twf Swyddi Cymru, mae'n gatalydd ar gyfer twf. Mae'r gyfran o bobl ifanc sydd wedi symud ymlaen at brentisiaeth ar ôl cwblhau eu cyfle oddeutu 25 y cant. Mae'r datblygiad hwnnw'n dangos ymrwymiad hirdymor i barhau cyflogaeth ar ran y cyflogwr, wedi'i saernïo ar gyfer proffesiynau medrus, gyda'r sgiliau uwch sydd eu hangen ar ein heconomi. Mae'n rhaglen wych, ac rwy'n falch iawn o fod yma heddiw i gyhoeddi y bydd yn parhau.

Senedd.tv Fideo Video

15:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you.

Diolch yn fawr.

Senedd.tv Fideo Video

15:35

## 3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ymchwiliad i Sylweddau Seicoweithredol Newydd

## 3. Debate on the Health and Social Care Committee's Report on its Inquiry into New Psychoactive Substances

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the next item on the agenda, which is a debate on the Health and Social Care Committee's report on its inquiry into new psychoactive substances. I call on the Chair of the committee, David Rees.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf ar yr agenda, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, David Rees.

Cynnig NDM5756 David Rees

Motion NDM5756 David Rees

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2015.

Notes the report by the Health and Social Care Committee on its inquiry into new psychoactive substances, which was laid in the Table Office on 18 March 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:36 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Diolch, Lywydd, a chynigiaf y cynnig.

Thank you, Presiding Officer, and I move the motion.

Rwy'n falch o agor y ddadl hon ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sylweddau seicoweithredol newydd.

I am pleased to open this debate on the Health and Social Care Committee's report on new psychoactive substances.

Caiff sylweddau seicoweithredol newydd, neu NPS, eu marchnata'n aml fel sylweddau cyfreithlon sy'n fwy diogel na chyffuriau anghyfreithlon. Cânt eu cynhyrchu fel arfer mewn labordai, a'u gwerthu ar y rhyngrwyd, neu mewn siopau pwrpasol ar y stryd fawr. Cânt eu galw'n aml yn 'legal highs'. Mae'r dull hwn o farchnata'n gamarweiniol—gall y sgîl-effeithiau fod yr un mor ddifrifol â sgîl-effeithiau cyffuriau anghyfreithlon, ac mae pobl yr un mor debygol o fynd yn gaeth iddynt hefyd. Yn aml iawn, maent hefyd yn cynnwys olion sylweddau y mae'n anghyfreithlon eu gwerthu a'u cymryd.

New psychoactive substances, or NPS, are commonly marketed as legal substances that are safer than illegal drugs. They are often made in laboratories, and sold via the internet, or in so-called head shops that exist on the high street. They are commonly referred to as 'legal highs'. This marketing is misleading—their side effects can be as serious as those caused by illegal drugs, and they can be as addictive too. Often, they also contain traces of substances that are against the law to sell and take.

Senedd.tv Fideo Video

Penderfynon ni edrych ar y ‘topic’ yma am un rheswm syml: mae defnydd NPS wedi tyfu yng Nghymru, ac mewn rhannau eraill, yn y blynyddoedd diweddar. Yn 2010—sori, yn 2013—yn Lloegr a Chymru, roedd 60 marwolaeth yn gysylltiedig ag NPS. Roedd hwn yn 15 y cant yn uwch na’r flwyddyn flaenorol. Yn anffodus, cafodd hwn ei atgyfnerthu'r wythnos diwethaf, yn yr ymchwiliad i farwolaeth person 37 oed, o Gaerdydd, a wnaeth gymryd cyffur a oedd bum gwaith yn fwy pwerus na heroin, a brynwyd yn gyfreithlon.

We decided to look at this topic for one simple reason: NPS use has grown in Wales and elsewhere in recent years. In 2010—sorry, in 2013—60 deaths in England and Wales involved NPS. This was 15 per cent higher than the previous year. Unfortunately, this was reinforced last week, in the inquiry into the death of a 37-year-old from Cardiff, who took a drug that was five times more powerful than heroin, and it was bought legally.

That’s the problem: where they are legal and for sale. As individual Members, we are concerned about the health and social harms caused by NPS. We wanted to shine a light on the subject, and identify practical steps that could be taken to allow people to make more informed decisions about their use of these substances.

Dyna’r broblem: lle y maent yn gyfreithiol ac ar werth. Fel Aelodau unigol, rydym yn pryderu am y niwed i iechyd a’r niwed cymdeithasol sy’n cael ei achosi gan sylweddau seicoweithredol newydd. Roeddem yn awyddus i daflu goleuni ar y pwnc, a nodi camau ymarferol y gellid eu cymryd i alluogi pobl i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynglŷn â’u defnydd o’r sylweddau hyn.

During the course of our inquiry, we heard from a number of different people, from across relevant sectors. And I would like to take this opportunity to thank them all for the invaluable contributions they made to this inquiry. It’s not possible in the time available to thank everyone individually, but I would like to note our particular thanks to the Life on the Streets project in Wrexham, the Fixers Group at the Forsythia Youth Club in Merthyr Tydfil, and DrugAid in Caerphilly, all of whom welcomed us during a series of visits we undertook last year. We undertook these visits because we wanted to hear from those who have been directly affected by NPS use, either as users, service providers, or as members of the communities in which NPS use has grown. The experiences they shared with us, some of them difficult and challenging stories to tell, helped us enormously with our work.

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom gan nifer o wahanol bobl, o bob sector perthnasol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt i gyd am eu cyfraniadau gwerthfawr i’r ymchwiliad hwn. Nid yw’n bosibl diolch i bawb yn unigol yn yr amser sydd ar gael, ond hoffwn nodi ein diolch arbennig i brosiect Byw ar y Stryd yn Wrecsam, Grŵp Fixers Clwb Ieuenctid Forsythia ym Merthyr Tudful, a DrugAid yng Nghaerffili, a’n croesawodd dros gyfres o ymweliadau a gynhaliwyd gennym y llynedd. Trefnwyd yr ymweliadau hyn gennym am ein bod yn awyddus i glywed gan y rhai sydd wedi cael eu heffeithio’n uniongyrchol yn sgil y defnydd o sylweddau seicoweithredol newydd, naill ai fel defnyddwyr, darparwyr gwasanaethau, neu fel aelodau o’r cymunedau lle y mae defnydd o sylweddau seicoweithredol newydd wedi cynyddu. Roedd y profiadau a rannwyd gyda ni, rai ohonynt yn straeon anodd a heriol i’w hadrodd, yn gymorth aruthrol i ni gyda’n gwaith.

I would also like to thank Gwent Police and Dan 24/7—the national substance misuse helpline—for their expert contribution to our inquiry. This was a field unfamiliar to many of us before we began this piece of work, and we are grateful to both organisations for sparing their valuable time to provide comprehensive and informative briefings on NPS during the course of our inquiry. And I understand that a number of those who took an interest in our inquiry—including members from Swansea YMCA and Gwent Police—are here today in the Senedd, and I welcome them.

Hoffwn ddiolch hefyd i Heddlu Gwent a Dan 24/7—y llinell gymorth genedlaethol ar gyfer camddefnyddio sylweddau—am eu cyfraniad arbenigol i’n hymchwiliad. Roedd hwn yn faes anghyfarwydd i lawer ohonom cyn i ni ddechrau ar y gwaith hwn, ac rydym yn ddiolchgar i’r ddau gorff am roi o’u hamser gwerthfawr i ddarparu sesiynau briffio cynhwysfawr a llawn gwybodaeth ar sylweddau seicoweithredol newydd yn ystod ein hymchwiliad. Ac rwy’n deall bod nifer o’r rhai a ddangosodd ddiddordeb yn ein hymchwiliad—gan gynnwys aelodau o YMCA Abertawe a Heddlu Gwent—yma heddiw yn y Senedd, ac rwy’n eu croesawu.

We made 14 recommendations in total, all of which, I am very pleased to note, have been accepted in full by the Welsh Government. I can also inform Members that the Home Office expressed its support for those recommendations we made that relate to fields that are not devolved to Wales. A number of our recommendations require a co-ordinated effort between administrations here in Cardiff and London. I look forward to following progress in this area now that a new UK Government is in place.

Rydym wedi gwneud 14 o argymhellion i gyd, ac mae pob un ohonynt, rwy’n falch iawn o nodi, wedi cael eu derbyn yn llawn gan Lywodraeth Cymru. Gallaf hefyd hysbysu’r Aelodau fod y Swyddfa Gartref wedi mynegi ei chefnogaeth i’r argymhellion a wnaethom sy’n ymwneud â meysydd nad ydynt wedi’u datganoli i Gymru. Mae nifer o’n hargymhellion yn galw am ymdrech gydgysylltiedig rhwng gweinyddiaethau yma yng Nghaerdydd a Llundain. Edrychaf ymlaen at ddilyn y cynnydd yn y maes gan fod Llywodraeth newydd y DU yn ei lle bellach.

As Members have had an opportunity to consider our report, as usual, I do not intend to go through the recommendations in too much detail, but I want to concentrate on a few things.

Gan fod yr Aelodau wedi cael cyfle i ystyried ein hadroddiad, yn ôl yr arfer, nid wyf yn bwriadu manylu gormod ar yr argymhellion, ond rwyf am ganolbwyntio ar ychydig o bethau.

First, we think that the UK Government, which is responsible for drugs policy, should ban the supply of NPS, making head shops and market stalls on our high streets that sell NPS illegal. However, we do not believe that those using NPS should be criminalised—that could make things even worse for users who are trying to get their lives back on track. I am pleased that both the Welsh Government and Home Office have indicated that they will work together to develop legislative proposals to ban the supply of NPS at the earliest opportunity. I am also pleased that Welsh Government officials are working closely with their UK substance misuse counterparts to ensure that any legislation to tackle NPS reflects Welsh Government policy and the delivery environment in Wales.

Yn gyntaf, credwn y dylai Llywodraeth y DU, sy'n gyfrifol am y polisi cyffuriau, wahardd sylweddau seicoweithredol newydd rhag cael eu cyflenwi, gan wneud siopau 'pen' a stondinau marchnad ar y stryd fawr sy'n gwerthu sylweddau seicoweithredol newydd yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid troseddoli pobl sy'n defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd—gallai hynny wneud pethau hyd yn oed yn waeth i ddefnyddwyr sy'n ceisio cael eu bywydau yn ôl ar y trywydd cywir. Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref wedi dweud y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynigion deddfwriaethol i wahardd sylweddau seicoweithredol newydd rhag cael eu cyflenwi ar y cyfle cyntaf. Rwyf hefyd yn falch fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â'u cymheiriaid ym maes camddefnyddio sylweddau yn y DU i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â sylweddau seicoweithredol newydd yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru a'r amgylchedd cyflawni yng Nghymru.

It's clear from our inquiry, however, that changing the law will not solve the problem altogether. We discovered that improved substance misuse education, increased public awareness, and better treatment services are just as important for ensuring that the number of NPS users in Wales is reduced.

Mae'n amlwg o'n hymchwiliad, fodd bynnag, na fydd newid y gyfraith yn datrys y broblem yn llwyr. Gwelsom fod gwella addysg ar gamddefnyddio sylweddau, cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus, a gwasanaethau triniaeth gwell yr un mor bwysig ar gyfer sicrhau gostyngiad yn nifer y bobl sy'n defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd yng Nghymru.

Turning to education in the first instance, we have recommended that the drugs education programme in schools should be reviewed urgently to make it better and more consistent across Wales, and to make sure it is delivered by people who are suitably trained and qualified. I am pleased to note from the Government's response that its latest review of the all-Wales schools liaison core programme will be undertaken with Welsh police forces shortly, and that it will include an explicit assessment of the investment made to educate pupils about the harms of NPS. I also welcome the news that the findings of this review will be fed into the implementation of Professor Donaldson's review of the curriculum in Wales. I am grateful to the Minister for ensuring that a working group consisting of Government officials, teachers, substance misuse experts and Public Health Wales representatives will be established to review existing lesson content in relation to NPS.

Gan droi at addysg yn gyntaf, rydym wedi argymell y dylai'r rhaglen addysg cyffuriau mewn ysgolion gael ei hadolygu ar frys i'w gwneud yn well ac yn fwy cyson ledled Cymru, ac i wneud yn siŵr ei bod yn cael ei darparu gan bobl sydd wedi cael hyfforddiant a chymwysterau addas. Rwy'n falch o nodi o ymateb y Llywodraeth y bydd ei hadolygiad diweddaraf o raglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan yn cael ei gyflawni gyda heddluoedd Cymru cyn bo hir, ac y bydd yn cynnwys asesiad penodol o'r buddsoddiad a wnaed i addysgu disgyblion am niwed sylweddau seicoweithredol newydd. Rwyf hefyd yn croesawu'r newyddion y bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu bwydo i mewn i adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am sicrhau y bydd gweithgor yn cynnwys swyddogion Llywodraeth, athrawon, arbenigwyr ar gamddefnyddio sylweddau a chynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei sefydlu i adolygu cynnwys gwersi presennol mewn perthynas â sylweddau seicoweithredol newydd.

We have also recommended that more should be done to educate parents to help their children to make informed choices about NPS. A clear theme that emerged in evidence was the need to provide parents with information via targeted public awareness campaigns, literature and training schemes to allow them to have open conversations about the risks associated with NPS use with their children. I welcome the Minister's acceptance of these recommendations and his commitment to working with Dan 24/7 and relevant stakeholders to ensure that relevant and targeted information, training and public awareness campaigns reach as wide an audience as possible.

Rydym hefyd wedi argymell y dylid gwneud mwy i addysgu rhieni i helpu eu plant i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â sylweddau seicoweithredol newydd. Un thema glir a ddaeth yn amlwg mewn tystiolaeth oedd yr angen i ddarparu gwybodaeth i rieni drwy gyfrwng ymgyrchoedd wedi'u targedu ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, llenyddiaeth a chynlluniau hyfforddiant i'w galluogi i gael sgyrsiau agored gyda'u plant ynglŷn â'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd. Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion hyn ac mae ei ymrwymiad i weithio gyda Dan 24/7 a rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ac wedi'i thargedu, hyfforddiant ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl.

The second theme in our report—increasing public awareness of NPS and their harms— builds on our comments about the need to improve education. We have said that more needs to be done to ensure that people are aware that these so-called 'legal highs' are not legal—well, they are legal, but they're not safe and they are dangerous. Many people say that they are legal, so they are okay to use and they are safe—'I can get a high legally'. They are not okay and they are not safe. They are dangerous and they can cause death. Their side effects can be as serious as those caused by illegal drugs and they can be addictive and as damaging too.

Mae'r ail thema yn ein hadroddiad—codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o sylweddau seicoweithredol newydd a'u niwed—yn adeiladu ar ein sylwadau ynglŷn â'r angen i wella addysg. Rydym wedi dweud bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn ymwybodol nad yw'r hyn a elwir yn gyffuriau anterth cyfreithlon yn gyfreithlon—wel, maent yn gyfreithlon, ond nid ydynt yn ddiogel ac maent yn beryglus. Mae llawer o bobl yn dweud eu bod yn gyfreithlon, ac felly eu bod yn iawn i'w defnyddio ac yn ddiogel—'Gallaf gael anterth yn gyfreithlon'. Nid ydynt yn iawn ac nid ydynt yn ddiogel. Maent yn beryglus a gallant achosi marwolaeth. Gall eu sgil-effeithiau fod mor ddifrifol â sgil-effeithiau wedi eu hachosi gan gyffuriau anghyfreithlon a gallant fod yr un mor gaethiwus a niweidiol hefyd.

To this end, we have recommended that those working in this field, including the media, should stop using the term 'legal highs', as it is very misleading. I am pleased that both the Welsh and UK Government's agree that the term 'legal highs' should not be used to describe these substances. I would like to take this opportunity to please encourage the media—which has significant influence in this regard—to take an equally responsible approach to the terminology they use.

I'r perwyl hwn, rydym wedi argymell y dylai'r rhai sy'n gweithio yn y maes hwn, gan gynnwys y cyfryngau, roi'r gorau i ddefnyddio'r term 'cyffuriau anterth cyfreithlon', gan ei fod yn gamarweiniol iawn. Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno na ddylid defnyddio'r term 'cyffuriau anterth cyfreithlon' i ddisgrifio'r sylweddau hyn. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn, os gwelwch yn dda, i annog y cyfryngau—sydd â dylanwad sylweddol yn hyn o beth—i fabwysiadu ymagwedd yr un mor gyfrifol o ran y derminoleg a ddefnyddiant.

Going back to an incident in my own health board area, a 15-year-old was taken to hospital because he had taken a chemical or NPS. The only thing the newspaper said was 'legal highs', continually. That's the term that was used throughout the article and since in following articles. They have not gone into NPS. That is something that we need to address.

Gan fynd yn ôl at ddigwyddiad yn ardal fy mwrdd iechyd fy hun, cafodd bachgen 15 mlwydd oed ei gludo i'r ysbyty am ei fod wedi cymryd sylwedd cemegol neu sylweddau seicoweithredol newydd. Yr unig beth oedd y papur newydd yn ei ddweud, a hynny'n gyson, oedd 'cyffuriau anterth cyfreithlon'. Dyna'r term a gâi ei ddefnyddio drwy'r erthygl ac ar ôl hynny mewn erthyglau dilynol. Nid ydynt wedi edrych ar sylweddau seicoweithredol newydd. Mae hynny'n rhywbeth sydd angen i ni roi sylw iddo.

We think that the public awareness campaign on NPS that the Welsh Government plans to run this year should include targeted information for young people, have a strong media and social media focus, and emphasise that 'legal' does not mean 'safe'. The campaign should be evaluated to identify where further work is required to raise awareness of NPS.

Credwn y dylai'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ar sylweddau seicoweithredol newydd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chynnal eleni gynnwys gwybodaeth wedi'i thargedu ar gyfer pobl ifanc, dylai fod iddi ffocws cryf ar y cyfryngau ac ar gyfryngau cymdeithasol, a phwysleisio nad yw 'cyfreithlon' yn golygu 'diogel'. Dylid gwerthuso'r ymgyrch i nodi lle y mae angen gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth o sylweddau seicoweithredol newydd.

The third theme to which I referred earlier was the need to improve our treatment services. Unfortunately, no amount of education and public awareness raising will help those who have already been drawn into the use of NPS. A strong case was made during the course of our inquiry for substance misuse services to adapt to meet the needs of NPS users. While we agree with the Minister that core services for alcohol, opiate and cannabis misuse need to remain, we believe that more needs to be done to make services more accessible and engaging for NPS users. In particular, we have recommended that provision of drop-in and co-located services should be increased.

Y drydedd thema y cyfeiriais ati'n gynharach oedd yr angen i wella ein gwasanaethau triniaeth. Yn anffodus, ni fydd unrhyw addysg a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus yn helpu'r rhai sydd eisoes wedi cael eu denu i ddefnyddio sylweddau seicoweithredol newydd. Yn ystod ein hymchwiliad, gwnaed achos cryf dros sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn addasu i ateb anghenion defnyddwyr sylweddau seicoweithredol newydd. Er ein bod yn cytuno â'r Gweinidog fod angen cadw gwasanaethau craidd ar gyfer camddefnyddio alcohol, opiadau a chanabis, credwn fod angen gwneud mwy i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch ac atyniadol i ddefnyddwyr sylweddau seicoweithredol newydd. Yn benodol, rydym wedi argymell y dylid cynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau galw heibio a gwasanaethau wedi'u cyd-leoli.

Before I close, I would like to draw attention to three other things covered in our report. First is the importance of collecting better data about the prevalence and impact of NPS use. We believe that the current lack of data means that the scale of the problem in Wales is likely to be under-reported. Whilst we welcome the prevalence estimate that will be undertaken by Public Health Wales, I would reiterate our concern that the inclusion of NPS within this study will be a challenge given the lack of existing data. Secondly, the committee was particularly concerned about the prevalence of substance misuse, including NPS, among the prison population, and we recommend that the UK and Welsh Governments work together to develop a strategy that enables Welsh prisons to deal effectively with the anticipated increase in NPS use by Welsh prisoners. Finally, our last recommendation emphasises the need to ensure that Welsh interests are reflected in all future negotiations on the European Commission's proposals relating to NPS. We highlighted the complex legal framework within which substances are controlled at a Welsh, UK and European level, and we believe that the needs of the Welsh population should be reflected at all tiers. Therefore, I commend the report.

Cyn i mi gloi, hoffwn dynnu sylw at dri pheth arall sy'n cael eu cynnwys yn ein hadroddiad. Y cyntaf yw pwysigrwydd casglu data gwell am effaith defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd a'r niferoedd sy'n eu defnyddio. Rydym o'r farn fod y prinder data ar hyn o bryd yn golygu na cheir cyfrif llawn o faint y broblem yng Nghymru. Er ein bod yn croesawu'r amcangyfrif o niferoedd a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, byddwn yn ailadrodd ein pryder y bydd cynnwys sylweddau seicoweithredol newydd yn yr astudiaeth hon yn her o ystyried y prinder data presennol. Yn ail, roedd y pwyllgor yn arbennig o bryderus ynglŷn â'r niferoedd sy'n camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys sylweddau seicoweithredol newydd, ymysg poblogaeth y carchardai, ac rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu strategaeth sy'n galluogi carchardai Cymru i ymdrin yn effeithiol â'r cynnydd a ragwelir yn nifer y carcharorion yng Nghymru sy'n defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd. Yn olaf, mae ein hargymhelliad olaf yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn yr holl drafodaethau yn y dyfodol ar gynigion y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymwneud â sylweddau seicoweithredol newydd. Rydym wedi tynnu sylw at y fframwaith cyfreithiol cymhleth ar gyfer rheoli sylweddau ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop, a chredwn y dylai anghenion pobl Cymru gael eu hadlewyrchu ar bob haen. Felly, cymeradwyaf yr adroddiad.

15:45

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Presiding Officer, as you can imagine, as a member of the Health and Social Care Committee, there are many issues that we have to discuss and take forward to inquiries. When this was suggested, I do remember Lynne Neagle AM actually making the point that we should look at this, and I remember thinking, 'I'm not sure that this is a problem that affects my constituency or even north Wales'. Well, how wrong was I? In 2013, there were 60 deaths involving new psychoactive substances across England and Wales, a 15 per cent increase from the year before. Sadly, earlier this year, Dean Boswell and Stephen John from west Wales were found dead after taking, as our chairman has mentioned, the so-called named legal highs.

Lywydd, fel y gallwch ddychmygu, fel aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae yna lawer o faterion sy'n rhaid i ni eu trafod a chynnal ymchwiliadau iddynt. Pan gafodd hyn ei awgrymu, rwy'n cofio Lynne Neagle AC yn gwneud y pwynt y dylem edrych ar hyn, ac rwy'n cofio meddwl, 'Nid wyf yn siŵr fod hon yn broblem sy'n cael effaith ar fy etholaeth i na gogledd Cymru hyd yn oed'. Wel, sut y gallwn fod yn bellach o fy lle? Yn 2013, cafwyd 60 o farwolaethau yn ymwneud â sylweddau seicoweithredol newydd ar draws Cymru a Lloegr, cynnydd o 15 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Yn anffodus, yn gynharach eleni, cafodd Dean Boswell a Stephen John o orllewin Cymru eu canfod yn farw ar ôl cymryd, fel y soniodd ein cadeirydd, yr hyn a elwir yn gyffuriau anterth cyfreithlon.

Now, in Wales, police forces have seen a twentyfold jump in the number of incidents where the term 'legal high' was recorded. From 18 deaths in 2012 to 371 in 2014--that is very dramatic and very sad. We found that, while most people using these stimulants, sedatives and hallucinogens are between 18 and 24, we learned too that children as young as 11 have been subjected to these. They've experienced altered behaviour, slowed-down reactions, feelings of panic and confusion and, in extreme cases, heart attacks. Worryingly, we know that new psychoactive substances are getting stronger and can be more addictive and dangerous than some illegal drugs, and yet they are so easy to obtain. Whilst doing some research on this topic, I was shocked to find that, on the second page of search engine results, there was a website offering free delivery on legal high purchases over £30. So, clearly, we have to do something, and immediately, as the Welsh Government.

Nawr, yng Nghymru, mae heddluoedd wedi gweld cynnydd ugain gwaith drosodd yn nifer y digwyddiadau lle y cofnodwyd y term 'cyffuriau anterth cyfreithlon'. O 18 o farwolaethau yn 2012 i 371 yn 2014—mae'n gynnydd dramatig a thrist iawn. Er bod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n defnyddio'r symbylwyr, y tawelyddion a'r rhithbeiriau hyn rhwng 18 a 24 oed, gwelsom hefyd fod plant mor ifanc ag 11 wedi dod i gysylltiad â'r rhain. Maent wedi profi newid yn eu hymddygiad, eu hadweithiau'n arafu, teimladau o banig a dryswch, a thrawiad ar y galon mewn achosion eithafol. Mae'n destun pryder ein bod yn gwybod bod sylweddau seicoweithredol newydd yn mynd yn gryfach ac yn gallu bod yn fwy caethiwus a pheryglus na rhai cyffuriau anghyfreithlon, ac eto mae hi mor hawdd cael gafael arnynt. Wrth wneud rhywfaint o ymchwil ar y pwnc, cefais fy synnu o weld gwefan, ar yr ail dudalen o ganlyniadau chwilio, yn cynnig gwasanaeth post am ddim ar gyfer archebion o gyffuriau anterth cyfreithlon dros £30. Felly, yn amlwg, mae'n rhaid i ni fel Llywodraeth Cymru wneud rhywbeth, a hynny ar unwaith.

Just this week, an e-cigarette shop in Newport that was selling legal highs to children has now been closed for three months by Gwent Police. Whilst the police informed the committee that this problem is worse in south Wales, it has also now been identified within my own health board, Betsi Cadwaladr. As such, I very much endorse the work that was undertaken by the committee, and I found it interesting but very, very alarming.

Yr wythnos hon, mae siop e-sigaréts yng Nghasnewydd a oedd yn gwerthu cyffuriau anterth cyfreithlon i blant bellach wedi cael ei chau am dri mis gan Heddlu Gwent. Er bod yr heddlu wedi hysbysu'r pwyllgor fod y broblem hon yn waeth yn ne Cymru, mae hi'n broblem a nodwyd bellach yn fy mwrdd iechyd fy hun, sef Betsi Cadwaladr. Fel y cyfryw, rwy'n cymeradwyo'r gwaith a wnaed gan y pwyllgor yn fawr iawn, ac roeddwn yn ei weld yn ddiddorol, ond yn frawychus tu hwnt.

In an ideal world, we would see these substances banned, and in the Republic of Ireland they have worked hard to do this. But we in Wales are still only at the stage of actually collating very accurate information. I was quite concerned to hear the systems for collecting data on NPS described as 'poor' and 'inconsistent'. Hospitals, police and schools have no common way of recording who takes NPS when they encounter it, and the sheer range of substances available can make it very difficult to identify when somebody is then, tragically, taken into hospital. Betsi Cadwaladr University Local Health Board deliberately refrain now from using the term 'legal high' as it seems to indicate some kind of acceptable activity, which is not the case. The Welsh heads of training standards claim that healthcare professionals and substance misuse workers often fail to report these concerns, and the sad thing here today is that some teachers and professionals in other walks of life may actually be using these as a kind of a prop also. This led the Aneurin Bevan Local Health Board to suggest that the number of recorded cases of NPS use is likely to be just the tip of the iceberg.

Mewn byd delfrydol, byddem yn sicrhau bod y sylweddau hyn yn cael eu gwahardd, ac yng Ngweriniaeth Iwerddon, maent wedi gweithio'n galed i wneud hyn. Ond rydym ni yng Nghymru yn parhau heb fynd heibio i'r cam lle rydym yn casglu gwybodaeth fanwl iawn. Roeddwn yn eithaf pryderus o glywed bod y systemau ar gyfer casglu data ar sylweddau seicoweithredol newydd wedi cael eu disgrifio fel rhai 'gwael' ac 'anghyson'. Nid oes gan ysbytai, yr heddlu nac ysgolion ddull cyffredin o gofnodi pwy sy'n defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd pan ddônt ar eu traws, a gall yr ystod enfawr o sylweddau sydd ar gael ei gwneud yn anodd iawn eu hadnabod pan fydd rhywun, er mawr drueni, yn cael ei gludo i'r ysbyty. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ymatal rhag defnyddio'r term 'cyffuriau anterth cyfreithlon' yn fwriadol erbyn hyn gan ei fod i'w weld yn dynodi rhyw fath o weithgaredd derbyniol, ac nid yw hynny'n wir. Mae penaethiaid safonau hyfforddiant Cymru yn honni bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr camddefnyddio sylweddau yn aml yn methu â chofnodi'r pryderon hyn, a'r peth trist yma heddiw yw y gallai rhai athrawon a gweithwyr proffesiynol mewn swyddi eraill fod yn defnyddio'r rhain fel prop o ryw fath hefyd. O ganlyniad i hyn, awgrymodd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan ei bod hi'n debygol mai crafu'r wyneb yn unig y mae'r nifer a gofnodwyd o ddefnyddwyr sylweddau seicoweithredol newydd.

Now, without knowing the true prevalence of the use, how on earth is it possible to tackle the problem? With this in mind, I was delighted to see that the Minister has accepted recommendation 1 to urgently commission a piece of work—and when I say 'urgently', it needs doing now—to establish the best method for measuring those who take NPS. I look forward to seeing the first estimate of the problematic drug user numbers in October.

Nawr, heb wybod gwir nifer yr achosion, sut yn y byd y gallwn ni fynd i'r afael â'r broblem? Gyda hyn mewn golwg, roeddwn yn falch o weld bod y Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 1 i gomisiynu gwaith ar frys—a phan ddywedaf 'ar frys', mae angen iddo gael ei wneud yn awr—i bennu'r dull gorau o fesur y niferoedd sy'n defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd. Edrychaf ymlaen at weld yr amcangyfrif cyntaf o nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus ym mis Hydref.

I welcome the Minister's acceptance of recommendation 2, which aims to address the lack of co-ordination across the services. The Police Federation informed us that, in order to combat the increased usage of NPS, a multi-agency approach is required—not only the police, but trading standards, local authorities, education and health boards. We know, with reduced budgets, that does make it all the more difficult, but, clearly, there is a definite recommendation here and that must be done.

Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 2, sy'n anelu i fynd i'r afael â diffyg cydgysylltiad ar draws y gwasanaethau. Er mwyn brwydro yn erbyn y defnydd cynyddol o sylweddau seicoweithredol newydd, dywedodd Ffederasiwn yr Heddlu wrthym fod angen dull aml-asiantaethol—nid yr heddlu yn unig, ond safonau masnach, awdurdodau lleol, byrddau addysg a byrddau iechyd. Gyda chyllidebau llai, gwyddom fod hynny'n ei gwneud yn anos byth, ond yn amlwg, mae yna argymhelliad pendant yma ac mae'n rhaid gwneud hynny.

In order to give our children a fighting chance against these pernicious substances, it is essential that they are well informed, so I really would like to see yet more work done with schools. The Angelus Foundation called for better drugs education, recommending a minimum of an hour a term focusing on illegal and legal substances. Now, despite the Welsh Government's investment in the all-Wales school liaison core programme to provide education on this area, it was noted that more consistent interpretation and enforcement is required. The Welsh Labour Government, and we all, must take practical steps to ensure the devastating effects of NPS use in Wales is tackled as an immediate.

Er mwyn rhoi cyfle teg i'n plant yn erbyn y sylweddau niweidiol hyn, mae'n hanfodol eu bod yn cael gwybodaeth dda, felly byddwn yn hoffi gweld mwy o waith eto yn cael ei wneud gydag ysgolion. Galwodd Sefydliad Angelus am wella addysg cyffuriau, gan argymell o leiaf awr y tymor i ganolbwyntio ar sylweddau anghyfreithlon a chyfreithlon. Nawr, er gwaethaf buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan i ddarparu addysg yn y maes hwn, nodwyd bod angen mwy o gysondeb o ran dehongli a gorfodi. Mae'n rhaid i Lywodraeth Lafur Cymru, a phob un ohonom, roi camau ymarferol ar waith i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag effeithiau dinistriol defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd yng Nghymru, a hynny ar unwaith.

15:51

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Whilst not a member of the committee, I did attend a meeting during discussion of this problem, and, perhaps more importantly, I live in an area where legal highs are on sale. I intend pressing for the Irish solution of banning new psychoactive substances based upon their effect, not on their chemical composition. We cannot win a fight against chemists.

Er nad wyf yn aelod o'r pwyllgor, mynychais gyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y broblem hon, ac yn bwysicach efallai, rwy'n byw mewn ardal lle y caiff cyffuriau anterth cyfreithlon eu gwerthu. Rwy'n bwriadu pwyso am ateb Gwyddelig, sef gwahardd sylweddau seicoweithredol newydd yn seiliedig ar eu heffaith, nid ar eu cyfansoddiad cemegol. Ni allwn ennill brwydr yn erbyn cemegwyr.

I accept that legislation will not completely solve the problem; it hasn't solved the problem of cannabis, heroin and cocaine. I also accept that education is very important. I'll tell you what I do find amazing is that people will buy items of unknown provenance and of unknown composition and then put them into their bodies, sometimes with tragic results. As David Rees alluded to earlier, a father was killed by a new legal high found for the first time in Britain, an inquest in Cardiff heard. It was five times stronger than heroin. He was found dead by his wife after trying the legal high, bought online from China. He collapsed in the study after experimenting with the white powder delivered to his home. The hearing was told it was analysed as acetyl fentanyl, described as having the same effect as morphine and heroin. A person from Glynneath, very close to where I live, was rushed to Morriston hospital suffering from fits and being violently sick. The substance he took is not banned. Indeed, a quick search on the internet can identify where it is on sale throughout south-west Wales. I could continue, but I'm sure the Presiding Officer is not going to let me list anything up to 50 or 60 people who have been affected.

Rwy'n derbyn na fydd deddfwriaeth yn datrys y broblem yn gyfan gwbl; nid yw wedi datrys problem canabis, heroin a chocên. Rwyf hefyd yn derbyn fod addysg yn bwysig iawn. Yr hyn rwy'n ei weld yn anhygoel yw y bydd pobl yn prynu eitemau o darddiad anhysbys ac o gyfansoddiad anhysbys ac yna'n eu rhoi yn eu cyrff, gan arwain at ganlyniadau trychinebus weithiau. Fel y dywedodd David Rees yn gynharach, cafodd tad ei ladd gan gyffur anterth cyfreithlon newydd a welwyd am y tro cyntaf ym Mhrydain, yn ôl yr hyn a glywodd cwest yng Nghaerdydd. Roedd y cyffur bum gwaith yn gryfach na heroin. Cafodd ei ganfod yn farw gan ei wraig ar ôl iddo ddefnyddio'r cyffur anterth cyfreithlon, a brynwyd ar-lein o China. Cwympodd yn y stydi ar ôl arbrofi gyda'r powdr gwyn a anfonwyd i'w gartref. Clywodd y gwrandawiad fod dadansoddiad yn dangos mai acetyl fentanyl oedd y sylwedd, a chafodd ei ddisgrifio fel cyffur â'r un effaith â morffin a heroin. Cafodd person o Lyn-nedd, yn agos iawn at fy nghartref, ei ruthro i ysbyty Treforys yn dioddef o ffitiau ac yn chwydu'n eithafol. Nid yw'r sylwedd a gymerodd wedi cael ei wahardd. Yn wir, drwy chwilio'n gyflym ar y rhyngrwyd gellir nodi lle y mae'r cyffur yn cael ei werthu ar draws de-orllewin Cymru. Gallwn barhau, ond rwy'n siŵr nad yw'r Llywydd yn mynd i adael i mi restru hyd at 50 neu 60 o bobl sydd wedi cael eu heffeithio.

Following five recent cases in south Wales needing hospital treatment after taking legal highs, the 'South Wales Evening Post' asked journalism student Danny Gallagher to find out just how available they are over the counter in our shops. Here's what he found:

Yn dilyn pum achos diweddar yn ne Cymru o bobl a oedd angen triniaeth yn yr ysbyty ar ôl defnyddio cyffuriau anterth cyfreithlon, gofynnodd y 'South Wales Evening Post' i Danny Gallagher, myfyriwr newyddiaduraeth, i ddarganfod pa mor hawdd mewn gwirionedd oedd cael gafael arnynt dros y cownter yn ein siopau. Dyma'r hyn a ganfu:

'The legal high I was searching for goes by the name of Exodus, a popular underground synthetic cannabinoid or herbal incense. A quick browse online showed me the product is "strictly not for human consumption". Users of the substance had left reviews, one simply warned: "never again".

'Y cyffur anterth cyfreithlon y chwiliwn amdano oedd yr hyn sy'n cael ei alw'n Exodus, cyffur tanddaearol poblogaidd tebyg i ganabis synthetig neu arogldarth llysieuol. Wrth bori'n gyflym ar-lein, gwelais nad yw'r cynnyrch i'w gymryd gan bobl ar unrhyw gyfrif. Roedd rhai unigolion a oedd wedi defnyddio'r sylwedd wedi gadael adolygiadau, gydag un yn rhybuddio'n syml: "byth eto".

'It was soon clear that I was delving into a clouded and unregulated industry.

'Yn fuan, daeth hi'n amlwg fy mod yn treiddio i mewn i ddiwydiant niwlog heb ei reoleiddio.

'In October…a 17-year-old…lost consciousness and suffered a heart attack in Canterbury…after inhalation of Exodus. Another man from Kent had sustained severe brain damage after a heart attack.

'Ym mis Hydref... syrthiodd unigolyn 17 mlwydd oed yn anymwybodol... a dioddef trawiad ar y galon yng Nghaergaint... ar ôl anadlu Exodus. Dioddefodd dyn arall o Gaint niwed difrifol i'w ymennydd ar ôl trawiad ar y galon.

'Two years on and it is still on the streets'

'Ddwy flynedd yn ddiweddarach ac mae'r cyffur yn parhau i fod ar y strydoedd'

and still legal.

ac yn parhau i fod yn gyfreithlon.

Before setting off, he checked online the kind of prices. Most sites charge around £8 for a 1g sachet—a medium-priced bottle of wine—or up to £55 for 9g. It was early morning when he approached the shop in Neath, which had two men in the doorway. After informing the lady behind the counter he wanted Exodus, she signalled to a male by the door who promptly came over to serve him. The man quickly asked to see identification, located a shoulder bag, and found a collection of herbal incense. He wasn't asked for a specific cash sum, instead, 'He just looked at me as though I was intended to know', he said.

Cyn cychwyn, archwiliodd y newyddiadurwr y math o brisiau a oedd i'w cael ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o wefannau yn codi tua £8 am gwdyn 1g—potel o win pris canolig—neu hyd at £55 am 9g. Roedd yn gynnar yn y bore pan aeth i siop yng Nghastell-nedd, ac roedd dau ddyn yn y drws. Ar ôl rhoi gwybod i'r wraig y tu ôl i'r cownter ei fod eisiau Exodus, gwnaeth hi arwydd ar ddyn wrth y drws a ddaeth at y newyddiadurwr yn syth i'w wasanaethu. Gofynnodd y dyn yn gyflym am gael gweld cerdyn adnabod, cyn agor bag ysgwydd i ddatgelu casgliad o arogldarthau llysieuol. Ni ofynnwyd i'r newyddiadurwr am swm penodol o arian, ac yn lle hynny, 'Edrychodd arnaf fel pe bawn i fod i wybod', meddai Danny.

He then visited a shop in Swansea city centre. The store said it did not stock herbal incense, but was happy to provide a product called 'Salvia'. Derived from the sage-like plant salvia divinorum, the substance is known to produce strong hallucinogenic experiences. The cashier gave the option of different strengths. A moment later, and £9.75 out of pocket, he had brought 1g. Clearly labelled on the package was, 'not approved for human consumption'.

Yna ymwelodd â siop yng nghanol dinas Abertawe. Dywedodd y siop nad oedd yn cadw arogldarth llysieuol, ond roedd yn hapus i ddarparu cynnyrch o'r enw 'Salvia'. Mae'r cyffur yn tarddu o salvia divinorum, planhigyn tebyg i saets, a gwyddys bod y sylwedd yn cynhyrchu profiadau rhithbeiriol cryf. Rhoddodd y gwerthwr ddewis o wahanol gryfderau. Eiliadau'n ddiweddarach, ar ôl gwario £9.75, roedd wedi prynu bag 1g. Roedd label clir ar y cwdyn yn dweud nad oedd y cynnwys wedi ei gymeradwyo i'w gymryd gan bobl.

Finally, can I turn to Woodfield Street in Morriston, very near where I live? There's a shop there selling legal highs, perfectly legally, though not necessarily well liked by many of the neighbours there. You can find people collapsed on the pavement around there, people who are described colloquially as 'out of it' as they walk down the road, weaving in and out of the traffic. That leaves the elderly in fear of walking on the pavement. There's actually, outside the shop, a bike with a sat nav in order to help people with the deliveries. Whilst making them illegal will not stop them being used, what it will stop is them being sold on the streets and the internet, and I think that's all we can do, but the people whom I represent in Morriston desperately need them to be banned as soon as possible. While that power doesn't exist, unfortunately, here, can we urge the Minister to put pressure on the Government at Westminster to ban them at the earliest possible moment and ban them on what they do, not what they're made of, because the chemists will always be one step ahead?

Yn olaf, a gaf fi droi at Stryd Woodfield yn Nhreforys, sy'n agos iawn at lle rwy'n byw? Mae siop yno'n gwerthu cyffuriau anterth cyfreithlon, yn hollol gyfreithlon, er nad oes llawer o'r cymdogion yno o anghenraid yn hoff iawn o'r siop. Gallwch weld pobl wedi cwympo ar y palmant yno, pobl y dywedir ar lafar eu bod 'ar blaned arall' wrth iddynt gerdded ar hyd y ffordd, yn gweu i mewn ac allan drwy'r traffig. O ganlyniad i hynny, mae'r henoed ofn cerdded ar y palmant. Y tu allan i'r siop mewn gwirionedd mae yna feic â system llywio â lloeren er mwyn helpu i ddosbarthu nwyddau. Er na fydd eu gwneud yn anghyfreithlon yn eu hatal rhag cael eu defnyddio, bydd yn atal pobl rhag gallu eu gwerthu ar y stryd a thros y rhyngrwyd, ac rwy'n credu mai dyna'r oll y gallwn ei wneud, ond mae'r bobl rwy'n eu cynrychioli yn Nhreforys angen iddynt gael eu gwahardd cyn gynted ag y bo modd. Er nad yw'r pŵer hwnnw gennym yma, yn anffodus, a gawn ni annog y Gweinidog i roi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i'w gwahardd cyn gynted â phosibl a'u gwahardd oherwydd yr hyn y maent yn ei wneud, nid oherwydd eu cyfansoddiad, gan y bydd cemegwyr bob amser un cam ar y blaen?

15:56 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'm very pleased that I was able to contribute as a committee member to the extremely thorough way in which this extremely important matter of psychoactive substances has been discussed. Well done to the committee, it was extremely enlightening, and at this point I would like to express my thanks to the Chair of the committee and to the members of staff who serve the committee for organising external visits in order to meet with key stakeholders, but also to talk to young people about the potential harm that these substances can do, often to unsuspecting youngsters, and the so-called clubbers. We should thank, as well, the 519 young people who helped with this inquiry. This, I think, explodes the myth that politicians don't listen to young people, and I found it very valuable in connecting with young people that all of us in this Senedd are trying to inform and, indeed, protect. I am also extremely pleased to note that every single one of our committee's recommendations has been accepted by the Minister and the Welsh Government.

Wel, rwy'n falch iawn fy mod wedi gallu cyfrannu, fel aelod o'r pwyllgor, at y ffordd hynod o drylwyr y mae'r mater eithriadol o bwysig hwn ynglŷn â sylweddau seicoweithredol wedi cael ei drafod. Da iawn i'r pwyllgor, roedd yn hynod o addysgiadol, ac ar y pwynt hwn, hoffwn ddiolch i Gadeirydd y pwyllgor ac i aelodau'r staff sy'n gwasanaethu'r pwyllgor am drefnu ymweliadau allanol er mwyn cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol, a hefyd i siarad â phobl ifanc am y niwed posibl y gall y sylweddau hyn ei achosi, yn aml yn ddiarwybod i bobl ifanc, a'r rheini a elwir yn glybwyr. Dylem ddiolch hefyd i'r 519 o bobl ifanc a fu'n helpu gyda'r ymchwiliad hwn. Yn fy marn i, mae'n chwalu'r myth nad yw gwleidyddion yn gwrando ar bobl ifanc, ac roedd gwneud hynny'n werthfawr iawn, yn fy marn i, er mwyn cysylltu â'r bobl ifanc rydym ni yn y Senedd hon yn ceisio'u goleuo ac yn wir, eu diogelu. Rwyf hefyd yn hynod o falch o nodi fod pob un o argymhellion ein pwyllgor wedi cael eu derbyn gan y Gweinidog a Llywodraeth Cymru.

These recommendations aim to discover just how widespread is the use of these substances in Wales, to seek out the most effective ways of helping young people to avoid using them, and to help and support parents to be aware of these substances' capacity to damage the health of children and young people and, we've heard, in some cases, to prove fatal. It's vitally important to stress that death from psychoactive substance misuse knows no social boundary at all.

Nod yr argymhellion yw darganfod pa mor gyffredin yw'r defnydd o'r sylweddau hyn yng Nghymru, chwilio am y ffyrdd mwyaf effeithiol o helpu pobl ifanc i osgoi eu defnyddio, a helpu a chynorthwyo rhieni i fod yn ymwybodol o allu'r sylweddau hyn i niweidio iechyd plant a phobl ifanc, ac sy'n gallu bod yn farwol mewn rhai achosion, fel y clywsom. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn pwysleisio nad oes ffiniau cymdeithasol o gwbl i farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau seicoweithredol.

A report from the World Health Organization made out a case for nurses to be important professionals in recognising the symptoms of substance abuse and in guiding victims away from what amounts to, actually, self-harm, and I would agree with their findings. But, of course, there are several other key people in the community, as well as those in hospitals, who can play a crucial role in the Welsh Government's co-ordinated campaign to tackle head on this extremely disturbing trend. We need to look carefully at ways in which we can stop the supply of psychoactive substances and take legal action against those who supply them. The effects of some of those modified drugs are worse than those inflicted by class A drugs. I never thought I'd say that. Any individual or group that exploits some young people's tendency to want to experiment to try to get rich, no matter what harm they're doing, needs to be found out and brought to book.

Mae adroddiad gan Sefydliad Iechyd y Byd wedi gwneud achos dros wneud nyrsys yn weithwyr proffesiynol pwysig o ran adnabod symptomau cam-drin sylweddau ac arwain dioddefwyr i droi cefn ar yr hyn sydd, mewn gwirionedd, yn hunan-niweidio, a byddwn yn cytuno â'u canfyddiadau. Ond wrth gwrs, ceir nifer o bobl allweddol eraill yn y gymuned, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio mewn ysbytai, a all chwarae rhan hanfodol yn ymgyrch gydgysylltiedig Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r tueddiad cythryblus hwn. Mae angen i ni edrych yn ofalus ar ffyrdd o atal sylweddau seicoweithredol rhag cael eu cyflenwi a rhoi camau cyfreithiol ar waith yn erbyn y bobl sy'n eu cyflenwi. Mae effeithiau rhai o'r cyffuriau addasedig hyn yn waeth nag effeithiau cyffuriau dosbarth A. Ni feddyliais erioed y byddwn i'n dweud hynny. Mae unrhyw unigolyn neu grŵp sy'n manteisio ar duedd rhai pobl ifanc i fod eisiau arbrofi er mwyn ceisio dod yn gyfoethog, ni waeth pa niwed y maent yn ei wneud, angen cael eu dal a'u cosbi.

Here, I too would like to pay tribute to the police and local authority health officers. I'd like to highlight Gwent Police, Merthyr Tydfil borough council and, indeed, as we've heard today from Janet Finch-Saunders, Newport borough council and Gwent Police as well, who closed a head shop down this very week in Newport.

Yma, rwy'n awyddus hefyd i dalu teyrnged i'r heddlu a swyddogion iechyd yr awdurdodau lleol. Hoffwn dynnu sylw at Heddlu Gwent, cyngor bwrdeistref Merthyr Tudful, ac yn wir, fel y clywsom heddiw gan Janet Finch-Saunders, cyngor bwrdeistref Casnewydd a Heddlu Gwent hefyd, a gaeodd un o'r siopau 'pen' yng Nghasnewydd yr wythnos hon.

In the committee, we have discussed also the backing of the Minister—whether e-cigarettes should be classed as having a positive or negative impact on people smoking. But we're in no doubt at all about the negative and damaging impact that psychoactive substances can have and are having, especially on young people. So, Llywydd, we need to take every opportunity through schools, through primary care services and through the use of social media to prevent the increasing use of these substances and to make a concerted effort, working across the whole of Britain, to make them illegal. There's one message: parents, be warned, your child's life could be at stake. Thank you.

Yn y pwyllgor, rydym hefyd wedi trafod gyda chefnogaeth y Gweinidog a ddylid dosbarthu e-sigaréts fel pethau sy'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl yn ysmygu. Ond nid oes gennym unrhyw amheuaeth o gwbl ynglŷn â'r effaith negyddol a niweidiol y gall sylweddau seicoweithredol ei chael, a'r effaith y maent yn ei chael, yn enwedig ar bobl ifanc. Felly, Lywydd, mae angen i ni fanteisio ar bob cyfle drwy ysgolion, drwy wasanaethau gofal sylfaenol a thrwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i atal y defnydd cynyddol o'r sylweddau hyn ac i wneud ymdrech ar y cyd, gan weithio ar draws Prydain, i'w gwneud yn anghyfreithlon. Un neges sydd: rhybudd i rieni, gallai bywyd eich plentyn fod yn y fantol. Diolch yn fawr.

15:59 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I begin by thanking the Chair for his opening comments and the clerking team, too, that assisted the committee in putting together the report? I actually pay tribute to Lynne Neagle who, unfortunately, is not here today, who has actually championed this issue in the work of the committee and who was the inspiration behind the committee taking up this challenge. It seems to me that there are three issues that the Welsh Government needs to address.

A gaf fi gychwyn drwy ddiolch i'r Cadeirydd am ei sylwadau agoriadol a'r tîm clercio hefyd, a gynorthwyodd y pwyllgor i roi'r adroddiad at ei gilydd? Rwy'n talu teyrnged i Lynne Neagle sy'n methu bod yma heddiw, yn anffodus, gan mai hi, mewn gwirionedd, sydd wedi hyrwyddo'r mater hwn yng ngwaith y pwyllgor a hi hefyd oedd yn gyfrifol am ysbrydoli'r pwyllgor i ymgymryd â'r her hon. Mae'n ymddangos i mi fod yna dri mater sydd angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hwy.

The first one is actually building resilience amongst young people and potential users of these drugs—first of all, making them aware of the dangers that they are facing, and also giving them strategies, especially if they are young and vulnerable, that will help them resist being drawn into taking these substances in the first place. What was concerning to me was to hear, at best, the conflicting evidence and, at worst, the lack of evidence that the current resources that the Welsh Government is spending —and it's not an inconsiderable amount of resource that the Welsh Government is spending alongside other partners—is simply not having the impact that I think any of us would wish to see.

Y cyntaf, mewn gwirionedd, yw datblygu cydnerthedd ymysg pobl ifanc a defnyddwyr posibl y cyffuriau hyn—yn gyntaf oll, eu gwneud yn ymwybodol o'r peryglon y maent yn eu hwynebu, a rhoi strategaethau iddynt, yn enwedig os ydynt yn ifanc ac yn agored i niwed, i'w helpu i wrthod cael eu denu i ddefnyddio'r sylweddau hyn yn y lle cyntaf. Er nad yw'r swm y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario ochr yn ochr â phartneriaid eraill yn ansylweddol, yr hyn a oedd yn peri pryder i mi oedd clywed, ar y gorau, tystiolaeth sy'n gwrthdaro, ac ar y gwaethaf, diffyg tystiolaeth, fod yr arian y mae'r Llywodraeth yn ei wario ar hyn o bryd yn cael yr effaith y credaf y byddai pawb ohonom eisiau ei gweld.

Now, in responding to the issue around education and the effectiveness of the current liaison work that is going on in schools, the Government says that the evaluation report of 2011 was a reliable and positive one. That's not the experience of the people who came to the committee to talk about the work that they are doing in schools, and I would ask the Welsh Government to look urgently at the robustness of what we're talking to young people about it in schools, but also outside of schools. Some of the children and young people that are the most vulnerable to these substances are perhaps not regular school attenders. They've got other challenges in their lives; we need to be finding out where those young people are, and talking to them and educating them in places where they are and are more susceptible to listening to those arguments. Sometimes, school—we have to admit—is perhaps not the place to be doing that.

Nawr, wrth ymateb i'r mater ynglŷn ag addysg ac effeithiolrwydd y gwaith cyswllt cyfredol sy'n digwydd yn yr ysgolion, mae'r Llywodraeth yn dweud bod adroddiad gwerthuso 2011 yn un dibynadwy a chadarnhaol. Nid dyna brofiad y bobl a ddaeth i'r pwyllgor i siarad am y gwaith y maent yn ei wneud yn yr ysgolion, a byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru edrych ar frys ar gadernid yr hyn rydym yn siarad â phobl ifanc yn ei gylch yn yr ysgolion, a hefyd y tu allan i'r ysgolion. Mae'n bosibl nad yw rhai o'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i'r sylweddau hyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae ganddynt heriau eraill yn eu bywydau; mae angen i ni ddarganfod lle mae'r bobl ifanc hynny, a siarad â hwy a'u haddysgu yn y mannau lle y maent, a lle y maent yn fwy agored i wrando ar y dadleuon hynny. Weithiau, mae'n bosibl nad yr ysgol—rhaid i ni gyfaddef—yw'r lle i wneud hynny.

Secondly, we need to disrupt the supply and make it harder for people to get hold of these substances. Of course, there is only so much that the Welsh Government can do in that regard with the powers that we have. It does need an entire United Kingdom approach. I will wait to see with interest the approach that the new Westminster Government takes with regard to the regulation of these substances. But as we've heard from all the testimony here, simply taking them off our high streets and closing down head shops will not solve the problem. The ready availability of these substances via the internet means that just because you don't have a head shop on your high street it doesn't mean that your population is not at risk.

Yn ail, mae angen i ni atal y cyflenwad a'i gwneud yn anoddach i bobl gael gafael ar y sylweddau hyn. Wrth gwrs, hyn a hyn yn unig y gall Llywodraeth Cymru ei wneud yn hynny o beth gyda'r pwerau sydd gennym. Mae'n galw am ddull o weithredu ar draws y Deyrnas Unedig. Byddaf yn aros i weld gyda diddordeb sut y bydd Llywodraeth newydd San Steffan yn mynd ati i reoleiddio'r sylweddau hyn. Ond fel y clywsom o'r holl dystiolaeth, ni fydd cael gwared arnynt oddi ar y stryd fawr a chau siopau 'pen' yn datrys y broblem. Gan fod y sylweddau hyn ar gael mor rhwydd dros y rhyngrwyd, nid yw'r ffaith nad oes un o'r siopau 'pen' hyn ar eich stryd fawr yn golygu nad yw eich poblogaeth mewn perygl.

Thirdly, we need to gear up substance misuse services to deal with this problem. Many of the people that gave evidence to the committee felt that the services available to them were simply not geared up, nor did they have the knowledge to advise and support people that had these substances. Indeed, many services and those that deliver the services were often trying to catch up with the latest trend in these substances, and often reported being overwhelmed when a new particular substance became the drug of choice in that particular community. I think of my own community in Ystradgynlais, which suffered a huge influx of mephedrone use. Services simply were not geared up to deal with that, to be able to support people and support the community when that happened to be the drug of choice at the time. Many services are simply geared up to deal with traditional opiate addictions and substance misuse, and we need to look at how services are commissioned by Welsh Government, and indeed how services are funded by Welsh Government if we're to make them more fleet of foot in responding to these new substances that often appear very, very quickly, disappear again, only to be replaced by something new.

Yn drydydd, mae angen i ni baratoi'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer delio â'r broblem. Teimlai llawer o'r bobl a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor nad oedd y gwasanaethau a oedd ar gael iddynt yn barod, ac nid oedd ganddynt wybodaeth i gynghori a chynorthwyo'r bobl a ddefnyddiai'r sylweddau hyn. Yn wir, roedd llawer o'r gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau yn aml yn ceisio dal i fyny gyda'r duedd ddiweddaraf o ran y sylweddau hyn, ac yn aml yn dweud eu bod yn cael eu llethu pan oedd sylwedd newydd penodol yn dod yn ddewis poblogaidd yn y gymuned honno. Rwy'n meddwl am fy nghymuned fy hun yn Ystradgynlais, a ddioddefodd o ganlyniad i gynnydd enfawr yn y defnydd o feffedron. Nid oedd y gwasanaethau'n barod i ddelio â hynny, i allu cynorthwyo pobl a chefnogi'r gymuned pan oedd hwnnw'n digwydd bod yn gyffur poblogaidd ar y pryd. Nid yw llawer o wasanaethau ond yn barod ar gyfer delio â'r mathau traddodiadol o ddibyniaeth ar opiadau a chamddefnyddio sylweddau, ac mae angen i ni edrych ar sut y mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru, ac yn wir sut y mae gwasanaethau'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru os ydym am wneud iddynt symud yn gyflymach i ymateb i'r sylweddau newydd hyn sy'n aml yn ymddangos yn gyflym iawn, cyn diflannu eto, a rhywbeth newydd yn dod yn eu lle.

I'm glad that the Government has accepted the recommendations of the committee report, but I suspect, like traditional illegal substances, this is a long-term battle that we must wage in our communities; and ultimately, the way to tackle it is actually by addressing the reasons why people turn to these substances in the first place. That will be the most effective intervention that any Government could possibly introduce.

Rwy'n falch fod y Llywodraeth wedi derbyn argymhellion adroddiad y pwyllgor, ond rwy'n amau, fel sylweddau anghyfreithlon traddodiadol, fod hon yn frwydr hirdymor sy'n rhaid i ni ei hymladd yn ein cymunedau; ac yn y pen draw, y ffordd i fynd i'r afael â'r broblem, mewn gwirionedd, yw drwy roi sylw i'r rhesymau pam y mae pobl yn troi at y sylweddau hyn yn y lle cyntaf. Dyna, o bosibl, yw'r ymyrraeth fwyaf effeithiol y gallai unrhyw Lywodraeth ei chyflwyno.

16:04

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like others in this debate this afternoon, I also would like to put on record my thanks to the Chair of the committee and to the committee team, who've worked hard to put this report together. Also, I follow Kirsty Williams in paying tribute to the work of Lynne Neagle, who put this very much on the agenda, and through sheer weight of argument and force of personality, I think, drove a great deal of work on this. I think everybody across the Chamber would like to thank Lynne for the work she did on that.

Fel amryw o rai eraill yn y ddadl hon y prynhawn yma, rwyf hefyd yn awyddus i gofnodi fy niolch i Gadeirydd y pwyllgor ac i dîm y pwyllgor, sydd wedi gweithio'n galed i roi'r adroddiad hwn at ei gilydd. Hefyd, rwyf am ddilyn Kirsty Williams a thalu teyrnged i waith Lynne Neagle, a roddodd hyn yn amlwg iawn ar yr agenda, ac a ysgogodd lawer o waith arno, a hynny drwy nerth ei dadl a grym ei phersonoliaeth, yn fy marn i. Rwy'n credu y byddai pawb ar draws y Siambr yn hoffi diolch i Lynne am y gwaith a wnaeth ar hynny.

This is something that is having a significant impact on constituencies, I think, across Wales and certainly in my constituency, in Blaenau Gwent. Over recent years we've seen what has been described by the police as an epidemic of use of legal highs, or psychoactive substances, and this has had a significant impact on people, particularly young people, across the constituency. I think, certainly, if I look back at the evidence that we received during this inquiry, it was the evidence from Gwent Police, I think, that really brought home to us the significance of this issue across, not only our individual constituencies, but across wider parts of the country. For that reason, I very much welcome the Government's approach to this and welcome the fact that the Government has accepted all of the committee's recommendations. I think that's a very positive way of taking this work forward.

Rwy'n credu bod hwn yn fater sy'n cael effaith sylweddol ar etholaethau ledled Cymru ac yn sicr yn fy etholaeth i, ym Mlaenau Gwent. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld yr hyn a ddisgrifiodd yr heddlu fel epidemig o ddefnyddio cyffuriau anterth cyfreithlon, neu sylweddau seicoweithredol, ac mae wedi cael effaith sylweddol ar bobl, yn enwedig pobl ifanc, ar draws yr etholaeth. Yn bendant, os edrychaf yn ôl ar y dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymchwiliad, rwy'n credu mai tystiolaeth Heddlu Gwent sydd wedi dangos arwyddocâd y mater hwn gliriaf mewn gwirionedd ar draws ein hetholaethau unigol, ac ar draws rhannau ehangach o'r wlad hefyd. Am y rheswm hwnnw, rwy'n croesawu ymagwedd y Llywodraeth at hyn yn fawr iawn ac yn croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth wedi derbyn pob un o argymhellion y pwyllgor. Rwy'n credu bod honno'n ffordd gadarnhaol iawn o symud y gwaith yn ei flaen.

Many of the committee's recommendations relate to education and awareness raising, which are, clearly, essential prerequisites for dealing with psychoactive substances and their impact upon young people. However, I want to emphasise this afternoon the importance of recommendations 12, 13 and 14, where there's a very clear emphasis on a multi-agency approach and working together with local authorities, police, health boards and schools. I think there's a very good example of that, which I tried to bring to the committee's attention, within my constituency, dealing with the issue of mephedrone, which, again, Kirsty Williams referred to in Ystradgynlais. Meow meow, or MCAT, has had a devastating effect on many people in Blaenau Gwent. It was described by the police as the biggest issue facing us in terms of a drugs epidemic in Gwent, and, certainly, one officer said he'd seen nothing like this in over 30 years.

Mae llawer o argymhellion y pwyllgor yn ymwneud ag addysg a chodi ymwybyddiaeth, sy'n amlwg yn rhagofynion hanfodol ar gyfer delio â sylweddau seicoweithredol a'u heffaith ar bobl ifanc. Fodd bynnag, rwyf am bwysleisio y prynhawn yma pa mor bwysig yw argymhellion 12, 13 a 14, lle y ceir pwyslais clir iawn ar ddull amlasiantaethol o weithredu a chydweithio ag awdurdodau lleol, yr heddlu, byrddau iechyd ac ysgolion. Rwy'n credu bod enghraifft dda iawn o hynny, a cheisiais dynnu sylw'r pwyllgor at hyn, yn fy etholaeth i, yn ymwneud â phroblem meffedron, y cyfeiriodd Kirsty Williams ati yn Ystradgynlais. Mae Meow Meow, neu MCAT, wedi cael effaith ddinistriol ar lawer o bobl ym Mlaenau Gwent. Fe'i disgrifiwyd gan yr heddlu fel y broblem fwyaf sy'n ein hwynebu o ran epidemig cyffuriau yng Ngwent, ac yn sicr, dywedodd un swyddog nad oedd wedi gweld dim yn debyg i hyn mewn 30 mlynedd a mwy.

I'd like to, therefore, pay tribute to the work of Peter Watkins-Hughes from Brynmawr who put together a film called 'The Good Drug Dealer', which emphasised the way in which these substances have a real impact on young people and how that impact can destroy lives, families and futures. It's very much a tribute to the work of Blaenau Gwent County Borough Council as well in terms of Haydn Trollope, John Morgan and Diane Rowberry, councillors who, again, drove this work forward. Working together with Gwent Police, Tai Calon and the local health board, they were able to demonstrate how a multi-agency approach can and will have an impact on dealing with the impact of these substances on young people.

Hoffwn dalu teyrnged felly i waith Peter Watkins-Hughes o Fryn-mawr a luniodd ffilm o'r enw 'The Good Drug Dealer', a oedd yn pwysleisio'r modd y mae'r sylweddau hyn yn cael effaith go iawn ar bobl ifanc a sut y gall yr effaith honno ddinistrio bywydau, teuluoedd a dyfodol pobl. Mae'n sicr yn deyrnged i waith Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yn ogystal â Haydn Trollope, John Morgan a Diane Rowberry, cynghorwyr sy'n gyfrifol, unwaith eto, am ysgogi'r gwaith hwn. Drwy gydweithio gyda Heddlu Gwent, Tai Calon a'r bwrdd iechyd lleol, maent wedi llwyddo i ddangos sut y mae dull amlasiantaethol o weithredu yn gallu, ac yn cael effaith ar ddelio ag effaith y sylweddau hyn ar bobl ifanc.

Therefore, I would like to ask the Minister, in replying to this debate, whether he believes that the local service boards, which now have a statutory place following the passing of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, will provide us with a model for dealing with the impact of these substances in different constituencies and communities across Wales. When we had this debate, and when we've had these previously about bringing public services together, we've somehow not been able to demonstrate the impact of a structural change, if you like, to the delivery of public services on people's lives themselves. I believe that dealing with drugs is something where we really need to demonstrate that we can create a response that is more than simply lines on maps and more than simply awareness raising in presentations in places like this. So, I hope that the local service boards, which now have a statutory place, will be able to demonstrate that we can act on this.

Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, a yw'n credu y bydd y byrddau gwasanaethau lleol, sydd bellach â statws statudol yn dilyn pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Cymru), yn darparu model i ni ar gyfer ymdrin ag effaith y sylweddau hyn mewn gwahanol etholaethau a chymunedau ledled Cymru. Pan gawsom y ddadl hon, a phan gawsom ddadleuon o'r fath o'r blaen ynglŷn â dod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd, nid ydym wedi gallu dangos effaith newid strwythurol, os mynnwch, o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ar fywydau pobl eu hunain. Rwy'n credu bod delio â chyffuriau yn rhywbeth lle y mae angen i ni ddangos o ddifrif ein bod yn gallu creu ymateb sy'n fwy na llinellau ar fapiau ac sy'n fwy na chodi ymwybyddiaeth yn unig mewn cyflwyniadau mewn lleoedd fel hyn. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y byrddau gwasanaethau lleol, sydd bellach â statws statudol, yn gallu dangos ein bod yn gallu gweithredu ar hyn.

Secondly, I hope that the new UK Government will establish a clear legislative framework for these matters. I would say to the Welsh Government that, if this issue is not high on the agenda of the new UK Government, it would be useful for us, I think, for the Welsh Government, to state how they will look at the legislative powers and the statutory powers available to the Government here to create a much tighter statutory framework. I very much agree with the points made by my good friend Mike Hedges on this. The Irish example is a good example of how we can create a statutory framework that will tighten up the availability of these drugs. It is shocking that drugs are not simply made available on the high street through head shops and the like, but can be reached by any child or any young person sitting at home who's got access to a computer. We need to deal with that, and if we don't deal with that, it's the young people of this country who will pay the price.

Yn ail, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth newydd y DU yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol clir ar gyfer y materion hyn. Byddwn yn dweud wrth Lywodraeth Cymru, os nad yw'r mater hwn yn uchel ar agenda Llywodraeth newydd y DU, byddai'n ddefnyddiol i ni, rwy'n credu, i Lywodraeth Cymru, ddatgan sut y byddant yn edrych ar y pwerau deddfwriaethol a'r pwerau statudol sydd ar gael i'r Llywodraeth hon i greu fframwaith statudol llawer tynnach. Cytunaf yn llwyr â'r pwyntiau a wnaed gan fy nghyfaill Mike Hedges ar hyn. Mae'r enghraifft Wyddelig yn enghraifft dda o sut y gallwn greu fframwaith statudol a fydd yn cyfyngu ar faint o'r cyffuriau hyn fydd ar gael. Mae'n syfrdanol fod cyffuriau nid yn unig ar gael ar y stryd fawr drwy siopau 'pen' a phethau tebyg, ond y gall unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n eistedd gartref a chyfrifiadur at ei ddefnydd gael gafael arnynt. Mae angen i ni ddelio â hynny, ac os nad ydym yn delio â hynny, pobl ifanc y wlad hon fydd yn talu'r pris.

16:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething.

16:10

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Presiding Officer. I'm very happy to respond to this report on behalf of the Welsh Government, and I'd like to start by thanking the Health and Social Care Committee for undertaking this inquiry into new psychoactive substances and producing the report that we're discussing today. Also, as with a number of committee members from across party, I recognise the role of Lynne Neagle in ensuring that this matter was debated and discussed, and this report produced.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n hapus iawn i ymateb i'r adroddiad hwn ar ran Llywodraeth Cymru, a hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ymgymryd â'r ymchwiliad hwn ar sylweddau seicoweithredol newydd ac am gynhyrchu'r adroddiad rydym yn ei drafod heddiw. Hefyd, fel nifer o aelodau pwyllgor ar draws y pleidiau, rwy'n cydnabod rôl Lynne Neagle yn sicrhau fod y mater hwn yn cael ei ddadlau a'i drafod, a bod yr adroddiad hwn yn cael ei gynhyrchu.

We recognise that substance misuse is a major health issue that affects individuals, families and wider communities. We've witnessed a gradual change in drug use over the last five years. The demand for traditional drugs, such as heroin, is on the decline, and demand for new psychoactive substances has increased substantially over this period of time. In response, services, commissioners and policy makers have had to adapt to try and keep up with the fast-changing landscape. This, of course, is not easy to do, because as soon as you get to grips with one substance, a new one with a slightly different chemical structure is there to take its place—the point that Mike Hedges made. How quickly does the chemist move in changing the substance?

Rydym yn cydnabod bod camddefnyddio sylweddau yn fater iechyd pwysig sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ehangach. Rydym wedi gweld newid graddol yn y defnydd o gyffuriau yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r galw am gyffuriau traddodiadol, megis heroin, yn lleihau, a'r galw am sylweddau seicoweithredol newydd wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod hwn o amser. Mewn ymateb i hyn, mae gwasanaethau, comisiynwyr a gwneuthurwyr polisi wedi gorfod addasu i geisio dal i fyny gyda'r newidiadau cyflym hyn. Nid yw'n beth hawdd i'w wneud, wrth gwrs, oherwydd cyn gynted ag y byddwch yn mynd i'r afael ag un sylwedd, mae sylwedd newydd â strwythur cemegol ychydig yn wahanol yn cymryd ei le—y pwynt a wnaeth Mike Hedges. Pa mor gyflym y mae'r cemegydd yn mynd ati i newid y sylwedd?

The Welsh Government has set out the action that we are taking to address substance misuse in our 10-year Welsh substance-misuse strategy, 'Working Together to Reduce Harm'. We're currently in the process of developing the final three-year delivery plan for the current strategy, and I can say that the committee's recommendations will be considered as part of this year's development of the next substance misuse plan, and incorporated within it.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn ein strategaeth 10-mlynedd ar gamddefnyddio sylweddau, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed'. Rydym yn y broses o ddatblygu'r cynllun cyflawni tair-blynedd terfynol ar gyfer y strategaeth gyfredol ar hyn o bryd, a gallaf ddweud y bydd argymhellion y pwyllgor yn cael eu hystyried yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun camddefnyddio sylweddau nesaf eleni, ac yn cael eu cynnwys ynddo.

We're currently undertaking a series of stakeholder consultation events, which are highlighting other new psychoactive substance issues, which have also influenced the content of that new plan.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid, sy'n tynnu sylw at faterion eraill yn ymwneud â sylweddau seicoweithredol newydd, sydd hefyd wedi dylanwadu ar gynnwys y cynllun newydd.

The Welsh Government has accepted all 14 of the recommendations set out in the committee's report. In the evidence given by the Minister for Health and Social Services to the inquiry, we outlined the substantial work that has already been undertaken to date, in an attempt to prevent, educate and reduce the harms associated with these new substances.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r 14 o argymhellion a nodwyd yn adroddiad y pwyllgor. Yn y dystiolaeth a roddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r ymchwiliad, rydym wedi amlinellu'r gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud hyd yn hyn, mewn ymgais i atal, addysgu a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â'r sylweddau newydd hyn.

The recommendations made by the committee complement this work, and in the limited time that I have available, I'll provide Members with a brief overview of the ongoing work in relation to the report's recommendations and its themes.

Mae'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn ategu'r gwaith hwn, ac yn yr amser cyfyngedig sydd ar gael, rwyf am ddarparu trosolwg byr i'r Aelodau o'r gwaith parhaus mewn perthynas ag argymhellion yr adroddiad a'i themâu.

We have put in place or supported a range of methods to capture information on the use of these new substances across Wales. These include the Welsh national database for substance misuse, the harm reduction database, improved prevalence estimates and the police-led Operation Tarian regional drug profiles.

Rydym wedi rhoi dulliau ar waith neu wedi cefnogi ystod o ddulliau i gasglu gwybodaeth am y defnydd o'r sylweddau newydd ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cronfa ddata genedlaethol Cymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau, y gronfa ddata lleihau niwed, amcangyfrif gwell o nifer yr achosion a phroffiliau cyffuriau rhanbarthol Ymgyrch Tarian dan arweiniad yr heddlu.

Whilst there is no single source of data collection in Wales, these various collection systems allow the Welsh Government, police and other partners to build a picture of new psychoactive substances and their use throughout each part of Wales.

Er nad oes un ffynhonnell benodol ar gyfer casglu data yng Nghymru, mae'r systemau casglu amrywiol hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru, yr heddlu a phartneriaid eraill i greu darlun o sylweddau seicoweithredol newydd a'u defnydd ym mhob rhan o Gymru.

On awareness raising, the Welsh Government has undertaken a range of initiatives, including through DAN 24/7; I'm pleased that the committee Chair recognised this in his opening—it's our bilingual substance misuse helpline. We've also included a number of national advertising campaigns. We'll also roll out a national training programme on new psychoactive substances across Wales, to ensure professionals who meet people that may be misusing these substances have a sound knowledge base to help deal effectively with individuals who present to those services, and that deals with and responds to the point that Kirsty Williams made in her contribution, of not simply focusing on skills and education-based services.

O ran codi ymwybyddiaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag ystod o fentrau, gan gynnwys drwy DAN 24/7, ein llinell gymorth ddwyieithog ar gamddefnyddio sylweddau, ac rwy'n falch fod Cadeirydd y pwyllgor wedi ei chydnabod wrth agor. Rydym hefyd wedi cynnwys nifer o ymgyrchoedd hysbysebu cenedlaethol. Byddwn hefyd yn cyflwyno rhaglen hyfforddi genedlaethol ar sylweddau seicoweithredol newydd ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol sy'n cyfarfod â phobl a allai fod yn camddefnyddio'r sylweddau hyn sylfaen gadarn o wybodaeth i helpu i ddelio'n effeithiol ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau, ac mae hynny'n ymateb i'r hyn y cyfeiriodd Kirsty Williams ato yn ei chyfraniad ynglŷn â pheidio â chanolbwyntio'n syml ar sgiliau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar addysg.

We do recognise that parents and carers play an important role in educating their children about the risk of drug use, as well as providing support and information, even if that does happen. We've developed an information book that's been distributed across Wales, and will be made available online and through DAN 24/7, and that's focused on carers and family members to help them to begin having those difficult discussions and to have a fuller understanding of the dangers of new psychoactive substances.

Rydym yn cydnabod bod rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan bwysig yn addysgu eu plant ynglŷn â'r risg o ddefnyddio cyffuriau, yn ogystal â darparu cefnogaeth a gwybodaeth, hyd yn oed os yw hynny'n digwydd. Rydym wedi datblygu llyfr gwybodaeth sydd wedi cael ei ddosbarthu ledled Cymru, a bydd hwnnw ar gael ar-lein a thrwy DAN 24/7. Mae'n canolbwyntio ar ofalwyr ac aelodau'r teulu i'w helpu i ddechrau cael y trafodaethau anodd hynny ac i gael dealltwriaeth lawnach o'r peryglon sy'n gysylltiedig â sylweddau seicoweithredol newydd.

In terms of school activity, we have regularly reviewed the content of the all-Wales school liaison core programme, yet another snappily titled programme from the Government. This is to ensure that it remains fit for purpose and includes current trends. This programme is already delivered in 99 per cent of primary and secondary schools in Wales. It's resulted in new lessons being introduced, with a focus on new psychoactive substances. The programme is currently undergoing a police-led review and we will ensure that the recommendations from this report are considered as part of that work.

O ran gweithgaredd ysgol, rydym wedi adolygu cynnwys rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan yn rheolaidd, rhaglen arall â theitl bachog gan y Llywodraeth. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cynnwys tueddiadau cyfredol. Mae'r rhaglen eisoes yn cael ei darparu yn 99 y cant o ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru. Mae wedi arwain at gyflwyno gwersi newydd, gyda ffocws ar sylweddau seicoweithredol newydd. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn destun adolygiad dan arweiniad yr heddlu a byddwn yn sicrhau bod argymhellion yr adroddiad hwn yn cael sylw yn rhan o'r gwaith hwnnw.

It's perhaps relevant to pause here to deal with one of the points made in Alun Davies's contribution, because I think that this is a good example of the regular and constructive work on prevention that we do in the NHS in Wales with police forces right across the country. In terms of your point about the drive for further integration, there's a regular challenge across all areas of the public service in this area. I think there's a point that's well made about what is the right structure, but part of our bigger challenge is still how we get the right culture about information sharing, being outcome focused and having the right objectives and sharing information between different parts of public services.

Efallai ei bod hi'n berthnasol i mi oedi yma er mwyn ymdrin ag un o'r pwyntiau a wnaed yng nghyfraniad Alun Davies, oherwydd rwy'n credu bod yma enghraifft dda o'r gwaith rheolaidd ac adeiladol ar atal a wnawn yn y GIG yng Nghymru gyda heddluoedd ar draws y wlad. O ran eich pwynt ynglŷn â'r ymdrech i sicrhau integreiddio pellach, mae yna her gyson ar draws pob maes o'r gwasanaethau cyhoeddus yn hyn o beth. Rwy'n credu bod pwynt da wedi'i wneud ynglŷn â beth yw'r strwythur cywir, ond rhan o'n her fwy o hyd yw sut y gallwn sicrhau'r diwylliant cywir o ran rhannu gwybodaeth, canolbwyntio ar ganlyniadau a chael yr amcanion iawn a rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol rannau o'r gwasanaethau cyhoeddus.

We do continue to recognise the importance of engaging with further and higher education institutions on new psychoactive substances and other drugs. So we will be including specific actions to address this in our new delivery plan. We know that having a suitably skilled and knowledgeable front-line workforce is a key part of improving education and prevention of the risks associated with these new substances. We continue to make our bursary scheme available to substance misuse commissioners and providers for this purpose.

Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â sefydliadau addysg bellach ac uwch mewn perthynas â sylweddau seicoweithredol newydd a chyffuriau eraill. Felly byddwn yn cynnwys camau penodol i fynd i'r afael â hyn yn ein cynllun cyflawni newydd. Rydym yn gwybod bod cael gweithlu rheng flaen gwybodus gyda sgiliau addas yn rhan allweddol o wella addysg ac atal y peryglon sy'n gysylltiedig â'r sylweddau newydd hyn. Mae ein cynllun bwrsariaeth yn parhau i fod ar gael i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau at y diben hwn.

I do want to deal with a point that a number of Members made about working with the UK Government and the legislation and classification of drugs. This is a matter, of course, that is reserved to the UK Government, and it's an area where we recognise the merit of having a UK-wide system for drug classification, and that approach reflects the position in other administrations across the UK who have not sought to devolve specific powers in this area. However, we are keen to ensure that the UK Government responds with greater agility to what is a challenging and ever-changing environment. Following the publication of the Home Office review, the Minister for Health and Social Services wrote to the then Home Office Minister to push for a speedy UK legislative response. We also set out in that correspondence the action that this Government is already taking in many of the areas recommended in the Home Office expert panel report. I'm happy to follow up the correspondence to the new Minister in the UK Government. We will consider the recommendations made in this report as part of the development of our next substance misuse delivery plan, which we will publish next year.

Hoffwn ymdrin â phwynt a wnaed gan nifer o'r Aelodau ynglŷn â gweithio gyda Llywodraeth y DU a deddfwriaeth a dosbarthiad cyffuriau. Mae'n fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU, wrth gwrs, ac mae'n faes lle rydym yn cydnabod rhinwedd system ddosbarthu cyffuriau ar gyfer y DU gyfan, ac mae'r agwedd honno'n adlewyrchu safbwynt gweinyddiaethau eraill ar draws y DU nad ydynt wedi ceisio datganoli pwerau penodol yn y maes hwn. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ymateb yn fwy chwim i'r hyn sy'n amgylchedd heriol a chyfnewidiol iawn. Yn sgil cyhoeddi adolygiad y Swyddfa Gartref, ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Weinidog y Swyddfa Gartref ar y pryd i wasgu am ymateb deddfwriaethol cyflym ar gyfer y DU. Yn yr ohebiaeth honno hefyd, aethom ati i nodi'r camau gweithredu y mae'r Llywodraeth hon eisoes yn eu rhoi ar waith mewn llawer o'r meysydd a argymhellwyd yn adroddiad panel arbenigwyr y Swyddfa Gartref. Rwy'n hapus i barhau'r ohebiaeth â Gweinidog newydd Llywodraeth y DU. Byddwn yn ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein cynllun cyflawni nesaf ar gamddefnyddio sylweddau a gyhoeddir gennym y flwyddyn nesaf.

I'd like to end by reiterating my thanks to the committee for the significant work that has gone into undertaking this inquiry, and also to reiterate that the approach of this Government will always be about harm reduction. That is at the core of our action on substance misuse, and remains so in this area as well. I look forward to working with Members from across the Chamber in the months and years ahead to achieve what should be a shared goal and achievement.

Hoffwn gloi drwy ailadrodd fy niolch i'r pwyllgor am y gwaith sylweddol a oedd ynghlwm wrth gynnal yr ymchwiliad, a hefyd drwy ailadrodd mai ffocws y Llywodraeth hon bob amser yw lleihau niwed. Dyna sydd wrth wraidd ein camau gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau, ac mae'n parhau felly yn y maes hwn hefyd. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Aelodau ar draws y Siambr yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod er mwyn cyflawni'r hyn a ddylai fod yn nod ac yn gyflawniad ar y cyd.

16:17

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl hon.

I would like to thank everyone who has contributed to this debate.

I would like to obviously highlight and reflect everyone's comments about Lynne Neagle. She did drive this agenda forward and she ensured that it became an issue the committee needed to address. But I also want to give her credit and praise for the work she's done in her own community, because the work she's done with her agencies in the community has actually been the driving force behind her lead here, because she's actually addressed it.

Yn amlwg, hoffwn dynnu sylw at sylwadau pawb am Lynne Neagle, a'u hategu. Hi a ysgogodd yr agenda hon a sicrhau ei fod yn dod yn fater roedd angen i'r pwyllgor roi sylw iddo. Ond rwyf hefyd yn awyddus i roi clod a chanmoliaeth iddi am y gwaith y mae wedi ei wneud yn ei chymuned ei hun, gan mai'r gwaith a wnaeth gyda'i hasiantaethau yn y gymuned mewn gwirionedd oedd y grym y tu ôl i'w harweiniad yma, gan ei bod wedi yn mynd i'r afael â hyn.

Janet Finch-Saunders had it at one point: it was slipping under the radar, people weren't aware of it. The committee actually brought this to the fore, and as a consequence of Lynne's work, both in the constituency and in the committee. I'd also like to pay thanks to the staff of the committee, and the outreach staff as well, because part of the importance of this debate was the communication we had with the users in our outreach sessions and our focus groups, which actually made us aware of the impact upon people and communities far more than we could ever have done simply by having formal sessions.

Roedd Janet Finch-Saunders yn llygad ei lle ar un pwynt: roedd yn llithro o dan y radar, nid oedd pobl yn ymwybodol ohono. Daeth y pwyllgor â hyn i'r amlwg, ac o ganlyniad i waith Lynne, yn yr etholaeth ac yn y pwyllgor. Hoffwn ddiolch hefyd i staff y pwyllgor, ac i'r staff allgymorth yn ogystal, gan mai rhan o bwysigrwydd y ddadl hon oedd y cyfathrebu a fu rhyngom a'r defnyddwyr yn ein sesiynau allgymorth a'n grwpiau ffocws, a'n gwnaeth yn ymwybodol mewn gwirionedd o'r effaith ar bobl a chymunedau i raddau llawer mwy nag y gallem byth fod wedi ei wneud drwy gael sesiynau ffurfiol yn unig.

Can I take a couple of points from Members? I think Mike Hedges highlighted how simple it is to actually access these particular substances by simply going into a shop on the high street. Nothing wrong with that; walking in, getting something and walking out, and you've got a chemical that could kill you. Isn't it amazing that people are selling chemicals that are labelled 'not for human consumption', knowing full well that they are going to be used for human consumption?

A gaf fi gyfeirio at ychydig o bwyntiau a wnaed gan yr Aelodau? Rwy'n meddwl bod Mike Hedges wedi amlygu pa mor syml yw hi mewn gwirionedd i gael gafael ar y sylweddau arbennig hyn drwy fynd i mewn i siop ar y stryd fawr. Nid oes dim o'i le ar hynny; cerdded i mewn, cael rhywbeth a cherdded allan, ac mae gennych gemegyn a allai eich lladd. Onid yw'n rhyfeddol fod pobl yn cael gwerthu cemegau gyda label sy'n dweud nad yw'r cynnwys i'w gymryd gan bobl, gan wybod yn iawn eu bod yn mynd i gael eu defnyddio ar gyfer eu cymryd gan bobl?

16:19

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Actually, what you have is, sometimes, in the morning, they're waiting outside at nine o'clock ready to go in to get it.

A dweud y gwir, weithiau, yr hyn sydd gennych yw eu bod yn aros y tu allan am naw o'r gloch y bore yn barod i fynd i mewn i'w gael.

16:19

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I can understand, because some of the evidence we received when we were in Wrexham was that the shop up there was closed down, and people were crying in the street because they wanted that particular drug, because it was giving them a bigger high than some of the illegal drugs that they were normally taking. So, it is something that we need to address.

Gallaf ddeall, gan mai rhywfaint o'r dystiolaeth a gawsom pan oeddem yn Wrecsam oedd bod y siop yno wedi cau, ac roedd pobl yn crio yn y stryd am eu bod eisiau'r cyffur penodol hwnnw, am ei fod yn rhoi gwell anterth na rhai o'r cyffuriau anghyfreithlon roeddent fel arfer yn eu cymryd. Felly, mae'n rhywbeth y mae angen i ni roi sylw iddo.

Lindsay also highlighted that it's about listening to young people. It's important that we did listen to young people and took on board their views, and I'm very pleased we did that. Kirsty, again, talked about the robustness of working with young people, both for Government and all service providers. We need to ensure that the front-line workers are sufficiently resourced to deliver that work, and I'm pleased the Deputy Minister actually did highlight that particular point.

Dywedodd Lindsay hefyd ei fod yn ymwneud â gwrando ar bobl ifanc. Mae'n bwysig ein bod wedi gwrando ar bobl ifanc a chymryd sylw o'u barn, ac rwy'n falch iawn ein bod wedi gwneud hynny. Siaradodd Kirsty wedyn am gadernid gweithio gyda phobl ifanc, i'r Llywodraeth a'r holl ddarparwyr gwasanaeth. Mae angen i ni sicrhau bod y gweithwyr rheng flaen yn cael eu hariannu'n ddigonol i gyflawni'r gwaith, ac rwy'n falch fod y Dirprwy Weinidog mewn gwirionedd wedi tynnu sylw at y pwynt penodol hwnnw.

Alun Davies, it's not just the ones that we've talked about, but methadone, as you highlighted, has been a major, major problem in the past and is still a major problem. We don't want to see a repeat of that happening with all of these different substances, because it's already been highlighted by everybody that these are chemical compounds that, if you classify them under the chemical compound, there are very clever chemists out there who change a little bit of an element and, all of a sudden, the classification changes. It's very easy for the very bright chemists, and the important thing is that we need to look at taking the whole collective off the street—anything that creates a hallucinatory approach should be removed from availability, as much as possible.

Alun Davies, nid yw hyn yn ymwneud yn unig â'r rhai rydym wedi siarad amdanynt, ond mae methadon, fel y dywedodd, wedi bod yn broblem enfawr yn y gorffennol ac mae'n dal i fod yn broblem fawr. Nid ydym am weld ailadrodd hynny gyda'r holl wahanol sylweddau hyn, gan fod pawb eisoes wedi nodi bod y rhain yn gyfansoddion cemegol sy'n—. Os ydych yn eu dosbarthu yn ôl y cyfansoddyn cemegol, mae yna gemegwyr clyfar iawn i'w cael sy'n newid ychydig bach ar un o'r elfennau ac yn sydyn, mae'r dosbarthiad yn newid. Mae'n hawdd iawn i gemegwyr disglair iawn, a'r peth pwysig yw bod angen i ni edrych ar dynnu'r cyfan oddi ar y stryd—dylid sicrhau cyn belled â phosibl nad oes unrhyw beth sy'n creu effaith rhithbair ar gael.

Janet, I'm very pleased that, again, you've highlighted the issue that it's not just the south, it's the north; it's across the whole of Wales. This approach has to be tackled everywhere.

Janet, rwy'n falch iawn, unwaith eto, eich bod wedi tynnu sylw at y ffaith nad mater i'r de'n unig yw hyn, mae'n digwydd yn y gogledd; mae'n digwydd ledled Cymru gyfan. Rhaid mynd i'r afael â hyn ym mhob man.

Deputy Minister, I was very pleased when I saw your response that all recommendations were accepted and that you are starting the work. I do urge you to take up the option to contact the new Government and pursue it, particularly on the roles they have—not just the roles that they have in the UK, but the roles they have in the European Union and the discussions at state level, which, unfortunately, because it's about member states, they need to get involved in. Work is being done on the EU, currently going through the Parliament. The lead rapporteur, in case you want to tell them, is Michał Boni, a Polish Member of the European Parliament; it is important that we follow up on that. I'm also very pleased that you are now considering the next substance misuse plan and that this is going to be a major feature of that.

Ddirprwy Weinidog, roeddwn yn falch iawn pan welais eich ymateb fod yr holl argymhellion wedi eu derbyn a'ch bod yn dechrau ar y gwaith. Rwy'n ei eich annog i fanteisio ar yr opsiwn i gysylltu â'r Llywodraeth newydd a mynd ar drywydd hyn, yn enwedig y rolau sydd ganddynt—nid y rolau sydd ganddynt yn y DU yn unig, ond y rolau sydd ganddynt yn yr Undeb Ewropeaidd a'r trafodaethau ar lefel gwladwriaethol sydd angen iddynt gymryd rhan ynddynt, yn anffodus, am ei fod yn ymwneud ag aelod-wladwriaethau. Mae gwaith yn cael ei wneud ar yr Undeb Ewropeaidd yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Y prif rapporteur, rhag ofn y byddwch am ddweud wrthynt, yw Michał Boni, Aelod Pwylaidd o Senedd Ewrop; mae'n bwysig ein bod yn mynd ar drywydd hynny. Rwyf hefyd yn falch iawn eich bod yn awr yn ystyried y cynllun camddefnyddio sylweddau nesaf a bod hyn yn mynd i fod yn nodwedd bwysig o hynny.

Too often, we are seeing our young people finding the easy option of taking something that can provide what they call a 'high'—an escape. We need to tackle, as Kirsty said, why they need to take those in the first place, but we also need to educate everybody that the word 'legal' does not mean 'safe'; the word 'legal' does not mean 'okay'; the world 'legal' does not mean 'no harm'. It does mean that you won't get prosecuted for buying it, but you could die as a consequence of it, and we need to ensure that that doesn't happen to our young people.

Yn rhy aml, rydym yn gweld ein pobl ifanc yn dod o hyd i'r opsiwn hawdd o gymryd rhywbeth sy'n gallu rhoi'r hyn a alwant yn 'anterth'—dihangfa. Fel y dywedodd Kirsty, mae angen i ni fynd i'r afael â pham y mae arnynt angen cymryd y pethau hyn yn y lle cyntaf, ond hefyd mae angen addysgu pawb nad yw'r gair 'cyfreithiol' yn golygu 'diogel'; nid yw'r gair 'cyfreithiol' yn golygu 'iawn'; nid yw'r gair 'cyfreithiol' yn golygu 'dim niwed'. Mae'n golygu na chewch eich erlyn am ei brynu, ond gallech farw o ganlyniad iddo, ac mae angen i ni sicrhau nad yw hynny'n digwydd i'n pobl ifanc.

16:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does anyone object? No objections; therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiadau; felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Digwyddiadau Chwaraeon Mawr

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.*

# 4. Welsh Conservatives Debate: Major Sporting Events

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.*

16:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item four, which is the Welsh Conservatives' debate on major sporting events, and I call on Mohammad Asghar to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem pedwar, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr, a galwaf ar Mohammad Asghar i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5755 Paul Davies

Motion NDM5755 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod manteision digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru;

1. Recognises the benefits of major sporting events in Wales;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ati'n weithredol i wneud cais ar gyfer Gemau'r Gymanwlad; a

2. Calls on the Welsh Government to actively pursue a bid for the Commonwealth Games; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y gwneir y gorau o fanteision i iechyd y cyhoedd, twristiaeth a'r economi yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd.

3. Calls on the Welsh Government to ensure the benefits of public health, tourism and the economy are maximised during the upcoming Rugby World Cup.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:22

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I have great pleasure in proposing the motion on holding major sporting events in Wales, and we will be supporting both amendments.

Diolch i chi, Lywydd. Mae'n bleser mawr gennyf gynnig y cynnig ar gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru, a byddwn yn cefnogi'r ddau welliant.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:23.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:23.*

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Holding major sporting events brings a number of benefits. There are the economic benefits derived from the influx of a large number of spectators to the host venue, and the opportunity of promoting the same abroad; and, there are the health benefits that come from the increased interest in participation in sport that holding major sporting events engenders.

Mae cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yn creu nifer o fanteision. Mae yna fanteision economaidd sy'n deillio o'r llif o nifer fawr o wylwyr i'r lleoliad sy'n eu cynnal, a'r cyfle i hyrwyddo'r lleoliad dramor; a cheir manteision iechyd o'r cynnydd yn y diddordeb mewn cymryd rhan mewn chwaraeon sy'n deillio o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr.

Wales has a strong history of hosting major sporting events, including the Ryder Cup, the FA Cup, the Ashes and the Olympic and Paralympic Games, and the Welsh economy has benefited as a result. The Ryder Cup, held at Celtic Manor Resort in 2010, injected over £80 million into south Wales's economy. The chairman of Glamorgan County Cricket Club estimated the benefit of holding international cricket matches as being in excess of £75 million over the next six years. The Welsh Government itself, in 2013, estimated the benefits of hosting the Wales GB Rally as being as high as £20 million. This is the same Welsh Government that admitted it had no strategy in place aimed at boosting Wales's profile during the 2012 Olympic and Paralympic Games. In reply to a freedom of information request, the Welsh Government said:

Mae gan Gymru hanes cryf o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr, gan gynnwys Cwpan Ryder, Cwpan yr FA, y Lludw a'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, ac mae economi Cymru wedi elwa o ganlyniad. Chwistrellodd Cwpan Ryder, a gynhaliwyd yn y Celtic Manor Resort yn 2010, dros £80 miliwn i economi de Cymru. Amcangyfrifodd cadeirydd Clwb Criced Morgannwg y bydd cynnal gemau criced rhyngwladol yn creu budd o fwy na £75 miliwn dros y chwe blynedd nesaf. Yn 2013, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru ei hun y byddai cynnal Rali Cymru Prydain Fawr yn creu cymaint â £20 miliwn o fudd. Dyma'r un Lywodraeth Cymru a gyfaddefodd nad oedd ganddi strategaeth ar waith ar gyfer hybu proffil Cymru yn ystod Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012. Mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru:

'I can confirm that there are no Welsh Government strategies in relation to Wales's Olympic business performance or tourism benefits from the Olympics.'

'Gallaf gadarnhau nad oes strategaethau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â pherfformiad busnes Cymru na manteision i dwristiaeth yn deillio o'r Gemau Olympaidd.'

Tourism is a vital sector of the Welsh economy. Major sporting events offer the opportunity to market Wales on the global stage. Thanks to the Ryder Cup, over 200,000 golf visitors travelled to Wales in 2010, injecting £42 million into our economy. Sadly, Wales's share of all international trips has gradually declined. Only 3 per cent of overseas visitors to the UK spend a night in Wales. Promoting tourism should be one of the Welsh Government's top priorities. We need a transparent tourism strategy for sports tourists, and this must be in place, if possible, before the Rugby World Cup in September this year.

Mae twristiaeth yn sector hanfodol o economi Cymru. Mae digwyddiadau chwaraeon mawr yn cynnig cyfle i farchnata Cymru ar lwyfan byd-eang. Diolch i Gwpan Ryder, teithiodd dros 200,000 o ymwelwyr golff i Gymru yn 2010, gan chwistrellu £42 miliwn i mewn i'n heconomi. Yn anffodus, mae cyfran Cymru o'r holl deithiau rhyngwladol wedi gostwng yn raddol. Nid oes ond 3 y cant o ymwelwyr tramor â'r DU yn treulio noson yng Nghymru. Dylai hyrwyddo twristiaeth fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae arnom angen strategaeth dwristiaeth dryloyw ar gyfer twristiaid chwaraeon, ac mae'n rhaid iddi fod ar waith, os yn bosibl, cyn Cwpan Rygbi'r Byd ym mis Medi eleni.

The health benefits of holding major sporting events are well known. They create interest and increase participation in many sporting activities. Obesity is an increasing problem in Wales. The Welsh health survey in 2013 found that 58 per cent of adults in Wales were classified as overweight or obese. Regular sport and exercise in conjunction with a healthy diet could help to reduce levels of obesity. It would also reduce the risk of developing major chronic diseases, such as coronary heart disease, stroke, diabetes and some forms of cancer. Research by Sport England into the economic value of sport showed that the annual value of health benefits from people taking part in sport is estimated at over £11 billion. I'm sure that the Minister will confirm that the benefits for Wales are also considerable.

Mae'r manteision i iechyd o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yn gyfarwydd. Maent yn creu diddordeb a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau chwaraeon. Mae gordewdra yn broblem gynyddol yng Nghymru. Canfu arolwg iechyd Cymru yn 2013 fod 58 y cant o oedolion Cymru wedi eu categoreiddio'n rhy drwm neu'n ordew. Gallai chwaraeon ac ymarfer corff rheolaidd ar y cyd â deiet iach helpu i leihau lefelau gordewdra. Byddai hefyd yn lleihau'r risg o ddatblygu clefydau cronig mawr, megis clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes a rhai mathau o ganser. Dangosodd ymchwil gan Sport England ar werth economaidd chwaraeon yr amcangyfrifir bod gwerth blynyddol y manteision iechyd sy'n deillio o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon dros £11 biliwn. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cadarnhau bod y manteision i Gymru hefyd yn sylweddol.

I wish to say a few words about making a bid to bring the Commonwealth Games to Wales in 2026. The Commonwealth Games were last held in Wales in 1958. A successful bid to bring the games to Wales in 2026 would have a substantial economic impact. It would create opportunities for individuals, communities, businesses and organisations across Wales to share in the benefits generated. We already have world-class venues in place, such as the Millennium Stadium, the Liberty Stadium and the velodrome in Newport. I believe bringing the Commonwealth Games to Wales once again would enhance our growing reputation for staging international activities here in Wales. It would provide an opportunity to market and promote Wales abroad, whilst bringing substantial economic and health benefits here.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau am wneud cynnig i ddod â Gemau'r Gymanwlad i Gymru yn 2026. Y tro diwethaf y cynhaliwyd Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru oedd yn 1958. Byddai cynnig llwyddiannus i ddod â'r gemau i Gymru yn 2026 yn cael effaith economaidd sylweddol. Byddai'n creu cyfleoedd i unigolion, cymunedau, busnesau a sefydliadau ledled Cymru i rannu yn y manteision a gynhyrchir. Eisoes, mae gennym leoliadau o safon fyd-eang, megis Stadiwm y Mileniwm, Stadiwm Liberty a'r felodrom yng Nghasnewydd. Credaf y byddai dod â Gemau'r Gymanwlad i Gymru unwaith eto yn gwella ein henw da am gynnal gweithgareddau rhyngwladol yma yng Nghymru. Byddai'n rhoi cyfle i farchnata a hyrwyddo Cymru dramor, gan greu manteision i'r economi ac i iechyd.

Deputy Presiding Officer, Wales is a great part of the United Kingdom, and we have beautiful spots, not only to improve our image, but to bring overseas men and women here to make our face well known around the world. There are much smaller nations in the West Indies that are very well known and they earn a lot of gold medals in the Olympics. They are tiny little nations, but they are well known—Bermuda, Barbados and those small islands. Here, we can promote some areas that have the land, facilities, abilities and talents, for events such as canoeing and sailing in west Wales and Monmouth; we can have shooting in the Brecon Beacons; we can hold horse riding events in north Wales—Wrexham and Chester—and south Wales. We can create those world-class events. And we have cycling in Newport. Minister, these are the areas we have to explore in new venues to promote our sporting events in Wales. I can assure you, if our Government, in this Chamber, comes in in the next five years, we can not only transform Wales's sporting events, but we can put Wales on the world map in sporting events also.

Ddirprwy Lywydd, mae Cymru yn rhan wych o'r Deyrnas Unedig, ac mae gennym leoedd hardd, nid yn unig i wella ein delwedd, ond i ddod â dynion a menywod tramor yma i'n gwneud yn gyfarwydd ledled y byd. Mae yna genhedloedd llai o lawer yn India'r Gorllewin sy'n adnabyddus iawn ac maent yn ennill llawer o fedalau aur yn y Gemau Olympaidd. Cenhedloedd bach bach ydynt, ond maent yn adnabyddus—Bermwda, Barbados a'r ynysoedd bach hynny. Yma, gallwn hyrwyddo rhai ardaloedd sydd â thir, cyfleusterau, galluoedd a doniau, ar gyfer digwyddiadau megis canŵio a hwylio yng ngorllewin Cymru a Mynwy; gallwn gael saethu ym Mannau Brycheiniog; gallwn gynnal digwyddiadau marchogaeth ceffylau yng ngogledd Cymru—Wrecsam a Chaer—a de Cymru. Gallwn greu digwyddiadau o safon fyd-eang o'r fath. Ac mae gennym y beicio yng Nghasnewydd. Weinidog, dyma'r meysydd sy'n rhaid i ni eu harchwilio o ran lleoliadau newydd i hyrwyddo ein digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru. Gallaf eich sicrhau, os bydd ein Llywodraeth, yn y Siambr hon, yn dod i mewn yn ystod y pum mlynedd nesaf, gallwn weddnewid digwyddiadau chwaraeon Cymru, a gallwn hefyd roi Cymru ar fap y byd o ran digwyddiadau chwaraeon.

16:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the two amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 2, ar ôl 'Gemau'r Gymanwlad' mewnosod 'a'r Tour de France'.*

*In point 2, after 'Commonwealth Games' insert 'and the Tour de France'.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of the motion:*

*Yn credu bod cyfleusterau sefyll diogel mewn stadia yn creu awyrgylch gwell mewn digwyddiadau mawr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon i baratoi canllawiau y gellir cyflwyno ardaloedd sefyll diogel oddi tanynt.*

*Believes that safe standing facilities in stadiums create a better atmosphere at major events and calls on the Welsh Government to work with the Sports Ground Safety Authority to prepare guidance under which safe standing areas can be introduced.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

16:29

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts?

A gaf fi gynnig gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts?

Major sporting events play an important role in Wales, not only supporting our local economy, but also building a sense of community and cohesion. I welcome the debate today, therefore, which calls on the Welsh Government to actively pursue a bid for the Commonwealth Games. In December, the chief executive of Sport Wales, Sarah Powell, said that Wales's global reputation for staging world-leading sporting events would be further enhanced by hosting the Commonwealth Games. We support this view, but also repeat our call for the Welsh Government to revive its bid for a stage of the Tour de France to come to Wales.

Mae digwyddiadau chwaraeon mawr yn chwarae rhan bwysig yng Nghymru, nid yn unig yn cefnogi ein heconomi leol, ond hefyd yn adeiladu ymdeimlad o gymuned a chydlyniant. Rwy'n croesawu'r ddadl heddiw felly, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ar drywydd cynnig am Gemau'r Gymanwlad. Ym mis Rhagfyr, dywedodd prif weithredwr Chwaraeon Cymru, Sarah Powell, y byddai enw da byd-eang Cymru am gynnal digwyddiadau chwaraeon o'r radd flaenaf yn cael ei wella ymhellach drwy gynnal Gemau'r Gymanwlad. Rydym yn cefnogi'r farn hon, ond rydym hefyd yn ailadrodd ein galwad ar Lywodraeth Cymru i adfer ei chynnig i wahodd cam o'r Tour de France i Gymru.

In 2012, the First Minister said that the Welsh Government was working with partners on a joint British bid for stages of the Tour de France in 2014 or 2015, which would include a stage in Wales. Unfortunately, I think we just lost out to Yorkshire as part of that bid. Last year, we saw that stage of the Tour de France held in Yorkshire, Cambridgeshire, Essex and London. So, I think we need to learn from those bids put forward by those areas so that we can successfully bid for a future stage of the tour, possibly the next time it starts in the UK.

Yn 2012, dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ar gynnig ar y cyd o Brydain i wahodd camau o'r Tour de France yn 2014 neu 2015, a fyddai'n cynnwys cam yng Nghymru. Yn anffodus, rwy'n credu bod Swydd Efrog wedi ein curo o drwch blewyn fel rhan o'r cynnig hwnnw. Y llynedd, gwelsom y cam hwnnw o'r Tour de France yn cael ei gynnal yn Swydd Efrog, Swydd Gaergrawnt, Essex a Llundain. Felly, rwy'n credu bod angen i ni ddysgu o'r cynigion a gyflwynwyd gan yr ardaloedd hynny fel y gallwn gyflwyno cynnig llwyddiannus am gam o'r Tour yn y dyfodol, y tro nesaf y bydd yn cychwyn yn y DU o bosibl.

From the Millennium Stadium playing host to Rugby World Cup games to golf's Ryder Cup visiting Newport, Wales has shown its ability to put on successful world-class sporting events. We've already hosted major cycling events, including two stages of the Tour of Britain last year, and, most recently, the national road race championships in Monmouthshire. Now is the time to revive our bid for that stage of the prestigious Tour de France, which I think would put Wales back on the world stage where we belong, and where we have been with those previous events. It is estimated that such a Tour de France stage, starting in Wales, would boost the Welsh economy by up to £115 million. It would bring tourists to our nation, boost revenues—particularly for independent businesses—and would help advertise Wales to the world. Of course, our mountains and hills and our beautiful scenery make Wales a challenging and spectacular backdrop for the world's top cyclists to visit.

O Stadiwm y Mileniwm yn lleoliad ar gyfer gemau Cwpan Rygbi'r Byd i Gwpan Ryder golff yn ymweld â Chasnewydd, mae Cymru wedi dangos ei gallu i gynnal digwyddiadau chwaraeon llwyddiannus o'r radd flaenaf. Rydym eisoes wedi cynnal digwyddiadau beicio mawr, gan gynnwys dau gam o'r Tour of Britain llynedd, ac yn fwyaf diweddar, y pencampwriaethau ras ffordd cenedlaethol yn Sir Fynwy. Yn awr yw'r amser i adfer ein cynnig am y cam hwnnw o ras fawreddog y Tour de France, y credaf y byddai'n rhoi Cymru yn ôl ar lwyfan y byd lle rydym yn perthyn, a lle rydym wedi bod gyda'r digwyddiadau blaenorol hynny. Amcangyfrifir y byddai cam felly o'r Tour de France, yn dechrau yng Nghymru, yn hwb gwerth hyd at £115 miliwn i economi Cymru. Byddai'n dod â thwristiaid i'n gwlad, yn hybu refeniw—yn enwedig ar gyfer busnesau annibynnol—a byddai'n helpu i hysbysebu Cymru i'r byd. Wrth gwrs, mae ein mynyddoedd a'n bryniau a'n golygfeydd hardd yn gwneud Cymru yn gefndir heriol ac ysblennydd ar gyfer beicwyr gorau'r byd.

In terms of safe standing, safe standing areas operate safely and successfully at many European grounds, notably in Germany. They offer sports fans more choice and a better atmosphere. When asked in a recent poll by the Football Supporters' Federation, over 70 per cent of fans stated they liked to stand because it created a better atmosphere. It can also lead to cheaper tickets, which means that more people can afford to attend events, and they are more socially inclusive. Season standing tickets at Bayern Munich begin as low as £150. I think that's a fraction of what I pay for my season ticket at the Swans, and certainly it's a fraction, I'm sure, of what other people here pay for a season ticket at the football team of their choice.

O ran sefyll diogel, mae mannau sefyll diogel yn gweithredu'n ddiogel ac yn llwyddiannus mewn nifer o feysydd chwarae Ewropeaidd, yn enwedig yn yr Almaen. Maent yn cynnig mwy o ddewis ac awyrgylch gwell i ddilynwyr chwaraeon. Mewn arolwg barn diweddar gan Ffederasiwn y Cefnogwyr Pêl-droed, dywedodd dros 70 y cant o'r cefnogwyr a holwyd eu bod yn hoffi sefyll am ei fod yn creu awyrgylch gwell. Gall hefyd arwain at docynnau rhatach, sy'n golygu y gall mwy o bobl fforddio mynd i ddigwyddiadau, ac maent yn fwy cynhwysol yn gymdeithasol. Mae tocynnau tymor ar gyfer sefyll yng nghlwb Bayern Munich yn dechrau mor isel â £150. Rwy'n credu bod hynny'n gyfran fach iawn o'r hyn rwy'n ei dalu am fy nhocyn tymor i weld yr Elyrch, ac yn sicr mae'n gyfran fach iawn, rwy'n siŵr, o'r hyn y mae pobl eraill yma yn ei dalu am docyn tymor i weld eu hoff dîm pêl-droed.

Safe standing in stadia is a principle we've debated recently in the Assembly Chamber, where the Liberal Democrats' individual Members' motion last July called on the Welsh Government to work closely with sports associations and regulatory authorities to promote safe standing at sports stadia in Wales, and for the UK Government to pilot safe standing in Wales. The motion passed, although the Welsh Liberal Democrats were the only party to give unanimous support for the motion. Clearly, it is one that does split parties, but I think it's an important step forward and maybe the Minister can give an update on how the Welsh Government has been working with sports associations and regulatory authorities to promote safe standing, as called for by that motion. I was pleased, in fact, to see the Liberal Democrats commit in our 2015 general election manifesto to require the Sports Grounds Safety Authority to prepare guidance under which domestic football clubs, working with their supporters, may introduce safe standing areas. If only we'd had more seats. [Laughter.] But, certainly, despite all the talk, we were the only party to actually do that, and I think it's important that all the parties take this forward in future manifestos if we are to make this a reality.

Mae sefyll diogel mewn stadia yn egwyddor y buom yn ei thrafod yn ddiweddar yn Siambr y Cynulliad, lle y galwai cynnig gan Aelodau unigol y Democratiaid Rhyddfrydol fis Gorffennaf diwethaf ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chymdeithasau chwaraeon ac awdurdodau rheoleiddio i hyrwyddo sefyll diogel mewn stadia chwaraeon yng Nghymru, ac i Lywodraeth y DU dreialu sefyll diogel yng Nghymru. Cafodd y cynnig ei dderbyn, er mai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru oedd yr unig blaid i roi cefnogaeth unfrydol i'r cynnig. Yn amlwg, mae'n un sy'n rhannu pleidiau, ond rwy'n credu ei fod yn gam pwysig ymlaen ac efallai y gall y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda chymdeithasau chwaraeon ac awdurdodau rheoleiddio i hyrwyddo sefyll diogel, fel y galwai'r cynnig amdano. Roeddwn yn falch, mewn gwirionedd, o weld y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymrwymo ym maniffesto etholiad cyffredinol 2015 i'w gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon baratoi canllawiau er mwyn i glybiau pêl-droed y wlad hon allu cyflwyno mannau sefyll diogel, gan weithio gyda'u cefnogwyr. O! na baem wedi cael mwy o seddi. [Chwerthin.] Ond yn sicr, er yr holl siarad, ni oedd yr unig blaid i wneud hynny mewn gwirionedd, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig i'r holl bleidiau fwrw ymlaen â hyn yn eu maniffestos yn y dyfodol os ydym am ei wireddu.

I know that Andrew R.T. Davies has also been promoting this prospect—I'm sorry you weren't able to get it into your party manifesto, Andrew, but I know it's important to you as well. I know that you penned an article in which you claimed that:

Gwn fod Andrew R.T. Davies hefyd wedi bod yn hyrwyddo'r gobaith hwn—mae'n ddrwg gennyf na fu modd i chi ei gael i mewn i faniffesto eich plaid, Andrew, ond rwy'n gwybod ei fod yn bwysig i chi hefyd. Gwn eich bod wedi ysgrifennu erthygl yn honni bod:

'the National Assembly for Wales carried a Welsh Conservative motion backing a pilot in Wales',

'Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi derbyn cynnig y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi cynllun peilot yng Nghymru',

but, of course, that was a cross-party individual Members' motion, rather than one of your own. But I think it's important, therefore, that we do actually take that forward.

Ond wrth gwrs, cynnig trawsbleidiol gan Aelodau unigol oedd hwnnw yn hytrach na'ch un chi eich hun. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig, felly, ein bod yn bwrw ymlaen â hyn.

While we previously discussed safe standing areas in relation to domestic football grounds, they may also create a better atmosphere at major sporting events, and cheaper tickets would mean that more Welsh sport fans and their families could afford to attend. Subject to safety issues, at larger events, we would urge the Welsh Government to look at how safe standing can be expanded so that more people can enjoy attending such prestigious events in Wales, and that they are not exclusively for those who can afford high ticket prices. I hope, Deputy Presiding Officer, we are able to support our two amendments.

Er ein bod wedi trafod mannau sefyll diogel yn flaenorol mewn perthynas â meysydd pêl-droed yn y wlad hon, mae'n bosibl y byddent hefyd yn creu awyrgylch gwell mewn digwyddiadau chwaraeon mawr, a byddai tocynnau rhatach yn golygu y gallai mwy o gefnogwyr chwaraeon Cymru a'u teuluoedd fforddio eu mynychu. Yn amodol ar faterion diogelwch, mewn digwyddiadau mwy o faint, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar sut y gellid ymestyn sefyll diogel er mwyn i fwy o bobl allu mwynhau mynychu digwyddiadau mawr o'r fath yng Nghymru, fel nad ydynt yn gyfyngedig i'r bobl sy'n gallu fforddio tocynnau am brisiau uchel yn unig. Ddirprwy Lywydd, rwy'n gobeithio y gallwn gefnogi ein dau welliant.

16:34

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I intend to address my remarks particularly to the benefit of tourism, contained in the motion. The value of tourism to Wales is quite clear. Tourist spend is approximately £6 billion a year, and over 120,000 people are employed in tourism, nearly 10 per cent of the Welsh workforce. The latest survey of visitor attractions in Wales indicates that roughly 50 per cent of the visitors live in Wales, 40 per cent live in the rest of the United Kingdom, and 10 per cent overseas. Over £1 billion of the £5.8 billion spent by tourists each year is spent within Cardiff and the Vale of Glamorgan. So, the challenge we face is not only to attract more visitors to Wales, but to share the tourism dividend across Wales, and the forthcoming Rugby World Cup is an ideal opportunity. We note that, during 2013, there were 9.9 million overnight trips to Wales by United Kingdom residents, and these visits have increased by 100,000 during 2014. It is also estimated that approximately 100 million day visits are made to destinations in Wales. But, in reality, isn't this something we should expect? Wales is a unique holiday destination. Our spectacular landscape and coastline, our castles and industrial heritage, our culture and our language—these are all unique selling points that highlight what gives Wales a distinctive and enthralling visitor experience for all ages and every leisure activity.

Rwy'n bwriadu rhoi sylw arbennig i fantais twristiaeth, sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig. Mae gwerth twristiaeth i Gymru yn glir iawn. Mae gwariant twristiaid oddeutu £6 biliwn y flwyddyn y flwyddyn, ac mae dros 120,000 o bobl yn cael eu cyflogi ym maes twristiaeth, bron i 10 y cant o weithlu Cymru. Mae'r arolwg diweddaraf o atyniadau i ymwelwyr yng Nghymru yn dangos bod tua 50 y cant yn fras o'r ymwelwyr yn byw yng Nghymru, 40 y cant yn byw yng ngweddill y Deyrnas Unedig, a 10 y cant yn byw dramor. Mae dros £1 biliwn o'r £5.8 biliwn a werir gan dwristiaid bob blwyddyn yn cael ei wario yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Felly, yr her sy'n ein hwynebu yw denu mwy o ymwelwyr i Gymru, a rhannu difidend twristiaeth ledled Cymru, ac mae Cwpan Rygbi'r Byd sydd ar y ffordd yn gyfle delfrydol. Yn ystod 2013, nodwn fod 9.9 miliwn o o deithiau dros nos i Gymru gan drigolion y Deyrnas Unedig, a chafwyd cynnydd o 100,000 yn nifer yr ymweliadau hyn yn ystod 2014. Amcangyfrifir hefyd fod tua 100 miliwn o ymweliadau dydd â chyrchfannau yng Nghymru. Ond mewn gwirionedd, onid dyna y dylem ei ddisgwyl? Mae Cymru yn gyrchfan gwyliau unigryw. Mae ein tirwedd ysblennydd a'n harfordir, ein cestyll a'n treftadaeth ddiwydiannol, ein diwylliant a'n hiaith—mae'r rhain i gyd yn bwyntiau gwerthu unigryw sy'n amlygu'r hyn sy'n rhoi profiad unigryw a thrawiadol i ymwelwyr o bob oedran â Chymru a phob math o weithgaredd hamdden.

Successive Welsh business surveys all highlight the primary reasons for visiting Wales, and these include enjoying our landscape, countryside and wonderful beaches; visiting historic locations, buildings and specific attractions; and participating in sport and outdoor activities. So, we need to focus upon promoting Wales as a unique holiday and sporting destination. This was a recommendation of the Enterprise and Business Committee report on tourism, published in November last year. This, coupled with extending those attractions that are not dependent upon fine weather, should be the main drivers in our tourism strategy.

Mae arolygon busnes olynol yng Nghymru i gyd yn tynnu sylw at y prif resymau dros ymweld â Chymru, ac mae'r rhain yn cynnwys mwynhau ein tirwedd, ein cefn gwlad a'n traethau bendigedig; ymweld â lleoliadau hanesyddol, adeiladau ac atyniadau penodol; a chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored. Felly, mae angen i ni ganolbwyntio ar hybu Cymru fel cyrchfan gwyliau a chwaraeon unigryw. Roedd hwn yn un o argymhellion adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar dwristiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd y llynedd. Dyma ddylai fod yn brif ysgogiadau yn ein strategaeth twristiaeth, yn ogystal ag ehangu nifer yr atyniadau nad ydynt yn ddibynnol ar dywydd braf.

We have a strong tradition of providing hospitality in Wales. Our hotels and holiday accommodation providers have demonstrated great adaptability, meeting the changing demands of the tourism market by offering a wide range of family holidays and short-break packages. This adaptability is clearly shown by tourism establishing itself as the fastest growing employment sector in Wales.

Mae gennym draddodiad cryf o ddarparu lletygarwch yng Nghymru. Mae ein gwestai a'n darparwyr llety gwyliau wedi dangos hyblygrwydd mawr, gan gwrdd â gofynion newidiol y farchnad dwristiaeth drwy gynnig amrywiaeth eang o wyliau teulu a phecynnau gwyliau byr. Mae'r gallu hwn i addasu yn cael ei ddangos yn glir wrth i dwristiaeth ennill ei blwyf fel y sector cyflogaeth sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru.

Although they are responding to the changing demands of modern tourism, there is much that the Welsh Government can do to support and sustain this sector. More efficient and integrated transport links: how do we increase access to attractions and regions of Wales without damaging their appeal and their environment and while enhancing the visitor experience? Access to broadband and mobile phone networks are widely acknowledged as barriers to tourism growth in Wales. Education and training: we need to liaise more effectively with all levels of our education sector to meet the hospitality skill demands and increase the knowledge of languages spoken by our visitors. Easier access to finance to develop businesses: our tourist businesses have proven to be great innovators, providing an amazing range of attractions, and they require access to development finance either via grant aid or business loans. A reduction in business rates and bureaucracy: we need to free our businesses to allow them to concentrate on sustaining their development, employment opportunities and contributing to growing the local economy. We should also seek to allow them to retain a greater percentage of their income to reinvest in their businesses. We need a more co-ordinated, strategic approach on many levels within Wales and within the United Kingdom.

Er ei bod yn ymateb i ofynion newidiol twristiaeth fodern, mae llawer y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi a chynnal y sector hwn. Cysylltiadau trafnidiaeth mwy effeithlon ac integredig: sut y gallwn gynyddu hygyrchedd atyniadau ac ardaloedd o Gymru heb niweidio eu hapêl a'u hamgylchedd gan wella profiadau ymwelwyr? Mae mynediad i rwydweithiau band eang a ffonau symudol yn cael eu cydnabod yn gyffredin fel rhwystrau i dwf twristiaeth yng Nghymru. Addysg a hyfforddiant: mae angen i ni gysylltu yn fwy effeithiol â phob lefel o'n sector addysg i gwrdd â gofynion sgiliau lletygarwch a chynyddu gwybodaeth am yr ieithoedd a siaredir gan ein hymwelwyr. Mynediad haws at gyllid i ddatblygu busnesau: profodd ein busnesau twristiaeth eu bod yn arloeswyr mawr, gan ddarparu amrywiaeth anhygoel o atyniadau, ac mae angen iddynt gael mynediad at gyllid datblygu naill ai drwy gymorth grant neu fenthyciadau busnes. Gostyngiad mewn ardrethi busnes a biwrocratiaeth: mae angen i ni ryddhau ein busnesau er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar gynnal eu datblygiad, cyfleoedd cyflogaeth a chyfrannu at wella'r economi leol. Dylem hefyd geisio eu galluogi i gadw canran uwch o'u hincwm i'w ail-fuddsoddi yn eu busnesau. Mae arnom angen dull mwy cydlynol, strategol ar sawl lefel yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.

Professor Pritchard of the Cardiff Metropolitan University highlighted that

Nododd yr Athro Pritchard o Brifysgol Metropolitan Caerdydd:

'although Wales has some world-leading cultural events… this has not translated into Wales having a reputation as a place to go to for culture…Wales lacks a clear brand strategy to harness and build on these key assets.'

'er bod gan Gymru rai digwyddiadau diwylliannol sy'n arwain y byd... nid yw hyn wedi arwain at enw da i Gymru fel lle i fynd o ran diwylliant... nid oes gan Gymru strategaeth frandio glir er mwyn harneisio ac adeiladu ar yr asedau allweddol hyn.'

There's already worldwide recognition of our National Eisteddfod and the Llangollen International Musical Eisteddfod. We need to unleash the potential of every community eisteddfod, historic pageant and food festival. Each one of these highlights a unique aspect of Wales, our culture, history and cuisine.

Eisoes mae'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn cael cydnabyddiaeth fyd-eang. Mae angen i ni ryddhau potensial pob eisteddfod gymuned, pasiant hanesyddol a gŵyl fwyd. Mae pob un o'r rhain yn tynnu sylw at agwedd unigryw ar Gymru, ein diwylliant, hanes a bwyd.

In February, I raised the potential of creating an Usk and Wye valleys food enterprise zone to promote the diverse range of high-quality produce from this area, and I hope the Deputy Minister's placed this on his agenda.

Ym mis Chwefror, soniais am botensial creu ardal fenter fwyd yn nyffryn Gwy a dyffryn Wysg i hyrwyddo'r amrywiaeth eang o gynnyrch o ansawdd uchel o'r ardal hon, ac rwy'n gobeithio bod y Dirprwy Weinidog wedi rhoi hyn ar ei agenda.

There are emerging initiatives we need to promote, such as the Celtic Sea cruise market and attractions such as Zip World, the longest zip line in the northern hemisphere and fastest zip line in the world. Wales remains a unique destination. Effectively promoting Wales across the world will enhance the image of our nation and the prosperity of all its people.

Mae yna fentrau sy'n dod i'r amlwg y dylem eu hyrwyddo, megis marchnad fordeithiau'r Môr Celtaidd ac atyniadau megis Zip World, y weiren wib hiraf yn hemisffer y gogledd a'r weiren wib gyflymaf yn y byd. Mae Cymru yn parhau i fod yn gyrchfan unigryw. Bydd hyrwyddo Cymru yn effeithiol ledled y byd yn gwella delwedd ein gwlad a ffyniant ei holl bobl.

16:38

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu'r cyfle i gael cyfrannu i'r ddadl heddiw ar fanteision denu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru. Mi fyddai Plaid Cymru yn sicr yn cefnogi cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru. Mi oeddwn i yn ddigon ffodus i allu mynd i Gemau'r Gymanwlad yng Nglasgow y llynedd a chael gweld nid yn unig y balchder cenedlaethol yn yr Alban oedd yn cael ei greu gan y gemau, ond hefyd y sylw oedd yn cael ei rhoi i'r Alban ar draws y byd. Mi oedd y gemau hynny hefyd yn rhan o raglen blwyddyn gyfan i hybu'r Alban ar y llwyfan rhyngwladol, sef Homecoming Scotland, ac mi fydden ni ym Mhlaid Cymru eisiau gweld blwyddyn o ddathliad tebyg o Gymru er mwyn rhoi hwb i dwristiaeth a'n rhoi ni ar y map rhyngwladol.

I welcome the opportunity to contribute to this debate today on the benefits of attracting major sporting events to Wales. Plaid Cymru would certainly support a bid to have the Commonwealth Games in Wales. I was fortunate enough to be able to go to the Commonwealth Games in Glasgow last year to see not only the national pride in Scotland that was created by the games but also the coverage that was given to Scotland across the world. Those games were also part of a full-year programme to boost Scotland's profile on the international stage, namely Homecoming Scotland, and we in Plaid Cymru would like to see a similar year-long celebration of Wales to boost tourism and put us on the international map.

Yn ogystal â'r budd i chwaraeon, ac yn ogystal â'r budd a ddaeth o Homecoming Scotland, mi wnaed yn siŵr hefyd bod yr Alban wedi cael budd economaidd o'r gemau, efo ffigyrau swyddogol yn awgrymu bod y gemau wedi dod â rhyw £282 miliwn yn ychwanegol i economi'r Alban. Hefyd, mae'n werth nodi bod rhywle rhwng £250 miliwn a £300 miliwn o gytundebau wedi cael eu rhoi i fusnesau yn yr Alban—rhywbeth, yn sicr, y dylem ni geisio efelychu yma yng Nghymru petai ein cais ni, yn y dyfodol, yn llwyddiannus.

As well as the benefit for sport and the benefit that came from Homecoming Scotland, it was also ensured that Scotland had economic benefits from the games, with official figures suggesting that the games brought some £282 million additionally to the Scottish economy. It's also worth noting that somewhere between £250 million and £300 million of contracts were given to businesses in Scotland—something that we would certainly try to emulate here in Wales, if our bid, in the future, was successful.

Fe wnaeth y Cwpan Ryder ddangos i ni yma yng Nghymru'r buddiannau economaidd y gall digwyddiadau mawr ddod efo nhw, gydag effaith uniongyrchol economaidd i Gymru o rywle o gwmpas £80 miliwn, a hefyd yr hwb i dwristiaeth, efo bron i 70 y cant o'r ymwelwyr o dramor a ddaeth yma ar gyfer y gystadleuaeth yn dweud y bydden nhw, o ganlyniad i ddod yma i weld y golff, yn fwy tebygol o ddychwelyd i Gymru ar wyliau.

The Ryder Cup showed us here in Wales the economic benefits that major events can bring, with a direct impact on the Welsh economy of about £80 million, and also the boost for tourism, with nearly 70 per cent of the visitors from abroad who came here for the tournament saying that, as a result of coming here to see the golf, they would be more likely to return to Wales on holiday.

Mi fydd cynnal rhai o gemau Cwpan Rygbi'r Byd yma yng Nghymru hefyd, heb os, yn hwb i ni fel cenedl os gwnawn ni'r gorau o'r cyfle. Rwyf i hefyd, fel un sydd yn mwynhau mynd ar gefn beic o bryd i'w gilydd, yn cefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd i gynnwys y Tour de France yn y cynnig heddiw. Mi welsom ni'r cyffro enfawr yn sir Efrog pan ddaeth y Tour yno'r llynedd.

Hosting some of the Rugby World Cup games here in Wales would also, without doubt, boost our nation if we make the best of the opportunity. As one who does enjoy cycling from time to time, I also support the Liberal Democrats' proposal to include the Tour de France in the motion today. We saw the great excitement in Yorkshire when the tour came there last year.

Ond mi fuaswn ni hefyd yn licio tynnu sylw—mi fyddai'n od imi beidio â gwneud—yma heddiw at gais sy'n cael ei wneud yn fy etholaeth i ar hyn o bryd i ddenu gemau'r ynysoedd i Ynys Môn. Rwy'n gefnogwr mawr o hynny; mi fyddai roi'r cyfle i athletwyr allu cystadlu mewn cystadleuaeth ryngwladol ar eu tir nhw ei hunain, ar eu hynys eu hunain, yn wych ac yn rhoi'r cyfle i athletwyr a gwylwyr chwaraeon eraill o gwmpas y byd cael blas o'r hyn sydd gan Ynys Môn i'w gynnig. Er na fyddai'r gemau, os ydym yn llwyddiannus, yn dod i Fôn tan 2025, mae yna lawer o bobl ar lefel gymunedol eisoes yn gweithio'n galed iawn i ddatblygu'r adnoddau a diddordeb yn y campau gwahanol er mwyn paratoi ar gyfer gemau llwyddiannus fydd hefyd, heb os, yn gadael gwaddol i'r ynys. Dyna sy'n bwysig yn y pen draw: bod y digwyddiadau yma nid yn unig yn cael effaith ar yr economi, ar dwristiaeth, a'n hunanhyder ni, hyd yn oed, fel cenedl, ond hefyd yn cael effaith ar y campau eu hunain ar lawr gwlad, eu bod yn ysbrydoli mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon â'r manteision iechyd hefyd, wrth gwrs, a ddaw o hynny. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod y cyfle yna iddyn nhw wneud hynny.

But I'd also like to draw attention—it would be strange for me not to do so—here today to the bid that is being made in my constituency for the island games to come to Ynys Môn. I am a big supporter of that; giving the opportunity to athletes to be able to compete in an international competition on their home ground, on their own island, would be great, and would give the opportunity to athletes and spectators of other sports around the world to have a taste of what Ynys Môn has to offer. Although those games, if we're successful, would not come to Ynys Môn until 2025, there are many people on a community level who are already working very hard to develop the resources and interest in those different sports to prepare for a successful games that would also, without doubt, leave a legacy for the island. That's what important, ultimately: that these events not only have an impact on the economy, on tourism, and our self-confidence, even, as a nation, but also have an impact on the sports themselves on the ground, that they inspire more people to take part in sport, with the health benefits, of course, that come in the wake of that. We have to make sure that the opportunity is there for them to do that.

Plaid Cymru's Inspire Wales programme would encourage people of all ages, all sporting abilities and all backgrounds to participate in sport and ensure that people stay fit and healthy. Everybody should have access, of course, to sport and leisure facilities, community centres, and schools and colleges can be used as well as leisure and sport centres. We'd involve elite athletes in promoting sports across Wales, visiting schools, taking part in summer events and year-round events, inspiring people from all backgrounds to take part.

Byddai rhaglen Plaid Cymru, Ysbrydoli Cymru, yn annog pobl o bob oed, o bob gallu ym maes chwaraeon ac o bob cefndir i gymryd rhan mewn chwaraeon a sicrhau bod pobl yn cadw'n heini ac yn iach. Wrth gwrs, dylai pawb gael mynediad at chwaraeon a gellir defnyddio cyfleusterau hamdden, canolfannau cymunedol ac ysgolion a cholegau yn ogystal â chanolfannau hamdden a chwaraeon. Byddem yn trefnu i athletwyr elitaidd hyrwyddo chwaraeon ledled Cymru, gan ymweld ag ysgolion, a chymryd rhan mewn digwyddiadau haf a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, i ysbrydoli pobl o bob cefndir i gymryd rhan.

Major sporting events, of course, must go hand-in-hand with and not separate to developing grass-roots sport and increasing participation at that level. I'd like to take this opportunity also to pay tribute to those who are already working tirelessly at grass-roots level across Wales in all sports, and who deserve our support. Over the weekend, it was an honour to open the new Ynys Môn gymnastics club. They'd been inspired by Team Wales's success at the Glasgow Commonwealth Games and I know Welsh gymnastics is excited at the prospect of using that new club in Holyhead as a springboard—and, yes, the pun is intended—to further Welsh success.

Rhaid i ddigwyddiadau chwaraeon mawr fynd law yn llaw gyda datblygu chwaraeon ar lawr gwlad a chynyddu cyfranogiad ar y lefel honno, wrth gwrs, ac nid ar wahân i hynny. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i dalu teyrnged i'r rhai sydd eisoes yn gweithio'n ddiflino ar lawr gwlad ledled Cymru ym mhob camp, ac sy'n haeddu ein cefnogaeth. Dros y penwythnos, roedd yn anrhydedd cael agor clwb gymnasteg newydd Ynys Môn. Roeddent wedi cael eu hysbrydoli gan lwyddiant Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Glasgow ac rwy'n gwybod bod byd gymnasteg Cymru yn llawn cyffro wrth feddwl am ddefnyddio'r clwb newydd yng Nghaergybi fel sbringfwrdd—ac mae'r gair mwys yn fwriadol—i lwyddiant pellach i Gymru.

Let's inspire budding sports stars up and down Wales. We will certainly support the motion today. We'll also support both amendments. With reference to amendment 2 in particular, we're supportive, certainly, of increasing all opportunities to watch sport and to do so safely.

Gadewch i ni ysbrydoli egin sêr chwaraeon ar hyd a lled Cymru. Byddwn yn sicr yn cefnogi'r cynnig heddiw. Byddwn hefyd yn cefnogi'r ddau welliant. Gan gyfeirio at welliant 2 yn benodol, rydym yn sicr yn gefnogol i gynyddu pob cyfle i wylio chwaraeon ac i wneud hynny'n ddiogel.

16:44

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As a nation, of course, Wales does have a strong tradition for hosting major sporting events. We've welcomed teams and fans from every corner of the world and no more so than in the new park, Eirias, the new stadium in Darren Millar's constituency, but which benefits my own constituency of Aberconwy, brining many people in.

Fel cenedl, wrth gwrs, mae gan Gymru draddodiad cryf o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr. Rydym wedi croesawu timau a chefnogwyr o bob cwr o'r byd ac un o'r enghreifftiau gorau o hynny yw parc newydd, Eirias, y stadiwm newydd yn etholaeth Darren Millar, ond sydd o fudd i fy etholaeth i yn Aberconwy, ac sy'n denu llawer o bobl.

From the Ryder Cup and Olympic and Paralympic Games to the Wales Rally GB and the British Speedway Grand Prix, these events, with their worldwide audiences have the potential to offer a huge boost to our tourism industry and subsequent growth to our economy, as we mark ourselves on a global stage. With over £3 billion injected into the Welsh economy each year from tourism, and 114,000 people relying on this industry for their employment, it is clear that this should be protected and also given the right conditions for expansion. For example, 2010 saw a 9 per cent increase in golf visitors to Wales during the year of the Ryder Cup, and £42 million was made from golfing tourism. That's a 21 per cent increase.

O'r Cwpan Ryder a'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd i Rali Cymru Prydain Fawr a Grand Prix Speedway Prydain, mae gan y digwyddiadau hyn, gyda'u cynulleidfaoedd ledled y byd, botensial i gynnig hwb enfawr i'n diwydiant twristiaeth a thwf ein heconomi yn sgil hynny, wrth i ni wneud enw i'n hunain ar lwyfan y byd. Gyda thros £3 biliwn yn cael ei chwistrellu i economi Cymru bob blwyddyn o dwristiaeth, a 114,000 o bobl yn dibynnu ar y diwydiant am eu cyflogaeth, mae'n amlwg y dylai gael ei ddiogelu a hefyd dylid sicrhau'r amodau cywir ar gyfer ehangu. Er enghraifft, yn 2010 cafwyd cynnydd o 9 y cant yn nifer ymwelwyr golff â Chymru yn ystod blwyddyn Cwpan Ryder, a gwnaed £42 miliwn o dwristiaeth golff. Dyna gynnydd o 21 y cant.

It is the opportunity of tourism development in rural Wales that is of most interest to my constituents. With three national parks and a varied coastline, Wales has world-class facilities for outdoor and adventure activities. Outdoor activity tourism, such as white-water rafting and mountain biking, already puts £0.5 billion into the Welsh economy, supporting thousands of jobs, and I'd like to place on record my absolute admiration for the likes of Sean Taylor, with his entrepreneurial spirit and approach, bringing his varied and wide-ranging extreme sports to Wales. I know my colleague to my right, Suzy Davies, has actually experienced some of those extreme sports.

Y cyfle i ddatblygu twristiaeth yng nghefn gwlad Cymru sydd o fwyaf o ddiddordeb i fy etholwyr. Gyda thri pharc cenedlaethol ac arfordir amrywiol, mae gan Gymru gyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer gweithgareddau awyr agored ac antur. Mae twristiaeth gweithgareddau awyr agored, megis rafftio dŵr gwyn a beicio mynydd, eisoes yn cyfrannu £0.5 biliwn at economi Cymru, gan gefnogi miloedd o swyddi, a hoffwn gofnodi fy edmygedd pur tuag at bobl fel Sean Taylor, gyda'i ysbryd a'i agwedd entrepreneuraidd, sy'n dod â'i gampau eithafol amrywiol ac eang i Gymru. Rwy'n gwybod fod fy nghyd-Aelod ar y dde i mi, Suzy Davies, wedi profi rhai o'r campau eithafol hynny yn wir.

But Welsh Conservatives believe that more should be done to maximise the economic benefits. The continued hosting of major sporting events will always succeed in achieving this if the Welsh Government takes steps to tackle its overseas tourism strategy. Wales's share of all international trips has gradually been falling, and between 2002 and 2012, the percentage of visitors choosing Wales over England, Ireland and Scotland has fallen from 3.6 per cent to 2.7 per cent. Over the border, the overseas market is cherished, coveted above all other tourism. This is the market that spends the most, having the greatest positive impact on the economy—a fact that the Welsh Labour Government appears to have completely disregarded, with Ministers previously calling the overseas market historically unimportant. This could be why long-haul markets are generally unaware of Wales, even in America, which, according to VisitBritain is one of three countries targeted by the Welsh Government. As such, I do urge the Welsh Labour Government to put in place a transparent tourism strategy for sport tourism, especially as we move closer to the Rugby World Cup in September.

Ond mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai mwy gael ei wneud i sicrhau'r manteision economaidd gorau. Bydd parhau i gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr bob amser yn llwyddo i gyflawni hyn pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'i strategaeth dwristiaeth dramor. Mae cyfran Cymru o'r holl deithiau rhyngwladol wedi bod yn gostwng yn raddol, a rhwng 2002 a 2012, mae canran yr ymwelwyr sy'n dewis Cymru yn hytrach na Loegr, Iwerddon a'r Alban wedi gostwng o 3.6 y cant i 2.7 y cant. Dros y ffin, mae'r farchnad dramor yn cael ei chroesawu a'i chwenychu yn anad yr un math arall o dwristiaeth. Dyma'r farchnad sy'n gwario fwyaf, yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar yr economi—ffaith y mae Llywodraeth Lafur Cymru i'w gweld wedi ei diystyru yn llwyr, gyda Gweinidogion yn flaenorol yn galw'r farchnad dramor yn hanesyddol ddibwys. Mae'n bosibl mai dyma pam nad yw marchnadoedd pell yn ymwybodol o Gymru, yn gyffredinol, hyd yn oed yn America, sy'n un o'r tair gwlad a dargedwyd gan Lywodraeth Cymru yn ôl VisitBritain. Fel y cyfryw, rwy'n annog Llywodraeth Lafur Cymru i sefydlu strategaeth dwristiaeth dryloyw ar gyfer twristiaeth chwaraeon, yn enwedig wrth i ni symud yn agosach at Gwpan Rygbi'r Byd ym mis Medi.

But that's not the end of it. There is much that can and should be done by the Welsh Government in order to maximise the potential benefits from hosting major sporting events. First, you must address our poor transport links. Wales's bid to host the Champions League final was turned down based on the lack of international flights to Cardiff Airport. Only last month, many complained about the lack of forward planning of train operators, which led to overcrowding on Judgement Day at the Millennium Stadium. I frequently hear concerns from my constituents travelling by train to Cardiff when watching major fixtures. The Welsh Government must fine-tune its forward planning, working with Arriva Trains Wales to ensure demand is envisaged and planned for strategically. It's the very least you would expect from any Government.

Ond nid dyna'r diwedd. Mae llawer y gallai ac y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr. Yn gyntaf, mae'n rhaid i chi fynd i'r afael â'n cysylltiadau trafnidiaeth gwael. Cafodd cynnig Cymru i gynnal rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr ei wrthod yn seiliedig ar ddiffyg teithiau awyr rhyngwladol i Faes Awyr Caerdydd. Y mis diwethaf, cwynodd llawer am ddiffyg blaengynllunio ar ran cwmnïau trenau, a arweiniodd at orlenwi ar y diwrnod mawr yn Stadiwm y Mileniwm. Rwy'n aml yn clywed pryderon gan fy etholwyr sy'n teithio ar y trên i Gaerdydd i wylio gemau mawr. Rhaid i Lywodraeth Cymru fireinio ei blaengynlluniau, gan weithio gyda Threnau Arriva Cymru i sicrhau bod y galw wedi'i ragweld a bod cynlluniau ar ei gyfer yn strategol. Dyna'r lleiaf y byddech yn ei ddisgwyl gan unrhyw Lywodraeth.

The following months and years will provide the Welsh Government ample opportunity to prove its capability of maximised benefits from hosting major sporting events: the Rugby World Cup, as I've mentioned, and the bid to hold the Commonwealth Games. The economic success of Wales depends on your positive action in this regard. You have the finances to do this, you have the levers and you have the tools: use them.

Bydd y misoedd a'r blynyddoedd sy'n dilyn yn rhoi digon o gyfle i Lywodraeth Cymru brofi ei gallu i sicrhau cymaint o fudd â phosibl o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr: Cwpan Rygbi'r Byd, fel y soniais, a'r cynnig i gynnal Gemau'r Gymanwlad. Mae llwyddiant economaidd Cymru yn dibynnu ar eich gweithredu cadarnhaol yn hyn o beth. Mae gennych yr arian i wneud hyn, mae gennych yr ysgogiadau ac mae gennych yr adnoddau: defnyddiwch hwy.

16:48

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Regarding the Commonwealth Games, there are really two questions: how much would it cost and who is going to pay? Whilst each games cost a different amount, and sometimes the costs are extremely opaque, we know that, according to 'The Independent', Manchester cost £300 million, and Glasgow, according to 'The Daily Telegraph', cost £400 million. If Wales bids, it's almost certain to be successful. The days of multiple bidders for Commonwealth Games appear to be over. How would it be paid for? Do the Conservatives propose taking this off education or health budgets? Of course, there is a simple way of paying for it: give Wales the Barnett consequentials of the Olympics. That would give Wales approximately 5.4 per cent of the estimated £9 billion for the London Olympics, giving us almost £500 million, which would pay—

O ran Gemau'r Gymanwlad, mae yna ddau gwestiwn mewn gwirionedd: faint y byddai'n ei gostio a phwy sy'n mynd i dalu? Gan fod pob gemau'n costio swm gwahanol a'r costau'n hynod o annelwig weithiau, yn ôl 'The Independent' fe wyddom fod Manceinion wedi costio £300 miliwn, a Glasgow, yn ôl 'The Daily Telegraph', wedi costio £400 miliwn. Os yw Cymru yn cyflwyno cynnig, mae bron yn sicr o fod yn llwyddiannus. Mae'n ymddangos bod dyddiau'r cynigion lluosog am Gemau'r Gymanwlad wedi dod i ben. Sut y telid amdanynt? A yw'r Ceidwadwyr yn bwriadu ei dorri oddi ar gyllidebau addysg neu iechyd? Wrth gwrs, mae ffordd syml o dalu amdano: rhowch symiau canlyniadol Barnett o'r Gemau Olympaidd i Gymru. Byddai hynny'n rhoi tua 5.4 y cant o'r amcangyfrif o £9 biliwn am y Gemau Olympaidd yn Llundain i Gymru, gan roi bron i £500 miliwn i ni, a fyddai'n talu—

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

16:49

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I finish this? That would pay for the Commonwealth Games. Will the leader of the opposition confirm he has got the Westminster Government to agree this retrospective funding?

A gaf fi orffen gyda hyn? Byddai hynny'n talu am Gemau'r Gymanwlad. A wnaiff arweinydd yr wrthblaid gadarnhau ei fod wedi cael y Llywodraeth yn San Steffan i gytuno i roi'r cyllid ôl-weithredol hwn?

16:49

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the question. I'm just a bit surprised you pose that question, because the parameters of funding the 2012 Olympic Games were set by Gordon Brown when he was Chancellor of the Exchequer when the bid was successful in 2005. So, actually, it was the Labour Party that put the funding formula in place that denied Wales the Barnett consequential.

Diolch am y cwestiwn. Rwy'n synnu braidd eich bod yn gofyn y cwestiwn hwnnw, gan fod paramedrau ariannu Gemau Olympaidd 2012 wedi cael eu pennu gan Gordon Brown pan oedd yn Ganghellor y Trysorlys, pan oedd y cynnig yn llwyddiannus yn 2005. Felly, mewn gwirionedd, y Blaid Lafur a osododd y fformiwla gyllido a wrthododd roi symiau canlyniadol Barnett i Gymru.

16:49 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if the Deputy Presiding Officer will let me speak later, I'll explain my views on the Barnett formula, but the position is quite straightforward: it's now we want the money, in order to make the bid. If you want me to say that Gordon Brown was wrong not giving us the consequential, the answer's 'yes', and if you want me to say that George Osborne is wrong for not giving us the consequential now, I'll say 'yes'. Will you criticise George Osborne in the same way as I've criticised Gordon Brown for not having the consequential?

Wel, os bydd y Dirprwy Lywydd yn gadael i mi siarad yn nes ymlaen, fe egluraf fy marn ar fformiwla Barnett, ond mae'r sefyllfa yn eithaf syml: yn awr y mae eisiau'r arian arnom, er mwyn gwneud y cynnig. Os ydych am i mi ddweud fod Gordon Brown yn anghywir yn peidio â rhoi'r swm canlyniadol i ni, yr ateb yw 'oedd', ac os ydych am i mi ddweud bod George Osborne yn anghywir yn peidio â rhoi'r swm canlyniadol yn awr, rwy'n dweud 'ydy'. A wnewch chi feirniadu George Osborne yn yr un modd ag y beirniadais i Gordon Brown am beidio â rhoi'r swm canlyniadol?

Turning to where in Wales to host these games, as the Commonwealth Games, like the Olympics, are given to a city not a country, why not Swansea—Wales's premier sporting city, Wales's top football team, Wales's top rugby team, both by a very long way? Happy to take an intervention from anybody who wants to make a counter-argument about anywhere else in Wales being anywhere near Swansea in terms of sporting success. If not, look at the league tables: eighth in the Premier League, Swansea City; top of the Pro12 rugby league, the Ospreys; the largest crowds for rugby and football in Wales. Of course, if this bid is not for Swansea and is successful and goes to Cardiff, it must not be a backdoor method of providing new sporting facilities. The cycling must be held at the Newport velodrome, the swimming must be held in the national pool in Swansea and, despite what Mohammad Asghar said, the shooting will be held in Bisley, in Surrey. It always is.

Gan droi at lle yng Nghymru i gynnal gemau hyn, gan fod Gemau'r Gymanwlad, fel y Gemau Olympaidd, yn cael eu rhoi i ddinas ac nid i wlad, beth am Abertwe—prif ddinas chwaraeon Cymru, tîm pêl-droed gorau Cymru, tîm rygbi gorau Cymru, a'r ddau o bell ffordd hefyd? Rwy'n hapus i gymryd ymyriad gan unrhyw un sydd am ddadlau dros unrhyw le arall yng Nghymru sy'n agos at Abertawe o ran llwyddiant mewn chwaraeon. Os na, edrychwch ar y tablau cynghrair: wythfed yn yr Uwch-gynghrair, Dinas Abertawe; ar frig y gynghrair rygbi Pro12, y Gweilch; y tyrfaoedd rygbi a phêl-droed mwyaf yng Nghymru. Wrth gwrs, os nad yw'r cynnig ar gyfer Abertawe a'i fod yn llwyddo ac yn mynd i Gaerdydd, rhaid iddo beidio â bod yn ddull drws cefn o ddarparu cyfleusterau chwaraeon newydd. Rhaid i'r beicio gael ei gynnal yn y felodrom Casnewydd, rhaid i'r nofio gael ei gynnal yn y pwll cenedlaethol yn Abertawe ac er gwaethaf yr hyn a ddywedodd Mohammad Asghar, bydd y saethu'n cael ei gynnal yn Bisley, yn Surrey. Dyna lle y mae bob amser yn cael ei gynnal.

Turning to other major sporting events, one took place on Monday at the Emirates Stadium—Arsenal versus Swansea. Another great win for the Swans to complete a double over Arsenal, following their double over Manchester United. The premier division is a major sporting event every week, held every other week in Swansea and seen around the world. It showcases Wales every week. Not enough is being made of Wales's premier division city. Football is the world sport. We need to get as many major games to the Millennium Stadium as possible, but always remember that Swansea on the football field is putting Wales on the world sporting map every week.

Gan droi at ddigwyddiadau chwaraeon mawr eraill, cynhaliwyd un ddydd Llun yn Stadiwm Emirates—Arsenal yn erbyn Abertawe. Buddugoliaeth wych arall i'r Elyrch i gwblhau'r dwbl yn erbyn Arsenal, yn dilyn eu dwbl yn erbyn Manchester United. Mae'r Uwch-gynghrair yn ddigwyddiad chwaraeon mawr bob wythnos, a gynhelir bob yn ail wythnos yn Abertawe ac sy'n cael ei weld o amgylch y byd. Mae'n arddangos Cymru bob wythnos. Nid oes digon yn cael ei wneud o'r ddinas yng Nghymru sydd yn yr Uwch-gynghrair. Pêl-droed yw'r gamp fyd-eang. Mae angen i ni gael cymaint o gemau mawr i Stadiwm y Mileniwm ag y bo modd, ond cofiwch bob amser fod Abertawe ar y cae pêl-droed yn rhoi Cymru ar fap y byd chwaraeon bob wythnos.

16:52 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very pleased to be able to participate in this debate. Obviously, I want to take the opportunity to highlight some of those fantastic facilities for sports in my own constituency. As Janet Finch-Saunders, the Member for Aberconwy, has already mentioned, Parc Eirias is located there, in Colwyn Bay, with great access to the A55 and, of course, is already a major sporting event capital. We know that the rugby union national academy is based there and, of course, many Welsh under-20s internationals are held in north Wales at Parc Eirias. It's a real gem, as far as sport is concerned, on the north Wales coast. I have to say, I'll put —

Rwy'n falch iawn o allu cymryd rhan yn y ddadl hon. Yn amlwg, rwyf am fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at rai o'r cyfleusterau gwych ar gyfer chwaraeon yn fy etholaeth i. Fel y mae Janet Finch-Saunders, yr Aelod dros Aberconwy, eisoes wedi crybwyll, mae Parc Eirias wedi ei leoli yno, ym Mae Colwyn, gyda mynediad da i'r A55 ac wrth gwrs, mae eisoes yn gyrchfan pwysig ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr. Rydym yn gwybod bod academi genedlaethol rygbi'r undeb wedi'i lleoli yno ac wrth gwrs, mae llawer o gemau rhyngwladol o dan 20 oed Cymru yn cael eu cynnal yng ngogledd Cymru ym Mharc Eirias. Mae'n drysor go iawn, o ran chwaraeon, ar arfordir gogledd Cymru. Rhaid i mi ddweud, byddaf yn rhoi—

16:52 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will he, therefore, recognise the major contribution of our council, Conwy County Borough Council, to this investment, along with the Welsh Rugby Union and the Welsh Government? It shows what partnership can deliver.

A yw felly am gydnabod cyfraniad mawr ein cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, i'r buddsoddiad hwn, ynghyd ag Undeb Rygbi Cymru a Llywodraeth Cymru? Mae'n dangos yr hyn y gall partneriaeth ei gyflawni.

16:53 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Absolutely. It's a fantastic achievement, and I welcome every contribution that has been made; yes, from Conwy County Borough Council, from the Welsh Rugby Union and, indeed, the Welsh Government, without whom, in fairness, the project wouldn't have been able to succeed in the way that it has. Of course, Parc Eirias is allowing more young people to be able to experience rugby. It's also, of course, a major venue for large events. I mean, we've got Elton John coming there in just a few weeks' time. We had Sir Tom Jones there last year and, of course, we'll see many more famous celebrities, I'm sure, making it a place for their concerts in the future.

Yn hollol. Mae'n gyflawniad aruthrol, ac rwy'n croesawu pob cyfraniad a wnaed; ie, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan Undeb Rygbi Cymru ac yn wir, gan Lywodraeth Cymru, gan na fyddai'r prosiect wedi gallu llwyddo hebddynt yn y ffordd y mae wedi llwyddo â bod yn deg. Wrth gwrs, mae Parc Eirias yn galluogi mwy o bobl ifanc i allu cael profiad o rygbi. Mae hefyd, wrth gwrs, yn lleoliad pwysig ar gyfer digwyddiadau mawr. Yn wir, mae Elton John yn dod yno mewn ychydig wythnosau. Roedd Syr Tom Jones yno y llynedd ac wrth gwrs, byddwn yn gweld llawer mwy o sêr enwog, rwy'n siŵr, gan ei wneud yn lle ar gyfer cyngherddau yn y dyfodol.

Of course, Colwyn Bay is not just home to Parc Eirias; it's also home to Porth Eirias. We've got a watersports hotspot now off the coast of north Wales, helping to cement Colwyn Bay as the leading sports capital for the north Wales region. I am very pleased to be able to celebrate the fact that Porth Eirias is a place that is growing in popularity, where we see the watersports activities really taking off. We've got sailing, windsurfing, powerboating, kayaking, canoeing all there on the coast, and we've got a fantastic new beach to go with it for people to be able to enjoy too. I'm absolutely delighted to celebrate that success which, of course, again was achieved through partnership between Conwy County Borough Council and the Welsh Government.

Wrth gwrs, mae Bae Colwyn yn gartref i fwy na Pharc Eirias yn unig; mae hefyd yn gartref i Borth Eirias. Mae gennym gyrchfan chwaraeon dwr yn awr oddi ar arfordir gogledd Cymru, gan helpu i gadarnhau Bae Colwyn fel cyrchfan chwaraeon blaenllaw ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Rwy'n falch iawn o allu dathlu'r ffaith fod Porth Eirias yn lle sy'n tyfu o ran ei boblogrwydd, lle y gwelwn weithgareddau chwaraeon dŵr mewn gwirionedd yn mynd o nerth i nerth. Mae gennym hwylio, hwylfyrddio, cychod modur, caiacio, canŵio i gyd yno ar yr arfordir, ac rydym wedi cael traeth newydd gwych hefyd i fynd gyda'r cyfan hyn i bobl allu ei fwynhau. Rwyf wrth fy modd yn dathlu'r llwyddiant sydd unwaith eto, wrth gwrs, wedi ei gyflawni drwy bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru.

Of course, Porth Eirias and Parc Eirias are not the only facilities in my constituency. I'm very fortunate to have some fantastic forests and mountain biking territory on the Clwydian range, and, indeed, the Llandegla forest trail attracts people not only from across the UK but from further afield as well, outside of Britain. So, it's wonderful to see that facility prospering. If there's one request that I would make, it's to ensure that those other facilities are also given some sort of network priority by the Welsh Government, so that we can get more of those international mountain biking events, I think, in particular into Wales. We've got some great courses and trails—also down in south Wales and in west Wales, too—and I think if there was a networked approach to be able to attract some of those international events, then it would be really helping to put Wales on the map more internationally in terms of the opportunities that we have.

Wrth gwrs, nid Porth Eirias a Pharc Eirias yw'r unig gyfleusterau yn fy etholaeth. Rwy'n ffodus iawn i gael coedwigoedd gwych a thir ar gyfer beicio mynydd ar Fryniau Clwyd, ac yn wir, mae llwybr coedwig Llandegla yn denu pobl nid yn unig o bob cwr o'r DU ond o'r tu hwnt i hynny hefyd, o'r tu allan i Brydain. Felly, mae'n wych gweld y cyfleuster yn ffynnu. Os oes un cais y byddwn yn ei wneud, sicrhau bod y cyfleusterau eraill hyn hefyd yn cael rhyw fath o flaenoriaeth ar y rhwydwaith gan Lywodraeth Cymru, er mwyn i ni gael mwy o ddigwyddiadau rhyngwladol fel y rhai beicio mynydd yn benodol, rwy'n credu, i Gymru. Mae gennym gyrsiau a llwybrau gwych—ac yn ne Cymru a gorllewin Cymru hefyd—ac rwy'n meddwl pe bai dull o rwydweithio er mwyn denu rhai o'r digwyddiadau rhyngwladol, byddai'n help sylweddol i roi Cymru ar y map yn fwy rhyngwladol o ran y cyfleoedd sydd gennym.

I'm going to conclude there, Deputy Presiding Officer, but we have some tremendous facilities that, I think, need to be highlighted. I'm being asked to mention the Colwyn Bay zoo. Of course, this debate is all about sports, but, as the national zoo of Wales, I was very pleased to attend its designation as such, with the former Presiding Officer, Lord Elis-Thomas—[Interruption.]

Rwy'n mynd i orffen yn y fan honno, Ddirprwy Lywydd, ond mae gennym rai cyfleusterau gwych sydd angen rhoi sylw iddynt yn fy marn i. Gofynnir i mi grybwyll sw Bae Colwyn. Wrth gwrs, mae'r ddadl hon yn ymwneud â chwaraeon, ond fel sw cenedlaethol Cymru, roeddwn yn falch iawn o fod yn bresennol yn y digwyddiad i roi'r dynodiad hwnnw iddi, gyda'r cyn Lywydd, yr Arglwydd Elis-Thomas—[Torri ar draws.]

16:56 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren, will you take—?

Darren, a wnewch chi gymryd—?

16:56 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course.

Wrth gwrs.

16:56 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way, Darren. Just to put on the record, we all have our nice mountains and forests as well, and we've also got a good collection of zoos across Wales as well. [Laughter.]

Diolch i chi am ildio, Darren. Dim ond i roi ar y cofnod, mae gennym oll ein mynyddoedd braf a choedwigoedd yn ogystal, ac mae gennym hefyd gasgliad da o sŵau ledled Cymru. [Chwerthin.]

16:56 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, you all have, but, of course, I'm talking about a zoo that is in my natural habitat of Clwyd West—[Laughter.]—and it's something that I want to particularly celebrate and highlight in this afternoon's debate.

Oes, mae'n wir, ond wrth gwrs, rwy'n siarad am sw sydd yn fy nghynefin naturiol yng Ngorllewin Clwyd—[Chwerthin.]—ac mae'n rhywbeth rwyf am ei ddathlu a rhoi sylw arbennig iddo yn y ddadl y prynhawn yma.

16:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now to get back on the subject—Keith Davies.

Ac yn awr i fynd yn ôl at y pwnc—Keith Davies.

16:56 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Mae yna ddolen gyswllt i mi rhwng Gemau'r Gymanwlad, yng nghynnig Paul Davies, a'r tro diwethaf y cynhaliwyd Gemau'r Gymanwlad yma, o dan eu hen enw, yn 1958—ni oedd y wlad leiaf yn y byd ar y pryd i gynnal y gemau, a'r tro cyntaf i gael y 'baton relay' yn rhedeg o Lundain i Gaerdydd. Ond, yn 1958, euthum i i'r gemau er mwyn ennill arian a gwerthu'r 'Western Mail'. Mae'n rhaid imi gyfaddef mai ychydig gopïau o'r 'Western Mail' a werthais, gan fy mod wedi cael fy hudo gan y gemau, a threuliais bron yr wythnos gyfan yn gwylio yn lle gwerthu. Os nad oeddwn yn llwyddiannus fel cyw cyfalafwr, deuthum yn ddilynwr brwd o chwaraeon o bob math.

There is a link for me between the Commonwealth Games, in Paul Davies's motion, and the last time that the Commonwealth Games, under their old name, were held here, in 1958—we were the smallest country at that time to host the games, and it was the first time that there was a baton relay from London to Cardiff. But, in 1958, I went to the games to make some money by selling the 'Western Mail'. I must admit that I didn't sell many copies, as I was enchanted by the games, and spent most of the week watching rather than selling. If I was an unsuccessful budding capitalist, I became a keen supporter of sports of all kinds.

Byddai cynnal Gemau'r Gymanwlad yn gyfle euraid i Gymru, fel mae sawl un wedi sôn yn barod. Dyma un enghraifft i chi: yn 1958, Llyn Padarn yn Llanberis a oedd yn cynnal y cystadlaethau rhwyfo, ac mae sawl un y prynhawn yma wedi rhoi syniadau eraill hefyd. Mae beth sydd gen i i'w ddweud heddiw yn canolbwyntio ar gynnwys yr holl wlad, buddsoddiad cyfalaf strategol ac adeiladu athletwyr elitaidd o'r gwaelod. Fel cenedl rygbi, rydym yn gwybod fod cyrhaeddiad gemau mawr yn mynd dros y byd, fel mae sawl un wedi sôn. Rwy'n cofio Cwpan y Byd yma yng Nghaerdydd yn 1999. Bu hynny ar sgriniau teledu ar draws y byd, gyda theimlad o ewfforia yng nghanol y ddinas. Y canolbwynt i ni fel llunwyr polisi yw'r cyhoeddusrwydd i Gymru a'r effaith economaidd.

Hosting the Commonwealth Games would be a golden opportunity for Wales, as many have already said. Here is one example for you: in 1958, rowing competitions were held on Llyn Padarn in Llanberis, and many more ideas have been suggested this afternoon. My contribution will focus on including the whole country, strategic capital investment and building elite athletes from the bottom up. As a rugby nation, we know that big matches have a global reach, as many have said. I remember the Rugby World Cup here in 1999. That tournament was seen on screens across the world, with a feeling of euphoria in the city centre. The focus for us as policymakers is publicity for Wales and the economic impact.

Wrth werthuso eu strategaethau nhw, roedd Llundain a'r Alban yn trafod y cyfle i fuddsoddi ar raddfa eang, y cyfle i asesu effeithlonrwydd systemau trafnidiaeth a delwedd, ac i awdurdodau lleol a'r Llywodraeth ganolog dargedu arian i greu manteision parhaol i genedlaethau'r dyfodol, a gwnaeth Rhun sôn am hynny'n gynharach. Mewn ymchwil a baratowyd i VisitScotland, trafodwyd y gallu i gynyddu'r cyfalaf i awdurdodau lleol allu ailddatblygu mannau ar ôl y gemau. Enghraifft a roddir yw gemau Barcelona, yn nhermau creu diddordeb hirdymor gan y cyfryngau, twristiaeth ac yn y farchnad dai. Mewn gwirionedd, adfywio buddsoddiad yw'r canolbwyntiau polisi yn y maes hwn. Rhaid i'r targedu o bob platfform, cyllid neu gyhoeddusrwydd, fod yn fanteisiol ac yn seiliedig ar anghenion yr ardal sy'n cynnal—dadl ehangach, felly. Edrychaf ymlaen ati yn y dyfodol agos, wrth i Gymru barhau i gynyddu ei chanran o'r gemau mawr.

In evaluating their strategies, London and Scotland looked at the opportunities for wide ranging investment, the opportunity to assess the efficiency and the image of transport systems and for local authorities and central Government to target money at creating permanent benefits for the future; Rhun mentioned that earlier. Research undertaken for VisitScotland looked at the ability to increase the capital for local authorities to redevelop areas following the games. An example cited is that of the Barcelona games, in terms of creating long-term media interest, as well as in tourism and in the housing market. In fact, regenerating investment is the policy focus in this area. Targeting this from all platforms, fiscal or publicity, must be beneficial and based on the needs of the host area—a wider debate, therefore. I look forward to having that debate in the near future, as Wales continues to increase its share of major games.

Fy ail bwynt yw'r darlun eang o athletwyr. Er pwysigrwydd cael Llywodraeth sy'n gefnogol a chyfleusterau a all gynnal gemau, mae lles, iechyd ac ysbrydoliaeth yn ddibynnol ar greu'r athletwyr gorau.

My second point is the wide picture of athletes. Despite the importance of having a supportive Government and facilities capable of hosting games, benefits, health and inspiration depend on creating the best athletes.

Bu tîm y Deyrnas Unedig yn yr 'Olympics' yn Llundain yn 2012 yn enghraifft dda. Roedd ffigurau Chwaraeon Cymru yn dangos cynnydd o 30 y cant mewn nofio a bocsio gan bobl ifanc yng Nghymru. Un syniad ydy triongl athletwyr elitaidd—y polisi o gynyddu'r nifer ar y top trwy ehangu'r sylfaen ar y gwaelod. Yn anffodus, mae cynghorau lleol wedi bod yn ymladd â'r nod hwn oherwydd y toriadadau a ddaw o San Steffan—toriadau ar gyllideb DCMS, a fydd yn siŵr o barhau o dan gynlluniau cwtogi gwariant adrannau ymhellach dros y pum mlynedd nesaf—nod sy'n ei gwneud hi'n llawer anoddach cynnig amrywiaeth o chwaraeon i bawb, ac felly gyda'r potensial i ymyrryd yn negyddol â'r niferoedd a fyddai wedi gallu bwydo i'n haen elitaidd.

The UK team at the London Olympics in 2012 is a good example. Sport Wales figures show a 30 per cent increase in swimming and boxing among young people in Wales. One idea is that of an elite athlete triangle—the policy of increasing the number at the top by enhancing the base. Unfortunately, local councils have been fighting this, because of the cuts coming from Westminster—cuts to the DCMS, which will surely continue under further departmental funding cuts over the next five years—an aim that will make it much more difficult to offer a variety of sporting opportunities for all, with the potential to have a detrimental effect on the numbers that would have been able to feed our elite tier.

Ffocws y ddadl ydy 'major events', yn naturiol. Soniwyd yn fwyaf am Gaerdydd oherwydd ei chapasiti uwch a'i delwedd ryngwladol. Er hynny, mae'n hollbwysig ystyried manteisio ar bob rhan o Gymru. Mae gwers i'w dysgu o brofiad Caerdydd, sydd wedi defnyddio'r leferi sydd ganddi fel y chwe chenedl a'r hanner marathon, i fod yn gwella a dangos ei gallu i gynnal digwyddiadau mawr. Rydym ni yn y gorllewin wedi cynnal pencampwriaeth UEFA—cystadleuaeth i fenywod o dan 19 yn 2013. Mae gyda ni hefyd rasys hanner marathon ac mae'n lleoliad cyffrous ar gyfer rasys elusennau.

The focus of this debate is major events, of course. The main emphasis has been on Cardiff, because of its higher capacity and its international image. However, it is vital that we consider taking advantage of all parts of Wales. There is a lesson to be learned from the Cardiff experience, which has used the levers at its disposal, such as the six nations and the half marathon, to improve and to show that it can host major events. We in west Wales have hosted an UEFA competition—the under-19 women's competition in 2013. We also have half marathons and it is an exciting venue for charity races.

Y ddadl arferol ydy defnyddio'r cyfleusterau hyn fel cefnogaeth cystadlaethau yn y de-ddwyrain neu yn y gogledd, fel mae Darren wedi sôn amdano yn gynharach—ambell gêm yn Abertawe neu sir Gâr—ond hoffwn hefyd gynnig strategaeth arall i redeg ynghyd. Gyda'n adnoddau naturiol, cwrs rasio Ffos Las, stadiwm Stebonheath a Pharc y Scarlets, gallem ni hefyd orfodi pwyslais ar ein cyfleusterau cyfredol a chyflawni mwy na'n maint. Efallai nid cynnal Gemau'r Gymanwlad yn Llanelli 'quite' eto, ond mae gyda ni'r gallu i gynnal rhagor o bencampwriaethau, megis cystadleuaeth UEFA i'r merched, ac adeiladu rhagor ar hynny.

The usual argument is to use these facilities to support wider events in the south-east or north Wales, as Darren mentioned earlier—a few games in Swansea or Carmarthenshire—but I would like to propose another strategy for joint hosting. With our natural resources, the Ffos Las racecourse, Stebonheath stadium and Parc y Scarlets, we could also emphasise the facilities that we already have and punch above our weight. We might not be able to host the Commonwealth Games in Llanelli quite yet, but we have the ability to hold more competitions, such as the women's UEFA competition that I mentioned earlier, and to build on that.

Rwy'n falch iawn i gefnogi'r ddadl y prynhawn 'ma.

I am exceptionally pleased to support the debate this afternoon.

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism. Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Ken Skates.

17:01 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I very much welcome this motion today. I think, since we launched our major events strategy five years ago, we've built a pretty enviable track record of successfully hosting many of the world's biggest sporting events, and of course in helping to finance the construction of the world-class attractions and facilities that many Members have identified in their contributions today.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n croesawu'r cynnig hwn yn fawr iawn heddiw. Ers i ni lansio ein strategaeth digwyddiadau mawr bum mlynedd yn ôl, rwy'n meddwl ein bod wedi datblygu enw eithaf rhagorol am gynnal llawer o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf y byd yn llwyddiannus, ac wrth gwrs am helpu i gyllido'r gwaith o ddatblygu'r atyniadau a'r cyfleusterau gorau yn y byd a nododd llawer o'r Aelodau yn eu cyfraniadau heddiw.

Now, before I talk in further detail about major events, I'd first like to explain why I'm not supporting amendment number 2. I'm very supportive of the principal of safe standing, and, in theory, SGSA could indeed issue guidance on safe standing accommodation in Wales, but a change to the all-seater policy would, nonetheless, require a change in direction from the DCMS Ministers, and a direction from them to SGSA. Secondary legislation would also be necessary to annul the all-seater orders currently issued to clubs. But I am, nonetheless, pleased to inform Members today that I do intend pressing this matter with the new Secretary of State at DCMS, when I meet with him in the near future.

Yn awr, cyn i mi siarad yn fanylach am ddigwyddiadau mawr, hoffwn egluro'n gyntaf pam nad wyf yn cefnogi gwelliant rhif 2. Rwy'n gefnogol iawn i'r egwyddor o sefyll diogel, ac mewn theori, gallai'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon yn wir gyhoeddi canllawiau ar fannau sefyll diogel yng Nghymru, ond byddai newid i'r polisi seddi'n unig yn galw er hynny am newid cyfeiriad ar ran Gweinidogion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a chyfarwyddyd ganddynt i'r Awdurdod. Byddai is-ddeddfwriaeth yn angenrheidiol hefyd i ddirymu'r gorchmynion seddi'n unig a gyhoeddir ar hyn o bryd i glybiau. Serch hynny, rwy'n falch o hysbysu'r Aelodau heddiw fy mod yn bwriadu pwysleisio'r mater wrth yr Ysgrifennydd Gwladol newydd yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon pan fyddaf yn cyfarfod ag ef yn y dyfodol agos.

Moving back to the benefits of major sports events hosted in Wales, some of our highlights include, of course, as mentioned, the 2010 Ryder Cup, the Heineken Cup final in 2011 and then again in 2014, the 2013 International Cricket Council Champions Trophy and the Rugby League World Cup in 2013. We also have, on an annual basis, Wales Rally GB and we have the 2014 Senior Open Championship, as well as the UEFA Super Cup.

Gan symud yn ôl at fanteision cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru, mae rhai o'n huchafbwyntiau, wrth gwrs, fel y crybwyllwyd, yn cynnwys Cwpan Ryder 2010, rownd derfynol Cwpan Heineken yn 2011 ac eto yn 2014, Tlws Pencampwyr y Cyngor Criced Rhyngwladol 2013 a Chwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair yn 2013. Hefyd, mae gennym Rali Cymru Prydain Fawr yn flynyddol a Phencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn 2014, yn ogystal ag Uwch-gwpan UEFA.

We've established a worldwide reputation for events delivering in the sports context. We can certainly look forward to some world-class events this year, including the first Ashes test of the series, the Millennium Stadium hosting eight matches, including two quarter finals of the Rugby World Cup and the Union Cycliste Internationale Velothon Wales in June, with professional teams as well as 15,000 amateur cyclists, who have been attracted by Wales's increasing reputation as a world-class cycling destination.

Rydym wedi sefydlu enw da ledled y byd am ddigwyddiadau llwyddiannus yng nghyd-destun chwaraeon. Gallwn yn sicr edrych ymlaen at rai o ddigwyddiadau gorau'r byd eleni, gan gynnwys prawf cyntaf Cyfres y Lludw, wyth gêm a gynhelir yn Stadiwm y Mileniwm, gan gynnwys dwy gêm yn rownd gogynderfynol Cwpan Rygbi'r Byd a Felothon Union Cycliste Internationale Cymru ym mis Mehefin, gyda thimau proffesiynol yn ogystal â 15,000 o feicwyr amatur, a ddenwyd gan enw da Cymru sy'n mynd o nerth i nerth fel un o gyrchfannau beicio gorau'r byd.

Looking forward: next year, we host the World Half Marathon Championships, and the huge growth of the Cardiff half marathon in recent years was a key factor in Wales winning the bid to host this event. And, following the success of the 2014 event, we welcome the senior open back to Royal Porthcawl Golf Club in 2017. A fitting link, of course, to the year of legends. And then, in 2018, Wales will be the only UK stopover leg of the Volvo Ocean Race. This will be an integral part of our Year of the Sea.

Gan edrych ymlaen: y flwyddyn nesaf, rydym yn cynnal Pencampwriaethau Hanner Marathon y Byd, ac roedd twf enfawr hanner marathon Caerdydd yn y blynyddoedd diwethaf yn ffactor allweddol yn llwyddiant Cymru i ennill y cynnig i gynnal y digwyddiad. Ac yn dilyn llwyddiant digwyddiad 2014, rydym yn croesawu pencampwriaeth agored golffwyr hŷn yn ôl i Glwb Golff Brenhinol Porthcawl yn 2017. Ac mae cysylltiad addas rhwng hynny, wrth gwrs, a Blwyddyn y Chwedlau. Ac yna, yn 2018, yng Nghymru y bydd yr unig fan aros yn y DU ar gam o Ras Volvo Ocean. Bydd hyn yn rhan annatod o Flwyddyn y Môr.

The events industry in Wales operates within a hugely competitive marketplace, but we can boast a portfolio of world-class events that would be, in my view, the envy of many of our competitors. We have come a long way in a short space of time, but remain ambitious to expand our portfolio, and further build on our growing international reputation for hosting and making the most of major international sporting events.

Mae'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru yn gweithredu mewn marchnad hynod o gystadleuol, ond gallwn ymffrostio bod gennym bortffolio o ddigwyddiadau o safon fyd-eang a fyddai, yn fy marn i, yn destun eiddigedd llawer o'r rhai sy'n cystadlu â ni. Rydym wedi dod yn bell mewn cyfnod byr o amser, ond yn parhau i fod yn uchelgeisiol ynglŷn ag ehangu ein portffolio a datblygu ein henw da rhyngwladol am gynnal a gwneud y gorau o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr.

We're currently pursuing a number of major event opportunities, which remain commercial in confidence at present, but we hope to be able to make some announcements in the coming months. Bidding timescales to host the world's biggest events can be anywhere between five and 10 years, and therefore we are already considering event-hosting targets for 2020 and beyond. Events attracted to date have shown Wales as a contemporary and dynamic nation that demonstrates that our track record of delivery is earning Wales the privilege of renewing established ties to the Rugby World Cup and to international cricket, for example. But, it also demonstrates our capacity to break new ground with UEFA, the Volvo Ocean Race team, the International Athletics Foundation and, of course, the R&A, all recently deciding to bring their major global event properties to Wales for the very first time.

Ar hyn o bryd rydym yn mynd ar drywydd nifer o gyfleoedd digwyddiadau mawr sy'n parhau i fod yn gyfrinach fasnachol ar hyn o bryd, ond rydym yn gobeithio gallu gwneud rhai cyhoeddiadau yn y misoedd nesaf. Gall amserlenni ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer cynnal digwyddiadau mwyaf y byd fod yn unrhyw beth rhwng pump a 10 mlynedd, ac felly rydym eisoes yn ystyried targedau ar gyfer cynnal digwyddiadau yn 2020 a thu hwnt. Mae'r digwyddiadau a ddenwyd hyd yn hyn wedi arddangos Cymru fel cenedl gyfoes a dynamig sy'n dangos bod ein record o gyflawni yn ennill y fraint i Gymru o adnewyddu cysylltiadau sefydledig â Chwpan Rygbi'r Byd ac â chriced rhyngwladol, er enghraifft. Ond mae hefyd yn dangos ein gallu i dorri tir newydd gydag UEFA, tîm Ras Volvo Ocean, y Sefydliad Athletau Rhyngwladol a'r R&A wrth gwrs, ac yn ddiweddar mae'r rhain oll wedi penderfynu dod â'u digwyddiadau mawr byd-eang i Gymru am y tro cyntaf erioed.

We remain ambitious in our outlook as we scan the horizon for new opportunities. For example, we made clear our aspiration to host more of the world's biggest football events. Our major events strategy, 'Event Wales', sets out the framework to ensure that our investments in major events help to increase the prosperity and wellbeing of the people of Wales. The current economic climate challenges us to continually review and to evaluate the way we do things to ensure that events are targeted more effectively, deliver best value, and that investments are closely aligned with our drive to support jobs, growth and wealth in Wales. Last year, for example, in attracting over 380,000 visitors, events contributed an estimated £62 million to the Welsh economy and supported more than 1,400 jobs. Future investments will be focused on supporting jobs, promoting development of skills, and generating visitor spend. To highlight this, I'll be paddling and white-water rafting on Sunday—fast-growing sports and recreational activities that are adding value to the economy, as Mohammad Asghar suggested. I would like to extend a warm welcome to him to join me white-water rafting this Sunday.

Rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ein hagwedd wrth i ni edrych tua'r gorwel am gyfleoedd newydd. Er enghraifft, gwnaethom ein dyhead i gynnal mwy o ddigwyddiadau pêl-droed mwyaf y byd yn eglur. Mae ein strategaeth digwyddiadau mawr, 'Digwyddiadau Cymru', yn gosod y fframwaith i sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn digwyddiadau mawr yn helpu i gynyddu ffyniant a lles pobl Cymru. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ein herio i adolygu ac i werthuso'n barhaus y ffordd rydym yn gwneud pethau er mwyn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu targedu yn fwy effeithiol, yn sicrhau gwerth gorau am arian, a bod buddsoddiadau yn cyd-fynd yn agos â'n hymgyrch i gefnogi swyddi, twf a chyfoeth yng Nghymru. Y llynedd, er enghraifft, drwy ddenu dros 380,000 o ymwelwyr, cyfrannodd digwyddiadau £62 miliwn amcangyfrifedig i economi Cymru a chefnogi dros 1,400 o swyddi. Bydd buddsoddiadau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gefnogi swyddi, hyrwyddo datblygu sgiliau, a chymell gwariant ymwelwyr. I amlygu hyn, byddaf yn padlo a rafftio dŵr gwyn ddydd Sul—chwaraeon a gweithgareddau hamdden sy'n tyfu'n gyflym ac yn ychwanegu gwerth at yr economi, fel yr awgrymodd Mohammad Asghar. Hoffwn estyn croeso cynnes iddo i ymuno â mi yn rafftio dŵr gwyn y Sul hwn.

We also create new opportunities for young people by encouraging event owners and organisers to engage positively with our universities and with our colleges to provide internships and work placements. For example, I was delighted to hear that a young Glyndŵr University student, Luke Murphy, impressed the Tour of Britain organisers so much last year that they are taking him on as a full-time employee.

Rydym hefyd yn creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc drwy annog perchnogion a threfnwyr digwyddiadau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'n prifysgolion a'n colegau i ddarparu interniaethau a lleoliadau gwaith. Er enghraifft, roeddwn yn falch iawn o glywed bod myfyriwr ifanc o Brifysgol Glyndŵr, Luke Murphy, wedi creu cymaint o argraff ar drefnwyr y Tour of Britain y llynedd fel eu bod wedi rhoi swydd amser llawn iddo.

We will therefore seek to attract more major international sporting events that provide a positive image of Wales, while showcasing our unique heritage and culture. We will continue to target events that make best use of our existing infrastructure, our stunning landscapes and our coastline, and new capital projects that are capable of hosting major events, such as Surf Snowdonia, the Welsh National Sailing Academy in Pwllheli, and the newly constructed bike trails in Margam Park and Bike Park Wales, which complement the mountain biking park in Llandegla. Wherever possible we will seek to align our investments with our priority business sectors and strategies, such as tourism, where we are looking to increase the number of events in the shoulder season, and indeed, given this week's record-breaking tourism figures, I believe our success in this regard is now indisputable.

Byddwn felly'n ceisio denu rhagor o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr sy'n cynnig delwedd bositif o Gymru, gan arddangos ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw. Byddwn yn parhau i dargedu digwyddiadau sy'n gwneud y defnydd gorau o'n seilwaith presennol, ein tirweddau trawiadol a'n harfordir, a phrosiectau cyfalaf newydd sy'n gallu cynnal digwyddiadau mawr, megis Syrffio Eryri, Academi Hwylio Genedlaethol Cymru ym Mhwllheli, a'r llwybrau beicio newydd a adeiladwyd ym Mharc Margam a Pharc Beicio Cymru, i fynd gyda'r parc beicio mynydd yn Llandegla. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio sicrhau bod ein buddsoddiadau yn cyd-fynd â'n sectorau busnes sy'n cael blaenoriaeth a'n strategaethau, megis twristiaeth, lle'r ydym yn ceisio cynyddu nifer y digwyddiadau yn y tymor rhwng y tymor prysur a'r tymor tawel, ac yn wir, o ystyried y ffigurau twristiaeth gwell nag erioed o'r blaen yr wythnos hon, rwy'n credu bod ein llwyddiant yn hyn o beth bellach yn ddiamheuol.

It is also important to highlight the power major events have to inspire and engage people in communities, through local voluntary action, through participation and the live spectator experience, as well as through various media platforms. Mass participation sporting events, for example, can help to raise public awareness of the importance of regular exercise, and help Wales to become a more active nation. For example, again, the Cardiff half marathon has grown in numbers participating from approximately 5,000 to 20,000 in just five years, and the number watching on the side of the streets for free is double that figure.

Mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at y pŵer sydd gan ddigwyddiadau mawr i ysbrydoli ac ymgysylltu â phobl mewn cymunedau, drwy weithredu gwirfoddol lleol, drwy gyfranogi a phrofiad gwylio byw, yn ogystal â thrwy sawl platfform cyfryngol. Gall digwyddiadau torfol ar gyfer cyfranogi mewn chwaraeon, er enghraifft, helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd, a helpu Cymru i ddod yn genedl fwy egnïol. Er enghraifft, unwaith eto, mae hanner marathon Caerdydd wedi tyfu o ran y niferoedd sy'n cymryd rhan o tua 5,000 i 20,000 mewn cwta bum mlynedd, ac mae dwywaith y ffigur hwn yn gwylio ar ochr y strydoedd yn rhad ac am ddim.

Attracting international events to Wales complements the thriving portfolio of home-grown events—for example, the Long Course Weekend: a Tenby-based three-day triathlon that, again, has doubled in size in the space of just two years—supporting employment and economic growth, boosting tourism, creating new business opportunities while also projecting a positive image of Wales right around the globe. Following the success of Glasgow 2014, I fully recognise the desire for Wales to pursue a bid for the future Commonwealth Games. That is why we are continuing to work on a detailed feasibility study in relation to a potential bid for the 2026 games. The key issues remain the likely costs and benefits for Wales. In assessing the costs and benefits, we want to take full account of the economic impact study from Glasgow, which we understand will be issued this summer, before reaching a final decision on this.

Mae denu digwyddiadau rhyngwladol i Gymru yn ategu'r portffolio ffyniannus o ddigwyddiadau cartref—er enghraifft, y Penwythnos Cwrs Hir: triathlon tri diwrnod yn Ninbych-y-pysgod sydd, unwaith eto, wedi dyblu yn ei faint mewn dwy flynedd yn unig—gan gefnogi cyflogaeth a thwf economaidd, rhoi hwb i dwristiaeth, creu cyfleoedd busnes newydd a chyfleu delwedd gadarnhaol o Gymru o amgylch y byd. Yn dilyn llwyddiant Glasgow 2014, rwy'n cydnabod yn llawn yr awydd i Gymru gyflwyno cynnig i gynnal Gemau'r Gymanwlad yn y dyfodol. Dyna pam rydym yn parhau i weithio ar astudiaeth ddichonoldeb fanwl mewn perthynas â chynnig posibl ar gyfer gemau 2026. Y materion allweddol o hyd yw'r costau a'r manteision tebygol i Gymru. Wrth asesu'r costau a'r manteision, rydym am ystyried yn llawn yr astudiaeth o'r effaith economaidd ar Glasgow sydd i'w chyhoeddi yn ystod yr haf yn ôl yr hyn a ddeallwn, cyn dod i benderfyniad terfynol ar hyn.

Likewise, as a keen cyclist, I also support, in principle, the amendment that Wales should seek to host the Tour de France. This, again, would need to be the subject of a robust cost-benefit analysis before reaching any final decision on a potential bid.

Yn yr un modd, fel beiciwr brwd, rwyf innau hefyd yn cefnogi, mewn egwyddor, y gwelliant y dylai Cymru gyflwyno cynnig i gynnal cam o'r Tour de France. Unwaith eto, mae angen i hyn fod yn destun dadansoddiad cost a budd cadarn cyn dod i unrhyw benderfyniad terfynol ar gynnig posibl.

As I mentioned earlier, one event we have already secured is the Rugby World Cup. The Welsh Government has been working collaboratively with England 2015 and local partners to ensure that we secure maximum benefit to Wales, including the associated increase in Wales's international profile. Huge interest has been expressed by international and UK-based rugby fans in attending the fixtures in Cardiff, and the direct economic impact for Wales is estimated at £80 million. The Welsh Rugby Union, I'm pleased to say, is also committed to maximising the development opportunities of staging the world cup here in Wales, and has already begun work to help stimulate growth in the game at the grass-roots level by establishing new, unified and aligned pathway systems.

Fel y soniais yn gynharach, un digwyddiad rydym eisoes wedi ei sicrhau yw Cwpan Rygbi'r Byd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd â Lloegr 2015 a phartneriaid lleol i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru, gan gynnwys y cynnydd cysylltiedig ym mhroffil rhyngwladol Cymru. Mynegodd cefnogwyr rygbi rhyngwladol ac yn y DU ddiddordeb enfawr mewn mynychu'r gemau yng Nghaerdydd, ac amcangyfrifwyd y bydd yr effaith economaidd uniongyrchol i Gymru yn £80 miliwn. Rwy'n falch o ddweud bod Undeb Rygbi Cymru hefyd wedi ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd datblygu o gynnal cwpan y byd yma yng Nghymru, ac mae eisoes wedi dechrau gweithio i helpu i ysgogi twf yn y gêm ar lawr gwlad drwy sefydlu systemau llwybrau newydd unedig ac aliniedig.

I feel I must also remind Members of the incredible contribution that arts and culture events also make to our economy—

Rwy'n teimlo bod rhaid i mi atgoffa'r Aelodau ynglŷn â'r cyfraniad anhygoel y mae digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol hefyd yn ei wneud i'n heconomi—

17:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Quickly now.

Yn gyflym yn awr.

17:11

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and to our country, including, for example, WOMEX, the Hay Festival and Festival Number 6. So, I believe that, with our track record for delivery and our commitment to hosting major events, I'm sure there will be many more opportunities to follow, which will further enhance Wales's credentials as a premier events destination.

[Yn parhau.]—ac i'n gwlad, gan gynnwys, er enghraifft, WOMEX, Gŵyl y Gelli a Gŵyl Rhif 6. Felly, gyda'n hanes o gyflawni a'n hymrwymiad i gynnal digwyddiadau mawr, rwy'n siŵr y bydd llawer mwy o gyfleoedd i ddilyn, a fydd yn gwella cymwysterau Cymru ymhellach fel cyrchfan ar gyfer digwyddiadau o'r radd flaenaf.

17:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies to reply to the debate.

Suzy Davies i ymateb i'r ddadl.

17:11

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd rhan heddiw, hefyd, yn arbennig gydag agwedd mor hapus. Rwy'n fwy na bodlon dweud 'diolch yn fawr' am ddelio gyda'r ddadl mewn ffordd mor neis, i fod yn onest.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I thank all who have taken part today, particularly given that the contributions have been in such good spirit. I am more than happy to thank everyone for dealing with this debate in such a nice and honest manner.

I just want to thank Members for taking part in this, because I think we're approaching this jointly and with the same sort of positive attitude here. We've got, I think, two major planks to this debate today, don't we? One is to do with health, wellbeing and mass participation, and the second is to do with the economy. So, I think I'll start just with some observations on the comments that were made on the health benefits that are encapsulated in the debate here today.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gymryd rhan yn hyn, oherwydd rwy'n meddwl ein bod yn ymdrin â hyn gyda'n gilydd ac â'r un math o agwedd gadarnhaol yma. Rwy'n meddwl bod gennym ddwy brif gangen i'r ddadl hon heddiw, onid oes? Mae un yn ymwneud ag iechyd, lles a chyfranogiad torfol, a'r ail yn ymwneud â'r economi. Felly, rwy'n meddwl y dechreuaf gyda rhai sylwadau ar y pethau a ddywedwyd am y manteision i iechyd sy'n cael eu crynhoi yn y ddadl yma heddiw.

First of all, can I welcome the Lib Dems aboard the safe-standing bus, as well? We're more than happy to share the platform on this one, and I'm glad that it was introduced by way of amendment here today.

Yn gyntaf oll, a gaf fi groesawu'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd ar y bws sefyll diogel? Rydym yn fwy na pharod i rannu'r llwyfan ar hyn, ac rwy'n falch ei fod wedi cael ei gyflwyno drwy welliant yma heddiw.

As far as the health benefits of this go, I think that one of the issues that, perhaps, wasn't brought to the fore is the fact that participation in sport, not only as an actual participant, but watching it as well, in the company of others—being part of the crowd—does have an effect on mental health, as well—mental wellbeing. I think that the physical health benefits of participating in sport are fairly obvious, but for those of us who, perhaps, aren't designed for speed, actually being part of a greater whole that's taking enjoyment in an event that we're all participating in certainly makes me feel better, once I've been doing it—even the football. Let me tell you, Members of this Assembly, I am exposed to football rather a lot, but I'm learning to love it.

O ran y manteision i iechyd, rwy'n meddwl mai un o'r materion na chafodd ei wyntyllu o bosibl oedd y ffaith fod cyfranogi mewn chwaraeon, nid yn unig cymryd rhan go iawn, ond eu gwylio hefyd, yng nghwmni eraill—bod yn rhan o'r dorf—yn cael effaith ar iechyd meddwl—ar les meddyliol. Rwy'n credu bod y manteision i iechyd corfforol o gymryd rhan mewn chwaraeon yn eithaf amlwg, ond i'r rhai ohonom nad ydym, o bosibl, wedi cael ein cynllunio i fod yn gyflym, mae bod yn rhan o gyfan mwy sy'n mwynhau digwyddiad rydym oll yn rhan ohono yn peri i mi deimlo'n well ar ôl ei wneud—hyd yn oed pêl-droed. Gadewch i mi ddweud wrthych, Aelodau'r Cynulliad hwn, rwy'n dod i gysylltiad â chryn dipyn o bêl-droed, ond rwy'n dysgu ei hoffi.

In terms of the Commonwealth Games in Glasgow, obviously, I expected Rhun to raise this, but others have raised it as well, and I think that one of the important points that you've raised in this is to do with national confidence. Obviously, in view of the political background that was pertaining in Scotland at the time, it probably helped a little bit there, but, certainly, when I was up in Glasgow about this time last year, actually, on the other side of that political argument, I was impressed, apart from the huge narrative going on about the referendum, by how many people were actually talking about the Commonwealth Games. In terms of the economic benefit of those, I can tell you that Scotland is a whole £12 richer because of the scarf that I bought because I was so cold up there during May of last year.

O ran y Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow, yn amlwg, roeddwn i'n disgwyl i Rhun grybwyll hyn, ond mae eraill wedi'i grybwyll hefyd, ac rwy'n credu bod un o'r pwyntiau pwysig a wnaethoch yn hyn o beth yn ymwneud â hyder cenedlaethol. Yn amlwg, o ystyried y cefndir gwleidyddol yn yr Alban ar y pryd, mae'n debyg ei fod wedi helpu ychydig bach yno, ond yn sicr, pan oeddwn i yn Glasgow tua'r adeg hon y llynedd, mewn gwirionedd, ar yr ochr arall i'r ddadl wleidyddol honno, ar wahân i'r naratif enfawr a oedd yn digwydd mewn perthynas â'r refferendwm, gwnaed argraff fawr arnaf gan faint o bobl a oedd yn siarad am Gemau'r Gymanwlad. O ran eu budd economaidd, gallaf ddweud wrthych fod yr Alban £12 cyfan yn gyfoethocach oherwydd y sgarff a brynais am fy mod mor oer yno yn ystod mis Mai y llynedd.

So, I think—yes—let's look seriously at the Commonwealth Games for Wales. I was pleased to hear what the Deputy Minister had to say on that—that the door is open. You're quite right to take a cautious approach in terms of the finances on that, and I'll come back to that in a moment.

Felly, rwy'n meddwl—ie—gadewch i ni edrych o ddifrif ar Gemau'r Gymanwlad i Gymru. Roeddwn yn falch o glywed yr hyn a oedd gan y Dirprwy Weinidog i'w ddweud am hynny—fod y drws ar agor. Rydych chi'n hollol iawn i fod ag ymagwedd ofalus o ran y cyllid ar gyfer hynny, a dof yn ôl at hynny mewn munud.

Rhun was also right—I think, Mohammad, you mentioned this, as well—that we, as a small nation, actually do have quite a lot to offer in terms of niche sport tourism, I think. Tourism, I think, is, actually, a central part of the economic part of the debate that we're having today. I'm particularly pleased that Peter raised cycling; I know it's been an interest of the Deputy Minister in the past. In terms of contributing to the tourism economy, cycling in my particular region, which obviously I share with Peter, is very, very important. It's been at risk lately because of certain activities with the forestry in the Afan valley, but it is still a central part of what we look at as part of the tourism offer there.

Roedd Rhun yn iawn hefyd—rwy'n meddwl eich bod chi, Mohammad, wedi sôn am hyn yn ogystal—fod gennym ni, fel gwlad fach, gryn lawer i'w gynnig mewn gwirionedd o ran twristiaeth chwaraeon arbenigol yn fy marn i. Rwy'n credu bod twristiaeth, mewn gwirionedd, yn rhan ganolog o ochr economaidd y ddadl rydym yn ei chael heddiw. Rwy'n arbennig o falch fod Peter wedi crybwyll beicio; gwn ei fod wedi bod yn un o ddiddordebau'r Dirprwy Weinidog yn y gorffennol. O ran cyfrannu at economi twristiaeth, mae beicio yn eithriadol o bwysig yn y fy rhanbarth, a rannaf gyda Peter wrth gwrs. Mae wedi bod mewn perygl yn ddiweddar oherwydd rhai gweithgareddau'n ymwneud â'r goedwigaeth yng nghwm Afan, ond mae'n dal i fod yn rhan ganolog o'r hyn rydym yn edrych arno'n rhan o'r cynnig twristiaeth yno.

I think our tourism offer in Wales, using sport, actually, has improved markedly and noticeably, I think, in the last few years. I'm very pleased to see the improvement in the tourism figures and if the Welsh Government's strategy has contributed to that—I know it's always very difficult to tell—then I would be happy to acknowledge that, despite my other ongoing concerns about the relationship, perhaps, between Government and the industry.

A dweud y gwir, rwy'n meddwl bod ein cynnig twristiaeth yng Nghymru, gan ddefnyddio chwaraeon, wedi gwella'n sylweddol ac yn amlwg yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rwy'n falch iawn o weld y gwelliant yn y ffigurau twristiaeth ac os yw strategaeth Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at hynny—gwn ei bod bob amser yn anodd iawn dweud—yna byddwn yn hapus i gydnabod hynny er gwaethaf fy mhryderon parhaus eraill am y berthynas, efallai, rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant.

What is important at the bottom of all this, I think, regardless of improvements, is how sustainable these improvements are. I think Mohammad was right to raise the legacy—or non-legacy, I would say—for Wales of the 2012 Olympics. For Wales to actually get less than 1 per cent of the bounce of the 2012 Olympics is not something we should be proud of, particularly. In fact, I was speaking very recently to the Bridgend Tourism Association, and I asked them, 'Can you remember anything about how Wales benefited from the 2012 Olympics in terms of tourism improvement?' and actually none of them could think of anything. I said, 'Did you know anything about the "Great" campaign?'—this was the big banner that VisitBritain was using at the time and which the Welsh Government was very resistant to buying into, and they all said, 'No, we didn't know anything about it'. So, there are still questions here about, when we get these big opportunities, how we get our relevant part of the economy to buy into that.

Yr hyn sy'n bwysig yn sail i hyn i gyd, rwy'n meddwl, heb ystyried gwelliannau, yw pa mor gynaliadwy yw'r gwelliannau hyn. Rwy'n meddwl bod Mohammad yn iawn i grybwyll etifeddiaeth—neu ddiffyg etifeddiaeth, byddwn yn ei ddweud—Gemau Olympaidd 2012 i Gymru. Ni ddylem fod yn arbennig o falch fod Cymru yn cael llai nag 1 y cant, yn wir, o effaith Gemau Olympaidd 2012. A dweud y gwir, roeddwn yn siarad yn ddiweddar iawn yng Nghymdeithas Dwristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr, a gofynnais iddynt, 'A allwch gofio unrhyw beth ynglŷn â sut y mae Cymru wedi elwa o Gemau Olympaidd 2012 o ran gwella twristiaeth?' ac mewn gwirionedd ni allai'r un ohonynt feddwl am ddim. Dywedais, 'A oeddech yn gwybod unrhyw beth am yr ymgyrch "Great"?'—dyma oedd y faner fawr a ddefnyddiai VisitBritain ar y pryd ac roedd Llywodraeth Cymru yn amharod iawn i'w derbyn, a'r cyfan a oedd ganddynt i'w ddweud oedd, 'Na, ni wyddem ddim am y peth'. Felly, pan fyddwn yn cael y cyfleoedd mawr hyn, mae yna gwestiynau yma o hyd ynglŷn â sut y mae cael ein rhan berthnasol o'r economi i dderbyn hynny.

William Graham was right to highlight that some opportunities for the tourism industry are being taken and capitalised upon. I think you mentioned the zip wires, which is obviously very close to Bounce Below, which Rhun will know about, and I'm sure Dafydd Elis-Thomas will know about as well, but you also mentioned as well the importance of the improvements in the hospitality experience. It's a shame, really, that the economy Minister isn't here today, because we were both at an event recently with the University of Wales Trinity Saint David, which has recently gone into partnership with Marriott hotels in order to provide an international hotel management degree. That is the kind of seriousness with which we need to take our tourist industry—and, of course, we have a Marriott hotel in Swansea.

Roedd William Graham yn iawn i dynnu sylw at y ffaith fod y diwydiant twristiaeth yn manteisio ar rai cyfleoedd. Rwy'n credu eich bod wedi sôn am y weiren wib, sy'n amlwg yn agos iawn at Bounce Below, y bydd Rhun yn gwybod amdano, ac rwy'n siŵr y bydd Dafydd Elis-Thomas yn gwybod amdano hefyd, ond hefyd fe grybwylloch bwysigrwydd y gwelliannau yn y profiad lletygarwch. Mae'n drueni, mewn gwirionedd, nad yw Gweinidog yr economi yma heddiw, gan ein bod ein dwy mewn digwyddiad yn ddiweddar gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a aeth i bartneriaeth yn ddiweddar gyda gwestai Marriott er mwyn darparu gradd ryngwladol mewn rheoli gwestai. Dyna pa mor o ddifrif y mae angen i ni fod ynghylch ein diwydiant twristiaeth—ac wrth gwrs, mae gennym westy Marriott yn Abertawe.

One of the things that perhaps didn't come out in the debate today was what I think has been one of the most important major events that we've had in Wales for some time, which were the IPC Athletics European Championships, which we held in Swansea last year, where we saw the very best of our Paralympic athletes performing in Swansea and, of course, drawing all the economic benefits to the city for that as well. So, I think South Wales West is still going to compete with North Wales, Janet, Rhun and Darren, when it comes to sporting events, in terms of the—what did you call them, Janet—extreme sports. My forays onto zip wires and underground trampolines are going to fade into insignificance compared to what the Deputy Minister's going to be up to this weekend, but even those, I think, pale into insignificance compared to the kind of performance that we saw with the Paralympic—

Un o'r pethau na ddaeth allan o'r ddadl heddiw efallai oedd yr hyn a oedd yn un o'r digwyddiadau mawr pwysicaf a gawsom yng Nghymru ers cryn amser yn fy marn i, sef Pencampwriaeth Athletau Ewrop y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol a gynhaliwyd yn Abertawe y llynedd, lle y gwelsom y gorau o'n hathletwyr Paralympaidd yn perfformio yn Abertawe ac wrth gwrs, yn dod â'r holl fanteision economaidd i'r ddinas drwy hynny hefyd. Felly, rwy'n meddwl bod Gorllewin De Cymru yn dal i fod yn cystadlu â Gogledd Cymru, Janet, Rhun a Darren, am ddigwyddiadau chwaraeon, o ran y—beth a'u galwoch, Janet—campau eithafol. Nid yw'r modd y mentrais ar y weiren wib ac ar drampolinau tanddaearol yn ddim o'i gymharu â'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog yn mynd i'w wneud y penwythnos hwn, ond nid wyf yn credu bod hynny hyd yn oed yn ddim o'i gymharu â'r math o berfformiadau a welsom adeg y Gemau Paralympaidd—

17:18

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you give way on that point about extreme sports and the Deputy Minister?

A wnewch chi ildio ar y pwynt am gampau eithafol a'r Dirprwy Weinidog?

17:18

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

By all means, yes.

Ar bob cyfrif, gwnaf.

17:18 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Very briefly, I hope his exploits on the jet ski in Plas Helyg, Pwllheli, will become an international highlight. [Laughter.]

Yn fyr iawn, rwy'n gobeithio y bydd ei gampau sgïo jet ym Mhlas Helyg, Pwllheli, yn dod yn uchafbwynt rhyngwladol. [Chwerthin.]

17:18 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Dafydd Elis-Thomas, I'll be at the forefront of asking to see the photos of that. I'm with you all the way on that.

Dafydd Elis-Thomas, byddaf gyda'r cyntaf i ofyn am gael gweld y lluniau. Rwy'n eich cefnogi'n llwyr ar hynny.

Mike Hedges, I must admit, even though I thought you were sensible to ask questions about how much this will all cost, I hope you do have better luck with the economy Minister than I do with questions about how much things cost. But if you're worried that there are going to be such problems with the costs of something like the Commonwealth Games, why are you lining up Swansea as the venue for that? I would rather you had asked how Swansea can get the most out of such an investment.

Mike Hedges, rhaid i mi gyfaddef, er fy mod yn meddwl eich bod yn ddoeth i ofyn cwestiynau ynglŷn â faint fydd cost hyn i gyd, rwy'n gobeithio y cewch fwy o lwc gyda Gweinidog yr economi na rwy'n ei gael wrth ofyn cwestiynau ynghylch faint y mae pethau'n costio. Ond os ydych yn poeni fod cymaint o broblemau'n mynd i fod gyda chostau rhywbeth fel Gemau'r Gymanwlad, pam eich bod yn cynnig Abertawe fel lleoliad ar eu cyfer? Byddai'n well gennyf pe baech wedi gofyn sut y gall Abertawe gael y gorau o fuddsoddiad o'r fath.

*Mike Hedges a gododd—*

*Mike Hedges rose—*

17:19 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I hope you will be lenient with me, Deputy Presiding Officer.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn drugarog wrthyf, Ddirprwy Lywydd.

17:19 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I was asked a question.

Gofynnwyd cwestiwn i mi.

I just know that it will have to come out of the Welsh block, as we are currently funded, and I was just wondering where that £300 million, £400 million or £500 million was coming from. I think it's a realistic question. But, if it's going to come to Wales, I think it ought to come to Swansea.

Nid wyf ond yn gwybod y bydd yn rhaid iddo ddod o floc Cymru, fel y cawn ein hariannu ar hyn o bryd, ac roeddwn yn meddwl tybed o lle y daw'r £300 miliwn, y £400 miliwn, neu'r £500 miliwn hwnnw. Rwy'n credu ei fod yn gwestiwn realistig. Ond os yw'n mynd i ddod i Gymru, rwy'n credu y dylai ddod i Abertawe.

17:19 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I just want to know how Swansea's going to get the best out of that investment, wherever it comes from, and that's really what I wanted to hear about today. You were quite right in one respect: the Swans are marvellous—how on earth can I say anything against that—but I would also want to know how the economy Minister here is working with VisitBritain to maximise the relationship between VisitBritain and the Barclays Premier League in order to use the Swans to maximise their tourism potential for us here in Wales.

Hoffwn wybod sut y mae Abertawe yn mynd i gael y gorau o'r buddsoddiad, o lle bynnag y daw, a dyna roeddwn eisiau ei glywed heddiw. Roeddech yn llygad eich lle mewn un ffordd: mae'r Elyrch yn wych—sut ar y ddaear y gallaf ddweud dim yn erbyn hynny—ond byddwn hefyd eisiau gwybod sut y mae Gweinidog yr economi yma yn gweithio gyda VisitBritain i wneud y gorau o'r berthynas rhwng VisitBritain ac Uwch-gynghrair Barclays er mwyn defnyddio'r Elyrch i wneud y mwyaf o'u potensial twristiaeth i ni yma yng Nghymru.

Darren Millar, if Tom Jones is in north Wales, then you'll have no problem with me backing north Wales, although I really do doubt whether his footballing skills are up to much—he comes from Pontypridd, and that's a rugby town. But Wales, of course, does have a lot to offer in terms of sport, not least those matters that, I think, William Graham raised, and that was your and Dafydd Êl's constituency. I'm fascinated by Colwyn Bay's offer to sporting tourism. Are we talking monkey hockey here, zebra football? If those are the sort of things we're looking at, then I think Llanwrtyd Wells's position as the foremost place in Wales for wacky sports is doomed.

Darren Millar, os yw Tom Jones yng ngogledd Cymru, yna ni chewch unrhyw broblem gyda fy nghael i i gefnogi gogledd Cymru, er fy mod yn amau'n wirioneddol a yw ei sgiliau pêl-droed mor wych â hynny—mae'n dod o Bontypridd, a thref rygbi yw honno. Ond mae gan Gymru, wrth gwrs, lawer i'w gynnig o ran chwaraeon, yn enwedig y pethau a grybwyllodd William Graham, rwy'n credu, a'ch etholaeth chi a Dafydd El oedd honno. Rwy'n rhyfeddu at gynnig Bae Colwyn i dwristiaeth chwaraeon. A ydym yn sôn am hoci mwnci yma, am bêl-droed sebra? Os mai dyna'r math o bethau rydym yn edrych arnynt, rwy'n meddwl bod statws Llanwrtyd fel y lle mwyaf blaenllaw yng Nghymru ar gyfer chwaraeon gwirion yn y fantol.

Finally, just to finish, Deputy Presiding Officer—I apologise I haven't got round to everybody—I am happy to congratulate Welsh Government on hosting its major events, and it really has put Wales on the map in many, many ways, but the central challenge still remains: it's the sustainable legacy of these major events. While we should take lessons from what happened with our failure to capitalise upon the Olympics in 2012, and I would say, possibly, the NATO summit as well—. I really hope that you've learnt lessons from that, because I don't really want you proving Mike Hedges right at the end of all this. I commend this debate and our motion to this Assembly. Thank you. And thank you, Deputy Presiding Officer.

I orffen, Ddirprwy Lywydd—rwy'n ymddiheuro nad wyf wedi sôn am bawb—rwy'n hapus i longyfarch Llywodraeth Cymru ar gynnal ei digwyddiadau mawr, ac mae wedi rhoi Cymru ar y map mewn llawer iawn o ffyrdd mewn gwirionedd, ond mae'r her ganolog yn aros, sef etifeddiaeth gynaliadwy y digwyddiadau mawr hyn. Er y dylem ddysgu gwersi o'r hyn a ddigwyddodd drwy ein methiant i fanteisio ar y Gemau Olympaidd yn 2012, ac o bosibl, uwchgynhadledd NATO hefyd, fe ddywedwn i—rwy'n gobeithio'n fawr eich bod wedi dysgu gwersi o hynny, gan nad wyf eisiau i Mike Hedges gael ei brofi'n gywir gennych ar ddiwedd hyn i gyd. Cymeradwyaf y ddadl hon a'n cynnig i'r Cynulliad hwn. Diolch yn fawr. A diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

17:21

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? No. Then the motion without amendment is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Felly mae'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## 5. Dadl Plaid Cymru: Fformiwla Barnett

## 5. Plaid Cymru Debate: the Barnett Formula

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, gwelliant 2 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Paul Davies. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 5 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 5 yn cael eu dad-ddethol.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, amendment 2 in the name of Jane Hutt, and amendments 3, 4 and 5 in the name of Paul Davies. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3, and 5 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 5 will be deselected.*

17:21

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Item 5 is the Plaid Cymru Debate on the Barnett Formula. I call on Alun Ffred Jones to move the motion.

Eitem 5 yw dadl Plaid Cymru ar Fformiwla Barnett. Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5759 Elin Jones

Motion NDM5759 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod nad yw fformiwla gyllido Barnett er budd pennaf Cymru;

2. Yn nodi pe bai Cymru'n cael ei hariannu ar yr un sail â'r Alban fesul pen o'r boblogaeth, byddai'n cael £1.2 biliwn ychwanegol bob blwyddyn; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddadlau'r achos o blaid cyllido Cymru ar yr un sail â'r Alban.

1. Recognises that the Barnett funding formula is not in the best interest of Wales;

2. Notes that if Wales was funded on the same basis as Scotland per head of the population, it would receive an additional £1.2 billion every year; and

3. Calls on the Welsh Government to make the case for Wales to be funded on the same basis as Scotland.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:21 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr. Rwy'n falch iawn o gael rhoi'r cynnig yma gerbron yn enw Elin Jones. Nid oes angen i mi ddweud y bydd y pum mlynedd nesaf yma yn rhai anodd i'n gwasanaethau cyhoeddus ni, ac i unigolion sy'n derbyn budd-daliadau, gan gofio mai oedolion mewn gwaith ydy cyfran helaeth o'r rhain—pobl sydd yn aml yn gweithio ar yr isafswm cyflog, ac, yn aml iawn, ar gontractau byrdymor heb sicrwydd oriau. Rwyf wedi bod yn siarad efo nifer o weithwyr yn y sector gofal yn ddiweddar, a chyda chwmnïau gofal hefyd. Nid yw'r cwmnïau yma yn aml ond yn gallu talu rhwng 40c a £1 dros yr isafswm cyflog, hyd yn oed i staff sydd wedi cymhwyso. Bydd y wasgfa'n anochel ar lywodraeth leol, a honno'n wasgfa boenus iawn, iawn. Fe fyddwn ni'n gweld pwysau ar ein hysgolion ni, y gwasanaethau cymdeithasol—Duw a ŵyr beth sy'n mynd i ddigwydd i'n llyfrgelloedd ni, i'n canolfannau hamdden ni, y celfyddydau ac iechyd cyhoeddus a nifer o feysydd eraill. Ac felly, mae pwnc cyllido Cymru yn un amserol ac yn un pwysig.

Thank you very much. I'm very pleased to move the motion before us in the name of Elin Jones. There's no need for me to say that these next five years will be difficult ones for our public services, and for individuals who receive benefits, bearing in mind that adults in work are the largest percentage of those—people who often work for the minimum wage, and, very often, on short-term contracts without guaranteed hours. I have been speaking to a number of workers in the care sector recently, and with care companies as well. These companies often can only pay between 40p and a £1 over the minimum wage, even to qualified staff. The pressure on local government will be inevitable, and it will be very, very painful. We'll see pressure on our schools, our social services—goodness knows what'll happen to our libraries, to our leisure centres, the arts and public health and many other areas. And, therefore, the subject of funding for Wales is timely and important.

Mae pob un o'r pleidiau yma heddiw wedi cynnig gwelliannau i'r cynnig, ond nid oes un ohonyn nhw yn herio'r gosodiad sylfaenol sydd yn ein cynnig gwreiddiol ni. I'r graddau hynny, rŷm ni croesawu'r ffaith bod yna undod yma yng Nghymru nad ydy fformiwla Barnett yn addas i'n dyddiau ni ac i'n sefyllfa ni.

All of the parties here today have proposed amendments to the motion, but none of them challenge the basic premise in our original motion. To that extent, we welcome the fact that there is unanimity here in Wales that the Barnett formula is not appropriate for our days and our situation.

Y tristwch mawr—yn wir, y cywilydd—yw nad oes yr un o'r pleidiau Prydeinig yma wedi gwneud dim pan oedden nhw'n arwain y Llywodraeth yn Llundain i newid y sefyllfa, i newid y ddêl wael hon i Gymru. Yn amlwg, nad oedd y mater sylfaenol hwn yn rhan o sefyll cornel Cymru.

The great sadness—indeed, the shame—is that none of the British parties did anything when they were leading the Government in London to change the situation, to change this poor deal for Wales. It's evident that this basic issue was not part of standing up for Wales.

Ychydig flynyddoedd ar ôl i mi ddod i'r Cynulliad yma, dros 12 mlynedd yn ôl bellach, fe gafwyd dadl yma ar yr union bwnc yma, sef yr angen i ddiwygio Barnett. Roedd y Blaid Lafur yn unfryd y diwrnod hwnnw—yn cynnwys amryw sy'n dal ar y fainc flaen 10 mlynedd yn ddiweddarach—nad oedd angen gwneud dim byd. Yn wir, y rhybudd a roddwyd i ni'r prynhawn hwnnw oedd, ac rwy'n cofio'r geiriau'n iawn,

A few years after I came to the Assembly, more than 12 years ago now, there was a debate here on this exact subject, namely the need to reform Barnett. The Labour Party were unanimous that day—including some people who are still on the frontbench 10 years later—that there was no need to do anything. Indeed, the warning we were given that afternoon, and I remember the words well, were

'be careful what you wish for',

'byddwch yn ofalus am beth y dymunwch'.

gyda'r bygythiad y gallai unrhyw newid waethygu'r sefyllfa. O edrych yn ôl ar y blynyddoedd diwethaf yma, y cynnydd yn nifer y teuluoedd sydd mewn tlodi, y wasgfa ar ein gwasanaethau cyhoeddus ni, a'r hyn sydd o'n blaenau ni, a oes rhywun yma'n difaru'r geiriau hynny bellach, ac yn cydnabod y methiant i ddiwygio fformiwla Barnett—yn wir, i ddiwygio fformiwla Barnett pan oedd yna arian yn cylchredeg yn Llundain? Beth bynnag am farn y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr Democrataidd yma, ni chawsom ni gydnabyddiaeth gan eu pleidiau nhw bod dim o'i le yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac ni fu newid, fel rŷm ni'n ei wybod.

with the threat that any change could make the situation worse. Looking back at the last few years, the increase in the number of families in poverty, the pressure on public services, and what's in front of us, does anyone here regret those words now, and recognise the failure to reform the Barnett formula—indeed, to reform the Barnett formula where there was money circulating in London? Regardless of the opinion of the Conservatives and the Liberal Democrats here, we didn't have any acknowledgment from their parties that there was anything wrong over the last five years, and there won't be any change, as we know.

Pan fu cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llafur cyn ffurfio Llywodraeth Cymru'n Un, un o'n hamodau ni oedd ffurfio, wrth gwrs, comisiwn i edrych yn fanwl ac yn wrthrychol ar gyllido Cymru. Fe ddaeth Mr Gerry Holtham a'u cyd-gomisiynwyr i'r casgliad anochel bod Cymru'n cael ei thangyllido. Ac, fel rydych yn cofio, yr amcangyfrif ar y pryd oedd ffigur o dua £300 miliwn. Mae'n gas gen i feddwl, wrth edrych yn ôl ar y cyfnod ers i'r diweddar Joel Barnett greu'r fformiwla yma, faint o arian sydd wedi ei golli i Gymru. Mae'r ffigur yn un syfrdanol, mae'n siŵr. Ond, er waethaf casgliadau'r comisiwn ardderchog hwnnw, cafwyd dim cydnabyddiaeth o ddilysrwydd y ffigwr hwnnw gan arweinwyr Llafur yn Llundain nac yn ddiweddarach gan y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr Democrataidd. Pum mlynedd a dim newid, dim addewidion—dim byd, mewn gwirionedd.

When there was an agreement between Plaid Cymru and Labour, before forming the One Wales Government, one of our conditions was to form, of course, a commission to look in detail and objectively at funding for Wales. Mr Gerry Holtham and his fellow commissioners came to the inevitable conclusion that Wales was underfunded. And, as you remember, the estimate at the time was a figure of about £300 million. Looking back over the period since the late Joel Barnett created that formula, I hate to think how much money has been lost by Wales. The figure is amazing, I'm sure. But, despite the conclusions of that excellent commission, there's been no acknowledgement of the validity of that figure by the leaders of Labour in London or later by the Conservatives and the Liberal Democrats. Five years and no change, no commitment—nothing, in truth.

Mae un o'r gwelliannau yn cyfeirio at y llawr cyllido oedd Gerry Holtham yn ei argymell fel cam cyntaf, a hwnnw'n berthnasol iawn, wrth gwrs, pan oedd cyllid cyffredinol yn cynyddu, a'r gyllideb yn cynyddu'n gyffredinol. Rydym bellach wedi cyrraedd cyfnod lle mae'n annhebygol iawn y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn dod o'r llawr cyllido, er mai dyna sy'n cael ei gynnig yn un o'r gwelliannau yma. Pa un bynnag, mae fformiwla amrwd y diweddar Joel Barnett, a oedd, wrth gwrs, yn ei flynyddoedd diwethaf am weld ei diwedd hi ac wedi dweud hynny drosodd a throsodd—oedd yn embaras, rwy'n credu, erbyn y diwedd, ein bod ni'n dal i sôn amdani—mae'r fformiwla honno wedi ei chadarnhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yma. Un o'r golygfeydd rhyfeddaf refferendwm yr Alban, ymhlith nifer o olygfeydd rhyfeddol, oedd y tri arweinydd Prydeinig yn rhuthro i'r Alban, mwy na lai llaw yn llaw, i sicrhau byddai'r fformiwla yn aros am byth. Roedd hi'n gwbl amlwg i bawb oedd yn dyst i hynny mai rhyw fath o bribe oedd hon i gadw'r Alban o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'n werth atgoffa ein hunain, pe bai Cymru'n cael ei hariannu ar yr un lefel â'r Alban, a chymharu tebyg wrth ei debyg, mi fydden ni yng Nghymru yn derbyn dros £1 biliwn yn ychwanegol. Neu, i roi fe fel arall, dyna i chi £400 y pen yn ychwanegol.

One of the amendments refers to the Barnett floor that Gerry Holtham recommended as a first step, and that was very relevant, of course, when general funding was increasing, and the budget was increasing in general. We are now in a period where it is very unlikely that there will be any additional funding coming from the Barnett floor, although that's what's being proposed in one of the amendments. In any case, the raw formula of the late Joel Barnett, who, of course, in his latter years wanted to see the end of the formula and said it again and again—it was an embarrassment, I think, by the end, that we were still talking about it—that formula has been confirmed during the last year. One of the strangest sights of the Scottish referendum, among a number of strange sights, was the three party leaders rushing up to Scotland, almost hand-in-hand, to ensure that the formula would stay intact forever. It was evident to everybody who witnessed that that it was some kind of bribe to keep Scotland within the United Kingdom. It is worth reminding ourselves that, if Wales was funded at the same level as Scotland, and comparing like-for-like, we in Wales would receive more than £1 billion extra. Or, to put it another way, that's £400 per head in addition.

Rŵan, yn y bôn, grym ac ewyllys gwleidyddol yr Alban sicrhaodd y ddêl hon—nid yn unig y llynedd, ond hefyd yn y gorffennol, tra bod gwleidyddion pleidiau Prydeinig Cymru wedi methu â gwarchod buddiannau eu pobl yma yng Nghymru. Wrth gwrs, rwyf yn derbyn bod Gerry Holtham, yn un, ac ambell un arall, wedi nodi na ddylid gwneud y gymhariaeth honno, gan fod y setliad i'r Alban yn un afresymol. Ond y ffaith ydy bod y pleidiau Prydeinig wedi rhoi sêl eu bendith ar y setliad hwnnw, a chlywais i neb yn beirniadu hynny ar y pryd. Felly, os ydy'r ddêl honno yn ddigon da i'r Alban, pam nad ydy'n ddigon da i Gymru? Rŵan, mae dadl Gerry Holtham, wrth gwrs, yw, gan ei bod hi'n afresymol, na ddylen ni ddim, felly, ofyn am yr un un setliad. Ond, nid wyf yn gweld, gan fod diwygio Barnett bellach wedi cael ei bwrw o'r neilltu—yna mae'r unig gymhariaeth allen ni ei wneud ydy gyda gwlad arall sydd yn sefyllfa debyg i ni yma yn y Deyrnas Unedig a gofyn am yr un un setliad, neu setliad tebyg. Mi fyddai hynny, wrth gwrs, yn arwain at wella, neu o leiaf at sicrhau cynnal a chadw peth o'n gwasanaethau cymdeithasol ni. Mae'r gymhariaeth efo'r Alban yn un syfrdanol, wrth gwrs, o gofio bod GVA y pen yr Alban tua 94 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig, tra bod canran Cymru dros 20 y cant yn is. Mae nifer o gymariaethau eraill y gellid eu gwneud i ddangos cymaint ydy'r angen yma yng Nghymru, ac eto nid oes cydnabyddiaeth wedi dod i hynny o du Llundain, pa bynnag plaid sydd wedi bod mewn grym.

Now, basically, the political power and goodwill of Scotland secured this deal—not only last year, but also in the past, while politicians of the UK parties in Wales have failed to protect the interests of our people here in Wales. Of course, I do accept that Gerry Holtham, for one, and some others, have noted that we shouldn't make that comparison, given that the settlement for Scotland is unreasonable. But the fact is that the British parties have given their seal of approval for that settlement, and I did not hear anybody criticising that at the time. Therefore, if that deal is good enough for Scotland, why isn't it good enough for Wales? Now, Gerry Holtham's argument, of course, is that, given that it's unreasonable, we should not, therefore, ask for the same settlement. But I don't see, given that reforming Barnett now has been set aside—then the only comparison we can make is with another country that is in a similar situation to us here in the UK and ask for the same settlement, or a similar settlement. That would, of course, lead to an improvement or, at least, to ensuring the maintenance of some of our public services. The comparison with Scotland is amazing, of course, considering that the GVA per capita in Scotland is about 94% of the UK average, while the Wales percentage is more than 20% lower. There are a number of other comparisons that can be made to show how great the need is here in Wales, and yet there's been no acknowledgement of that from London, whichever party has been in power.

Felly, rwyf yn herio llefaryddion y pleidiau heddiw—y rhai a fydd yn cymryd rhan—i gyfiawnhau pam y dylai Cymru gael ei thrin yn eilradd fel hyn. Os nad ydy diwygio Barnett ar y gweill, yna rowch gyfartaledd â'r Alban i ni er mwyn inni allu, wedyn, bwrw ymlaen â'r gwaith er mwyn grymuso a chryfhau'r economi a, thrwy wneud hynny, rymuso a chryfhau ein cymunedau ni a sefyllfa teuluoedd yng Nghymru trwy wneud hynny.

Therefore, I challenge the party spokespeople today—those who will be taking part—to justify why Wales should be treated in a second-rate way. If reform of the Barnett formula is not in the pipeline, then give us parity with Scotland so that we can press ahead with work to empower and strengthen our economy, and to empower and strengthen our communities and the position of families across Wales as a result.

17:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the five amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 5 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 5 will be deselected. I call on Peter Black to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Os yw gwelliant 1 yn cael ei dderbyn, caiff gwelliannau 2, 3 a 5 eu dad-ddethol. Os yw gwelliant 2 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 3 a 5 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*1. Yn cydnabod canfyddiadau Comisiwn Holtham fod fformiwla Barnett yn tanwario ar Gymru o ryw £300 miliwn y flwyddyn.*

*1. Recognises the findings of the Holtham Commission that the Barnett formula underfunds Wales by some £300 million per year.*

*2. Yn credu y dylai Cymru gael ei hariannu'n deg.*

*2. Believes that Wales should be funded fairly.*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i:*

*3. Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to:*

*a) comisiynu diweddariad o ddadansoddiad Comisiwn Holtham;*

*a) commission an update of the Holtham Commission's analysis;*

*b) sefydlu llawr Barnett ar unwaith; ac*

*b) immediately entrench a Barnett floor; and*

*c) cynyddu'r grant bloc i lefel teg i sicrhau cyllid teg i Gymru.*

*c) increase the block grant to an equitable level to ensure fair funding for Wales.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

17:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendment 1 in the name of Aled Roberts?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi gynnig gwelliant 1 yn enw Aled Roberts?

I listened very carefully to what Alun Ffred Jones has just said and I was a bit puzzled, in a sense, because at the end of his contribution, he effectively said to us that we should either reform the Barnett formula or give Wales what Scotland is having, which is actually not what the motion says. What the motion says point blank is that we should get the extra £1.2 billion. It doesn't talk at all about reforming the Barnett formula. In fact, it talks about casting the Barnett formula to one side and casting any funding formula to one side and, effectively, giving us that extra £1.2 billion. So, clearly, Alun Ffred has very carefully couched his words, but it isn't the motion in front of us.

Gwrandewais yn astud iawn ar yr hyn y mae Alun Ffred Jones newydd ei ddweud ac roeddwn ychydig yn ddryslyd, ar un ystyr, oherwydd ar ddiwedd ei gyfraniad, dywedodd wrthym, i bob pwrpas, y dylem naill ai ddiwygio fformiwla Barnett neu roi i Gymru yr hyn y mae'r Alban yn ei gael, ac nid dyna y mae'r cynnig yn ei ddweud mewn gwirionedd. Yr hyn y mae'r cynnig yn ei ddweud y bendant yw y dylem gael yr £1.2 biliwn ychwanegol. Nid yw'n sôn o gwbl am ddiwygio fformiwla Barnett. Yn wir, mae'n sôn am roi fformiwla Barnett ar y naill ochr a rhoi unrhyw fformiwla gyllido ar y naill ochr ac i bob pwrpas, roi'r £1.2 biliwn ychwanegol i ni. Felly, yn amlwg, mae Alun Ffred wedi dewis ei eiriau'n ofalus iawn, ond nid dyna yw'r cynnig o'n blaenau.

Alun Ffred also talked about the Barnett floor producing no more funding. In actual fact, that isn't strictly true. But I think it's important to underline the importance of the achievement in getting agreement to that Barnett floor. The coalition Government was actually the first Westminster Government to acknowledge that Wales does not receive the level of funding that we deserve. For this reason, Danny Alexander, when he was the Liberal Democrats' Chief Secretary to the Treasury, announced that the coalition would look positively on introducing a mechanism to protect the Welsh Government's funding by introducing a Barnett floor. Now, that ensures that, as public spending rises, so would the share of funding that comes to Wales, giving us more to spend on vital services. So, effectively, it puts a floor in place so that you don't lose out in terms of—

Soniodd Alun Ffred hefyd nad yw cyllid gwaelodol Barnett yn cynhyrchu mwy o arian. Mewn gwirionedd, nid yw hynny'n hollol wir. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig tanlinellu pwysigrwydd y llwyddiant i gael cytundeb ynghylch cyllid gwaelodol Barnett. Y Llywodraeth glymblaid mewn gwirionedd oedd y Llywodraeth gyntaf yn San Steffan i gydnabod nad yw Cymru yn cael y lefel o arian rydym yn ei haeddu. Am y rheswm hwn, cyhoeddodd Danny Alexander, pan oedd yn Brif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, y byddai'r glymblaid yn edrych yn gadarnhaol ar gyflwyno mecanwaith i ddiogelu cyllid Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno cyllid gwaelodol Barnett. Nawr, mae hynny'n sicrhau, wrth i wariant cyhoeddus gynyddu, y bydd y gyfran o'r arian a ddaw i Gymru hefyd yn cynyddu, gan roi mwy i ni ei wario ar wasanaethau hanfodol. Felly, i bob pwrpas, mae'n rhoi cyllid gwaelodol yn ei le fel na fyddwch ar eich colled o ran—

*Rhodri Glyn Thomas a gododd—*

*Rhodri Glyn Thomas rose—*

17:32 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a second, Rhodri Glyn.

Mewn eiliad, Rhodri Glyn.

[Continues.]—you don't lose out as you would normally when public funding rises in terms of the spend per head. It makes sure that that spend per head remains a constant, which means that we actually have more money to spend on services. So, actually, the Barnett floor is an important prerequisite to making sure that we get a fair funding deal for Wales. Rhodri Glyn.

[Yn parhau.]—fel na fyddwch ar eich colled fel y byddech fel arfer pan fydd cyllid cyhoeddus yn codi o ran gwariant y pen. Mae'n gwneud yn siŵr fod gwariant y pen yn parhau'n gyson, sy'n golygu fod gennym fwy o arian i'w wario ar wasanaethau mewn gwirionedd. Felly, mae cyllid gwaelodol Barnett yn rhagofyniad pwysig i sicrhau ein bod yn cael cytundeb ariannu teg i Gymru. Rhodri Glyn.

17:32 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Joel Barnett said that his understanding, when the Barnett formula was established, was that it was a temporary mechanism to last for a few years, and before a proper mechanism was placed to establish the funding within the UK. Why, 40 years later, are we still talking about tinkering with something that was supposed to be a temporary mechanism?

Dywedodd Joel Barnett mai ei ddealltwriaeth ef, pan sefydlwyd fformiwla Barnett, oedd mai mecanwaith dros dro ydoedd i bara am rai blynyddoedd, a chyn gosod mecanwaith priodol ar gyfer pennu cyllid yn y DU. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, pam rydym yn dal i siarad am chwarae gyda rhywbeth a oedd i fod yn fecanwaith dros dro?

17:33 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm not disagreeing with you on that. I'm sure Barnett, clearly, did say that. What I'm talking about is what was achievable in that coalition Government, where, my party didn't have a majority and we had to negotiate with other parties who were not so keen to do that. And, of course, you know as well as I do the political context in which those discussions took place.

Wel, nid wyf yn anghytuno â chi ar hynny. Rwy'n siŵr fod Barnett wedi dweud hynny, yn amlwg. Yr hyn rwy'n siarad amdano yw beth y gellid bod wedi ei gyflawni yn y Llywodraeth glymblaid, lle nad oedd gan fy mhlaid fwyafrif a lle bu'n rhaid i ni drafod gyda phleidiau eraill nad oeddent mor awyddus i wneud hynny. Ac wrth gwrs, fe wyddoch gystal â minnau am gyd-destun gwleidyddol y trafodaethau hynny.

Certainly, when Alun Ffred claims that nothing has been done in the last five years, that simply isn't true. We've had the Silk commission, which led the Wales Act 2014 through Parliament and set up the next steps for devolution with the St David's Day command paper. The Welsh Liberal Democrats and the Liberal Democrats actually still have a commitment to reforming the Barnett formula to ensure fair funding for Wales, and, of course, we did have that Barnett floor agreement, which has been put in place there. Even Gerry Holtham acknowledges—

Yn sicr, pan fydd Alun Ffred yn honni nad oes dim wedi cael ei wneud yn y pum mlynedd diwethaf, yn syml iawn nid yw hynny'n wir. Rydym wedi cael comisiwn Silk, a arweiniodd Ddeddf Cymru 2014 drwy'r Senedd a phennu'r camau nesaf ar gyfer datganoli gyda phapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn gwirionedd yn parhau'n ymrwymedig i ddiwygio fformiwla Barnett er mwyn sicrhau trefniadau ariannu teg i Gymru, ac wrth gwrs, roedd gennym y cytundeb ar gyllid gwaelodol Barnett a roddwyd yn ei le yno. Mae hyd yn oed Gerry Holtham yn cydnabod —

17:34 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

17:34 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, let me just finish my point; I want to make some progress on this.

Na, gadewch i mi orffen fy mhwynt; rwyf am symud ymlaen rhywfaint ar hyn.

Even Gerry Holtham acknowledges that the £300 million funding gap, which he recognised in his report, may well have changed now, and I think it's important to understand that this is not a fixed sum of underspend; this is moveable depending on the way that public spending moves, as well.

Mae hyd yn oed Gerry Holtham yn cydnabod y gallai'r bwlch cyllido o £300 miliwn y tynnodd sylw ato yn ei adroddiad fod wedi newid erbyn hyn, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig deall nad swm sefydlog o danwariant yw hwn; mae'n symudol, yn dibynnu ar ba ffordd y mae gwariant cyhoeddus hefyd yn symud.

I just wanted to come to the motion itself. I think there are two contradictions in Plaid Cymru's stance on this issue. The first one, of course, is that here is a party that is in favour of independence, asking for more money from the UK Government. You can't have independence and also have the begging bowl out saying, 'We want more money'; you either make the choice, move forward with independence, or you accept that we're going to be part of the UK, in which case, you have to work with the funding itself.

Roeddwn i eisiau dod at y cynnig ei hun. Rwy'n credu bod dau beth sy'n gwrth-ddweud ei gilydd yn safbwynt Plaid Cymru ar y mater hwn. Y cyntaf, wrth gwrs, yw bod yma blaid sydd o blaid annibyniaeth yn gofyn am fwy o arian gan Lywodraeth y DU. Ni allwch gael annibyniaeth ac estyn y bowlen gardota hefyd, a dweud, 'Rydym am gael mwy o arian'; rydych chi naill ai'n gwneud y dewis, yn symud ymlaen gydag annibyniaeth, neu rydych yn derbyn ein bod yn mynd i fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig, ac os felly, rhaid i chi weithio gyda'r arian ei hun.

The other contradiction, and this is a very important point, in my view, is that what we are being asked to do in this motion and in terms of Plaid Cymru's stance since they started this claim that we need £1.2 billion—. Effectively, Plaid Cymru is asking us to take the view that we no longer have any formula at all, whether it be based on need or otherwise. Instead, what we are being asked to do is to enter a bidding war with the other elements of the United Kingdom for funding, so, if Scotland gets £1.2 billion more, then we need to have £1.2 billion more, and then Scotland or maybe the north of England says, 'We need this.' So, we are actually being asked to enter into a barter for funding as opposed to a logical allocation of funds, as you would expect in any country that has got devolved administrations, and, certainly, if you had a federal structure, you would have a proper funding organisation there to actually allocate funding on the basis of need.

Y peth arall a oedd yn gwrth-ddweud, ac mae hwn yn bwynt pwysig iawn yn fy marn i, yw bod yr hyn y mae gofyn i ni wneud yn y cynnig hwn ac o ran safbwynt Plaid Cymru am mai hwy a ddechreuodd yr honiad fod angen £1.2 biliwn arnom—. I bob pwrpas, mae Plaid Cymru yn gofyn i ni fod o'r farn nad oes gennym unrhyw fformiwla o gwbl bellach, boed yn seiliedig ar angen neu fel arall. Yn lle hynny, yr hyn y gofynnir i ni ei wneud yw cystadlu ag elfennau eraill o'r Deyrnas Unedig am gyllid, felly, os yw'r Alban yn cael £1.2 biliwn yn fwy, yna mae angen i ni gael £1.2 biliwn yn fwy, ac yna mae'r Alban neu ogledd Lloegr efallai yn dweud, 'Rydym angen hyn.' Felly, gofynnir i ni gystadlu am gyllid mewn gwirionedd yn hytrach na dyrannu cronfeydd yn rhesymegol, fel y byddech yn ei ddisgwyl mewn unrhyw wlad sydd â gweinyddiaethau datganoledig, ac yn sicr, pe bai gennych strwythur ffederal, byddai gennych sefydliad cyllido priodol yno i ddyrannu cyllid ar sail angen.

My commitment and my party's commitment is still to make sure that we have a funding formula based on need, and a funding formula that treats all parts of the United Kingdom fairly, based on their needs. It isn't a question of, effectively, who shouts the loudest gets the most money; it's about making sure that that money is allocated properly and fairly, and that it is based on what the country actually needs. I think that Plaid Cymru are leading us down a blind alley here in terms of their proposal and are putting us in a position whereby Wales will actually end up worse off because we do not have the strength to win any bidding war with Scotland or the rest of the UK.

Fy ymrwymiad i ac ymrwymiad fy mhlaid o hyd yw gwneud yn siŵr fod gennym fformiwla ariannu ar sail angen, a fformiwla ariannu sy'n trin pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn deg, yn seiliedig ar eu hanghenion. I bob pwrpas, nid yw'n fater o'r sawl sy'n gweiddi uchaf yn cael fwyaf o arian; mae'n ymwneud â sicrhau bod yr arian yn cael ei ddyrannu'n gywir ac yn deg, a'i fod yn seiliedig ar yr hyn y mae gwlad ei angen mewn gwirionedd. Credaf fod Plaid Cymru yn ein harwain ar gyfeiliorn yma o ran eu cynnig ac yn ein rhoi mewn sefyllfa lle y bydd Cymru yn y pen draw yn waeth ei byd mewn gwirionedd oherwydd nad oes gennym y nerth i ennill unrhyw gystadleuaeth â'r Alban neu weddill y DU.

17:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Finance and Government Business to move formally amendment 2, tabled in her name.

Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig gwelliant 2 yn ffurfiol, a gyflwynwyd yn ei henw.

*Gwelliant 2—Jane Hutt*

*Amendment 2—Jane Hutt*

*Dileu pwyntiau 2 a 3 ac yn eu lle rhoi:*

*Delete points 2 and 3 and replace with:*

*2. Yn nodi bod astudiaethau wedi dod i'r casgliad dro ar ôl tro nad yw Cymru'n cael ei chyllido'n unol â'r angen.*

*2. Notes that repeated studies have found that Wales is underfunded relative to need.*

*3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyllido'n deg drwy weithredu terfyn ariannu isaf sy'n cael cefnogaeth drawsbleidiol.*

*3. Calls on the UK Government to ensure that Wales is funded fairly by implementing a funding floor which has cross-party support.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendments 2 moved.*

17:36

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Formally.

Yn ffurfiol.

17:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Nick Ramsay to move amendments 3, 4 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig gwelliannau 3, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad ar y cyd i asesu anghenion cyllido Cymru.*

*Calls on the Welsh Government and the UK Government to undertake a joint review to assess the funding needs of Wales.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn croesawu cytundeb Dydd Gŵyl Dewi a'r cynlluniau ar gyfer cyllid gwaelodol ar gyfer Cymru.*

*Welcomes the St David's Day agreement and the plans for a funding floor for Wales.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Ym mhwynt 3, dileu 'yr un sail â'r Alban' a rhoi yn ei le 'sail angen, nid y boblogaeth'.*

*In point 3, delete 'same basis as Scotland' and replace with 'basis of need, not population'.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3, 4 a 5.*

*Amendments 3, 4 and 5 moved.*

17:36

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The problem with following Peter Black in these finance debates is you've pretty much covered every area that I was going to, Peter—so, I'll be brief—and very well too. This is a well-worn subject, as Alun Ffred mentioned at the start of this debate. We have had this debate many times, during my tenure as an AM and, before that, other Assembly Members had the debate, and rightly so.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Y broblem gyda dilyn Peter Black yn y dadleuon cyllid hyn yw eich bod wedi cynnwys bob maes roeddwn am ei grybwyll, Peter—felly, byddaf yn gryno—a gwneud hynny'n dda iawn hefyd. Mae hwn yn bwnc y trafodwyd llawer arno, fel y soniodd Alun Ffred ar ddechrau'r ddadl hon. Rydym wedi cael y ddadl hon lawer gwaith yn ystod fy nghyfnod fel AC, a chyn hynny, cafodd Aelodau eraill y Cynulliad y ddadl hon, a hynny'n briodol.

There is no disputing that Wales is underfunded as a result of the Barnett formula and has been since that formula was introduced as a short-term fix in the dying days of the 1970s Labour Government. Yes, the late Lord Barnett didn't envisage a particularly complex formula. He didn't envisage it, because he didn't think that the formula would last that long. I think he believed that it had a shelf life of maybe months until devolution took hold in the late 1970s or early 1980s, which, of course, never happened at the time. Since then, it has resulted in the Barnett squeeze phenomenon to this day. Although, of course, in Scotland, there has been—I was trying to think what the opposite of 'squeeze' was; I suppose it's a Barnett loosening, in some ways. Barnett has been providing Scotland on that population-head base with more money than Scotland would otherwise have received.

Nid oes dadl fod Cymru yn cael ei thanariannu o ganlyniad i fformiwla Barnett a hynny ers cyflwyno'r fformiwla fel ateb tymor byr yn nyddiau olaf Llywodraeth Lafur y 1970au. Yn wir, nid oedd y diweddar Arglwydd Barnett yn rhagweld y byddai'n fformiwla arbennig o gymhleth. Nid oedd yn rhagweld hynny am nad oedd yn meddwl y byddai'r fformiwla yn para'n hir. Rwy'n credu ei fod yn meddwl bod ganddi oes silff o rai misoedd efallai hyd nes y byddai datganoli'n gwreiddio ar ddiwedd yr 1970au neu ddechrau'r 1980au ac wrth gwrs, ni ddigwyddodd hynny ar y pryd. Ers hynny, mae wedi arwain at ffenomen gwasgfa Barnett hyd y dydd heddiw. Er bod yr Alban wedi cael—roeddwn yn ceisio meddwl beth oedd y gwrthwyneb i 'wasgfa'; mae'n debyg mai llaciad Barnett ydyw mewn rhai ffyrdd. Mae Barnett wedi bod yn darparu mwy o arian i'r Alban ar sail poblogaeth nag y byddai'r Alban wedi'i gael fel arall.

If I can just turn to the motion, I think that, whilst there is broad consensus here, point 3 of the motion is confusing, which is why we've tabled an amendment. I don't think we do want Wales to be funded on the same basis as Scotland. I think that we want Wales to be funded on the basis of the need that is here in Wales. We don't believe that the Barnett formula has delivered over the last 40 years or so in the way that it should have, based on that need in Wales. So, I think there's just a confusion with the way that has been phrased, which is why the Welsh Conservatives have put forward the amendment that we have.

Os caf droi at y cynnig, er bod consensws cyffredinol yma, credaf fod pwynt 3 y cynnig yn ddryslyd, a dyna pam y cyflwynwyd gwelliant gennym. Nid wyf yn credu ein bod eisiau i Gymru gael ei hariannu ar yr un sail â'r Alban. Rwy'n meddwl ein bod am i Gymru gael ei hariannu ar sail yr angen sydd yma yng Nghymru. Nid ydym yn credu bod fformiwla Barnett wedi cyflawni yn y ffordd y dylai fod wedi gwneud dros y 40 mlynedd diwethaf, yn seiliedig ar yr angen hwnnw yng Nghymru. Felly, rwy'n credu mai o ran y modd y mae wedi ei eirio'n unig y ceir dryswch, a dyna pam y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno'r gwelliant sydd gennym.

Our amendment 4

Mae ein gwelliant 4

'Welcomes the St David's Day agreement and the plans for a funding floor for Wales'

'yn croesawu cytundeb Dydd Gŵyl Dewi a'r cynlluniau ar gyfer cyllid gwaelodol ar gyfer Cymru'

echoing, in many ways, actually, the Welsh Government's amendment. Of course, that funding floor envisaged by Gerry Holtham originally is not the be-all and end-all. As Peter Black has said, it is not so relevant at a time when the economy is shrinking and at a time when the economy is not growing. But it is vital in ensuring that, as the economy does grow, then, there is not greater convergence towards an average, and that Wales continues to receive the money that it needs. No party wants to see that underfunding getting worse.

gan adleisio gwelliant Llywodraeth Cymru mewn sawl ffordd mewn gwirionedd. Wrth gwrs, nid y cyllid gwaelodol a ragwelwyd gan Gerry Holtham yn wreiddiol yw'r ateb i bob dim. Fel y dywedodd Peter Black, nid yw mor berthnasol ar adeg pan fo'r economi yn crebachu ac ar adeg pan nad yw'r economi yn tyfu. Ond mae'n hanfodol o ran sicrhau nad oes mwy o gydgyfeirio, wrth i'r economi dyfu, tuag at gyfartaledd, a bod Cymru'n parhau i gael yr arian y mae ei angen. Nid oes unrhyw blaid am weld y tanariannu hwnnw'n gwaethygu.

So, we do welcome the UK Conservative Government's commitment, following on from the previous UK coalition Government's commitment, to this reform. Yes, it's true, Alun Ffred: a reform that wasn't delivered during the last five years, but it wasn't delivered over the last 40 years either by successive Governments for varying reasons. Without going over old election phrases, I think there's always a case of fixing the roof when the sun was shining, and perhaps, back in the early 2000s, that would have been an opportune time to have looked at the funding across the whole of the UK and to have given Wales funding on that basis of need. I'm pleased there's a commitment there now, but it is more difficult when we are in a cuts regime. However, that doesn't mean that it shouldn't be done, and there is agreement on that.

Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Geidwadol y DU, yn dilyn ymlaen o ymrwymiad blaenorol Llywodraeth glymblaid y DU i'r diwygiad hwn. Ydy, mae'n wir, Alun Ffred: diwygiad na chafodd ei gyflawni yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond ni chafodd ei gyflawni dros y 40 mlynedd diwethaf ychwaith gan Lywodraethau olynol am resymau amrywiol. Heb fynd i ailadrodd hen frawddegau etholiadol, rwy'n meddwl bod yna bob amser achos o drwsio'r to pan fo'r haul yn tywynnu, ac efallai y byddai'r 2000au cynnar wedi bod yn amser da i edrych ar gyllido ar draws y DU gyfan ac i roi cyllid i Gymru ar sail angen yn y ffordd honno. Rwy'n falch fod ymrwymiad yno erbyn hyn, ond mae'n anos a ninnau mewn cyfundrefn o doriadau. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ddylid ei wneud, ac mae cytundeb ar hynny.

I remember visiting Scotland some years ago, talking to my counterparts in the finance brief there. From the outset of the Scottish Parliament, they really did have a lot of money to spend. They were able to afford a lot of projects that weren't affordable here because of that extra funding. It was quite apparent to me just how important it was for Wales to receive additional money. That said, it is not the be-all and end-all. No matter what money we receive, it's still a case of priorities. We know full well that here over the last 10 years Rhodri Morgan mentioned the structural funding—money that went to west Wales and the Valleys—and said that that could have been better spent. So, even if or when—hopefully 'when'—Wales does get that extra funding, there will then be a case to make sure that that funding does go into the projects that are going to deliver long-term, sustainable growth. So, I would sound a word of caution there.

Rwy'n cofio ymweld â'r Alban rai blynyddoedd yn ôl, a siarad â fy nghymheiriaid yn y briff cyllid yno. O gychwyn cyntaf Senedd yr Alban, roedd ganddynt lawer iawn o arian i'w wario. Roeddent yn gallu fforddio llawer o brosiectau nad oedd yn fforddiadwy yma oherwydd y cyllid ychwanegol. Roedd yn eithaf amlwg i mi pa mor bwysig oedd hi i Gymru gael arian ychwanegol. Wedi dweud hynny, nid dyma'r ateb i bob dim. Ni waeth faint o arian a gawn, mae'n dal i fod yn fater o flaenoriaethau. Rydym yn gwybod yn iawn fod Rhodri Morgan wedi crybwyll y cyllid strwythurol yma dros y 10 mlynedd diwethaf—arian a aeth i orllewin Cymru a'r Cymoedd—ac wedi dweud y gellid bod wedi gwario hwnnw'n well. Felly, hyd yn oed os neu pan—'pan' gobeithio—fydd Cymru yn cael y cyllid ychwanegol hwnnw, bydd yna achos wedyn dros sicrhau bod y cyllid yn mynd tuag at y prosiectau sy'n mynd i gyflawni twf hirdymor cynaliadwy. Felly, byddwn yn argymell gofal yn hynny o beth.

So, I'm pleased to contribute to this debate today, Deputy Presiding Officer. As Alun Ffred said at the outset, we may have some minor disagreements but there is cross-party support for the long-standing problem of the Barnett formula. As the Chancellor of the Exchequer, George Osborne, said before the general election, it is coming towards the end of its life in its current form. I think that a Barnett floor is the way to go. It is not the be-all and end-all, but I think that we need to move forward and get Wales the funding that it needs on the basis of need.

Felly, rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon heddiw, Ddirprwy Lywydd. Fel y dywedodd Alun Ffred ar y cychwyn, efallai ein bod yn anghytuno ynglŷn â mân bethau ond ceir cefnogaeth drawsbleidiol i hen broblem fformiwla Barnett. Fel y dywedodd Canghellor y Trysorlys, George Osborne, cyn yr etholiad cyffredinol, mae'n dod tuag at ddiwedd ei oes yn ei ffurf bresennol. Credaf mai cyllid gwaelodol Barnett yw'r llwybr i'w ddilyn. Nid yw'n ateb i bob dim, ond rwy'n meddwl bod angen i ni symud ymlaen a chael yr arian sydd ei angen ar Gymru ar sail angen.

17:42 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

To be clear, there is no confusion about Plaid Cymru's debate here today: we simply want the best for Wales. That's all we ever do in our national parliament, and that's all we ever demand. If there was to be any allegation of confusion or lack of consistency about this motion today it would be: why aren't we demanding the same as Northern Ireland gets, which is an even more generous deal under the Barnett formula? But we have put ourselves in line with parity with Scotland. What has changed? Well, it's quite simple what's changed: the Barnett formula was a political fix. It was a political fix to prepare the road for devolution—I think Nick Ramsay's right in his recollection there—but it was a political fix to deal with the demands of growing sentiment and nationalism and parties in Scotland and Wales. Plaid Cymru played its role in part of that. For the first time, there was acknowledgement at a UK level that there should be a recognition of needs within the allocation by the Treasury to the constituent nations of the United Kingdom. So, it was an important step in the right direction. But, it has become fossilised, and, as it has fossilised, the gap has grown and the floor, which Holtham rightly acknowledged in his report, has become worse for Wales.

I fod yn glir, nid oes unrhyw ddryswch ynghylch dadl Plaid Cymru yma heddiw: yn syml iawn, rydym am gael y gorau i Gymru. Dyna'r cyfan rydym yn ei wneud yn ein senedd genedlaethol, a dyna'r cyfan rydym yn galw amdano. Pe bai unrhyw honiad o ddryswch neu ddiffyg cysondeb yn perthyn i'r cynnig hwn heddiw, byddai'n ymwneud â pham nad ydym yn mynnu yr un fath ag y mae Gogledd Iwerddon yn ei gael, sy'n fargen hyd yn oed yn fwy hael o dan fformiwla Barnett? Ond rydym wedi anelu at gydraddoldeb â'r Alban. Beth sydd wedi newid? Wel, mae'n eithaf syml beth sydd wedi newid: ateb gwleidyddol oedd fformiwla Barnett. Roedd yn ateb gwleidyddol i baratoi'r ffordd ar gyfer datganoli—rwy'n credu bod cof Nick Ramsay yn iawn yn hynny o beth—ond roedd yn ateb gwleidyddol i ymdrin â galwadau teimladau cynyddol a chenedlaetholdeb a phleidiau yng Nghymru a'r Alban. Chwaraeodd Plaid Cymru ei rôl yn rhan o hynny. Am y tro cyntaf, cafwyd cydnabyddiaeth ar lefel y DU y dylid cydnabod anghenion yn y dyraniad gan y Trysorlys i genhedloedd cyfansoddol y Deyrnas Unedig. Felly, roedd yn gam pwysig yn y cyfeiriad cywir. Ond mae wedi ffosileiddio, ac wrth ffosileiddio, mae'r bwlch wedi tyfu ac mae'r cyllid gwaelodol, a gydnabu Holtham yn gywir yn ei adroddiad, wedi gwaethygu i Gymru.

The change, of course, came on 18 September last year, when the three unionist parties, one of which is still in power in Westminster, decided to preserve the Barnett formula for Scotland. In doing that, they changed the terms of the debate. That's not inconsistency, Peter Black. The terms of the debate were changed by your party leading at the time in Nick Clegg's name—not carved in stone at that stage, but nevertheless carved at the bottom of the front page of the Scottish newspapers, saying that the vow was to preserve Barnett for Scotland in perpetuity. Indeed, the Labour Party, under Jim Murphy, campaigned for that in this last election, saying that Barnett would be there for now and forever. That is why the terms of the debate have changed and the best deal for Wales is no longer some fix to Barnett and is no longer some floor; the best deal for Wales and the current political environment is to press for parity with Scotland. Now, you could make an argument that what is best for the United Kingdom as a whole is a renegotiated needs-based formula for all the constituent parts. We have no objection to that, but that isn't on your table. That's not what is being talked about. That's not what's offered to Scotland. In those circumstances we cannot allow this Assembly to accept anything less than the deal that Scotland gets.

Daeth y newid, wrth gwrs, ar 18 Medi y llynedd, pan benderfynodd y tair plaid unoliaethol, gydag un ohonynt yn dal i fod mewn grym yn San Steffan, i warchod fformiwla Barnett ar gyfer yr Alban. Wrth wneud hynny, maent wedi newid amodau'r ddadl. Nid anghysondeb yw hynny, Peter Black. Newidiwyd amodau'r drafodaeth gan eich plaid chi a oedd yn arwain ar y pryd yn enw Nick Clegg—heb ei gerfio ar graig y pryd hwnnw, ond wedi'i gerfio ar waelod tudalen flaen y papurau newydd yn yr Alban er hynny, yn dweud mai'r adduned oedd diogelu Barnett ar gyfer yr Alban am byth. Yn wir, ymgyrchodd y Blaid Lafur, o dan Jim Murphy, dros hynny yn yr etholiad diwethaf hwn, gan ddweud y byddai Barnett yno yn awr ac am byth. Dyna pam y mae amodau'r ddadl wedi newid a pham nad y fargen orau i Gymru yw rhyw gyweirio ar Barnett na rhyw gyllid gwaelodol; y fargen orau i Gymru a'r amgylchiadau gwleidyddol presennol yw pwyso am gydraddoldeb â'r Alban. Nawr, fe allech ddadlau mai'r hyn sydd orau i'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd yw fformiwla wedi'i hail-drafod ar sail anghenion ar gyfer yr holl rannau cyfansoddol. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i hynny, ond nid ydych yn cynnig hynny. Nid am hynny rydych chi'n siarad. Nid dyna sy'n cael ei gynnig i'r Alban. Yn yr amgylchiadau hynny ni allwn ganiatáu i'r Cynulliad hwn dderbyn unrhyw beth llai na'r fargen y mae'r Alban yn ei chael.

Now, there's been a lot of talk in this debate about the floor, and there was an announcement—not an agreement, but an announcement—on St David's Day about that floor. What we haven't had from the new Government, which has a different composition to the previous Government, is whether that is still going to be adhered to. We were also told that, within 100 days, that would be dealt with and that we'd have a Wales Bill. There is some confusion as to whether that timetable will be kept.

Nawr, bu llawer o sôn yn y ddadl hon am y cyllid gwaelodol, ac roedd cyhoeddiad—nid cytundeb, ond cyhoeddiad—ar Ddydd Gŵyl Dewi am y cyllid gwaelodol hwnnw. Yr hyn nad ydym wedi'i gael gan y Llywodraeth newydd, sydd â chyfansoddiad gwahanol i'r Llywodraeth flaenorol, yw a fydd yn glynu at hynny. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai hynny'n cael ei gyflawni ymhen 100 diwrnod ac y byddai gennym Fil Cymru. Mae rhywfaint o ddryswch ynglŷn ag a fydd yr amserlen honno yn cael ei chadw.

The other political reality that's changed is that the myth that only the Labour Party can stand up against the Tory inequities in Westminster has been blown out of the water on Thursday. The Tories won two seats directly from the Labour Party here in Wales. It is no longer the case to say that only Labour can stand up for Wales. Who stands up for Wales? Of course, Plaid Cymru does, but also this parliament does, and I want to get this parliament's agreement to get the best deal for Wales for the funding, for our people and for our public services. The only way we do that is by at least, if not agreeing with Plaid Cymru's amendment today, agreeing that the work that we've done in the past on Barnett on a cross-party basis now needs to change to reflect that political reality. It would no longer be enough to spend five years arguing for a Barnett floor against the cuts that are coming down from the Tory Government in Westminster. It won't protect my communities, it won't protect the communities you represent in the Labour Party either, and it won't protect the few communities still represented by the Liberal Democrats. We absolutely need to change our argument and we need to put a much more forceful case for fair funding for Wales. If the terms of the debate are that Barnett stays, fair funding for Wales can only mean equity and parity with Scotland.

Y realiti gwleidyddol arall sydd wedi newid yw bod y myth mai'r Blaid Lafur yn unig a all sefyll yn erbyn annhegwch y Torïaid yn San Steffan yn chwilfriw ers dydd Iau diwethaf. Enillodd y Torïaid ddwy sedd yn uniongyrchol oddi wrth y Blaid Lafur yma yng Nghymru. Nid yw bellach yn wir i ddweud mai dim ond Llafur a all sefyll dros Gymru. Pwy sy'n sefyll yn gadarn dros Gymru? Mae Plaid Cymru yn gwneud hynny wrth gwrs, ond mae'r senedd hon yn gwneud hynny hefyd, ac rwyf am gael cytundeb y senedd hon i sicrhau'r fargen orau i Gymru mewn perthynas â'r cyllid, er mwyn ein pobl ac er mwyn ein gwasanaethau cyhoeddus. Yr unig ffordd y gwnawn hynny, hyd yn oed os na chytunwch â gwelliant Plaid Cymru heddiw, yw drwy gytuno o leiaf fod angen i'r gwaith a wnaethom yn y gorffennol ar Barnett ar sail drawsbleidiol newid bellach i adlewyrchu'r realiti gwleidyddol hwnnw. Ni fyddai'n ddigon bellach i ni dreulio pum mlynedd yn dadlau dros gyllid gwaelodol Barnett yn erbyn y toriadau sy'n dod gan Lywodraeth Dorïaidd yn San Steffan. Ni fydd yn amddiffyn fy nghymunedau, ni fydd yn gwarchod y cymunedau rydych chi'n eu cynrychioli yn y Blaid Lafur chwaith, ac ni fydd yn amddiffyn yr ychydig gymunedau sy'n dal i gael eu cynrychioli gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae gwir angen i ni newid ein dadl ac mae angen i ni gyflwyno achos llawer mwy grymus dros gyllid teg i Gymru. Os mai amodau'r ddadl yw bod Barnett yn aros, ni all ariannu teg i Gymru ond olygu tegwch a chydraddoldeb â'r Alban.

Nick Ramsay did say something that was valid, I think, which is we did not fix the roof when the sun shone. But it wasn't just about the fiscal responsibility for Wales. It was also about the devolved responsibilities of this institution, because when we talked in the election about parity with Scotland, we were talking about our power parity as well as fiscal parity. The failure to deal with Barnett, the failure to establish a separate Welsh jurisdiction, the failure on a reserved powers model, and to drag our feet over policing, over welfare and justice devolution to Wales, means that we are also much weaker now in dealing with the changes that are coming from Westminster, which the Scottish Parliament can deal with. Just take the example of the Human Rights Act 1998. Immediately, amendments to the Human Rights Act could be ruled out by the Scottish Government because they knew they had the devolved settlement to do that. We can't do that in Wales, because of our confused devolved settlement and the confusion about the legal jurisdiction.

Dywedodd Nick Ramsay rywbeth a oedd yn ddilys, rwy'n meddwl, sef nad oeddem yn trwsio'r to pan oedd yr haul yn gwenu. Ond nid mater o gyfrifoldeb ariannol dros Gymru yn unig oedd hyn. Roedd hefyd yn ymwneud â chyfrifoldebau datganoledig y sefydliad hwn, oherwydd pan oeddem yn siarad yn yr etholiad am gydraddoldeb â'r Alban, roeddem yn sôn am ein cydraddoldeb o ran pŵer yn ogystal â chydraddoldeb cyllidol. Mae'r methiant i ymdrin â Barnett, y methiant i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, y methiant o ran y model cadw pwerau a'r llusgo traed ynghylch plismona, lles a datganoli cyfiawnder i Gymru, yn golygu ein bod hefyd yn llawer gwannach yn awr wrth ddelio gyda'r newidiadau sy'n dod o San Steffan, newidiadau y mae Senedd yr Alban yn gallu delio â hwy. Cymerwch Ddeddf Hawliau Dynol 1998 er enghraifft. Ar unwaith, gallai Llywodraeth yr Alban ddiystyru diwygiadau i'r Ddeddf Hawliau Dynol am eu bod yn gwybod bod ganddynt y setliad datganoli i wneud hynny. Ni allwn wneud hynny yng Nghymru, oherwydd ein setliad datganoli dryslyd a'r dryswch ynghylch yr awdurdodaeth gyfreithiol.

My time has run out, but my point here today is we need a change of debate and a change of the way we look at this. If we don't do it, we're letting our communities down. This is the point of devolution: to deliver for our communities.

Mae fy amser wedi dod i ben, ond fy mhwynt yma heddiw yw bod arnom angen newid y ddadl a newid y ffordd yr edrychwn ar hyn. Os na wnawn hynny, rydym yn gwneud cam â'n cymunedau. Dyma bwynt datganoli: cyflawni dros ein cymunedau.

17:47

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I just say that I will always stand up for Wales and, more importantly, I'll always stand up for Swansea?

A gaf fi ddweud y byddaf bob amser yn sefyll yn gadarn dros Gymru ac yn bwysicach, byddaf bob amser yn sefyll dros Abertawe?

On the Barnett formula, I want to discuss how it works, why Scotland gets more, change and where next? The Barnett formula has been used since the late 1970s. A formula for allocating funds between the countries of the union goes back to the Goschen formula introduced in the 1880s. The Barnett formula's great strengths, as far as the Treasury's concerned, is it's simple to calculate, and the Treasury decides whether the expenditure is inside or outside the formula, and when it decides if it's inside or outside, it decides how much. So, it's calculated by spending by Government department times percentage involved times relative population. The Treasury decides what percentage is devolved and, more importantly, the Treasury decides what's included and what's excluded. Crossrail was included. High-speed rail is not. It's purely a Treasury decision. The London Olympics were excluded. There is no appeal mechanism. There is no independent arbitration.

Ar fformiwla Barnett, rwyf am drafod sut y mae'n gweithio, pam y mae'r Alban yn cael mwy, newid a lle nesaf? Mae fformiwla Barnett wedi cael ei defnyddio ers diwedd y 1970au. Mae fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid rhwng gwledydd yr undeb yn mynd yn ôl i fformiwla Goschen a gyflwynwyd yn y 1880au. Cryfderau mawr fformiwla Barnett, o ran y Trysorlys, yw ei bod yn syml i'w chyfrifo, ac mae'r Trysorlys yn penderfynu a yw'r gwariant o fewn y fformiwla neu oddi allan iddi, a phan fo'n penderfynu os yw o fewn neu oddi allan i'r fformiwla, mae'n penderfynu o faint. Felly, mae'n cael ei chyfrifo drwy luosi gwariant yn ôl adran o'r Llywodraeth a'r ganran dan sylw a'r boblogaeth gymharol. Mae'r Trysorlys yn penderfynu pa ganran sydd wedi'i datganoli ac yn bwysicach, y Trysorlys sy'n penderfynu beth sydd wedi'i gynnwys a beth sy'n cael ei eithrio. Roedd Crossrail wedi'i gynnwys. Nid yw'r rheilffordd gyflym wedi'i chynnwys. Mae'n benderfyniad i'r Trysorlys yn llwyr. Eithriwyd Gemau Olympaidd Llundain. Ni cheir mecanwaith apelio. Ni cheir cyflafareddu annibynnol.

I am disappointed that the resolution today didn't demand either an office of budget arbitration or another independent body to decide whether any spending should be treated as providing a Barnett consequential and what percentage it should be. Also, we need to see the calculations published, with the opportunity to challenge those we think are unfair.

Rwy'n siomedig nad oedd y penderfyniad heddiw yn galw naill ai am swyddfa cyflafareddu cyllidebol neu gorff annibynnol arall i benderfynu a ddylai gwariant gael ei drin fel un sy'n darparu swm canlyniadol Barnett a pha ganran y dylai fod. Hefyd, mae angen i ni weld y cyfrifiadau a gyhoeddwyd, a chael cyfle i herio'r rhai rydym yn ystyried eu bod yn annheg.

Why does Scotland do better? Or, as Simon Thomas said, why does Northern Ireland do even better? I think that's a debate we need at another time. But, for Scotland, there are four main reasons: different devolved functions, population percentage, its starting point, and if something is in and what percentage is in, how it can differ between Wales and Scotland. Firstly, Scotland has functions, most notably policing, but also several others, devolved to it that are not devolved to Wales. So, it will obviously have more per head under the Barnett formula. Unfortunately, the simplistic calculations currently being used do not take this into account. But, even before the additional devolution to Scotland, Scotland was doing six percentage points better.

Pam y mae'r Alban yn gwneud yn well? Neu fel y dywedodd Simon Thomas, pam y mae Gogledd Iwerddon yn gwneud hyd yn oed yn well wedyn? Rwy'n credu bod honno'n ddadl y mae angen i ni ei chael ar adeg arall. Ond i'r Alban, mae yna bedwar prif reswm: swyddogaethau datganoledig gwahanol, canran y boblogaeth, y man cychwyn, ac os yw rhywbeth wedi'i gynnwys a'r ganran sydd wedi'i chynnwys, sut y gall fod yn wahanol rhwng Cymru a'r Alban. Yn gyntaf, mae gan yr Alban swyddogaethau, gyda phlismona yn fwyaf amlwg o'r rhain, ond nifer o rai eraill hefyd, wedi'u datganoli iddi nad ydynt wedi'u datganoli i Gymru. Felly, bydd yn amlwg yn cael mwy y pen o dan fformiwla Barnett. Yn anffodus, nid yw'r cyfrifiadau syml sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn ystyried hyn. Ond hyd yn oed cyn y datganoli ychwanegol i'r Alban, roedd yr Alban yn gwneud chwe phwynt canran yn well.

Secondly, until recent years, whilst the Welsh population was increasing, the Scottish population was reducing, so that by the time the money was provided there was a population divergence. Relative population change will either increase, as for Scotland, or decrease, as for Wales, the amount per head.

Yn ail, hyd nes y blynyddoedd diwethaf, er bod poblogaeth Cymru yn cynyddu, roedd poblogaeth yr Alban yn lleihau, felly erbyn yr adeg y câi'r arian ei ddarparu, roedd gwahaniaeth yn y boblogaeth. Bydd newid cymharol yn y boblogaeth naill ai'n cynyddu swm y pen, fel yn yr Alban, neu'n ei leihau, fel yng Nghymru.

The most important reason is that Scotland started from a higher initial point. The reason for this I've not got time to go into now, but I think it's something that we really do need to look at. Something that would be simple to do would be to reset the starting point of the formula, so Wales and Scotland, when they have the equivalent devolved services, have the same. A change to a needs-based assessment is not a silver bullet. Many of us have listened to local government expenditure, with a fixed total sum, everybody's convinced: change the formula, we'll do better. Needs-based can either be mainly sparsity or mainly depravation. On sparsity, Wales has nowhere that compares to the Scottish Highlands in terms of sparsity, and on depravation, we have substantial depravation in Glasgow and in parts of Edinburgh.

Y rheswm pwysicaf yw bod yr Alban wedi dechrau o bwynt cychwynnol uwch. Nid oes gennyf amser i fanylu ar y rheswm am hyn yn awr, ond rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth y mae angen i ni edrych arno mewn gwirionedd. Rhywbeth a fyddai'n syml i'w wneud fyddai ailosod man cychwyn y fformiwla, fel bod yr Alban a Chymru, pan fydd ganddynt y gwasanaethau datganoledig cyfatebol, yn cael yr un fath. Nid yw newid i asesiad wedi'i seilio ar anghenion yn ateb i bob dim. Mae llawer ohonom wedi gwrando ar wariant llywodraeth leol, gyda chyfanswm penodol, ac mae pawb yn argyhoeddedig y byddwn yn gwneud yn well o newid y fformiwla. Gellir seilio anghenion yn ôl teneurwydd y boblogaeth yn bennaf neu amddifadedd yn bennaf. O ran teneurwydd y boblogaeth, nid oes gan Gymru unman sy'n cymharu ag Ucheldiroedd yr Alban o ran teneurwydd y boblogaeth, ac o ran amddifadedd, mae yna amddifadedd sylweddol yn Glasgow a rhannau o Gaeredin.

What would I like to see? An immediate resetting of the baseline, for Wales and Scotland to start at the same level with comparable devolved areas, an independent body to decide what is to produce Barnett consequentials and what percentage that should be, and a commission set up to look at needs-based funding, hopefully producing a formula substantially less complicated than the standard spending assessments that local government gets.

Yr hyn yr hoffwn ei weld? Ailosod y llinell sylfaen ar unwaith, er mwyn i Gymru a'r Alban gychwyn ar yr un lefel gyda meysydd datganoledig cymaradwy, corff annibynnol i benderfynu beth sy'n mynd i gynhyrchu symiau canlyniadol Barnett a pha ganran y dylai fod, a sefydlu comisiwn i edrych ar ariannu ar sail anghenion, yn y gobaith o gynhyrchu fformiwla sydd gryn dipyn yn llai cymhleth na'r asesiadau gwariant safonol y mae llywodraeth leol yn eu cael.

17:51

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n amlwg, petai Mike Hedges mewn sefyllfa o awdurdod ar ddiwedd y 1970au, byddai Cymru wedi cael dêl llawer iawn yn well allan o fformiwla Barnett, ac rwy'n siŵr y byddai Abertawe wedi cael consesiwn ychwanegol o fewn y ddêl honno. Rydym ni'n ddiolchgar iddo fe am esbonio yr holl broses i ni, ond mae'n esbonio i ni fformiwla a grëwyd i bara am 18 mis i ddwy flynedd. Dyna oedd y comisiwn a roddwyd i Joel Barnett—mae e'n cyfaddef hynny ei hunan. Mae e wedi bod yn dweud wrthym ni ers degawdau bod y fformiwla wedi hen oroesi ei defnyddioldeb, ond nid oedd neb yn gwrando arno fe. Mae'n drueni, mewn gwirionedd, na chafwyd gwared â fformiwla Barnett cyn marwolaeth yr Arglwydd Barnett yn ddiweddar. Fe fyddai fe ei hun wedi gwerthfawrogi hynny.

It is clear that, had Mike Hedges been in a position of power at the end of the 1970s, Wales would have done much better out of the Barnett formula, and I'm sure that Swansea would have had an additional concession. We are grateful to him for explaining the whole process for us, but he is explaining a formula that was meant to last 18 months to two years. That was the commission given to Joel Barnett—he acknowledges that himself. He has been telling us for decades that the formula has long outlived its usefulness, but no-one was listening to him. It is really a shame that the Barnett formula wasn't replaced before Lord Barnett passed away recently. He himself would have appreciated that.

Ac mae hi'n syndod, mewn gwirionedd, ein bod ni'n trafod, bron i 40 mlynedd yn ddiweddarach, diwygio rhywbeth na fwriadwyd iddo bara—rhywbeth dros dro oedd e. Ac wrth gwrs, mae Cymru wedi dioddef dros y degawdau, ers sefydlu fformiwla Barnett. Fel y dwedodd Mike Hedges, fe ddechreuon ni o sefyllfa lle roedd Cymru mewn sefyllfa llawer iawn gwanach na'r Alban, ac rydym ni wedi dioddef o hynny dros y degawdau. Un o'r pethau sydd wedi diogelu Cymru, wrth gwrs, ydy'r gwaith arloesol a wnaeth y diweddar Athro Phil Williams ym mlynyddoedd cynnar y Cynulliad yma, pan lwyddodd e i ddatgelu i ni rywbeth nad oedd neb yn gwybod, sef bod unrhyw arian allanol oedd yn dod i Gymru yn mynd i mewn i fformiwla Barnett ac roedd e felly yn mynd yn syth yn ôl i'r Trysorlys. Roedd cyllid Cymru yn aros yn union yn yr un fan, beth bynnag a oedd yn dod i Gymru, heblaw am y setliad, a'r setliad wedi ei benderfynu ar fformiwla Barnett.

And it is surprising, to be honest, that we are debating, almost 40 years later, the reform of something that was not intended to last—it was a temporary measure. And, of course, Wales has suffered over the decades, since the inception of the Barnett formula. As Mike Hedges said, we started from a much weaker position than Scotland, and we have suffered as a consequence over the decades. One of the things that has safeguarded Wales, of course, is the work done by the late Professor Phil Williams in the early years of this Assembly, when he managed to reveal something that no-one knew, namely that any money that came to Wales from external sources went in to the Barnett formula, thereby going straight back to the Treasury. Funding for Wales remained where it was, whatever came to Wales, apart from the settlement, with that settlement having been set through the Barnett formula.

Felly, o leiaf, dros y 15 mlynedd diwethaf, rydym ni wedi llwyddo i elwa yn sylweddol o arian o'r Gymuned Ewropeaidd, ac mae'n werth nodi y symiau yma ar hyn o bryd. Pan rydym ni'n sôn am y cyfnod rhwng 2014 a 2020, fe fydd yna ryw €2 biliwn yn dod i ni drwy gronfeydd strwythurol a buddsoddi ERDF ac ESF, yn flynyddol dan y polisi amaeth cyffredinol y mae yna €322 miliwn yn dod i ni drwy biler 1, ac mae piler 2 erbyn hyn, oherwydd y penderfyniad a wnaeth y cyn Weinidog ar biler 2, yn gyfanswm, bellach, o €355 miliwn. Hynny yw, mae hyn yn arian sylweddol iawn, sydd yn dod i Gymru. Rydym ni'n sôn hefyd am raglenni cydweithrediad, er enghraifft, rhwng Iwerddon a Chymru, lle mae yna €80 miliwn yn bodoli, ac felly mae hynny'n cyfateb i ryw €5 biliwn yn y cyfnod yma tan 2020. Ac ar ben hynny, mae yna gronfeydd eraill lle mae modd i Gymru wneud cais am arian ychwanegol, gan gynnwys, erbyn hyn, pecyn Juncker, sydd yn golygu bod y cronfeydd yma yn rhyw €550 miliwn yn flynyddol.

So, over the last 15 years we have at least been able to benefit from significant European Community funding, and it is worth noting the figure here. When we talk of the period between 2014 and 2020, some €2 billion will come here in structural funds and ERDF and ESF investments, annually under the common agricultural policy we receive €322 million under pillar 1, and pillar 2, because of the former Minister's decision on pillar 2, now totals €355 million. Therefore, this is very significant money that comes to Wales. We are also talking about convergence programmes, for example, between Wales and Ireland, where there is some €80 million, so that adds up to some €5 billion in this period up to 2020. And on top of that, there are further funds from which Wales can apply for further funding, including the Juncker package, which means that these funds equate to some €550 million per annum.

Dan yr hen system, fe fyddai'r holl arian hynny wedi dod i mewn trwy Barnett ac yn ôl allan i'r Trysorlys, ac fe fyddai Cymru wedi colli—fel gwnaeth hi cyn dyddiau'r Cynulliad Cenedlaethol—symiau sylweddol o arian. Felly, nid sôn am ddiwygio fformiwla sydd wedi gwasanaethu Cymru yn arbennig o wael dros bron i 40 o flynyddoedd y dylem ei wneud, ond sôn am greu fformiwla sydd wedi'i sylfaenu ar anghenion Cymru, a sicrhau ein bod ni'n cael symiau teilwng o arian o'n bodolaeth ni o fewn y Deyrnas Unedig. Nid oes yna ddim byd anghyson yn hynny, Peter Black. Rydym ni o fewn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, ac mae hawl inni gael ein cyllido yn deg ac yn gyfartal ac yn ôl angen ar sail hynny.

Under the old system, all that money would have come in through Barnett and out again to the Treasury, and Wales would have lost out—as it did pre-National Assembly—on significant sums of money. So, we should not be talking about reforming a formula that has served Wales particularly poorly over nearly 40 years, but about creating a formula based on Welsh needs, ensuring that we receive fair funding as a result of being part of the United Kingdom. There is nothing inconsistent in that, Peter Black. We are within the United Kingdom at present, and we have a right to insist on fair and equitable funding according to need.

17:56

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think I've said a number of times during previous debates that I did not think that the United Kingdom would survive five years of this Conservative Government, and I still remain of that particular view, although we will wait and see what happens. The motion put down really was for a debate that was probably anticipating different circumstances to the ones that we are in, and there is absolutely no doubt that all the opposition parties have got a lot of soul-searching to do because of our failures during that election and the consequences that come from that. Can I also say, in terms of the comments I want to make, that the 'Daily Mail' headline on the day after the general election is probably the first one I've ever agreed with? It said that the outcome was a consequence of an uprising of middle England, and that David Cameron would be a one nation Prime Minister. It was an uprising of middle England, and David Cameron is a one nation Prime Minister; unfortunately, that one nation happens to be middle England.

Rwy'n credu fy mod i wedi dweud sawl gwaith yn ystod dadleuon blaenorol nad oeddwn yn credu y byddai'r Deyrnas Unedig yn goroesi pum mlynedd o'r Llywodraeth Geidwadol hon, ac rwy'n dal o'r farn honno, er y byddwn yn aros i weld beth fydd yn digwydd. Roedd y cynnig a gyflwynwyd ar gyfer y ddadl, yn ôl pob tebyg, yn rhagweld amgylchiadau gwahanol i'r rhai rydym ynddynt mewn gwirionedd, ac nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl nad oes gan yr holl wrthbleidiau lawer o waith hunanholi yn sgil ein methiannau yn ystod yr etholiad a'r canlyniadau a ddaw o hynny. A gaf fi ddweud hefyd, o ran y sylwadau rwyf am eu gwneud, mai pennawd y 'Daily Mail' ar y diwrnod wedi'r etholiad cyffredinol yw'r un cyntaf i mi gytuno ag ef erioed? Dywedai mai gwrthryfel Lloegr ganol a arweiniodd at ganlyniad yr etholiad, ac y byddai David Cameron yn Brif Weinidog un genedl. Gwrthryfel Lloegr ganol ydoedd yn wir, ac mae David Cameron yn Brif Weinidog un genedl; yn anffodus, Lloegr ganol yw'r un genedl honno, yn digwydd bod.

Can I also say that, during the course of that general election campaign, the way the democratic right of Scotland to choose whoever they wanted to vote for was demonised and used as a pawn, playing off English nationalism against Scottish nationalism, or whatever, was an absolute disgrace for any person who wanted to be a Prime Minister for the whole of the United Kingdom? It showed what we know exists: that is, a total lack of any real statesmanship. To then bring in the war-on-Wales element again really highlights the problem. There may well be a majority, but the United Kingdom is not united, and there are many conflicts that you would expect a leader of the UK to actually want to resolve.

A gaf fi ddweud hefyd, yn ystod yr ymgyrch etholiadol honno, fod y ffordd y cafodd hawl ddemocrataidd yr Alban i ddewis pwy bynnag yr oedd am bleidleisio drostynt ei phardduo a'i defnyddio i chwarae cenedlaetholdeb Seisnig yn erbyn cenedlaetholdeb yr Alban, neu beth bynnag, yn warth llwyr ar unrhyw berson sydd am fod yn Brif Weinidog dros y Deyrnas Unedig gyfan? Dangosodd yr hyn y gwyddom ei fod yn bodoli: hynny yw, diffyg llwyr o unrhyw wladweiniaeth go iawn. Mae cyflwyno'r elfen rhyfel ar Gymru wedyn yn amlygu'r broblem mewn gwirionedd. Mae'n bosibl fod yna fwyafrif, ond nid yw'r Deyrnas Unedig yn unedig, ac mae llawer o wrthdaro y byddech yn disgwyl i arweinydd y DU fod yn awyddus i'w ddatrys mewn gwirionedd.

Can I also say that, in terms of the funding issue, I've always said—I think I said it publicly on tv last year, sometime—that I didn't think Barnett could survive 12 months after a general election? I understand all the points that have been made about what was said and what was done prior to the general election and the Scottish referendum as well, but I've always remained convinced of two key points. That is, if we want to look forward, and if we actually want the UK to survive, there has to be a new UK vision. There has to be one that everyone in the UK chooses to buy into, or not to buy into. That should be a matter of free choice. It is the failure to resolve that dysfunction within the constitution, and the lack of any clear vision as to what the purpose of Westminster is—what the purpose of the UK is—that is why we are in the position that we are now in. I think it is also the case that, following on from that, and part and parcel of that, there has to be a funding formula—the only one that is capable of being sustained and surviving—that is fair to all parts of the United Kingdom. So that when, for example, Plaid Cymru said, 'Why shouldn't we have the same funding as Scotland?', they're absolutely right, but it's only half the question. Clearly Wales should have the same base funding formula as Scotland, as should the north of England, as should the north-west. We do not achieve anything by setting one region against country against region—that sort of division, that sort of dog-eat-dog nationalism. That's something that, to me, is actually intolerable, but also it is completely unsustainable for the future, so we do need to stop a certain amount of this posturing. I agree very much with what Gerry Holtham said, because I think he did hit the nail on the head when he referred to the Plaid Cymru position, which, I can understand was a position before a general election, but, quite frankly, I believe lacked any real credibility. He said:

A gaf fi ddweud hefyd, o ran y mater ariannu, rwyf i bob amser wedi dweud—rwy'n meddwl fy mod wedi ei ddweud yn gyhoeddus ar y teledu y llynedd, rywbryd—nad oeddwn yn credu y gallai Barnett oroesi 12 mis ar ôl etholiad cyffredinol? Rwy'n deall yr holl bwyntiau a wnaed am yr hyn a ddywedwyd a'r hyn a wnaed cyn yr etholiad cyffredinol a'r refferendwm yr Alban hefyd, ond rwyf bob amser wedi parhau'n argyhoeddedig o ddau bwynt allweddol. Os ydym am edrych ymlaen, ac os ydym am i'r Deyrnas Unedig oroesi mewn gwirionedd, rhaid cael gweledigaeth newydd ar gyfer y DU. Rhaid cael un y mae pawb yn y DU yn dewis ei chefnogi, neu i beidio â'i chefnogi. Dylai hynny fod yn fater o ddewis rhydd. Y methiant i ddatrys y camweithrediad hwnnw yn y cyfansoddiad, a diffyg gweledigaeth glir ynghylch diben San Steffan—diben y DU—dyna pam ein bod yn y sefyllfa rydym ynddi yn awr. Rwy'n credu ei bod hefyd yn wir, yn dilyn ymlaen o hynny ac yn rhan annatod o hynny, fod yn rhaid cael fformiwla gyllido—yr unig un y gellir ei chynnal ac sy'n goroesi—sy'n deg i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Felly, pan fo Plaid Cymru, er enghraifft, yn dweud 'Pam na ddylem gael yr un cyllid â'r Alban?', maent yn hollol gywir, ond hanner y cwestiwn yn unig yw hwnnw. Yn amlwg, dylai Cymru gael yr un fformiwla cyllido sylfaenol â'r Alban, fel y dylai gogledd Lloegr ei gael, fel y dylai gogledd-orllewin Lloegr ei gael. Nid ydym yn cyflawni dim drwy osod rhanbarth yn erbyn gwlad yn erbyn rhanbarth—y math hwnnw o raniad, y math hwnnw o genedlaetholdeb 'trechaf treisied'. Mae hynny'n rhywbeth na allaf ei oddef mewn gwirionedd, ond mae hefyd yn gwbl anghynaladwy ar gyfer y dyfodol, felly mae angen i ni roi'r gorau i rywfaint o'r agwedd hon. Cytunaf yn fawr iawn â'r hyn a ddywedodd Gerry Holtham, oherwydd credaf ei fod wedi taro'r hoelen ar ei phen pan gyfeiriodd at safbwynt Plaid Cymru, y gallaf ddeall ei bod yn safbwynt cyn yr etholiad cyffredinol, ond a dweud y gwir, credaf ei bod yn brin o unrhyw hygrededd go iawn. Meddai:

'There is no identity of interest between Scotland and Wales. Plaid's naive hero-worship of the SNP is preventing them standing up for Wales's interests as they should.'

'Nid oes diddordeb cyffredin rhwng Cymru a'r Alban. Mae arwraddoliaeth naïf Plaid Cymru o'r SNP yn eu hatal rhag sefyll dros fuddiannau Cymru fel y dylent. '

I think that means that if we really want to stand up for Wales's interest, it can only be on a formula that is fair and equal to everyone—to all of the poor areas that are underfunded, whether it be within England or wherever—and that that formula is the only one that can take us forward. Now, there may be those who don't want to be part of the United Kingdom, and they're perfectly entitled to argue that particular point. I think there is purpose to it, provided the vision is right and provided we have a formula for funding that is fair to everybody within the United Kingdom that we can all buy into.

Credaf fod hynny'n golygu os ydym am sefyll dros fuddiannau Cymru mewn gwirionedd, bydd yn rhaid iddi fod yn fformiwla sy'n deg a chyfartal i bawb—i bob un o'r ardaloedd tlawd sy'n cael eu tanariannu, yn Lloegr neu lle bynnag—ac mai'r fformiwla honno yw'r unig un a all ein symud ymlaen. Nawr, efallai y bydd rhai nad ydynt am fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig, ac mae ganddynt berffaith hawl i ddadlau'r safbwynt hwnnw. Rwy'n meddwl bod pwrpas iddi, ar yr amod bod y weledigaeth yn gywir a bod gennym fformiwla ar gyfer ariannu sy'n deg i bawb yn y Deyrnas Unedig, ac yn un y gall pawb ohonom ei chefnogi.

18:01

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwyf eisiau cadw fy sylwadau y prynhawn yma at gyllido'r gwasanaeth iechyd. Mae yna gydsyniad rhwng arbenigwyr annibynnol a gwleidyddion fod angen cyllid ychwanegol ar y gwasanaeth iechyd hyd at 2020, yma yng Nghymru ac ym mhob gwlad o'r Deyrnas Gyfunol. Yn hyn o beth, mae ymrwymiadau a wnaed yn ystod ymgyrch etholiad y Deyrnas Gyfunol yn mynd i fod yn ddefnyddiol, os cedwir at yr addewidion a wnaed. Tra'n bod ni'n dal o dan gyfundrefn gyllido fformiwla bresennol Barnett, yna fe fydd yn rhaid inni barhau i edrych ar dwf yn y gyllideb iechyd yn Lloegr, drwy arian ychwanegol newydd, er mwyn caniatáu cynnydd sylweddol yng nghyllideb Cymru a chyllideb yr NHS yng Nghymru.

I want to keep my comments this afternoon to the funding of the health service. There is agreement between independent experts and politicians that we need extra funding for the health service up to 2020, here in Wales and in every country in the UK. In this sense, the commitments that were made during the UK election campaign are going to be useful, if we keep to the commitments that were made. While we are still under the current Barnett formula funding system, then we will have to continue to look at growth in the health budget in England, through new, additional money, in order to allow a significant increase in the Welsh budget and the budget of the NHS in Wales.

Mae'r 'gap' ar gyfer cyllido'r NHS yn Lloegr yn mynd i dyfu i fod yn £30 biliwn erbyn 2020—swm sydd wedi cael ei amcanu can brif weithredwr yr NHS yn Lloegr, ac nid oedd un o'r pleidiau gwleidyddol yn Lloegr yn anghytuno gyda'r swm yma. Mae'n bosibl, yn ôl pob tebyg, i gwrdd â £22 biliwn o'r £30 biliwn yma drwy arbedion effeithlonrwydd, ac rŷm ni i gyd yn gwybod pa mor anodd yw'r rheini i'w cyflawni yn yr NHS, ond mae £8 biliwn o wahaniaeth yn parhau yn y ffigurau yma, rhwng yr hyn sydd ei angen a'r hyn sydd yn mynd i fod ar gael. Ym merw'r etholiad, fe wnaeth George Osborne addewid clir a diamod—annisgwyl, o bosibl—i ddarparu £8 biliwn o wariant ychwanegol uwchben chwyddiant erbyn 2020 i'r NHS yn Lloegr. Pan ddaw'r datganiad cyntaf ar wariant yn y sector cyhoeddus gan y Canghellor newydd, yna fe fydd cadw neu beidio at yr ymrwymiad i'r £8 biliwn ychwanegol yma i'r NHS yn brawf cynnar ar allu'r Torïaid i gadw at eu hymrwymiadau etholiadol.

The gap for funding the NHS in England is going to grow to £30 billion by 2020—a sum that has been estimated by the chief executive of the NHS in England, and none of the political parties in England disagreed with that amount. It's possible, in all likelihood, to meet £22 billion of that £30 billion through efficiency savings, and we all know how difficult those are to achieve in the NHS, but there is still an £8 billion difference between the figures, between what is needed and what is likely to be available. In the heat of the election, George Osborne made a clear and unconditional commitment—unexpectedly, possibly—to provide £8 billion in additional funding above inflation by 2020 to the NHS in England. When the first statement on public sector spending is made by the new Chancellor, then adhering or otherwise to the commitment to that additional £8 billion for the NHS will be an early test of the ability of the Tories to keep to their election commitments.

Bron wythnos yn ddiweddarach i'r etholiad, mae'n dal yn rhyfeddod i fi fod cymaint o bobl Cymru a Lloegr wedi pleidleisio o blaid rhaglen mor sylweddol o doriadau i wasanaethau cyhoeddus, ac fe fydd yna sialensiau enfawr i NHS Cymru yn hyn o beth, o ystyried pa mor fawr yw'r NHS fel canran o gyllideb Cymru. Yn ogystal â'r toriadau uniongyrchol sydd yn wynebu'r NHS, mae yna effaith y toriadau anuniongyrchol ar yr NHS, ac mae'n naïf o unrhyw un i feddwl y gall £12 biliwn o doriadau ychwanegol i fudd-daliadau beidio â rhoi pwysau ariannol ar ein gwasanaethau iechyd a gofal dros y blynyddoedd nesaf.

Nearly a week after the election, it's still amazing to me that so many people in Wales and England voted in favour of such a significant programme of cuts to public services, and there will be huge challenges for NHS Wales in this regard, given how big the NHS is as a percentage of the Welsh budget. As well as the direct cuts facing the NHS, there is the impact of indirect cuts on the NHS, and it is naive of anyone to think that £12 billion of additional cuts to benefits won't put financial pressure on our health service and our care services over the next few years.

Felly, mae yna bwysau difrifol iawn yn mynd i fod ar gyllideb yr NHS o nawr tan 2020, pwy bynnag fydd mewn Llywodraeth fan hyn o fis Mai 2016 ymlaen. Nawr, felly, yn fwy nag erioed, mae angen inni uno yn y Cynulliad yma i fynnu tegwch i ariannu gwasanaethau Cymru—tegwch sydd y tu hwnt i fformiwla bresennol Barnett—ac i sicrhau ein bod yn cael ein cyllido yn gyfartal â'r Alban.

So, there will be significant pressure on the NHS budget from now until 2020, whoever is in Government here from May 2016 onwards. Now, more than ever, therefore, we need to unite in this Assembly to demand fair funding for public services in Wales—a fairness that is beyond the current Barnett formula—and to ensure that we are funded equally with Scotland.

18:04 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that one of the great ironies of the Barnett formula is that many of the debates on it recently have given us the impression that it's more discussed than actually understood, and that an invention to find a way through some very difficult parliamentary votes prior to devolution has, in itself, become one of the cornerstones of the debate on the future of devolution. I approach this in a very similar way to my friend and colleague Mick Antoniw: I have no issue with the distribution of funding across the United Kingdom; my main concern is that it's done fairly. What is done in one part of the United Kingdom must be done to another part of the United Kingdom and the formula and the structures by which it's done must be open, transparent and open to scrutiny.

Rwy'n meddwl mai eironi mawr fformiwla Barnett yw bod llawer o'r dadleuon yn ei chylch yn ddiweddar wedi rhoi'r argraff ei bod yn cael ei thrafod gennym yn fwy na'i deall mewn gwirionedd, a bod dyfais i ganfod ffordd drwy rai pleidleisiau seneddol anodd iawn cyn datganoli ynddi ei hun wedi dod yn un o gonglfeini'r ddadl ar ddyfodol datganoli. Rwy'n ystyried hyn mewn ffordd debyg iawn i fy ffrind a fy nghyd-Aelod, Mick Antoniw: nid oes gennyf broblem gyda dosbarthiad cyllid ar draws y Deyrnas Unedig; yr hyn sydd fwyaf o bwys i mi yw ei fod yn cael ei wneud yn deg. Rhaid i'r hyn sy'n cael ei wneud mewn un rhan o'r Deyrnas Unedig gael ei wneud mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig a rhaid i'r fformiwla a'r strwythurau a ddefnyddir i'w wneud fod yn agored, yn dryloyw ac yn agored i'w craffu.

We cannot, I believe, discuss the future of the Barnett formula without discussing how we see the future of funding within the United Kingdom as a whole. I believe that we need to accept the argument that we need to raise funds here ourselves, that we accept the principle of devolving taxation, whether it's devolving some of the smaller taxes we've already seen or some of the more major taxes, such as income tax. I also do not believe that we require a further referendum to do so. The principle of accountability is key for any Government, in any institution, in any part of the system of governance. It's clearly only right that all parts of government take responsibility for raising funds for their own spending plans, but I think we need to take a far more radical approach to how we address some of these issues.

Yn fy marn i, ni allwn drafod dyfodol fformiwla Barnett heb drafod y modd y gwelwn ddyfodol cyllid yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Credaf fod yn rhaid i ni dderbyn y ddadl fod angen i ni godi arian yma ein hunain, derbyn yr egwyddor o ddatganoli trethi, boed yn ddatganoli rhai o'r trethi llai rydym eisoes wedi'i weld neu rai o'r trethi pwysicach, megis treth incwm. Nid wyf ychwaith yn credu ein bod angen refferendwm pellach i wneud hynny. Mae'r egwyddor o atebolrwydd yn allweddol i unrhyw Lywodraeth, mewn unrhyw sefydliad, mewn unrhyw ran o'r system lywodraethu. Mae'n amlwg nad yw ond yn iawn i bob rhan o'r llywodraeth gymryd cyfrifoldeb am godi arian ar gyfer eu cynlluniau gwariant eu hunain, ond rwy'n credu bod angen i ni fabwysiadu ymagwedd lawer mwy radical o ran y modd yr awn i'r afael â rhai o'r materion hyn.

When you devolve the power to raise tax, of course, you also devolve the risk of raising tax. It is right and proper that there is a protection for that built into the system and that we ensure that fairness, redistribution and solidarity between the communities of the United Kingdom is hardwired into how we determine how this is done. I believe that we need to look at a structure of funding in the United Kingdom that is sustainable, not in a unitary state, a pre-devolution unitary state, which is that in which the Barnett formula was created, but in a post-devolution state, where we have home rule parliaments in Wales, Scotland and Northern Ireland, and the United Kingdom Parliament in England, and that funding is devolved and also funding is shared, properly, between those different institutions on a basis that guarantees minimum spending across the whole of the United Kingdom, and does so on the same basis in Blaenau Gwent as it would in Darlington, as it would in Inverness, or in Belfast. That is the key to fairness in ensuring the distribution of wealth and the redistribution of wealth across the United Kingdom.

Pan fyddwch yn datganoli pŵer i godi treth, wrth gwrs, byddwch hefyd yn datganoli'r risg sydd ynghlwm wrth godi treth. Mae'n iawn ac yn briodol fod diogelwch ar gyfer hynny wedi'i ymgorffori yn y system a'n bod yn sicrhau bod tegwch, ailddosbarthu ac undod rhwng cymunedau'r Deyrnas Unedig yn rhan annatod o'r modd yr awn ati i benderfynu sut y gwneir hyn. Credaf fod angen i ni edrych ar strwythur cyllido yn y Deyrnas Unedig sy'n gynaliadwy, nid ar ffurf unedol, ffurf unedol cyn datganoli, y crëwyd fformiwla Barnett arni, ond ar ffurf ôl-ddatganoli, lle y mae gennym seneddau ymreolaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a Senedd y Deyrnas Unedig yn Lloegr, a bod cyllid wedi'i ddatganoli ac wedi'i rannu hefyd, yn briodol, rhwng y gwahanol sefydliadau ar sail sy'n gwarantu gwariant isaf ar draws y Deyrnas Unedig, ac yn gwneud hynny ar yr un sail ym Mlaenau Gwent ag y byddai yn Darlington, ag y byddai yn Inverness, neu yn Belfast. Dyna'r allwedd i degwch o ran sicrhau dosbarthiad cyfoeth ac ailddosbarthu cyfoeth ar draws y Deyrnas Unedig.

We need to ensure that we have the ability to take the risk of raising funding, and the accountability of raising funding, to support our spending plans here in Cardiff. That is right and proper, but we also need to ensure that, at the same time, we reflect the solidarity between the different parts of the United Kingdom. Let me say this: I do hear a lot, 'We need to take this out of London, and that out of London', and the rest of it, and 'We want £1.2 billion, but actually we want independence at the same time'. I don't understand how you square that. You've been very unkind, Simon Thomas, recently, about the intellectual capacities of your leader, but I would suggest that it goes further than simply the leader. I would suggest that you need to take a look at how you see the future for funding structures in the United Kingdom taken forward.

Mae angen i ni sicrhau y gallwn ysgwyddo'r risg sydd ynghlwm wrth godi arian, ac atebolrwydd codi arian, i gefnogi ein cynlluniau gwariant yma yng Nghaerdydd. Mae hynny'n iawn ac yn briodol, ond mae angen i ni sicrhau ar yr un pryd ein bod yn adlewyrchu undod rhwng y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Gadewch i mi ddweud hyn: rwy'n ei glywed yn cael ei ddweud yn aml fod angen i ni fynd â 'r peth hwn allan o Lundain, a mynd â'r peth arall allan o Lundain, ac yn y blaen, a 'Rydym eisiau £12 biliwn, ond mewn gwirionedd rydym eisiau annibyniaeth ar yr un pryd'. Nid wyf yn deall sut rydych yn cysoni hynny. Rydych chi wedi bod yn angharedig iawn, Simon Thomas, yn ddiweddar, ynghylch galluoedd deallusol eich arweinydd, ond byddwn yn awgrymu ei fod yn mynd ymhellach na'r arweinydd yn unig. Byddwn yn awgrymu bod angen i chi edrych i weld sut y gwelwch y dyfodol o ran strwythurau cyllido yn y Deyrnas Unedig.

I think Mike Hedges made the case very, very well that it is not right and proper that the Treasury takes all the decisions on this in the future. This, in the future, has to be a shared responsibility and a shared structure, so that we're both able to be accountable to our different electorates for what we raise, but that together we take decisions about the sharing of wealth that is created in these islands, and that the key way in which we do that ensures that we redistribute from the strong to the weak, from the rich to the poor, and that together as a United Kingdom, we share our wealth equally. Thank you very much.

Rwy'n meddwl bod Mike Hedges wedi cyflwyno'r achos yn dda iawn nad yw'n iawn na'n briodol mai'r Trysorlys sy'n gwneud yr holl benderfyniadau ar hyn yn y dyfodol. Yn y dyfodol, rhaid i hyn fod yn gyfrifoldeb ar y cyd ac yn strwythur ar y cyd, er mwyn i ni allu bod yn atebol i'n gwahanol etholwyr am yr hyn rydym yn ei godi, ond ein bod, gyda'n gilydd, yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhannu'r cyfoeth sy'n cael ei greu ar yr ynysoedd hyn, a bod y ffordd allweddol y byddwn yn gwneud hynny'n sicrhau ein bod yn ailddosbarthu o'r cryf i'r gwan, o'r cyfoethog i'r tlawd, a'n bod, gyda'n gilydd fel Teyrnas Unedig, yn rhannu ein cyfoeth yn gyfartal. Diolch yn fawr iawn.

18:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

18:09

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I do want to start by welcoming this opportunity to respond to this debate on the very important issue of funding for Wales. I continue to welcome the unity this Chamber has regularly shown in debates, with our unanimous call for Wales to be fairly funded, and I hope we can reaffirm that unity today. There can be no doubt in Whitehall about the strength of public, not just political feeling in Wales. The case for funding reform is indisputable. The failings of the Barnett formula have been universally recognised by everyone who's cared to look at it—the Holtham commission, the House of Lords, the House of Commons' Justice Committee and numerous academic studies. The conclusion from these studies is clear: the Barnett formula does not serve Wales well. And, everyone in this Chamber recognises that Wales is unfairly funded. You only have to look, as we have said this afternoon, through the authoritative report from the Holtham commission—which we commissioned, the Welsh Government commissioned—to see by how much we are unfairly funded and, indeed, the relative position as far as Scotland is concerned.

Rwyf am ddechrau drwy groesawu'r cyfle hwn i ymateb i'r ddadl ar fater hynod o bwysig, sef cyllid ar gyfer Cymru. Rwy'n parhau i groesawu'r undod y mae'r Siambr hon wedi ei ddangos yn gyson mewn dadleuon, gyda'n galwad unfrydol ar i Gymru gael ei hariannu'n deg, ac rwy'n gobeithio y gallwn gadarnhau'r undod hwn heddiw. Ni all fod unrhyw amheuaeth yn Whitehall ynghylch cryfder y teimlad cyhoeddus yng Nghymru, ac nid y teimlad gwleidyddol yn unig. Mae'r achos dros ddiwygio'r drefn gyllido yn ddiamheuol. Mae methiannau fformiwla Barnett wedi cael eu cydnabod yn gyffredinol gan bawb sydd wedi edrych ar y mater—comisiwn Holtham, Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin a nifer o astudiaethau academaidd. Mae casgliadau'r astudiaethau hyn yn glir: nid yw fformiwla Barnett yn gwasanaethu Cymru yn dda. Ac mae pawb yn y Siambr hon yn cydnabod bod Cymru yn cael ei chyllido'n annheg. Nid oes ond raid i chi edrych, fel rydym wedi dweud y prynhawn yma, drwy adroddiad awdurdodol comisiwn Holtham—a gomisiynwyd gennym, a gomisiynodd Llywodraeth Cymru—i weld i ba raddau y cawn ein hariannu'n annheg ac yn wir, y sefyllfa gymharol mewn perthynas â'r Alban.

But, what we need to focus on is delivering the case for Wales fairly, with clarity and with respect to all parts of the UK in terms of need and evidence. Nick Ramsay started by acknowledging this point in his contribution. Of course we must support more money for public services across Wales, and indeed in the rest of the UK, as Mick Antoniw has spoken about so eloquently this afternoon in this debate—when he talks about his new UK vision, he talks about not the middle England one nation, he talks about not one region or country against another—and Alun Davies also picked up on this.

Ond yr hyn y mae angen i ni ganolbwyntio arno yw cyflwyno'r achos dros Gymru yn deg, gydag eglurder a pharch i bob rhan o'r DU o safbwynt yr angen a'r dystiolaeth. Dechreuodd Nick Ramsay drwy gydnabod y pwynt hwn yn ei gyfraniad. Wrth gwrs mae'n rhaid i ni gefnogi mwy o arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, a gweddill y DU yn wir, fel y nododd Mick Antoniw mor huawdl y prynhawn yma yn y ddadl hon—pan fo'n sôn am ei weledigaeth newydd ar gyfer y DU, nid yw'n sôn am un genedl Lloegr ganol, nid yw'n sôn am un rhanbarth neu wlad yn erbyn y llall—a chyfeiriodd Alun Davies at hyn hefyd.

Dirprwy Lywydd, the new UK Government has already signalled that cuts of £12 billion from welfare budgets and £13 billion from departmental budgets will go ahead. There is a sense of dread about what this will mean for the poor, the vulnerable and those in low-paid, insecure employment. You will have seen the headlines: cuts will hit those benefit claimants of working age. Of course, Alun Ffred Jones, you highlighted this so clearly in your opening remarks today in moving this debate. Significant further pressures on our public services—Elin Jones drew attention to this in terms of the health service. So, as the UK Government outlines its spending plans—and we look forward to the first statement from the Chancellor outlining this, clarifying how this is going to be taken forward, the impacts for us in Wales will become clear—we need to guarantee, of course, that fair funding deal for Wales. Because it's essential that we resolve the fair funding issue, first and foremost for the future funding of our essential public services, but also to enable us to plan and manage our future tax responsibilities.

Ddirprwy Lywydd, mae Llywodraeth newydd y DU eisoes wedi nodi y bydd toriadau o £12 biliwn i gyllidebau lles a £13 biliwn i gyllidebau adrannol yn mynd rhagddynt. Mae yna ymdeimlad o ofn ynglŷn â beth fydd hyn yn ei olygu i'r tlawd, y bregus a'r rhai mewn cyflogaeth ansicr, ar gyflogau isel. Fe fyddwch wedi gweld y penawdau: bydd toriadau yn taro hawlwyr budd-daliadau o oedran gweithio. Wrth gwrs, Alun Ffred Jones, fe dynnoch chi sylw mor eglur at hyn yn eich sylwadau agoriadol heddiw wrth gyflwyno'r ddadl hon. Pwysau pellach sylweddol ar ein gwasanaethau cyhoeddus—tynnodd Elin Jones sylw at hyn mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd. Felly, wrth i Lywodraeth y DU amlinellu ei chynlluniau gwariant—ac edrychwn ymlaen at y datganiad cyntaf gan y Canghellor yn amlinellu hyn, gan egluro sut y mae'n mynd i gael ei ddatblygu. Daw'r effeithiau arnom ni yng Nghymru yn dod yn glir—mae angen i ni sicrhau'r fargen gyllido deg honno i Gymru wrth gwrs. Oherwydd mae'n hanfodol ein bod yn datrys mater ariannu teg, yn gyntaf ac yn bennaf er mwyn cyllido ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn y dyfodol, ond hefyd er mwyn ein galluogi i gynllunio a rheoli ein cyfrifoldebau treth yn y dyfodol.

So, we've got two main shared objectives. First, the floor. We must have a floor to address the underfunding of Welsh public services, which Gerry Holtham identified in his reports. Secondly, we must halt any risk of future convergence in Welsh relative funding. Now's the time for the new UK Government to act, and I do welcome the assurances that were given to our First Minister, Carwyn Jones, by the Prime Minister, that he expects to see a Wales Bill in the first Queen's Speech.

Felly, rydym yn rhannu dau brif amcan. Yn gyntaf, y cyllid gwaelodol. Mae'n rhaid i ni gael cyllid gwaelodol er mwyn mynd i'r afael â thanariannu gwasanaethau cyhoeddus Cymru, a nodwyd gan Gerry Holtham yn ei adroddiadau. Yn ail, mae'n rhaid i ni atal unrhyw risg o gydgyfeirio ar gyllid cymharol i Gymru yn y dyfodol. Yn awr yw'r amser i Lywodraeth newydd y DU weithredu, ac rwy'n croesawu'r sicrwydd a roddwyd i Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, gan y Prif Weinidog, ei fod yn disgwyl gweld Bil Cymru yn Araith gyntaf y Frenhines.

Let's look at what has been achieved. As Peter Black quite rightly said, we have achieved a great deal of consensus and we have made an impact. In 2012, the UK Government recognised for the very first time, in a joint UK and Welsh Government statement, that there has been convergence in Welsh funding since devolution, and that convergence is a significant concern in Wales. I have to say, this was a major achievement to get Treasury—and that's who we had to get on board—to recognise it; it needed the political will. It was a Conservative Secretary of State for Wales, a Liberal Democrat Chief Secretary of the Treasury and a Labour finance Minister in Wales who actually announced that joint statement. Importantly, in that statement, the UK Government also recognised that there is very likely to be further convergence in the future, as soon as funding increases. In March, the Prime Minister finally recognised that there is a problem with Barnett in Wales. As Peter Black has clearly identified, we have the solution to the problem; one that's been supported by all parties in this Chamber. You talk about it as a prerequisite—that's right, Peter Black—to get the settlement where funding is related to our needs, with a funding floor that thwarts convergence. So, the case to stop future convergence and secure a funding floor is one that stands in its own right.

Gadewch i ni edrych ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni. Fel y dywedodd Peter Black yn gwbl briodol, rydym wedi sicrhau llawer iawn o gonsensws ac rydym wedi cael effaith. Yn 2012, mewn datganiad ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, cydnabu Llywodraeth y DU am y tro cyntaf erioed y bu cydgyfeirio ar gyllid i Gymru ers datganoli, a bod cydgyfeirio yn destun cryn bryder yng Nghymru. Mae'n rhaid i mi ddweud, roedd hwn yn gyflawniad mawr i gael y Trysorlys i gydnabod hyn, gan mai dyna pwy oedd yn rhaid i ni eu cael i gytuno; roedd angen yr ewyllys wleidyddol. Ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol Cymru, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys o blith y Democratiaid Rhyddfrydol a Gweinidog cyllid Llafur yng Nghymru a gyhoeddodd y datganiad ar y cyd mewn gwirionedd. Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth y DU wedi cydnabod yn y datganiad hwnnw hefyd ei bod yn debygol iawn y bydd cydgyfeirio pellach yn y dyfodol, cyn gynted ag y bydd y cyllid yn cynyddu. Ym mis Mawrth, cydnabu'r Prif Weinidog o'r diwedd fod problem gyda Barnett yng Nghymru. Fel y mae Peter Black wedi ei nodi'n glir, mae gennym yr ateb i'r broblem; un sydd wedi ei gefnogi gan bob plaid yn y Siambr hon. Rydych yn sôn am y peth fel rhagofyniad—mae hynny'n gywir, Peter Black—i gael y setliad lle y mae cyllid yn gysylltiedig â'n hanghenion, gyda chyllid gwaelodol sy'n atal cydgyfeirio. Felly, mae'r achos i atal cydgyfeirio yn y dyfodol a sicrhau cyllid gwaelodol yn un sy'n sefyll ohono'i hun.

I think we've got to move on today, and this is why this debate is very useful and very timely, because I welcome the commitment from the Secretary of State for Wales to bring fair funding to Wales, and I'm encouraged that he's already discussed this with the Prime Minister. Over the coming weeks, I'm going to re-enter negotiations with the UK Government to secure a fair funding deal for Wales. I'll outline exactly what we hope to secure as an outcome from those negotiations, and I need you behind me across the Chamber as I move into those negotiations, because we need a funding settlement that aligns our budget to the needs of the people of Wales. The evidence is clear. Now is the time for positive action. I'll be pressing hard to secure what Wales deserves—nothing more and nothing less. As I said, what we need now is unity and clarity from this Chamber. Simon Thomas, we all agree, I think, that we need what is best for Wales. Being clear on what we're seeking is our strongest card with the UK Government.

Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni symud ymlaen heddiw, a dyma pam y mae'r ddadl hon yn ddefnyddiol iawn ac yn amserol iawn, oherwydd rwy'n croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddod ag ariannu teg i Gymru, ac rwy'n falch ei fod eisoes wedi trafod hyn gyda'r Prif Weinidog. Dros yr wythnosau nesaf, rwy'n mynd i ailgychwyn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ariannu teg i Gymru. Byddaf yn amlinellu beth yn union rydym yn gobeithio ei sicrhau o ganlyniad i'r trafodaethau hynny, ac rwyf angen eich cefnogaeth ar draws y Siambr wrth i mi symud at y trafodaethau hynny, oherwydd mae angen setliad ariannu sy'n sicrhau bod ein cyllideb yn cyd-fynd ag anghenion pobl Cymru. Mae'r dystiolaeth yn glir. Yn awr yw'r amser i weithredu'n gadarnhaol. Byddaf yn pwyso'n galed i sicrhau'r hyn y mae Cymru yn ei haeddu—dim mwy a dim llai. Fel y dywedais, yr hyn rydym ei angen yn awr yw undod ac eglurder yn y Siambr hon. Simon Thomas, rydym i gyd yn cytuno, rwy'n credu, ein bod angen yr hyn sydd orau i Gymru. Bod yn glir ynglŷn â'r hyn rydym yn ei geisio sy'n mynd i roi fwyaf o gryfder i ni gyda Llywodraeth y DU.

So, finally, there are elements of the amendments that I support. I welcome the recognition from the Welsh Conservatives and Liberal Democrats in their amendments that funding should be determined by need. Simon Thomas has also recognised that in his contribution today. That's the central element to a funding floor. I know that many in this Chamber, particularly the Liberal Democrats, would support another review of Welsh needs, but the evidence is already clear and I would maintain that what we now need is action, not another review. We need a funding settlement that is fair to Wales and fair to the rest of the UK. Also, in my role as finance Minister, of course, I have other tasks to do in securing the funding that we need from the Juncker package, from the City Deal, from innovative finance, to boost our infrastructure and our economy.

Felly, yn olaf, mae yna elfennau o'r gwelliannau rwy'n eu cefnogi. Rwy'n croesawu'r gydnabyddiaeth gan y Ceidwadwyr Cymreig a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn eu gwelliannau y dylai arian gael ei bennu yn ôl yr angen. Mae Simon Thomas hefyd wedi cydnabod hynny yn ei gyfraniad heddiw. Dyna elfen ganolog cyllid gwaelodol. Gwn y byddai llawer yn y Siambr hon, yn enwedig y Democratiaid Rhyddfrydol, yn cefnogi adolygiad arall o anghenion Cymru, ond mae'r dystiolaeth eisoes yn glir a byddwn yn honni mai'r hyn sydd ei angen arnom bellach yw gweithredu, nid adolygiad arall. Mae arnom angen setliad ariannu sy'n deg i Gymru ac sy'n deg i weddill y DU. Hefyd, yn fy rôl fel Gweinidog cyllid, wrth gwrs, mae gen i dasgau eraill i'w gwneud yn sicrhau'r cyllid sydd ei angen arnom o becyn Juncker, o'r Cynnig Dinas, o gyllid arloesedd, i roi hwb i'n seilwaith a'n heconomi.

So, as the new Government settles in Westminster, let's outline what Wales wants with a clear motion that is reflective of the amendments that have been put forward, which I urge all parties to accept, that the National Assembly for Wales recognises that the Barnett funding formula is not in the best interests of Wales, notes that repeated studies have found that Wales is underfunded relative to need, and calls on the UK Government to ensure that Wales is funded fairly by implementing a funding floor that has cross-party support. I move.

Felly, wrth i'r Llywodraeth newydd sefydlu yn San Steffan, gadewch i ni amlinellu beth y mae Cymru ei eisiau gyda chynnig clir sy'n adlewyrchu'r gwelliannau a gyflwynwyd yr anogaf bob plaid i'w derbyn, fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod nad yw fformiwla cyllido Barnett er budd gorau Cymru, gan nodi bod astudiaethau niferus wedi canfod bod Cymru yn cael ei thanariannu o gymharu â'r angen, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru'n cael ei hariannu'n deg drwy weithredu cyllid gwaelodol gyda chefnogaeth drawsbleidiol. Rwy'n cynnig y cynnig.

18:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Alun Ffred Jones to reply to the debate.

Ac Alun Ffred Jones i ymateb i'r ddadl.

18:17 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Thank you to everybody who's contributed this afternoon. We've heard a lot about fairness this afternoon, and we've witnessed a great deal of political timidity as well at the same time. In the debate, after my opening remarks, Peter Black accused me of confusion. I am easily confused—[Laughter.]—but what I'm not confused about is that Wales has been let down and has been underfunded for decades. Peter Black then went on to say that Danny Alexander had promised that he'd introduce a Barnett floor. And then nothing happened, of course. That's the problem. Even when people concede things, nothing happens. Even a diluted Silk has been bundled into the long grass, as far as I can see.

Diolch yn fawr. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu y prynhawn yma. Rydym wedi clywed llawer am degwch y prynhawn yma, ac rydym wedi gweld llawer iawn o ofnusrwydd gwleidyddol yn ogystal ar yr un pryd. Yn y ddadl, ar ôl fy sylwadau agoriadol, cyhuddodd Peter Black fi o ddryswch. Rwy'n drysu'n hawdd—[Chwerthin.]— ond yr hyn nad wyf i'n drysu yn ei gylch yw bod Cymru wedi cael cam ac nad yw wedi cael ei hariannu'n ddigonol ers degawdau. Aeth Peter Black ymlaen i ddweud bod Danny Alexander wedi addo y byddai'n cyflwyno cyllid gwaelodol Barnett. Ac yna ni ddigwyddodd dim, wrth gwrs. Dyna'r broblem. Hyd yn oed pan fydd pobl yn ildio pethau, nid oes dim yn digwydd. Mae hyd yn oed Silk a wanhawyd wedi cael ei wthio o'r neilltu, hyd y gwelaf.

Simon Thomas answered the point that Peter Black made that, yes, everybody's in favour of a formula based on need—everybody's in favour of this. But that was ditched by the coalition in the vow in Scotland. That's the long and short of it. So, since Barnett is not on the table to be reviewed, then let's have parity with Scotland. What's wrong with asking for that? Do people not want that? Don't you want the means to be able to serve our communities better? Are you happy with the present situation?

Atebodd Simon Thomas y pwynt a wnaeth Peter Black fod pawb, yn wir, o blaid fformiwla sy'n seiliedig ar angen—mae pawb o blaid hyn. Ond bwriwyd hynny heibio gan y glymblaid yn yr adduned yn yr Alban. Dyna fel y mae hi yn y bôn. Felly, gan nad oes bwriad i adolygu Barnett, gadewch i ni fod yn gydradd â'r Alban. Beth sydd o'i le ar ofyn hynny? Onid yw pobl eisiau hynny? Onid ydych eisiau'r modd i allu gwasanaethu ein cymunedau yn well? A ydych yn hapus â'r sefyllfa bresennol?

Now then, according to Nick Ramsay, Wales should be funded according to need. He repeats the phrase, but, unfortunately, that's not been delivered by a succession of Governments in London. And it seems that the defence is, 'Well, we didn't do it, but neither did anybody else, and that's it—tough—you'll just have to live with it'. And I'm afraid, Nick, this is not a minor disagreement. It is fairly fundamental in terms of the way Wales has been governed and will be governed over the next five years.

Nawr 'te, yn ôl Nick Ramsay, dylai Cymru gael ei hariannu yn ôl angen. Mae'n ailadrodd y frawddeg, ond yn anffodus, ni chyflawnwyd hynny gan gyfres o Lywodraethau yn Llundain. Ac mae'n ymddangos mai'r amddiffyniad yw, 'Wel, ni wnaethom hynny, ond ni wnaeth unrhyw un arall, a dyna ni—anodd—ond bydd yn rhaid i chi fyw gyda'r peth'. Ac yn anffodus, Nick, nid anghytundeb bach yw hwn. Mae'n weddol sylfaenol o ran y ffordd y mae Cymru wedi cael ei llywodraethu a'r modd y caiff ei llywodraethu dros y pum mlynedd nesaf.

18:19 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thanks for giving way. You're being very mischievous there, Ffred. You know that I did say that change hasn't happened over successive Governments, but I also said that we do need to have change, and the Welsh Conservatives agree with the basic premise of that. So, I'm not trying to defend the current situation without change.

Diolch am ildio. Rydych yn bod yn ddireidus iawn yno, Ffred. Rydych yn gwybod fy mod wedi dweud nad oes newid wedi digwydd dros Lywodraethau olynol, ond dywedais hefyd fod angen i ni gael newid, ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cytuno â'r cynsail sylfaenol hwnnw. Felly, nid wyf yn ceisio amddiffyn y sefyllfa bresennol heb newid.

18:19 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm very pleased to hear that, and this is your great opportunity. You can strike a blow for Wales by changing the formula, or at least getting perhaps parity with Scotland, and you would be in government forever here, probably. [Laughter.]

Wel, rwy'n falch iawn o glywed hynny, a dyma'ch cyfle gwych. Gallwch daro ergyd dros Gymru drwy newid y fformiwla, neu o leiaf sicrhau cydraddoldeb â'r Alban efallai, a byddech mewn grym am byth yma, yn ôl pob tebyg. [Chwerthin.]

18:19 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh no, not forever. [Laughter.]

O na, nid am byth. [Chwerthin.]

18:19 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. I take my words back. Okay.

Iawn. Rwy'n tynnu fy ngeiriau yn ôl. Iawn.

Mike Hedges said that simplicity was the strength of the Barnett formula, and then proceeded to explain it in a manner that left me gasping for breath by the end. Again, Mike Hedges—fair play—called for a review, but, unfortunately, your Government, for 12 years in London, when the sun was shining, didn't do anything. It didn't do anything to review that formula, or indeed to assist in any change whatsoever. Of course, every formula has its defects, but the comparisons with Northern Ireland and Scotland leave Wales in a very, very poor place.

Dywedodd Mike Hedges mai symlrwydd oedd cryfder fformiwla Barnett, ac yna aeth ymlaen i'w egluro mewn modd a aeth â'm gwynt erbyn y diwedd. Unwaith eto, galwodd Mike Hedges—chwarae teg—am adolygiad, ond yn anffodus, am 12 mlynedd yn Llundain, pan oedd yr haul yn tywynnu, ni wnaeth eich Llywodraeth unrhyw beth. Ni wnaeth ddim i adolygu'r fformiwla, neu'n wir i hwyluso unrhyw newid o fath yn y byd. Wrth gwrs, mae gan bob fformiwla ei diffygion, ond mae'r cymariaethau â Gogledd Iwerddon a'r Alban yn gadael Cymru mewn lle gwael tu hwnt.

Now then, Mick Antoniw made a very thoughtful contribution—there is no need for me to rephrase it—and, again, Alun Davies repeated this issue that fair distribution is what we were after. Obviously, the present set-up is blatantly unfair, but I repeat, I come back to the point, that everybody has agreed, apparently, that fair funding is what we should be demanding and what should happen. But the fact is, the political reality is, that the Labour Party in Government, the Tory party in Government, and the Liberal Democrat Party in Government have done nothing to redress that wrong. You shake your head, Peter Black, and all I can say is that, yes, there was—

Nawr 'te, gwnaeth Mick Antoniw gyfraniad meddylgar iawn—nid oes angen i mi ei aralleirio—ac unwaith eto, ailadroddodd Alun Davies mai dosbarthiad teg yw'r hyn roeddem ei eisiau. Yn amlwg, mae'r drefn bresennol yn amlwg yn annheg, ond rwy'n ailadrodd, rwy'n dychwelyd at y pwynt, fod pawb wedi cytuno, mae'n debyg, mai cyllido teg yw'r hyn y dylem ei fynnu a'r hyn a ddylai ddigwydd. Ond y ffaith yw, y realiti gwleidyddol yw, nad yw'r Blaid Lafur mewn Llywodraeth, y blaid Doriaidd mewn Llywodraeth, na'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn Llywodraeth wedi gwneud dim i unioni'r cam. Rydych yn ysgwyd eich pen, Peter Black, a'r cyfan y gallaf ei ddweud yw, oedd, roedd yna—

*Peter Black a gododd—*

*Peter Black rose—*

18:21 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, hold on, let me finish the sentence. In Government, there was a concession that something needed to be introduced, but nothing has changed.

Wel, arhoswch eiliad, gadewch i mi orffen y frawddeg. Yn y Llywodraeth, cafwyd consesiwn fod angen cyflwyno rhywbeth, ond nid oes dim wedi newid.

18:21 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think as I explained, Alun Ffred, we have put in place a process by which the Barnett floor will be put in train very soon indeed. A great deal was done in that coalition Government: more change in the last five years than the previous 12.

Wel, fel yr eglurais, Alun Ffred, rwy'n meddwl ein bod wedi sefydlu proses lle y bydd cyllid gwaelodol Barnett yn cael ei roi ar waith yn fuan iawn yn wir. Gwnaed llawer iawn yn y Llywodraeth glymblaid: mwy o newid yn y pum mlynedd diwethaf na'r 12 blaenorol.

18:21 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we are discussing the funding for Wales and nothing changed, and Wales has been let down. That is the long and short of it.

Wel, rydym yn trafod cyllido ar gyfer Cymru ac ni chafwyd unrhyw newid, ac mae Cymru wedi cael cam. Dyna swm a sylwedd y mater.

Anyway, there's no need for us to prolong the agony this afternoon. I'll end on that note. Thank you. [Interruption.]

Beth bynnag, nid oes angen i ni ymestyn y boen y prynhawn yma. Dof i ben ar y nodyn hwnnw. Diolch yn fawr. [Torri ar draws.]

18:22

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order. The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Trefn. Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:22

## 6. Cyfnod Pleidleisio

## 6. Voting Time

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Voting time now follows. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we will vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour nine. There voted against 38. Therefore, the motion without amendment is not agreed and we will now vote on the amendments tabled to the motion.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, byddwn yn pleidleisio ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 9, Against 38, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5759](#)

[Result of the vote motion NDM5759](#)

18:22

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 5 will be deselected. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour three. There voted against 44. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 5 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 3 o blaid. Pleidleisiodd 44 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 3, Yn erbyn 44, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 3, Against 44, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5759](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5759](#)

18:23

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 5 will be deselected. I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 19. Therefore, amendment 2 is agreed and amendments 3 and 5 are deselected.

Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 5 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 19 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn a chaiff gwelliannau 3 a 5 eu dad-ddethol.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 19, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 28, Against 19, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5759](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5759](#)

*Cafodd gwelliannau 3 a 5 eu dad-ddethol.*

*Amendments 3 and 5 deselected.*

18:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 34. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 34 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 4 wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 34, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 34, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5759

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5759

18:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5759 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5759 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod nad yw fformiwla gyllido Barnett er budd pennaf Cymru;

1. Recognises that the Barnett funding formula is not in the best interest of Wales;

2. Yn nodi bod astudiaethau wedi dod i'r casgliad dro ar ôl tro nad yw Cymru'n cael ei chyllido'n unol â'r angen.

2. Notes that repeated studies have found that Wales is underfunded relative to need.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyllido'n deg drwy weithredu terfyn ariannu isaf sy'n cael cefnogaeth drawsbleidiol.

3. Calls on the UK Government to ensure that Wales is funded fairly by implementing a funding floor which has cross-party support.

18:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 47. There were no votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 47 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5759 fel y'i diwygiwyd: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5759 as amended agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5759 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5759 as amended

18:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

18:25

# 7. Dadl Fer: Addysg Heblaw yn yr Ysgol

# 7. Short Debate: Education Other than at School

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Item 7 is the short debate, and I call on Suzy Davies to speak on the topic she has chosen.

Eitem 7 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Suzy Davies i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

18:25 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Dirprwy Lywydd, and thanks to those of you staying in the Chamber this evening. In a time of seemingly unprecedented reviews of qualifications, curricula, teacher training and the delivery of education services, with changes to the assessment of schools and local education authorities, and legislation in the field, I just wanted to remind this Assembly that not all our children and young people are educated within a school environment. By that, I don't mean that they elect to go to a further education college instead; I mean that school has become a barrier rather than the open door to their education. The Children, Young People and Education Committee looked at the provision of education other than at school as part of its inquiry into attendance and behaviour, reporting its findings some 19 months ago now, in 2013. I'm happy to give two of my fellow members of that committee—Aled Roberts and Keith Davies—some time in this debate, as well as Mike Hedges.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a diolch i'r rhai ohonoch sy'n aros yn y Siambr heno. Mewn cyfnod sydd i'w weld yn ddigynsail o adolygiadau o gymwysterau, cwricwla, hyfforddi athrawon a darparu gwasanaethau addysg, gyda newidiadau i brosesau asesu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol, a deddfwriaeth yn y maes, roeddwn i eisiau atgoffa'r Cynulliad nad yw pob un o'n plant a'n pobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd ysgol. Trwy ddweud hyn, nid wyf yn golygu eu bod yn dewis mynd i goleg addysg bellach yn lle hynny; rwy'n golygu bod yr ysgol wedi dod yn rhwystr yn hytrach na drws agored i'w haddysg. Edrychodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel rhan o'i ymchwiliad i bresenoldeb ac ymddygiad, gan adrodd ar ei ganfyddiadau oddeutu 19 mis yn ôl bellach, yn 2013. Rwy'n hapus i roi peth amser i ddau o fy nghyd-Aelodau ar y pwyllgor—Aled Roberts a Keith Davies—yn y ddadl hon, yn ogystal â Mike Hedges.

Although our inquiry was not restricted to education other than at school—EOTAS—committee members were especially concerned about the provision of education for children who were excluded from school as a result of their behaviour. However, I'd like us, in this debate, to include for consideration those children and young people who have not been excluded but who have left the school environment primarily for mental health reasons—'school refusers', as they tend to be called in the jargon of the sector. While their circumstances were outside the terms of our inquiry, there are deep and unresolved worries about child and adolescent mental health services in Wales, and I think therefore it's appropriate for us to understand how Ministers work together to safeguard the education of children who cannot face school, as well as those who are excluded.

Er nad oedd ein hymchwiliad yn gyfyngedig i addysg heblaw yn yr ysgol, roedd aelodau'r pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch y ddarpariaeth addysg ar gyfer plant a gafodd eu gwahardd o'r ysgol oherwydd eu hymddygiad. Fodd bynnag, yn y ddadl hon, carwn roi sylw hefyd i blant a phobl ifanc nad ydynt wedi cael eu gwahardd, ond sydd wedi gadael amgylchedd yr ysgol yn bennaf am resymau iechyd meddwl—'disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol', fel y tueddant i gael eu galw yn jargon y sector. Er bod eu hamgylchiadau y tu allan i gylch gorchwyl ein hymchwiliad, mae yna bryderon dwfn a heb eu datrys ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru, ac rwy'n credu, felly, ei bod yn briodol i ni ddeall sut y mae Gweinidogion yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu addysg plant na all wynebu'r ysgol, yn ogystal â rhai sy'n cael eu gwahardd.

I'll begin, though, with children who have been formally excluded from school. In the case of temporary fixed exclusions, a child or young person will usually be sent home, although longer or permanent exclusion can mean a child or young person goes to a different school, a pupil referral unit or, occasionally, nowhere at all. Using the 2010-11 statistics that we had at the time, the committee heard that violence and defiance of rules between them accounted for 40 per cent of the 158 permanent exclusions in that year, with defiance of rules being the most common reason for shorter fixed-term exclusions. Although exclusions themselves had dropped in the previous seven or eight years, there had been an increase in exclusion due to extreme behaviour, especially in early years, which I think is particularly worrying. The majority of those excluded are boys—they make up three quarters of the numbers of permanent exclusions.

Ond fe ddechreuaf gyda phlant sydd wedi cael eu gwahardd yn ffurfiol o'r ysgol. Yn achos gwaharddiadau penodedig dros dro, bydd plentyn neu berson ifanc fel arfer yn cael ei yrru adref, er y gall gwaharddiad hwy neu barhaol olygu bod plentyn neu berson ifanc yn mynd i ysgol wahanol, uned cyfeirio disgyblion neu weithiau, i unman o gwbl. Gan ddefnyddio ystadegau 2010-11 a oedd gennym ar y pryd, clywodd y pwyllgor mai trais a herio rheolau rhyngddynt a oedd i gyfrif am 40 y cant o'r 158 o waharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn honno, gyda herio rheolau yn rheswm mwyaf cyffredin dros waharddiadau penodedig byrrach. Er bod nifer y gwaharddiadau eu hunain wedi gostwng yn ystod y saith neu wyth mlynedd diwethaf, gwelwyd cynnydd mewn gwaharddiadau yn sgil ymddygiad eithafol, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, a chredaf fod hynny'n destun pryder arbennig. Bechgyn yw'r rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu gwahardd—a bechgyn yw tri chwarter y gwaharddiadau parhaol.

But, of particular interest, I think, is that half of excluded pupils, and a total of 90 per cent of those educated outside school, have special educational needs. Deputy Minister, I think this has to be a consideration for the aims of the additional learning needs Bill, as well as the work that's being done on the back of the Hill and Furlong reviews. I accept completely that your department has a ruck of guidance out there on inclusion, pupil support and exclusion from schools and pupil referral units, but a considerable number of these children and young people—the school refusers or those at risk of permanent exclusion and with special educational needs—arrive at pupil referral units that actually may expose them to a whole new set of negative challenges.

Ond yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig, rwy'n credu, yw bod anghenion addysgol arbennig gan hanner y disgyblion a waharddwyd, a chyfanswm o 90 y cant o'r rhai a addysgir y tu allan i'r ysgol. Ddirprwy Weinidog, rwy'n credu bod yn rhaid i hyn fod yn ystyriaeth o ran amcanion y Bil anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn sgil adolygadau Hill a Furlong. Rwy'n derbyn yn llwyr fod gan eich adran lu o ganllawiau ar gynhwysiant, cynorthwyo disgyblion, gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, ond mae nifer sylweddol o'r plant a'r bobl ifanc hyn—disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol neu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol a chydag anghenion addysgol arbennig—yn cyrraedd unedau cyfeirio disgyblion a allai eu gwneud yn agored mewn gwirionedd i set newydd o heriau negyddol.

Estyn's 2013-14 report found that, while maintained special schools for children and young people with moderate to severe learning difficulties are working to 'good' or even better standards, clearly to the benefit of their pupils, pupil referral units, populated by a high proportion of boys and young men with all sorts of special educational needs, are still assessed by and large as worse than any other sector within the education sector, with half having merely 'adequate' or 'unsatisfactory' standards and provision. Moreover, too many learners remain in pupil referral units for far too long, do not reintegrate into mainstream schools, do not attend well, even at their pupil referral units, and then, unsurprisingly, present as being not in education, employment or training at the end of their compulsory education period.

Canfu adroddiad Estyn 2013-14, er bod ysgolion arbennig a gynhelir ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol yn gwneud gwaith o safon 'dda' neu hyd yn oed yn well, ac yn amlwg er lles eu disgyblion, mae unedau cyfeirio disgyblion, lle y ceir cyfran uchel o fechgyn a dynion ifanc gyda phob math o anghenion addysgol arbennig, yn parhau i gael asesiadau gwaeth ar y cyfan nag unrhyw sector arall yn y sector addysg, gyda'u hanner ond yn cyrraedd safon 'ddigonol' yn unig, neu 'anfoddhaol'. Ar ben hynny, mae gormod o ddysgwyr yn aros mewn unedau cyfeirio disgyblion am lawer gormod o amser; nid ydynt yn ailintegreiddio yn yr ysgolion prif ffrwd; nid yw eu lefelau presenoldeb yn dda, hyd yn oed yn eu hunedau cyfeirio disgyblion; ac yna, nid yw'n syndod eu bod, ar ddiwedd eu cyfnod mewn addysg orfodol, yn cael eu categoreiddio fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Now, Estyn gave a number of reasons for these continued failings. I won't go into those now, but I know you'll be aware of them, Deputy Minister. I think, also, that Estyn should be realistic and acknowledge that, while this cohort of young people is very vulnerable, they are also a big challenge, and finding people who are prepared to work with them to the best standards can actually be, itself, something of a challenge. Nevertheless, it doesn't alter the position that provision in special schools serves learners well whereas PRUs, admittedly with different types of learner, do pretty poorly by way of comparison. I'm wondering why the difference is so great and how to justify the disparity in those standards.

Nawr, rhoddodd Estyn nifer o resymau dros y methiannau parhaus hyn. Nid af i'w dadansoddi yn awr, ond rwy'n gwybod y byddwch yn ymwybodol ohonynt, Ddirprwy Weinidog. Rwy'n meddwl, hefyd, y dylai Estyn fod yn realistig a chydnabod, er bod y garfan hon o bobl ifanc yn agored iawn i niwed, eu bod hefyd yn her fawr, ac mae dod o hyd i bobl sy'n barod i wneud gwaith o'r safon orau gyda hwy yn dipyn o her ynddi ei hun, mewn gwirionedd. Serch hynny, nid yw'n newid y sefyllfa fod y ddarpariaeth mewn ysgolion arbennig yn gwasanaethu dysgwyr yn dda, ac Unedau Cyfeirio Disgyblion—sydd â gwahanol fathau o ddysgwyr, rhaid cyfaddef—yn gwneud yn eithaf gwael mewn cymhariaeth. Tybed pam y mae'r gwahaniaeth mor fawr a sut y gellid cyfiawnhau'r gwahaniaeth yn y safonau hynny.

Now, our committee inquiry also found that EOTAS children and young people, whether in pupil referral units, at home or in some other sort of external provision, were not getting—at least with any consistency—the number of teaching hours that they would have expected at school. Now, in individual cases, of course, I accept that a particular learner can't cope perhaps with the full school workload—I do see that—but what kind of checks are made on local education authorities that they're actually meeting the needs of children who are educated outside of school? Estyn can only really pick up these problems as part of their inspection cycle, and yet there's an ongoing problem here, which, certainly on the basis of recent events in my own region, looks like it might actually be getting worse.

Nawr, canfu ymchwiliad ein pwyllgor hefyd nad oedd plant a phobl ifanc mewn addysg heblaw yn yr ysgol, naill ai mewn unedau cyfeirio disgyblion, yn y cartref neu mewn math arall o ddarpariaeth allanol, yn cael y nifer o oriau dysgu y byddai disgwyl iddynt eu cael yn yr ysgol—neu'n cael hynny'n gyson o leiaf. Nawr, mewn achosion unigol, wrth gwrs, rwy'n derbyn na all dysgwr penodol ymdopi gyda llwyth gwaith llawn yr ysgol o bosibl—rwy'n gweld hynny—ond pa fath o archwiliadau a wneir ar awdurdodau addysg lleol i sicrhau eu bod yn ateb anghenion plant sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol? Mewn gwirionedd, yr unig ffordd y gall Estyn ganfod y problemau hyn yn iawn yw fel rhan o'i gylch arolygu, ac eto ceir problem barhaus yma, sydd i'w gweld fel pe bai'n gwaethygu hyd yn oed, yn sicr ar sail digwyddiadau diweddar yn fy rhanbarth i.

It's the primary responsibility of local authorities and local education authorities to meet children's educational needs wherever they are, and the welcome commitment of both the UK and the Welsh Governments to protect school spending does have the sort of unfortunate side-effect that education outside school is even more vulnerable to the effects of local authority cuts. Today, I'm not particularly interested in the usual barney about whose fault it is that we have these cuts, but I hope that we would both be worried to hear about the hasty reductions in provisions for children educated outside school, supported by what I'd call virtually secret consultations, without any evidence that plans to limit and centralise services was matched by improved quality or relevance to the needs of those children and young people. Those are concerns that have been raised with me about activities happening in Swansea at the moment. Obviously, that needs investigating, and so I don't know how much truth there is in it, but there is a genuine concern there.

Prif gyfrifoldeb awdurdodau lleol ac awdurdodau addysg lleol yw diwallu anghenion addysgol plant lle bynnag y maent, ac mae ymrwymiad Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddiogelu gwariant ysgol, sydd i'w groesawu, yn arwain at y sgil-effaith anffodus fod addysg y tu allan i'r ysgol hyd yn oed yn fwy agored i effeithiau toriadau awdurdodau lleol. Heddiw, nid oes gennyf ddiddordeb arbennig yn y cecru arferol ynglŷn â bai pwy yw'r toriadau, ond rwy'n gobeithio mai testun gofid i ni yw clywed am y gostyngiadau brysiog yn y darpariaethau ar gyfer plant a addysgir y tu allan i'r ysgol, wedi'u cefnogi gan yr hyn y byddwn yn ei alw'n ymgynghoriadau cyfrinachol bron, heb unrhyw dystiolaeth fod gwella ansawdd neu berthnasedd i anghenion y plant a'r bobl ifanc yn cydbwyso cynlluniau i ganoli a chyfyngu ar wasanaethau. Dyna bryderon a dynnwyd i fy sylw am weithgareddau sy'n digwydd yn Abertawe ar hyn o bryd. Yn amlwg, y mae angen ymchwilio i hynny, ac felly nid wyf yn gwybod faint o wir sydd yn y peth, ond mae pryder gwirioneddol yno.

I think also that the reduction in the at-home service, if it does materialise, coincides with Estyn's second poor report for Swansea's pupil referral unit, which has already amalgamated with four different types of EOTAS provision. The operation is still in need of significant improvement. It may well be that Mike Hedges will have something to say about Arfryn. I hope he does, really, because I won't have that much time. If Swansea and others need to reduce reliance on EOTAS places, which I would hope we'd all see there's an argument for, then attention does need to be given as to how EOTAS learners are reintegrated into mainstream school.

Rwy'n meddwl hefyd fod y gostyngiad yn y gwasanaeth yn y cartref, os caiff ei wireddu, yn cyd-fynd ag ail adroddiad gwael Estyn ar uned cyfeirio disgyblion Abertawe, sydd eisoes wedi cyfuno gyda phedwar math gwahanol o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r gwaith yn dal i fod angen ei wella'n sylweddol. Mae'n ddigon posibl y bydd gan Mike Hedges rywbeth i'w ddweud am Arfryn. Rwy'n gobeithio bod, mewn gwirionedd, oherwydd ni fydd gen i gymaint â hynny o amser. Os yw Abertawe ac eraill angen lleihau dibyniaeth ar leoedd addysg heblaw yn yr ysgol, a byddwn yn gobeithio y byddwn ni i gyd yn gweld fod dadl dros wneud hynny, yna mae angen rhoi sylw i sut y caiff dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol eu hailintegreiddio mewn ysgolion prif ffrwd.

Now, I'm thinking of a particular gregarious, sporty, reasonably well-achieving young teenager. He came up through primary school well enough, and his transition to secondary school had been incident-free pretty much. But, early in year 9 he suddenly became extremely anxious. Nobody really understood why, but he would not go to school. No violent outbursts or dangerous behaviour, but a withdrawal and a refusal to go to school. Now, he waited six months for his CAMHS appointment. That's something that's not unusual, judging by the evidence we've had in the Children, Young People and Education Committee, but, during that time, he had no work brought to him from the school. The intervention of CAMHS was pretty successful, which is good to hear, but when he returned to school about nine months after he'd originally left, his friends had moved on, the work had moved on, their social groupings had moved on, and none of them had been given any kind of guidance—'counselling' perhaps is the wrong word—on how to treat somebody coming back who'd had 'mental health issues', and that included the school leaders. There was a complete absence of strategy for that young man's education, and I think it's a testament to him that, actually, he insisted on staying in school.

Nawr, rwy'n meddwl am berson ifanc penodol yn ei arddegau, sy'n hoff o gymdeithasu, yn hoff o chwaraeon ac yn cyflawni'n gymharol dda. Aeth drwy'r ysgol gynradd yn ddigon da, a symudodd i'r ysgol uwchradd yn gymharol ddidrafferth. Ond yn gynnar ym mlwyddyn 9, yn sydyn dechreuodd fod yn hynod o bryderus. Nid oedd neb yn deall pam yn iawn, ond nid oedd am fynd i'r ysgol. Ni chafwyd ffrwydradau treisgar nac ymddygiad peryglus, ond roedd yn encilio ac yn gwrthod mynd i'r ysgol. Nawr, fe arhosodd chwe mis am ei apwyntiad CAMHS. Nid yw hynny'n anarferol, yn ôl y dystiolaeth a gawsom yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ond yn ystod y cyfnod hwnnw, ni ddaeth neb â gwaith iddo o'r ysgol. Da clywed fod ymyrraeth CAMHS yn eithaf llwyddiannus, ond pan ddychwelodd i'r ysgol naw mis ar ôl iddo adael yn wreiddiol, roedd ei ffrindiau wedi symud ymlaen, roedd y gwaith wedi symud ymlaen, roedd eu grwpiau cymdeithasol wedi symud ymlaen, ac nid oedd neb ohonynt wedi cael unrhyw fath o ganllawiau—efallai nad 'cwnsela' yw'r gair cywir—ar sut i drin rhywun sy'n dychwelyd ar ôl cael 'problemau iechyd meddwl', ac roedd hynny'n cynnwys arweinwyr ysgolion. Nid oedd unrhyw fath o strategaeth ar gyfer addysg y gŵr ifanc hwn, ac rwy'n credu fod y ffaith ei fod wedi mynnu aros yn yr ysgol yn dweud llawer amdano mewn gwirionedd.

Estyn sees it, the Edinburgh university report that the Government commissioned sees it, but this particular issue of poor reintegration remains a problem, I think, Deputy Minister, with consequences not just for the learner and their family, but the peer group that should be welcoming that learner back into the fold. So, it's a little disappointing, after our committee report, the Edinburgh university report, the persistent observations of Professor Ken Reid, that what we have from your department at the moment are—and I quote from a recent response I've had from the department:

Mae Estyn yn ei weld, mae adroddiad prifysgol Caeredin a gomisiynwyd gan y Llywodraeth yn ei weld, ond mae'r mater hwn o ailintegreiddio gwael yn parhau i fod yn broblem, rwy'n meddwl, Ddirprwy Weinidog, gyda chanlyniadau nid yn unig i'r dysgwr a'i deulu, ond i'r grŵp cyfoedion a ddylai fod yn croesawu'r dysgwr yn ôl i'w plith. Felly, mae'n siomedig braidd, ar ôl ein hadroddiad pwyllgor, adroddiad prifysgol Caeredin, arsylwadau cyson yr Athro Ken Reid, mai'r hyn sydd gennym gan eich adran ar hyn o bryd yw—a dyfynnaf o ymateb diweddar a gefais gan yr Adran:

Plans to establish a working group, which will be tasked with developing an EOTAS framework plan, the purpose of which is to identify key actions.

Cynlluniau i sefydlu gweithgor, a fydd yn cael y dasg o ddatblygu cynllun fframwaith addysg heblaw yn yr ysgol, a'i ddiben fydd nodi camau gweithredu allweddol.

That's got to make your heart sink just a little bit, hasn't it, Deputy Minister, that after all this time, since 2007-08, we're talking about framework plans and key actions? What has happened to these young people in the meantime? Deputy Minister, I do know you care. This is not a usual political-banter moment, but it's frustration that's prompted me to bring this to the Assembly today and it's a chance for you to answer a few specific questions, which I think would reassure us on progress. If you feel that you can't answer all of these questions fully today, I'd be more than happy if you were to consider making an oral statement in the future to update us on progress. But, the things I'd like to ask you today are: can you update us on what's happened to the 2014-15 update to the inclusion and pupil support guidance, which was due in March? Do we have a publication date? What improvements, if any, have the regional consortia brought to the standard of education of children and young people educated outside school?

Rhaid bod hynny yn gwneud i'ch calon suddo ychydig bach, Ddirprwy Weinidog, ein bod ar ôl yr holl amser, ers 2007-08, yn sôn am gynlluniau fframwaith a chamau gweithredu allweddol? Beth sydd wedi digwydd i'r bobl ifanc hyn yn y cyfamser? Ddirprwy Weinidog, rwy'n gwybod eich bod yn malio. Nid mater o gecru gwleidyddol arferol yw hyn, ond rhwystredigaeth a'm hysgogodd i gyflwyno hyn gerbron y Cynulliad heddiw ac mae'n gyfle i chi ateb ychydig o gwestiynau penodol a fyddai'n rhoi sicrwydd i ni fod cynnydd yn digwydd, rwy'n credu. Os ydych yn teimlo na allwch ateb pob un o'r cwestiynau hyn yn llawn heddiw, byddwn yn fwy na hapus pe baech yn ystyried gwneud datganiad llafar yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd. Ond y pethau yr hoffwn ofyn i chi heddiw yw'r rhain: a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn sydd wedi digwydd i ddiweddariad 2014-15 o'r canllawiau ar gynhwysiant a chynorthwyo disgyblion a oedd i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth? A oes gennym ddyddiad cyhoeddi? Pa welliannau, os o gwbl, y mae'r consortia rhanbarthol wedi eu cyfrannu i safon addysg plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol?

Your department accepted a committee recommendation on the potential role of consortia some 18 months ago, so can you tell us which of the accepted recommendations of the Edinburgh university research—and most of them were accepted—have now been met? Do you think that ignorance at primary care level and delays in accessing specialist CAMHS intervention is precipitating some children and young people towards EOTAS to a sufficient degree to justify some specific investigation by Government and, similarly, do you think that the link between SEN and education out of school perhaps needs some specific investigation as well? You know, Deputy Minister, if you save one learner, you save the world entire, don't you? So, I would be very grateful if you can give us something in response to the debate today, which will encourage us to be reassured that you're not looking over the heads of these children.

Derbyniodd eich adran argymhelliad pwyllgor ar rôl bosibl y consortia tua 18 mis yn ôl, felly a allwch ddweud wrthym pa rai o'r argymhellion a dderbyniwyd o ymchwil prifysgol Caeredin—a chafodd y rhan fwyaf ohonynt eu derbyn—sydd bellach wedi eu cyflawni? A ydych chi'n meddwl bod anwybodaeth ar lefel gofal sylfaenol ac oedi cyn cael mynediad at ymyrraeth arbenigol CAMHS yn cyfeirio rhai plant a phobl ifanc tuag at addysg heblaw yn yr ysgol i raddau digonol i gyfiawnhau peth ymchwil penodol gan y Llywodraeth ac yn yr un modd, a ydych yn meddwl efallai bod y cyswllt rhwng AAA ac addysg y tu allan i'r ysgol angen peth ymchwil penodol yn ogystal? Wyddoch chi, Ddirprwy Weinidog, os arbedwch un dysgwr, rydych yn arbed y byd cyfan, onid ydych? Felly, byddwn yn ddiolchgar iawn os gallwch roi rhywbeth i ni mewn ymateb i'r ddadl heddiw, a fydd yn rhoi sicrwydd i ni nad ydych yn edrych dros bennau'r plant hyn.

18:36

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I support many of Suzy Davies's comments. I think the concern that we have as a committee is the increasing number of youngsters now who are in EOTAS provision, including pupil referral units, and the fact that you did respond to the review in 2013. There was an update in 2014. Your response in 2013 said that you identified where improvements could be made and yet we have little information on where those improvements have been undertaken. More importantly, I think, is the point that Suzy made with regard to the additional learning needs Bill. Your 2014 update indicated that you'd tasked Estyn in 2015-16 to undertake a further review and look at the local authority management and provision, but we might be losing the opportunity.

Rwy'n cefnogi llawer o sylwadau Suzy Davies. Rwy'n meddwl mai'r pryder sydd gennym fel pwyllgor yw nifer cynyddol y bobl ifanc yn awr sy'n cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, a'r ffaith eich bod wedi ymateb i'r adolygiad yn 2013. Cafwyd diweddariad yn 2014. Dywedodd eich ymateb yn 2013 eich bod wedi nodi lle y gellid gwneud gwelliannau ac eto ychydig o wybodaeth sydd gennym ynglŷn â lle y cyflawnwyd y gwelliannau hynny. Rwy'n credu bod y pwynt a wnaeth Suzy mewn perthynas â'r Bil anghenion dysgu ychwanegol yn bwysicach. Nododd eich diweddariad yn 2014 eich bod wedi rhoi'r dasg o gynnal adolygiad pellach ac edrych ar reolaeth a darpariaeth awdurdodau lleol i Estyn yn 2015-16, ond efallai ein bod yn colli'r cyfle.

18:37

## Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch o gael gyfrannu at y ddadl fer y prynhawn yma. Mae'r plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ymhlith y plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth sydd yn bodoli iddyn nhw yn amrywio ac yn anghyson. Rwyf yn pryderu am yr addysg sy'n cael ei gynnig mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae angen mwy o gyfleusterau yn yr unedau—er enghraifft, labordai, gweithdai, neuaddau chwaraeon ac yn y blaen—a mwy o hyfforddiant i athrawon er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cwricwlwm sylweddol. Mae gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at ddiffyg llwyddiant wrth drio ailintegreiddio disgyblion i ysgolion prif ffrwd o unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

I'm pleased to contribute to the short debate today. Children who receive education other than at school are among the children who are most vulnerable in Wales. The provision that exists for them varies a great deal and is inconsistent. I am concerned about the education provided in pupal referral units. We need more facilities within those units—for example, laboratories, workshops, sports halls, and so on—and more training for teachers, in order to ensure that pupils receive a full curriculum. Research has highlighted a lack of success in trying to reintegrate pupils into mainstream schooling from pupil referral units and education provision other that at school.

Rwy'n falch o weld, fel yr oedd Aled Roberts yn sôn yn gynharach, fod y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau wedi gofyn i Estyn i edrych ar y sefyllfa. Rwy'n gobeithio y bydd ei adroddiad, sy'n dod mas y tymor hyn, rwy'n gobeithio, yn dangos y ffordd ymlaen i'r consortia addysg yng Nghymru i wella sefyllfa addysg ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd yn awr o dan anfantais yn ein system addysg. Diolch.

I'm pleased to see, as Aled Roberts mentioned earlier, that the Minister for Education and Skills has asked Estyn to look at this situation. I very much hope that the report, which we hope will be published this term, will show a way forward for the education consortia in Wales in order to improve the situation for all the pupils who are currently disadvantaged within our education system. Thank you.

18:38

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Firstly, can I thank Suzy Davies for giving me a minute in what I think is a very important debate? I'd like to talk about the role that further education colleges have traditionally played for 14 to 16-year-olds and not just 16-year-olds. Perhaps the Deputy Minister can tell us the current position of the 14-19 pathway.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Suzy Davies am roi munud i mi mewn dadl bwysig iawn yn fy marn i. Hoffwn siarad am y rôl y mae colegau addysg bellach yn draddodiadol wedi ei chwarae i rai 14 i 16 oed ac nid i rai 16 mlwydd oed yn unig. Efallai y gall y Dirprwy Weinidog ddweud wrthym beth yw sefyllfa bresennol y llwybr 14-19.

I have three quick case studies from my teaching experience: a pupil who refused to attend school, because he was being bullied, attended college, passed several GCSEs to grade A and then passed one A-level at grade A, had a distinction at BTEC national, leading to acceptance at Aberystwyth University; a pupil who had difficulties in school and was a school refuser, who passed a first diploma, then a national diploma and then moved on to full employment; a pupil who was asked to leave school for hitting a teacher, who wouldn't let him leave the class. He completed four GCSEs at grade C, progressed to training and became a plumber. Although, when I was teaching, I did tell him that if he ever wanted to leave, I would not stop him.

Mae gen i dair astudiaeth achos sydyn o fy mhrofiad addysgu: mynychodd disgybl, a wrthododd fynd i'r ysgol am ei fod yn cael ei fwlio, y coleg, pasio nifer o arholiadau TGAU gyda gradd A a phasio un lefel A gyda gradd A wedyn. Yna, cafodd radd BTEC cenedlaethol gyda rhagoriaeth, gan arwain at gael ei dderbyn ym Mhrifysgol Aberystwyth; disgybl ag anawsterau yn yr ysgol a oedd yn gwrthod mynd i'r ysgol, a gafodd ddiploma gyntaf, yna diploma cenedlaethol cyn symud ymlaen i gyflogaeth amser llawn; disgybl y gofynnwyd iddo adael yr ysgol am daro athro, nad oedd yn fodlon iddo adael y dosbarth. Cwblhaodd bedwar cwrs TGAU a chael graddau C, mynd ymlaen i hyfforddi a mynd yn blymwr. Ond pan oeddwn i'n dysgu, fe wnes i ddweud wrtho, os oedd byth eisiau gadael, ni fyddwn yn ei atal.

The point I'm trying to make is that education other than at school should not mean that pupils cannot be successful. I think that really is the key: we want them to succeed. Schools don't always suit everybody, but we want every child to fulfil their potential.

Y pwynt rwy'n ceisio ei wneud yw na ddylai addysg heblaw yn yr ysgol olygu na all disgyblion fod yn llwyddiannus. Credaf mai dyna'n wir yw'r allwedd: rydym eisiau iddynt lwyddo. Nid yw ysgolion bob amser yn addas i bawb, ond rydym am i bob plentyn gyflawni ei botensial.

18:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And the Deputy Minister for Skills and Technology to reply—Julie James.

A'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i ateb—Julie James.

18:40

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm really pleased to be responding to this debate today on behalf of the Minister, who's unfortunately unwell and unable to be here. I want to thank Suzy Davies for bringing this really important debate to the floor of the Assembly, and I absolutely take her point about the need for this not to be any kind of political football, and it certainly isn't seen that way by the Government.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n hynod o falch o ymateb i'r ddadl hon heddiw ar ran y Gweinidog, sy'n sâl, yn anffodus, ac yn methu bod yma. Hoffwn ddiolch i Suzy Davies am ddod â'r ddadl bwysig hon gerbron y Cynulliad, ac rwy'n derbyn ei phwynt yn llwyr ynglŷn â'r angen i hyn beidio â bod yn bêl-droed wleidyddol o unrhyw fath, ac yn sicr ni chaiff ei gweld yn y ffordd honno gan y Llywodraeth.

We have around 2,500 learners across Wales who are educated other than at school, and, as Suzy Davies rightly pointed out, a very large number of these young people are vulnerable in a number of different ways, with behavioural and emotional difficulties, some within the ambit of the mental health service, some within the ambit of the special educational needs services and so on. Very many of them have become disengaged from mainstream education, some through the exclusion process, some because they are disengaged themselves and so on—there is a myriad of different reasons—and providing them with a viable alternative to mainstream schooling is essential to ensure that they receive suitable and appropriate education, some much-needed stability and an opportunity to be reintegrated.

Mae gennym tua 2,500 o ddysgwyr ar draws Cymru sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, ac fel y dywedodd Suzy Davies yn hollol gywir, mae nifer fawr iawn o'r bobl ifanc hyn yn agored i niwed mewn nifer o wahanol ffyrdd, gydag anawsterau ymddygiadol ac emosiynol, a rhai ohonynt o fewn cwmpas gwaith y gwasanaeth iechyd meddwl, rhai o fewn cwmpas gwaith y gwasanaethau anghenion addysgol arbennig ac yn y blaen. Mae llawer iawn ohonynt wedi ymddieithrio o addysg prif ffrwd, rhai drwy'r broses wahardd, a rhai oherwydd eu bod wedi ymddieithrio ac yn y blaen—mae llu o wahanol resymau—ac mae rhoi dewis ymarferol iddynt yn lle addysg y brif ffrwd yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael addysg addas a phriodol, rhywfaint o sefydlogrwydd mawr ei angen a chyfle i gael eu hailintegreiddio.

I think that it is right that EOTAS services are localised to local authorities, because it is for them to understand what the specific needs of these children are in their local areas, and this is a service where, like no other, one size does not fit all. Each of these children has a very specific set of difficulties that need to be properly looked at and properly assessed and met.

Rwy'n meddwl ei bod yn iawn fod gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol yn fater lleol i awdurdodau lleol, gan mai eu lle hwy yw deall beth yw anghenion penodol y plant yn eu hardaloedd lleol, ac mae hwn yn wasanaeth, yn anad yr un, lle na cheir un ateb sy'n addas i bawb. Mae gan bob un o'r plant hyn set benodol iawn o anawsterau y mae angen edrych yn iawn ac yn briodol arnynt, er mwyn eu hasesu a'u datrys.

The Minister for Education and Skills is very much engaging with the concerns expressed by Estyn and the children's commissioner about the outcomes of pupil referral units, which a number of Members also mentioned, which suggest the need to develop a much more strategic approach to addressing the shortcomings in this sector and promoting the positive aspects. We're proposing a framework for action to identify those and to build up some good practice, which does exist in Wales. A stakeholder group is being established to be tasked with that and delivering a framework, which is going to focus on six key areas: leadership, resources and investment, structure, outcomes, accountability and learner wellbeing. As everybody in the Chamber has pointed out, the messages from Estyn are consistent with many of the findings from the University of Edinburgh research, the committee research on exclusions and other EOTAS issues.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn mynd ati'n ddiwyd i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan Estyn a'r comisiynydd plant am ganlyniadau unedau cyfeirio disgyblion a grybwyllwyd gan nifer o'r Aelodau, sy'n awgrymu bod angen datblygu dull llawer mwy strategol o fynd i'r afael â'r diffygion yn y sector hwn a hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol. Rydym yn cynnig fframwaith ar gyfer gweithredu i nodi'r agweddau hyn ac i gronni arfer da, sydd yn bodoli yng Nghymru. Mae grŵp rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu i ymgymryd â'r dasg honno a darparu fframwaith sy'n mynd i ganolbwyntio ar chwe maes allweddol: arweinyddiaeth, adnoddau a buddsoddiad, strwythur, canlyniadau, atebolrwydd a lles dysgwyr. Fel y mae pawb yn y Siambr wedi nodi, mae'r negeseuon gan Estyn yn cyd-fynd â llawer o ganfyddiadau ymchwil Prifysgol Caeredin, ymchwil y pwyllgor ar waharddiadau a materion eraill yn ymwneud ag addysg heblaw yn yr ysgol.

We're reviewing and refreshing our inclusion and pupil support guidance, which we plan to publish in September of this year, and I would like to explain the delay by saying that we are also doing the additional learning needs Bill at the moment, and we don't want to have to reissue it afterwards. So, we're hoping to include it as part of that Bill and the preparation for that Bill, so that the Assembly has a coherent and consistent approach to these children right through the passage of that Bill through this place.

Rydym yn adolygu ac yn adnewyddu ein canllawiau Cynhwysiant a Chynorthwyo Disgyblion a bwriadwn eu cyhoeddi ym mis Medi eleni. Hoffwn egluro'r rheswm dros yr oedi drwy ddweud ein bod hefyd yn llunio'r Bil anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd, ac nid ydym eisiau gorfod ei ailgyhoeddi wedyn. Felly, rydym yn gobeithio ei gynnwys fel rhan o'r Bil hwnnw a pharatoi ar gyfer y Bil hwnnw, fel bod gan y Cynulliad ymagwedd gydlynol a chyson at y plant hyn ar hyd taith y Bil drwy'r lle hwn.

That guidance is going to encourage the development of clear aims and purposes for EOTAS provision, the sharing of good practice to promote behaviour management, and the harmonisation of terminology within EOTAS provision, which I have to say, from personal experience, is a real problem, because additional learning needs, for example, is one of them, which is used in several different pieces of legislation in a slightly different way. None of those things, whilst addressing specifically the needs of individual children, helps the professionals in dealing with them to structure their care packages and their education properly, and these things are extremely important. For example, we're working very hard on the development of a benchmarking framework to measure the learner outcomes and value for money, which will be integrated into that framework for action.

Mae'r canllawiau hynny'n mynd i annog y gwaith o ddatblygu nodau a dibenion clir ar gyfer y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, rhannu arfer da i hyrwyddo rheoli ymddygiad, a chysoni terminoleg o fewn y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, sy'n broblem go iawn, rhaid i mi ddweud, o brofiad personol, gan fod anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft, yn un ohonynt sy'n cael ei ddefnyddio mewn nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth mewn ffordd ychydig yn wahanol. Er eu bod yn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion plant unigol, nid oes yr un o'r pethau hynny'n helpu'r gweithwyr proffesiynol wrth ymdrin â'r plant er mwyn strwythuro eu pecynnau gofal a'u haddysg yn iawn, ac mae'r pethau hyn yn hynod o bwysig. Er enghraifft, rydym yn gweithio'n galed iawn ar ddatblygu fframwaith meincnodi i fesur canlyniadau dysgwyr a gwerth am arian, a fydd yn cael eu hintegreiddio yn y fframwaith ar gyfer gweithredu.

The university's report very much recognises the difficulties associated with providing a full curriculum to pupils in non-standard educational provision. We will need an opportunity to strengthen the monitoring and assessment processes for pupils in EOTAS provision through the framework, to ensure that vulnerable pupils are provided with the same opportunities to succeed as those in mainstream education.

Mae adroddiad y brifysgol yn cydnabod yn bendant yr anawsterau sy'n gysylltiedig â darparu cwricwlwm llawn i ddisgyblion mewn darpariaeth addysgol ansafonol. Bydd angen cyfle arnom i gryfhau'r prosesau monitro ac asesu ar gyfer disgyblion y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol drwy'r fframwaith, er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn cael yr un cyfleoedd i lwyddo â disgyblion sy'n cael addysg prif ffrwd.

I totally recognise what's being said about the need to ensure that budgetary constraints don't negatively impact on the provision of this very important educational substitute for these very vulnerable children, but this is where good leadership and good teaching are completely vital. So, this is very much in line with the education changes here in Wales—the curriculum qualification, initial teacher training, continuing new deal provisions for teachers and so on, are all in line with this. I would also like to say that we are obviously looking very hard at teachers in schools who provide personal and social education, for example, and their ability to help with reintegration or, indeed, the initial disengagement of pupils from schools. So, all of those are currently being looked at very hard. We are very aware that these children are still in school, or still not in school, while these reviews are going on, and we are determined that, whilst we change the whole system for the better, they will not be forgotten as they go through the cohort that they're in.

Rwy'n sylweddoli'n llwyr beth sy'n cael ei ddweud am yr angen i sicrhau nad yw cyfyngiadau cyllidebol yn cael effaith negyddol ar ddarparu'r dewis amgen addysgol pwysig hwn i blant sy'n agored i niwed, ond dyma lle y mae arweinyddiaeth dda ac addysgu da yn gwbl hanfodol. Felly, mae hyn yn unol â'r newidiadau addysg yma yng Nghymru —mae'r cymhwyster cwricwlwm, hyfforddiant cychwynnol athrawon, parhau darpariaethau'r fargen newydd ar gyfer athrawon ac yn y blaen, i gyd yn cyd-fynd â hyn. Hoffwn ddweud hefyd ein bod yn amlwg yn edrych yn agos iawn ar athrawon mewn ysgolion sy'n darparu addysg bersonol a chymdeithasol, er enghraifft, a'u gallu i helpu gydag ailintegreiddio neu'n wir, gydag ymddieithriad disgyblion o ysgolion ar y cychwyn. Felly, mae pob un o'r rhain dan ystyriaeth fanwl iawn ar hyn o bryd. Rydym yn ymwybodol iawn fod y plant hyn yn dal i fod yn yr ysgol, neu'n dal heb fod yn yr ysgol, wrth i'r adolygiadau hyn gael eu cynnal, ac rydym yn benderfynol o sicrhau na fyddant yn cael eu hanghofio wrth iddynt symud drwy eu cohort tra byddwn yn newid y system gyfan er gwell.

So we're looking at the results for the PRUs. EOTAS staff need focused and sustained results-oriented professional development, aligned properly with the strategic aims and outcomes of the service. Evidence suggests that poor-performing PRUs do not, for example, work closely enough with their partners, parents, multi-agency people—the Member mentioned an enormous range of multi-agencies that PRUs would need to be working with, and I'll add another: the youth work service. In my experience, it's very much the case that disaffected young people don't trust the school that they're disengaged from, and the youth work service can provide a really valuable lifeline back to engagement. So, I accept all of the points that she made, but I think that's an important point as well, and we're doing a big piece of work about the progression and engagement framework to ensure that that integration continues to exist.

Felly, rydym yn edrych ar ganlyniadau'r unedau cyfeirio disgyblion. Mae angen i staff addysg heblaw yn yr ysgol sicrhau ffocws cyson ar ddatblygiad proffesiynol sy'n cael ei lywio gan ganlyniadau, i gyd-fynd yn briodol ag amcanion a chanlyniadau strategol y gwasanaeth. Mae tystiolaeth yn awgrymu er enghraifft nad yw unedau cyfeirio disgyblion sy'n perfformio'n wael yn gweithio'n agos iawn gyda'u partneriaid, rhieni, pobl amlasiantaethol—soniodd yr Aelod am ystod enfawr o amlasiantaethau y byddai angen i unedau cyfeirio disgyblion weithio gyda hwy, ac fe ychwanegaf un arall: y gwasanaeth gwaith ieuenctid. Yn fy mhrofiad i, mae'n bendant yn wir nad yw pobl ifanc sydd wedi dadrithio yn ymddiried yn yr ysgol y maent yn ymddieithrio oddi wrthi, a gall y gwasanaeth gwaith ieuenctid ddarparu rhaff achub bwysig iawn i'w cynorthwyo i ailgysylltu. Felly, rwy'n derbyn pob un o'r pwyntiau a wnaed ganddi, ond rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt pwysig hefyd, ac rydym yn gwneud gwaith mawr ar y fframwaith cynnydd ac ymgysylltu i sicrhau bod integreiddio o'r fath yn parhau i fodoli.

We're looking at how we can support the PRUs with the structures in the national model of regional working that we've got, and the working group will be asked to consider this and all the other options and present us with its recommendations.

Rydym yn edrych ar sut y gallwn gefnogi'r unedau cyfeirio disgyblion â'r strwythurau yn y model cenedlaethol o waith rhanbarthol sydd gennym, a gofynnir i'r gweithgor ystyried hyn a'r holl opsiynau eraill a chyflwyno ei argymhellion i ni.

We know we've got good practice out there. The sector-leading examples from Ceredigion and the Tai Education Centre in Rhondda Cynon Taf, for example, demonstrate what can be achieved by clear vision, appropriate support and challenge, and strong leadership. We're going to ensure that this good practice is shared across local authorities, and that's what the Estyn thematic review of existing good practice for EOTAS is. We're looking forward to getting the findings from Estyn on that in the summer—this summer.

Gwyddom fod gennym arfer da ar lawr gwlad. Mae'r enghreifftiau sy'n arwain y sector o Geredigion a Chanolfan Addysg Tai yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy weledigaeth glir, cymorth a her briodol, ac arweinyddiaeth gref. Rydym yn mynd i sicrhau bod yr arfer da hwn yn cael ei rannu ar draws awdurdodau lleol, a dyna beth yw adolygiad thematig Estyn o arferion da presennol ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Rydym yn edrych ymlaen at gael canfyddiadau Estyn ar hynny yn ystod yr haf—yr haf hwn.

EOTAS is very much a responsive service, of course, because it responds to the children and young people as they present, but nevertheless we need to take a holistic approach to meeting the overall emotional and educational needs of those young people, especially those who are currently in danger of being disengaged. As you say, many of them are already from very disadvantaged backgrounds or circumstances, personal and otherwise.

Mae addysg heblaw yn yr ysgol yn sicr yn wasanaeth ymatebol, wrth gwrs, gan ei fod yn ymateb i blant a phobl ifanc wrth iddynt ddod i'w sylw, ond mae angen i ni fabwysiadu ymagwedd gyfannol at ddiwallu anghenion emosiynol ac addysgol cyffredinol y bobl ifanc hyn, yn enwedig y rhai sydd ar hyn o bryd mewn perygl o ymddieithrio. Fel y dywedwch, mae llawer ohonynt eisoes o gefndiroedd neu amgylchiadau difreintiedig iawn, yn bersonol ac fel arall.

I've already said this, but I'll reiterate it because I think it's really important: during the big change out there in the education landscape, it is our responsibility in Government to ensure that, through this process, there is no dilution in the focus on the needs of these learners. We've done a number of things in that regard. We've strengthened opportunities for newly qualified teachers by introducing a Master's in educational practice, which includes a module on behaviour management, taking the point that you make about the ability to cope with reintegration, in particular. Resources are available to anyone in the profession through the Learning Wales website. The evaluation of the school-based counselling strategy in 2011 indicated that 80 per cent of school heads and link teachers surveyed felt that behaviour of pupils had improved as a result of counselling. So, we're making sure that that continues by supporting children and young people with emotional and behavioural difficulties to help them re-engage with their learning. We're very committed to ensuring that all these learners taught outside school have improved outcomes and the opportunity to fulfil their potential, because these children deserve the very best.

Rwyf eisoes wedi dweud hyn, ond rwy'n ei ailadrodd oherwydd fy mod yn credu ei fod yn hynod o bwysig: yn ystod y newid mawr yn y dirwedd addysgol, ein cyfrifoldeb yn y Llywodraeth yw sicrhau drwy gydol y broses nad oes unrhyw lastwreiddio ar y ffocws ar anghenion y dysgwyr hyn. Rydym wedi gwneud nifer o bethau yn hynny o beth. Rydym wedi cryfhau cyfleoedd i athrawon newydd gymhwyso drwy gyflwyno gradd Meistr mewn ymarfer addysgol sy'n cynnwys modiwl ar reoli ymddygiad, gan gymryd y pwynt a wnewch am y gallu i ymdopi ag ailintegreiddio yn arbennig. Mae adnoddau ar gael i unrhyw un yn y proffesiwn drwy wefan Dysgu Cymru. Dangosodd gwerthusiad o'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion yn 2011 fod 80 y cant o benaethiaid ysgolion ac athrawon cyswllt a holwyd yn teimlo bod ymddygiad disgyblion wedi gwella o ganlyniad i gwnsela. Felly, rydym yn gwneud yn siŵr fod hynny'n parhau drwy gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol i'w helpu i ailgysylltu â'u dysgu. Rydym yn ymrwymedig iawn i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr hyn a addysgir y tu allan i'r ysgol yn cael gwell canlyniadau a'r cyfle i gyflawni eu potensial, gan fod y plant hyn yn haeddu'r gorau.

I hope I've answered most of the questions that Suzy Davies put. There was quite a list there at the end. If I haven't, please do say, and we will endeavour to answer them. I would like to reassure the Member that we are very much aware of the difficulties in this sector. We're very much aware of the individual learners' needs. I'm very grateful to her for bringing this to the floor of the house, and I will certainly do my best, and the Welsh Government will do its best, to address those needs appropriately in the future.

Rwy'n gobeithio fy mod wedi ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau a ofynnodd Suzy Davies. Roedd ganddi restr go faith ar y diwedd. Os nad wyf wedi gwneud hynny, cofiwch ddweud, a byddwn yn ymdrechu i'w hateb. Hoffwn sicrhau'r Aelodau ein bod yn ymwybodol iawn o'r anawsterau yn y sector hwn. Rydym yn ymwybodol iawn o anghenion dysgwyr unigol. Rwy'n ddiolchgar iawn iddi am gyflwyno hyn ar lawr y tŷ, a byddaf yn sicr yn gwneud fy ngorau, a bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau, i fynd i'r afael â'r anghenion hyn yn briodol yn y dyfodol.

18:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:48.*

*The meeting ended at 18:48.*

This page is intentionally left blank